# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 15/07/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
1. Questions to the Minister for Natural Resources

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
2. Questions to the Minister for Minister for Education and Skills

Cwestiwn Brys: Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio
Urgent Question: The Regeneration Investment Fund for Wales

Cwestiwn Brys: Tawel Fan
Urgent Question: Tawel Fan

3. Dadl ar yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad
3. Debate on the Annual Compliance Report on the Assembly Commission's Official Languages Scheme

4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig i Staff Meithrinfeydd
4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Paediatric First Aid Training for Nursery Staff

5. Dadl Plaid Cymru: Y Sectorau Cig Coch a Llaeth
5. Plaid Cymru Debate: The Red Meat and Dairy Sectors

6. Cyfnod Pleidleisio
6. Voting Time

7. Dadl Fer: Atal Sgamiau yng Nghymru—Camau y Gellir eu Cymryd i Atal Pobl rhag Bod yn Destun Sgamiau
7. Short Debate: Stopping Scams in Wales—Action that Can Be Taken to Stop People Becoming Victims of Scams


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:30

# 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

# 1. Questions to the Minister for Natural Resources

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the Minister for Natural Resources, and the first question is from Elin Jones.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a daw'r cwestiwn cyntaf gan Elin Jones.

### Pris Cynnyrch Amaethyddol

### The Price of Agricultural Produce

13:30

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cwymp diweddar yn y pris a delir i ffermwyr am nifer o fathau o gynnyrch amaethyddol? OAQ(4)0334(NR)*

*1. Will the Minister make a statement on the recent fall in the price paid to farmers for many types of agricultural produce? OAQ(4)0334(NR)*

13:30

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

I'm concerned that the agricultural industry is experiencing pressure on prices for lamb, beef and milk. Prices are a function of global supply and demand, and it's important that the industry works with Government to increase its resilience to price fluctuations and the other challenges facing the industry.

Rwy'n pryderu bod y diwydiant amaeth o dan bwysau o ran prisiau cig oen, cig eidion a llaeth. Mae prisiau yn deillio o'r cyflenwad a'r galw byd-eang, ac mae'n bwysig fod y diwydiant yn gweithio gyda'r Llywodraeth i gynyddu ei allu i wrthsefyll amrywiadau yn y pris a'r heriau eraill sy'n wynebu'r diwydiant.

13:30 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel rydych yn ei gydnabod, Ddirprwy Weinidog, mae prisiau llaeth, prisiau ŵyn, a phrisiau bîff yn drychinebus o isel ar hyn o bryd. Mae First Milk yn un o'r prynwyr llaeth mawr yn y de-orllewin, ac mae'r cwmni yna yn fregus iawn ar hyn o bryd. Mae ffermwyr llaeth yn dweud wrthyf i fod First Milk yn derbyn llawer mwy o flaenoriaeth gan Lywodraeth yr Alban nag y maen nhw yma yng Nghymru. Yn wir, mae cefnogi First Milk yn un o brif amcanion strategaeth laeth Llywodraeth yr Alban. A allwch chi, felly, amlinellu i fi, ac i'r ffermwyr hynny sydd yn pryderu, sut rydych chi'n rhoi cefnogaeth i First Milk, a hefyd yn rhoi blaenoriaeth i'r ffermwyr hynny sy'n cyflenwi First Milk ar hyn o bryd?

You acknowledge, Deputy Minister, that the price of lamb, beef and milk are disastrously low at the moment. First Milk is one of the large buyers of milk in the south-west, and the company is in a very vulnerable position at the moment. Dairy farmers tell me that First Milk is given far greater priority by the Scottish Government than it is in Wales. Indeed, supporting First Milk is one of the main aims of the Scottish Government's milk strategy. Can you therefore outline for me and for those farmers who are concerned how you support First Milk and how you give priority to farmers who currently supply First Milk?

13:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. I'm keeping a personal close eye on the situation at First Milk, and my officials are in very regular contact with First Milk as well. I recently met with Mike Gallacher to discuss his turnaround plans for the organisation, and I'll be meeting him again at the Royal Welsh Show next week. I've visited First Milk twice. It's been useful to talk to First Milk members as well to understand things from their perspective rather than purely from the management's perspective. I've been clear that the site is strategically extremely important for Welsh dairy farmers, and I've offered our Welsh Government's advice and support to First Milk. It's also interesting to note that one of the recommendations from the dairy review, which was undertaken earlier this year, was to consider increasing the processing capacity in that part of Wales, and we are currently looking for a contractor to undertake a piece of work, which is the scoping exercise for that.

Diolch i chi am y cwestiwn. Rwy'n cadw llygad barcud yn bersonol ar y sefyllfa yn First Milk, ac mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd iawn gyda First Milk hefyd. Cyfarfûm yn ddiweddar â Mike Gallacher i drafod ei gynlluniau i newid cyfeiriad y sefydliad, a byddaf yn ei gyfarfod eto yn Sioe Frenhinol Cymru'r wythnos nesaf. Rwyf wedi ymweld â First Milk ddwywaith. Hefyd, mae siarad ag aelodau First Milk wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn deall pethau o'u safbwynt hwy, yn hytrach nag o safbwynt y rheolwyr yn unig. Rwyf wedi dweud yn glir fod y safle'n eithriadol o bwysig yn strategol i ffermwyr llaeth Cymru, ac rwyf wedi cynnig cyngor a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i First Milk. Mae'n ddiddorol nodi hefyd mai un o argymhellion yr adolygiad llaeth, a gynhaliwyd yn gynharach eleni, oedd ystyried cynyddu'r capasiti prosesu yn y rhan honno o Gymru, ac ar hyn o bryd, rydym yn chwilio am gontractwr i weithio ar yr ymarfer cwmpasu ar gyfer hynny.

13:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister—Deputy Minister, I should say—when you consider the recent reductions in farm-gate milk prices, to as low as 18.5p, along with the move announced recently to a flat-rate basic payment scheme, with no tunnelling, no regionalisation elements, it's clear that a number of farmers are heading for a challenging few years, as I know you accept. Will you look again at the case for a remapping exercise, at least over the medium and long terms, and, in the meantime, will you develop a more effective strategy to attract and help to retain younger people in Wales in our farming industry?

Weinidog—Ddirprwy Weinidog, dylwn ddweud—pan ystyriwch y gostyngiadau diweddar yn y prisiau llaeth wrth gât y fferm, i gyn lleied â 18.5c, ynghyd â'r newid a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gynllun taliad sylfaenol ar gyfradd wastad, heb unrhyw dwnelu nac elfennau o ranbartholi, mae'n amlwg fod nifer o ffermwyr yn wynebu rhai blynyddoedd heriol, fel y gwn eich bod yn ei dderbyn. A wnewch chi edrych eto ar yr achos dros ymarfer ail-fapio, o leiaf dros y tymor canolig a'r tymor hir, ac yn y cyfamser, a wnewch chi ddatblygu strategaeth fwy effeithiol i ddenu a helpu i gadw pobl iau yng Nghymru yn ein diwydiant ffermio?

13:33 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the decision that I announced last week on the way forward for the basic payment scheme didn't allow for tunnelling, but it did allow for the redistributive payments for the first 54 ha of an agricultural business. And that's actually good news for some of the smaller businesses, including dairy businesses. With regard to the remapping exercise, I hope I was clear last week that I'm certainly not closing the door on the idea, but it would have to be undertaken within the wider context, considering our future membership of the European Union, the future direction of the common agricultural policy reform right across Europe, the cost of undertaking the piece of work, and the hours—or the years, actually—that it would take to undertake that mapping.

Wel, nid yw'r penderfyniad a gyhoeddais yr wythnos diwethaf ar y ffordd ymlaen ar gyfer y cynllun taliad sylfaenol yn caniatáu twnelu, ond roedd yn caniatáu ailddosbarthu taliadau ar gyfer 54 hectar cyntaf busnes amaethyddol. Ac mae hynny'n newyddion da i rai o'r busnesau llai, gan gynnwys busnesau llaeth. O ran yr ymarfer ail-fapio, rwy'n gobeithio fy mod wedi dweud yn glir yr wythnos diwethaf nad wyf yn cau'r drws ar y syniad, yn sicr, ond byddai'n rhaid iddo gael ei wneud o fewn y cyd-destun ehangach, gan ystyried ein haelodaeth yn yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, cyfeiriad diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin ledled Ewrop yn y dyfodol, cost cynnal y gwaith, a'r oriau—neu'r blynyddoedd, mewn gwirionedd—a gymerent i gyflawni'r mapio.

## TB Buchol

## Bovine TB

13:33

**Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i reoli TB buchol yng Nghymru? OAQ(4)0344(NR)*

*2. Will the Minister make a statement on efforts to control bovine TB in Wales? OAQ(4)0344(NR)*

13:34

**Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Since 2009, the numbers of new TB incidents and cattle slaughtered because of bovine TB in Wales have declined substantially. This demonstrates the success of our comprehensive TB eradication programme, which includes measures such as annual TB testing of all cattle herds, enhanced cattle movement controls, and promotion of good biosecurity practice.

Ers 2009, mae nifer yr achosion newydd o TB a'r gwartheg a laddwyd oherwydd TB buchol yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol. Mae hyn yn dangos llwyddiant ein rhaglen dileu TB gynhwysfawr, sy'n cynnwys mesurau fel profion blynyddol TB ar bob buches, gwella mesurau rheoli symudiadau gwartheg a hyrwyddo arfer bioddiogelwch da.

13:34

**Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am eich ateb, ond, oherwydd y rheolau sy'n wahanol yn Lloegr, wrth gwrs, ynglŷn â phrofi TB cyn symud gwartheg, mae'n anodd weithiau i ffermwyr Cymru wybod, os ydyn nhw'n prynu gwartheg o Loegr mewn marchnad da byw yng Nghymru, a yw'r gwartheg hynny yn rhydd o TB ai peidio. A gaf i ofyn, felly, ba ystyriaeth rydych chi wedi ei rhoi i'r rôl y dylai marchnadoedd da byw eu chwarae fan hyn, er enghraifft, drwy sicrhau bod prynwyr gwartheg yn cael y wybodaeth berthnasol ynglŷn ag a ydy'r anifeiliaid wedi cael prawf cyn symud, neu, hyd yn oed, y gallai marchnad da byw fynnu profi cyn symud fel un o'r amodau i werthu yn y farchnad honno?

Thank you for that response, but, because the rules in England in terms of TB testing before moving cattle are different, it's sometimes difficult for Welsh farmers to know, when they purchase cattle from England in a livestock market in Wales, whether those cattle are free from TB or not. Can I ask, therefore, what consideration you have given to the role that livestock markets should play in this area, for example by ensuring that those purchasing cattle have the relevant information as to whether the animals have been tested before movement, or perhaps that a livestock market could insist on testing before movement as one of the conditions to sell at that market?

13:35

**Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I've made numerous representations to Ministers in the Department for Environment, Food and Rural Affairs with regard to pre-movement testing of cattle from England because we know that there can be cattle entering Wales and being bought by Welsh farmers that are subject to the four-yearly testing regime in England, which means cattle probably that have never been tested. I think there is an onus on Welsh farmers to consider the TB status of the herd from which they're purchasing cattle, and it's certainly incumbent on them to ask the right questions about the TB testing of the cattle that they purchase. In order to help that, Welsh Government is undertaking a promotional campaign to help framers understand the questions that they need to be asking, and we're doing that through information sharing through our vets, but also at livestock markets and so on. We've also recently announced a series of grants available for livestock markets in order to have boards on which they can display the TB status of the cattle that they're selling and the herds that they have come from.

Diolch yn fawr. Rwyf wedi gwneud nifer o sylwadau wrth Weinidogion yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig mewn perthynas â gwneud profion cyn symud ar wartheg o Loegr, oherwydd gwyddom y gallai gwartheg fod yn dod i Gymru ac sy'n cael eu prynu gan ffermwyr Cymru sy'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn profi pob pedair blynedd yn Lloegr, sy'n golygu bod rhai gwartheg heb gael eu profi erioed yn ôl pob tebyg. Rwy'n credu bod cyfrifoldeb ar ffermwyr Cymru i ystyried statws TB y fuches y maent yn prynu gwartheg ohoni, ac mae'n sicr yn ddyletswydd arnynt i ofyn y cwestiynau iawn ynglŷn â phrofion TB y gwartheg y maent yn eu prynu. Er mwyn helpu gyda hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch hyrwyddo i helpu ffermwyr i ddeall y cwestiynau y mae angen iddynt fod yn eu gofyn, ac rydym yn gwneud hynny drwy rannu gwybodaeth drwy gyfrwng ein milfeddygon, ond hefyd mewn marchnadoedd da byw ac yn y blaen. Yn ddiweddar hefyd, rydym wedi cyhoeddi cyfres o grantiau sydd ar gael ar gyfer marchnadoedd da byw, er mwyn cael byrddau iddynt allu arddangos arnynt beth yw statws TB y gwartheg y maent yn eu gwerthu a'r buchesi y daethant ohonynt.

13:35 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I very much welcome the Welsh Government's commitment to animal welfare and putting it at the centre of Welsh Government policy. Would you, like me, welcome the failure yesterday of the attempts by the Tories to relax the ban on foxhunting, and would you also confirm that Welsh Government will continue to do all it can to oppose any relaxation amendment to the foxhunting legislation?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i les anifeiliaid yn fawr a'r modd y mae'n ei wneud yn ganolog i'w pholisi. A fyddech chi, fel finnau, yn croesawu methiant ymdrechion y Torïaid ddoe i lacio'r gwaharddiad ar hela llwynogod, ac a fyddech hefyd yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth yn ei gallu i wrthwynebu unrhyw ddiwygio i lacio'r ddeddfwriaeth ar hela llwynogod?

13:36 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can certainly give you that reassurance that the Welsh Government welcomes the postponement of the Order, and we hope that the UK Government will take into account the wider public opinion and abandon their attempts to either weaken or repeal the Hunting Act 2004. We know that the vast majority of people do find foxhunting abhorrent and cruel, and we're very clear as a Welsh Government on our opposition to any return of that practice.

Gallaf yn bendant roi i chi'r sicrwydd fod Llywodraeth Cymru yn croesawu gohirio'r Gorchymyn, ac rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried y farn gyhoeddus ehangach ac yn rhoi'r gorau i'w hymdrechion i naill ai wanhau neu ddiddymu Deddf Hela 2004. Rydym yn gwybod bod y mwyafrif helaeth o bobl yn credu bod hela llwynogod yn wrthun a chreulon, ac rydym yn glir iawn fel Llywodraeth Cymru ynglŷn â'n gwrthwynebiad i weld yr arfer yn dychwelyd mewn unrhyw fodd.

13:36 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, let's get back to the control of bovine TB. The 'Working Smarter' report identifies that the majority of farmers are very concerned about the number of inspections and the fact that there appears to be significant overlap between the different authorities. Presiding Officer, I should, at this point, declare an interest, as my wife's family farm has been affected by bovine TB over the last 15 years. Now, in light of the 'Working Smarter' report and its recommendations, can you tell us what steps the Welsh Government has taken to ensure that farm inspections are much more streamlined in the future?

Ddirprwy Weinidog, gadewch i ni fynd yn ôl at reoli TB buchol. Mae'r adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' yn nodi bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn bryderus iawn ynglŷn â nifer yr arolygiadau a'r ffaith fod gorgyffwrdd sylweddol yn ymddangos rhwng y gwahanol awdurdodau. Lywydd, ar y pwynt hwn, dylwn ddatgan diddordeb, gan fod fferm teulu fy ngwraig wedi cael ei heffeithio gan glefyd TB buchol dros y 15 mlynedd diwethaf. Nawr, yng ngoleuni adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' a'i argymhellion, a allwch ddweud wrthym ba gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod archwiliadau fferm yn llawer symlach yn y dyfodol?

13:37 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a working group within Welsh Government that brings together all of those organisations and bodies that undertake farm inspections, for the various purposes, such as animal health and welfare and inspections regarding rural payments Wales and so on. So, that group is working in order to ensure that there isn't overlap and, also, not an onerous burden on farmers in the sense of having an inspection on a Tuesday and then another inspection perhaps the next week or the next day. So, that's a recommendation that is clearly being taken forward.

Ceir gweithgor o fewn Llywodraeth Cymru sy'n dwyn ynghyd yr holl sefydliadau a'r cyrff sy'n cynnal archwiliadau fferm, i'r gwahanol ddibenion, megis iechyd a lles anifeiliaid ac archwiliadau ynghylch taliadau gwledig Cymru ac yn y blaen. Felly, mae'r grŵp hwnnw'n gweithio er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd a hefyd, i sicrhau nad oes baich trwm ar ffermwyr yn yr ystyr o gael archwiliad ddydd Mawrth ac yna archwiliad arall efallai'r wythnos wedyn, neu'r diwrnod wedyn. Felly, mae hwnnw'n argymhelliad sy'n amlwg yn cael ei ddatblygu.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople and, first this afternoon, Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

13:38 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Minister, the quantity of polystyrene identified in marine conservation society beach litter surveys has trebled in the last 10 years. Polystyrene food packaging is also a major component of urban litter. Now, over 100 US, Canadian and European cities have banned, or are about to ban, polystyrene food packaging as a result of its negative impacts on the environment. Can I ask what the Welsh Government is doing to either join that list or, indeed, to at the very least encourage the use of alternative, less harmful packaging?

Diolch, Lywydd. Weinidog, mae faint o bolystyren a nodwyd mewn arolygon sbwriel ar draethau'r gymdeithas gadwraeth forol wedi treblu yn y 10 mlynedd diwethaf. Polystyren pecynnu bwyd sydd hefyd yn ffurfio rhan fawr o sbwriel trefol. Nawr, mae dros 100 o ddinasoedd yn yr Unol Daleithiau, Canada ac Ewrop wedi gwahardd, neu ar fin gwahardd, polystyren pecynnu bwyd oherwydd ei effeithiau negyddol ar yr amgylchedd. A gaf fi ofyn beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i naill ai ymuno â'r rhestr honno neu'n wir, o leiaf i annog y defnydd o becynnu amgen, llai niweidiol?

13:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I welcome the question from the Member and agree with him in terms of—. This is a global problem and is something that I've asked my officials to look at specifically in terms of the issue around the devolved nature of packaging and whether there is something in Wales that we could do specifically to address some of these issues.

Rwy'n croesawu'r cwestiwn gan yr Aelod ac yn cytuno ag ef o ran—. Mae hon yn broblem fyd-eang ac yn rhywbeth rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych arno yn benodol o ran natur ddatganoledig pecynnu ac a oes rhywbeth y gallem ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael yn benodol â rhai o'r materion hyn.

13:38 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll look forward to hearing an update once you've been able to get that information, Minister. Research has also shown that drinks containers—plastic bottles, metal cans and glass bottles—make up a hefty percentage of Welsh litter, and it's been proven that a deposit return system, such as those in place in Germany, the USA and Australia, actually reduces the volume of litter, increases overall recycling and changes behaviours, contributing then to a circular economy and a zero waste strategy. Isn't it time that Wales acted on this, and do you believe that the Environment (Wales) Bill, with its provisions on waste, offers the Welsh Government an opportunity to do so?

Edrychwn ymlaen at glywed y newyddion diweddaraf pan fyddwch wedi cael gafael ar y wybodaeth honno, Weinidog. Mae ymchwil hefyd wedi dangos mai cynwysyddion diodydd—poteli plastig, caniau metel a photeli gwydr—sy'n ffurfio canran go uchel o sbwriel Cymru, a phrofwyd bod system dychwelyd blaendal, megis y rhai sydd ar waith yn yr Almaen, yr Unol Daleithiau ac Awstralia, yn lleihau cyfaint y sbwriel, yn cynyddu lefelau ailgylchu yn gyffredinol ac yn newid ymddygiad, gan gyfrannu at economi gylchol a strategaeth ddiwastraff. Onid yw'n bryd i Gymru weithredu ar hyn, ac a ydych yn credu bod Bil yr Amgylchedd (Cymru), gyda'i ddarpariaethau ar wastraff, yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru wneud hynny?

13:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the environment Bill may offer some opportunities subject to the evidence providing us with the appropriate levels of legislation to deal with this issue. But, we have commissioned some work with the Scottish Government around a deposit scheme and how that would actually operate in Wales and in Scotland. It's something that I am keen to pursue, but it's got to be evidence based.

Rwy'n credu y gall y Bil amgylchedd gynnig rhai cyfleoedd cyhyd â bod y dystiolaeth yn darparu'r lefelau priodol o ddeddfwriaeth i ni ymdrin â'r mater. Ond rydym wedi comisiynu rhywfaint o waith gyda Llywodraeth yr Alban ar gynllun blaendal a sut y byddai'n gweithredu yng Nghymru ac yn yr Alban. Mae'n rhywbeth rwy'n awyddus i fynd ar ei drywydd, ond mae'n rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

13:39 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The environment Bill extends carrier bag levies to a wider range of carrier bags, and that's something that I certainly support, and there is an ongoing discussion about whether the proceeds of that should be reserved for environmental causes. But, one element that's quite ambiguous—in fact, it's missing form the Bill—and that I'd be keen for you to confirm to the Chamber this afternoon, is whether you believe that money raised through the levy on the Welsh public, of course, should only be directed to organisations that are operational in Wales.

Diolch yn fawr. Mae'r Bil amgylchedd yn ymestyn y tâl am fagiau siopa i gynnwys ystod ehangach o fagiau siopa, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n sicr yn ei gefnogi, ac mae trafodaeth ar y gweill ynglŷn ag a ddylid cadw'r elw o hynny ar gyfer achosion amgylcheddol. Ond un elfen eithaf amwys—a dweud y gwir, nid yw wedi'i chynnwys yn y Bil—ac un y byddwn yn awyddus i chi gadarnhau i'r Siambr y prynhawn yma, yw a ydych yn credu y dylid cyfeirio arian y tâl a godwyd ar y cyhoedd yng Nghymru at sefydliadau sy'n weithredol yng Nghymru yn unig.

13:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think there should be activity in Wales. I think we did discuss this in committee, where the complication is where you have an England-and-Wales charity. I think what I would like to pursue, through the committee and through the guidance in the Bill, is how that funding is distributed—that will be an important factor of the make-up of the Bill. I'm not opposed to what the Member suggests, but I think it's about the practicalities of doing that and how we can get there.

Rwy'n credu y dylai fod gweithgarwch yng Nghymru. Rwy'n credu ein bod wedi trafod hyn yn y pwyllgor. Mae'r cymhlethdod yn codi lle mae gennych elusen ar gyfer Cymru a Lloegr. Rwy'n credu mai'r hyn yr hoffwn fynd ar ei drywydd, drwy'r pwyllgor a thrwy'r canllawiau yn y Bil, yw sut y dosberthir y cyllid hwnnw. Bydd hwnnw'n ffactor pwysig o ran cyfansoddiad y Bil. Nid wyf yn gwrthwynebu'r hyn y mae'r Aelod yn ei awgrymu, ond rwy'n credu ei fod yn ymwneud ag ymarferoldeb gwneud hynny a sut y gallwn ei gyflawni.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Now the Welsh Conservatives' spokesperson, Russell George.

Nawr, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Russell George.

13:40 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Presiding Officer. Deputy Minister, returning to the issue of bovine TB, I'm sure you'll agree with me that bovine TB is one of the greatest threats to our beef and dairy industry, endangering our food security and putting our farmers under extreme pressure. You may be aware that Northern Ireland is to start a limited cull of badgers as part of a research project, which has the backing of Northern Ireland's only badger lobby group. Would you be supportive of such an approach in Wales?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, gan ddychwelyd at fater TB buchol, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno fod TB buchol yn un o'r bygythiadau mwyaf i'n diwydiant cig eidion a llaeth, gan beryglu ein diogelwch bwyd a rhoi ein ffermwyr o dan bwysau enfawr. Efallai eich bod yn ymwybodol fod Gogledd Iwerddon yn dechrau rhaglen difa moch daear gyfyngedig fel rhan o brosiect ymchwil sydd wedi cael cefnogaeth gan unig grŵp lobïo ar foch daear Gogledd Iwerddon. A fyddech yn cefnogi dull o'r fath yng Nghymru?

13:41 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the question. I certainly recognise, as you do, how serious bovine TB is for our farming industry in Wales. I hope I've been clear in the past in setting out our Welsh Government's approach. Whilst we do keep a clear interest, clearly, in what happens in Northern Ireland, Ireland and elsewhere in Europe and beyond, we've set out very clearly our Welsh Government approach, which is reliant on regular TB testing of herds. I think that's what's making the biggest difference, and we've seen a 49 per cent decline of bovine TB in Wales since 2009, but, of course, we have the six-monthly testing within the intensive action area.

Diolch am y cwestiwn. Rwy'n sicr yn cydnabod, fel rydych chithau, pa mor ddifrifol yw TB buchol i'n diwydiant ffermio yng Nghymru. Rwy'n gobeithio fy mod wedi bod yn glir yn y gorffennol wrth nodi ymagwedd Llywodraeth Cymru. Er bod gennym ddiddordeb amlwg yn yr hyn sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon, Iwerddon a mannau eraill yn Ewrop a thu hwnt, rydym wedi mynd ati'n glir iawn i nodi dull Llywodraeth Cymru o weithredu sy'n ddibynnol ar brofion TB rheolaidd ar fuchesi. Rwy'n credu mai hynny sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, ac rydym wedi gweld gostyngiad o 49 y cant mewn TB buchol yng Nghymru ers 2009, ond wrth gwrs, cynhelir y profion bob chwe mis yn yr ardal triniaeth ddwys.

We are now entering our fourth year of the badger vaccination project. We have a Cymorth TB initiative in place now to support those farmers who are most affected by those long-term herd breakdowns as well. So, we're very clear on what our Welsh Government's approach is, although we obviously take an interest in other approaches, although we're clear where we're going.

Rydym yn awr ar drothwy pedwaredd flwyddyn ein prosiect brechu moch daear. Hefyd, mae gennym fenter Cymorth TB ar waith bellach i gefnogi'r ffermwyr sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan achosion hirdymor o TB mewn buchesi. Felly, rydym yn glir iawn ynglŷn â'r hyn yw dull Llywodraeth Cymru, er bod gennym ddiddordeb mewn dulliau eraill, yn amlwg, ond rydym yn glir i ba gyfeiriad rydym yn mynd.

13:42 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your comments, Minister. You didn't answer my specific question, which was: would you be supportive of such an approach in Wales? Perhaps this is something that you could investigate over the summer and perhaps I'll ask you again on your return in September.

Diolch i chi am eich sylwadau, Weinidog. Ni wnaethoch ateb fy nghwestiwn penodol, sef: a fyddech yn cefnogi dull o'r fath yng Nghymru? Efallai fod hyn yn rhywbeth y gallech ymchwilio iddo yn ystod yr haf ac efallai y gofynnaf i chi eto pan ddychwelwch ym mis Medi.

You will have seen that a coalition of farming and veterinary organisations have submitted proposals for an industry-led TB board and a new lobby board to tackle non-statutory disease in Wales. What are your views on this proposal?

Fe fyddwch wedi gweld bod clymblaid o sefydliadau ffermio a milfeddygol wedi cyflwyno cynigion am fwrdd TB dan arweiniad y diwydiant a bwrdd lobïo newydd i fynd i'r afael â chlefydau anstatudol yng Nghymru. Beth yw eich barn ar y cynnig?

13:42

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Let me be clear on the first question you asked: it's not our intention to take forward the approach, as you described, that Northern Ireland are taking forward. So, I'll make that clear for you.

Gadewch i mi fod yn glir ynghylch y cwestiwn cyntaf a ofynnoch: nid ein bwriad ni yw bwrw ymlaen â'r dull gweithredu, a ddisgrifiwyd gennych, y mae Gogledd Iwerddon yn bwrw ymlaen ag ef. Felly, gwnaf hynny'n glir i chi.

With regard to how we engage with the industry on this issue, I think there's a fair level of respect within the industry for our position and vice versa. We understand that our position isn't wholly welcomed by everybody. However, our approach does require a certain degree of partnership working with the industry, and I have to say that farmers, particularly in the intensive action area, where we are vaccinating badgers, have been very happy to work with us and I am very grateful for their co-operation with us.

O ran sut rydym yn ymgysylltu â'r diwydiant ar y mater, rwy'n meddwl bod yna lefel deg o barch o fewn y diwydiant at ein sefyllfa, ac fel arall. Rydym yn deall nad yw pawb yn croesawu ein safbwynt yn llwyr. Fodd bynnag, mae ein hymagwedd yn galw am rywfaint o weithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod ffermwyr, yn enwedig yn yr ardal triniaeth ddwys, lle rydym yn brechu moch daear, wedi bod yn hapus iawn i weithio gyda ni ac rwy'n ddiolchgar iawn am eu cydweithrediad.

13:43

## Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, you may be aware that New Zealand are proposing changes to bovine TB management, which would see the adoption of a high-risk approach, where high TB-risk areas would be targeted and a high profile would be built around infected livestock relating to the area, a herd's history and the amount of stock movement. Is this an approach that you would be willing to consider in the future?

Weinidog, efallai y gwyddoch fod Seland Newydd yn cynnig newidiadau i reoli TB buchol a fyddai'n golygu mabwysiadu ymagwedd risg uchel, lle byddai ardaloedd TB risg uchel yn cael eu targedu a byddai proffil uchel yn cael ei roi i dda byw wedi'u heintio, yn ymwneud â'r ardal, hanes y fuches a lefel symud stoc. A yw hwn yn ddull y byddech yn barod i'w ystyried yn y dyfodol?

13:44

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'd have to know more about the detail of that approach, but, given the way that livestock moves around Wales, I think that our annual testing is probably the most important thing that we can do and our six-monthly testing within the intensive action area, and that is aimed at finding disease as quickly as possible and removing it from the herd as quickly as possible. As I demonstrated from the figures that described the decline in the number of cattle slaughtered since 2009, I think that we're making significant inroads into tackling the disease.

Byddai'n rhaid i mi wybod mwy am fanylion y dull o weithredu, ond o ystyried y ffordd y mae da byw yn symud o amgylch Cymru, credaf mai ein profion blynyddol yw'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud yn ôl pob tebyg, a'n profion bob chwe mis yn yr ardal triniaeth ddwys, ac mae'r rheini wedi'u hanelu at ddod o hyd i glefyd cyn gynted ag y bo modd a chael gwared arno o'r fuches cyn gynted â phosibl. Fel y dangosais o'r ffigurau a ddynodai'r gostyngiad yn nifer y gwartheg a laddwyd ers 2009, rwy'n meddwl ein bod yn ennill tir sylweddol o ran mynd i'r afael â'r clefyd.

13:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to the Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, William Powell.

13:44

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Deputy Minister, what is the Welsh Government's understanding of the extent of non-stun slaughter in Wales, and how many slaughter houses in Wales currently carry out the practice?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, beth yw dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o raddau lladd heb stynio yng Nghymru, a faint o ladd-dai yng Nghymru sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd?

13:44

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'll have to write to the Member on the first—. Sorry, could you repeat the question so I can give you the correct answer?

Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu at yr Aelod ar y cyntaf—. Mae'n ddrwg gennyf, a allech chi ailadrodd y cwestiwn, er mwyn i mi allu rhoi'r ateb cywir i chi?

13:44 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. What is the Welsh Government's understanding of the extent of non-stun slaughter in Wales, and how many premises, abattoirs, currently carry out the practice?

Wrth gwrs. Beth yw dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o raddau lladd heb stynio yng Nghymru, a faint o safleoedd, lladd-dai, sy'n gwneud hyn ar hyn o bryd?

13:45 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's my understanding that the extent is minimal. The vast majority of slaughter undertaken in Wales is stun slaughter. That includes halal stunned, because, obviously, we know that halal stun slaughter also takes place.

Yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, mae'r lefelau'n isel iawn. Stynio cyn lladd yw mwyafrif helaeth y lladd a wneir yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys stynio halal, oherwydd, yn amlwg, fe wyddom fod stynio cyn lladd halal hefyd yn digwydd.

13:45 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that response, Deputy Minister. Having met the British Veterinary Association on this matter, and others—as, indeed, I have—you'll be aware of their concerns around the labelling of meat products, particularly given that, as you've just said, halal meat products are not necessarily subject to non-stun. A consistent number of surveys have shown that this matter is of considerable concern to consumers in Wales and, indeed, around the UK. Currently, a No. 10 petition has in excess of 120,000 signatures on this matter. So, given that labelling is a non-devolved issue—and I well understand that—will you commit to working in partnership with the UK Government to achieve a more transparent labelling policy in this area, so as to improve consumer confidence and also to limit any potential harm to the industry?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb, Ddirprwy Weinidog. Ar ôl cyfarfod â Chymdeithas Milfeddygon Prydain ac eraill ynglŷn â'r mater—fel rwyf wedi'i wneud—fe fyddwch yn ymwybodol o'u pryderon ynglŷn â labelu cynhyrchion cig, yn enwedig o gofio, fel rydych newydd ei ddweud, nad yw cynhyrchion cig halal o reidrwydd yn ddarostyngedig i ladd heb stynio. Mae nifer gyson o arolygon wedi dangos bod y mater yn destun pryder mawr i ddefnyddwyr yng Nghymru ac yn wir, ledled y DU. Ar hyn o bryd, mae deiseb i'r Prif Weinidog yn cynnwys mwy na 120,000 o lofnodion ar y mater. Felly, o gofio bod labelu yn fater heb ei ddatganoli—ac rwy'n deall hynny—a wnewch chi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU i gyflawni polisi labelu mwy tryloyw yn y maes, er mwyn gwella hyder defnyddwyr a hefyd i gyfyngu ar unrhyw niwed posibl i'r diwydiant?

13:46 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for raising that. You'll be aware that, last year, we launched our animal health and welfare framework for Wales, which demonstrates how Welsh Government, industry and keepers of all animals will work together to improve the welfare and the health of their animals at all points in their life, including at the point of slaughter. You'll be aware that we've introduced the Welfare of Animals at the Time of Killing (Wales) Regulations 2014. England has yet to do that. Those offer enhanced levels of protection during slaughter as well. So, I think that's an important step forward that we've taken in that regard. We're awaiting a report from Europe, I understand, on the specific issue of labelling, and, when we receive that, we'll consider it in the round.

Diolch i chi am grybwyll hynny. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod wedi lansio ein fframwaith iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru y llynedd, ac mae'r fframwaith yn dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru, y diwydiant a cheidwaid pob anifail yn gweithio gyda'i gilydd i wella iechyd a lles eu hanifeiliaid ar bob adeg yn eu bywydau, gan gynnwys adeg eu lladd. Fe fyddwch yn gwybod ein bod wedi cyflwyno Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014. Mae Lloegr eto i wneud hynny. Mae'r rhain yn cynnig lefelau diogelwch gwell yn ystod y broses o'u lladd hefyd. Felly, rwy'n credu ein bod wedi cymryd cam pwysig ymlaen yn hyn o beth. Rwy'n deall ein bod yn aros am adroddiad o Ewrop ar fater penodol labelu a phan ddaw hwnnw i law, byddwn yn ei ystyried yn ei gyfanrwydd.

13:47 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, Minister, I'm grateful for that response. As you know, many people would like to see an entire end to the practice of non-stun slaughter. Notwithstanding religious sensibilities within certain communities, we have, in recent years, seen a move to tackle perceived cruel practices, which maybe have their origins within certain faith groups. For example, the way in which female genital mutilation was tackled is just one example of that. In this context, Minister, do you think it would be a prudent move for Welsh Government to set its face against investing, in the future, in abattoir facilities that actually carry out this practice, so as to disincentivise its growth in Wales?

Unwaith eto, Weinidog, diolch am eich ymateb. Fel y gwyddoch, byddai llawer o bobl yn hoffi gweld diwedd llwyr ar yr arfer o ladd heb stynio. Er gwaethaf teimladau crefyddol mewn rhai cymunedau, yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld symudiad tuag at fynd i'r afael ag arferion creulon canfyddedig sydd â'u gwreiddiau o bosibl mewn rhai grwpiau ffydd. Er enghraifft, mae'r ffordd yr aethpwyd i'r afael ag anffurfio organau cenhedlu menywod yn un enghraifft o hynny. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, a ydych yn credu y byddai'n gam doeth i Lywodraeth Cymru benderfynu yn erbyn buddsoddi, yn y dyfodol, mewn cyfleusterau lladd-dai sy'n cyflawni'r arfer hwn, er mwyn cyfyngu ar yr arfer yng Nghymru?

13:47 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Welsh Government is clear that we don't want to see any kind of cruel practices in our abattoirs or elsewhere. It's worth recognising, on the footage that has been brought forward through organisations such as Animal Aid and so on in recent times, showing some abhorrent practices in some slaughterhouses, none of that footage was from Wales. I did meet with Animal Aid, nonetheless, quite recently to discuss those reports and to discuss what additional safeguards the Welsh Government can look to put in place. It's my intention to make a written statement on that in due course.

Wel, mae Llywodraeth Cymru yn glir nad ydym am weld unrhyw fath o arferion creulon yn ein lladd-dai neu unrhyw le arall. Ar y ffilmiau a gyflwynwyd drwy sefydliadau fel Cymorth Anifeiliaid ac yn y blaen yn ddiweddar, sy'n dangos arferion ffiaidd mewn rhai lladd-dai, rhaid cydnabod nad oedd yr un o'r lluniau'n dod o Gymru. Serch hynny, cyfarfûm â Cymorth Anifeiliaid yn eithaf diweddar i drafod yr adroddiadau hyn ac i drafod pa fesurau diogelwch ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru ystyried eu rhoi ar waith. Mae'n fwriad gennyf wneud datganiad ysgrifenedig am hynny maes o law.

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper. Question 3 is Aled Roberts.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur. Cwestiwn 3, Aled Roberts.

**'Hwyluso'r Drefn'**

**'Working Smarter'**

13:48 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o'r 19 o argymhellion o fewn adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' a gaiff eu cyflawni erbyn diwedd y mis hwn? OAQ(4)0336(NR)*

*3. Will the Minister provide an update on how many of the 19 recommendations from the 'Working Smarter' report will be achieved by the end of this month? OAQ(4)0336(NR)*

13:48 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There were 78 recommendations in the 'Working Smarter' report. Sixty-one have been completed, and seven are currently being worked to completion, including major investment projects such as the electronic identification database, EIDCymru. Ten are being treated as ongoing commitments with no end date, and these include improving customer services and communications.

Roedd 78 o argymhellion yn adroddiad 'Hwyluso'r Drefn'. Mae chwe deg un wedi eu cwblhau, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar saith ar hyn o bryd i'w cwblhau, gan gynnwys prosiectau buddsoddi mawr megis y gronfa ddata adnabod electronig, EIDCymru. Mae deg yn cael eu trin fel ymrwymiadau parhaus heb unrhyw ddyddiad cwblhau, ac mae'r rhain yn cynnwys gwella gwasanaethau cwsmeriaid a chyfathrebu.

13:49 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I note from the update report that all 74 recommendations were, in fact, to have been completed by the end of July 2015. I'm rather concerned regarding the indication that you've given that some haven't yet been started. In the circumstances, does the Government have any intention to actually provide an update report, given that there's been no update provided during the last two years, and given the concerns that many farmers have over inspection and regulation, as mentioned by the previous Member?

Sylwaf o'r adroddiad diweddaru fod pob un o'r 74 o argymhellion i fod wedi eu cwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2015. Rwyf braidd yn bryderus ynglŷn â'r hyn a ddynodwyd gennych nad yw rhai ohonynt wedi cael eu dechrau eto. O dan yr amgylchiadau, a oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i ddarparu adroddiad diweddaru, o gofio na ddarparwyd diweddariad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac o ystyried y pryderon sydd gan lawer o ffermwyr ynglŷn ag arolygu a rheoleiddio, fel y crybwyllwyd gan yr Aelod blaenorol?

13:49 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I updated Environment and Sustainability Committee on progress last month. You have the document in front of you. I'm more than happy to provide a further written update on progress. You're incorrect to say that some actions have not yet started. What we're seeing are some actions—and this was recognised by Gareth Williams in his report—are ongoing actions in terms of the way in which the Welsh Government should engage with the industry. These include things like our communications plan and how we train our staff to better understand farming and so on. So, these are ongoing actions that we'll be taking in under our new strategic approach to agriculture. So, it's incorrect to say that some have not started. Some are just the way that we work, so it's not fair to put an end on them and say we're just going to go back to business as usual, because we're not.

Wel, darperais ddiweddariadau ar y cynnydd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y mis diwethaf. Mae gennych y ddogfen o'ch blaen. Rwy'n fwy na pharod i roi diweddariad ysgrifenedig pellach ar gynnydd. Rydych yn anghywir i ddweud nad yw rhai camau gweithredu wedi eu dechrau eto. Yr hyn rydym yn ei weld yw bod rhai camau—a chafodd hyn ei gydnabod gan Gareth Williams yn ei adroddiad—yn gamau parhaus o ran y ffordd y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r diwydiant. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel ein cynllun cyfathrebu a sut rydym yn hyfforddi ein staff i ddeall ffermio yn well, ac yn y blaen. Felly, mae'r rhain yn gamau parhaus y byddwn yn eu cynnwys yn ein hymagwedd strategol newydd at amaethyddiaeth. Felly, mae'n anghywir i ddweud nad yw rhai wedi eu dechrau. Mae rhai ohonynt yn deillio o'r ffordd rydym yn gweithio, felly nid yw'n deg rhoi terfyn arnynt a dweud ein bod am fynd yn ôl at fusnes fel arfer, oherwydd nid ydym am wneud hynny.

13:50 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Minister, recommendation 25 of the report highlights that there should be greater working between statutory inspections and, obviously, farm assurance type schemes, and especially that link with Rural Inspectorate Wales regarding EU payments. I've heard you saying in response to previous questions that there is a will for that to happen. When you do bring this statement forward, are you able to give an indication in that statement, please, of how successful that has been and how many visits are now undertaken on a cross-agency basis, so farms aren't having to face several different types of inspection virtually back to back?

Weinidog, mae argymhelliad 25 yn yr adroddiad yn tynnu sylw at y modd y dylid cael mwy o weithio rhwng arolygiadau statudol ac yn amlwg, cynlluniau tebyg i'r warant fferm, ac yn arbennig y cysylltiad gydag Arolygiaeth Wledig Cymru ynglŷn â thaliadau UE. Rwyf wedi eich clywed yn dweud, wrth ymateb i gwestiynau blaenorol, fod yna ewyllys i hynny ddigwydd. Pan fyddwch yn cyflwyno'r datganiad hwn, a allwch roi awgrym ynddo, os gwelwch yn dda, o ba mor llwyddiannus y mae wedi bod a faint o ymweliadau sy'n digwydd yn awr ar sail draws-asiantaethol, fel nad yw ffermydd yn gorfod wynebu nifer o wahanol fathau o archwiliadau, un ar ôl y llall fwy neu lai?

13:51 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd be happy to provide a further update to you. I think perhaps it would be more expedient for me to write to you in the meantime so that you have this information ahead of any statement.

Byddwn yn hapus i roi diweddariad pellach i chi. Rwy'n credu efallai y byddai'n fwy hwylus i mi ysgrifennu atoch yn y cyfamser fel bod gennych y wybodaeth hon cyn rhoi unrhyw ddatganiad.

### Clymog Siapan

### Japanese Knotweed

13:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â chlymog Siapan? OAQ(4)0328(NR)*

*4. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's approach to tackling Japanese knotweed? OAQ(4)0328(NR)*

13:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. The Welsh Government's approach has not changed. Numerous statements regarding Japanese knotweed have been made in this Chamber over the 18-month period. We continue to use an innovative approach to tackle this issue.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Nid yw dull Llywodraeth Cymru wedi newid. Mae nifer o ddatganiadau ynglŷn â chlymog Siapan wedi cael eu gwneud yn y Siambr hon dros y cyfnod o 18 mis. Rydym yn parhau i ddefnyddio dull arloesol o fynd i'r afael â'r broblem.

13:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. You know, as I do, that there are huge problems with Japanese knotweed, particularly in the Swansea area, and also that it impacts on people's ability to mortgage their property where it actually impinges upon that property. You'll also be aware that there is a new tool available to the Welsh Government through species control Orders as a result of legislation passed by the last Government. Have you considered making use of those species control Orders to try to deal with this particular problem?

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Rydych yn gwybod, fel minnau, bod problemau mawr gyda chlymog Siapan, yn arbennig yn ardal Abertawe, a'i fod hefyd yn effeithio ar allu pobl i forgeisio eu heiddo lle mae'n amharu ar yr eiddo hwnnw. Byddwch hefyd yn gwybod bod yna offeryn newydd ar gael i Lywodraeth Cymru drwy'r Gorchmynion rheoli rhywogaethau o ganlyniad i ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Llywodraeth ddiwethaf. A ydych chi wedi ystyried gwneud defnydd o'r Gorchmynion rheoli rhywogaethau i geisio delio â'r broblem benodol hon?

13:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we are actively trying to resolve this issue with many actions across Wales, with some pilot areas on this programme. I have given some consideration to the Order the Member alludes to, and I will ask my officials to give me further briefing on whether that could be another control mechanism in place.

Wel, rydym yn mynd ati i geisio datrys y mater gyda llawer o gamau gweithredu ledled Cymru, gyda rhai ardaloedd peilot ar y rhaglen. Rwyf wedi rhoi peth ystyriaeth i'r Gorchymyn y mae'r Aelod yn cyfeirio ato, a byddaf yn gofyn i fy swyddogion roi briff pellach i mi ynglŷn ag a allai hynny fod yn ddull arall o'i reoli.

13:52 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Minister is more than well aware, knotweed is a major problem in Swansea East and one I raise with him on a fairly regular basis. Can the Minister provide an update on progress through the test site using a natural predator and the new chemical methods of control that have been brought in?

Gŵyr y Gweinidog yn dda iawn fod y clymog yn broblem fawr yn Nwyrain Abertawe ac mae'n fater rwy'n ei ddwyn i'w sylw'n weddol reolaidd. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir ar y safle prawf gan ddefnyddio ysglyfaethwr naturiol a'r dulliau rheoli cemegol newydd a gyflwynwyd?

13:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. He does continue to press me on the issue of Japanese knotweed, in particular in his constituency, and the Member should continue to do so. The original five-year trial conducted by the Centre for Agricultural Bioscience International concluded in April of this year. This experiment was successful in answering many of the original questions about the bio-control of Japanese knotweed. The trial will be more widespread and involve much higher numbers of released aphids. Natural control is not a quick fix, and the benefits can take some time, but we think we have found a natural predator that will help in the control of Japanese knotweed. It's something that we will roll out not just in Swansea but in other areas, too.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'n parhau i bwyso arnaf ynglŷn â chlymog Siapan, yn enwedig yn ei etholaeth, a dylai'r Aelod barhau i wneud hynny. Cwblhawyd y treial gwreiddiol pum mlynedd o hyd gan y Ganolfan Biowyddoniaeth Amaethyddol Ryngwladol ym mis Ebrill eleni. Llwyddodd yr arbrawf i ateb llawer o'r cwestiynau gwreiddiol ynglŷn â bioreolaeth clymog Siapan. Bydd y treial yn cael ei ehangu ac yn cynnwys niferoedd llawer mwy o lyslau rhydd. Nid yw rheolaeth naturiol yn ateb cyflym, a gall y manteision gymryd peth amser, ond rydym yn meddwl ein bod wedi dod o hyd i ysglyfaethwr naturiol a fydd yn helpu i reoli clymog Siapan. Mae'n rhywbeth y byddwn yn ei gyflwyno nid yn unig yn Abertawe, ond mewn ardaloedd eraill hefyd.

13:53 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister will know that there are several companies in Wales that provide a guarantee of eradication of knotweed. Could the Minister describe how he is liaising with these companies to make their services better known?

Bydd y Gweinidog yn gwybod bod yna nifer o gwmnïau yng Nghymru sy'n gwarantu y gallant ddileu clymog. A allai'r Gweinidog ddisgrifio sut y mae'n cysylltu â'r cwmnïau hyn i roi mwy o sylw i'w gwasanaethau?

13:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the Member's question, but I haven't had any direct contact with these companies. I certainly would welcome the opportunity for the businesses to talk to my officials in the joint eradication programme as we move forward.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod, ond nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r cwmnïau hyn. Byddwn yn sicr yn croesawu'r cyfle i'r busnesau siarad â fy swyddogion yn y rhaglen ddileu ar y cyd wrth i ni symud ymlaen.

### WRAP Cymru

### WRAP Cymru

13:53 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid grant craidd diweddar a roddwyd i raglen gweithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau (WRAP Cymru)? OAQ(4)0337(NR)*

*5. Will the Minister make a statement on the recent core grant funding given to the waste and resources action programme? OAQ(4)0337(NR)*

13:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Delyn for her question. My letter to Members on 29 June identified the outcomes of our recent call for grant funding proposals in the environment and sustainable development directorate. As stated in the letter, WRAP Cymru has been awarded a total of £9.496 million for the period October 2015 to March 2018.

Diolch i'r Aelod dros Ddelyn am ei chwestiwn. Roedd fy llythyr at yr Aelodau ar 29 Mehefin yn nodi canlyniadau ein galwad ddiweddar am gynigion am gyllid grant yng nghyfarwyddiaeth yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Fel y nodwyd yn y llythyr, mae WRAP Cymru wedi derbyn cyfanswm o £9,496 miliwn ar gyfer y cyfnod o fis Hydref 2015 i fis Mawrth 2018.

13:54 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. WRAP Cymru is one of a number of organisations to receive funding for work that includes the reduction of waste through recycling. Much is planned to be achieved through the Welsh Government's collaborative change programme, which is open to local authorities and delivered by WRAP. So, Minister, how well is that programme working in helping local authorities achieve recycling targets that are set by the Welsh Government?

Diolch i chi am hynny. Mae WRAP Cymru yn un o nifer o'r sefydliadau i dderbyn cyllid ar gyfer gwaith sy'n cynnwys lleihau gwastraff drwy ailgylchu. Mae cynlluniau i gyflawni llawer drwy raglen newid gydweithredol Llywodraeth Cymru, sy'n agored i awdurdodau lleol ac sy'n cael ei chyflwyno gan WRAP Cymru. Felly, Weinidog, pa mor dda y mae'r rhaglen yn gweithio o ran helpu awdurdodau lleol i gyrraedd targedau ailgylchu sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru?

13:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, as you'll see, our municipal waste collection and recycling programme is leading the way in the UK. We're fourth in Europe in terms of our recycling targets. That's no mean feat through delivery by local authorities across Wales, and they should be congratulated, wherever they work.

Wel, fel y gwelwch, mae ein rhaglen casglu gwastraff ac ailgylchu trefol yn arwain y ffordd yn y DU. Rydym yn bedwerydd yn Ewrop o ran ein targedau ailgylchu. Dyna gryn gamp a gyflawnir gan awdurdodau lleol ledled Cymru, a dylid eu llongyfarch, ble bynnag y maent yn gweithio.

WRAP has helped people come to the programme to change the way that the activities take place on the ground, and we're very grateful for that. That's why we made a significant investment to the programme in order to, hopefully, gain No. 1 spot in Europe in the near future.

Mae WRAP Cymru wedi helpu pobl i ddod at y rhaglen i newid y ffordd y mae'r gweithgareddau'n digwydd ar lawr gwlad, ac rydym yn ddiolchgar iawn am hynny. Dyna pam ein bod wedi buddsoddi'n sylweddol yn y rhaglen, er mwyn ennill safle Rhif 1 yn Ewrop yn y dyfodol agos, gobeithio.

13:55 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'd like to take you back to the WRAP funding initiative, and perhaps ways that can be used to help with the heading towards zero target for recycling. There have been two news reports already this year about giant fatbergs blocking sewage systems, partially due to food waste not being disposed of appropriately. WRAP was set up by the Welsh Government to help move Wales towards zero waste. Can you tell me what discussions you've had with WRAP to better educate residents, businesses, schools and hospitals about how to effectively dispose of food waste to put an end to such incidents happening again?

Weinidog, hoffwn fynd â chi'n ôl at fenter cyllid WRAP Cymru, ac efallai at ffyrdd y gellir eu defnyddio i helpu i anelu am y targed ailgylchu o ddim gwastraff. Cafwyd dau adroddiad newyddion yn barod eleni am domenni braster anferth yn blocio systemau carthffosiaeth, yn rhannol o ganlyniad i beidio â chael gwared ar wastraff bwyd yn briodol. Cafodd WRAP Cymru ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i helpu i symud Cymru tuag at ddyfodol diwastraff. A allwch ddweud wrthyf ba drafodaethau rydych chi wedi eu cael gyda WRAP Cymru i addysgu trigolion, busnesau, ysgolion ac ysbytai yn well ynglŷn â sut i gael gwared ar wastraff bwyd yn effeithiol er mwyn rhoi diwedd ar ddigwyddiadau o'r fath?

13:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the Member's question. Indeed, I hope that's a prerequisite to the supporting of the Environment (Wales) Bill, because the Member will know we are about to ensure we legislate about food going into the waste stream and into the sewers. So, I'm sure the Member now will, in committee, change her position on this and now welcome the environment Bill, and particularly, vote for the issue around disposal of waste into the sewer system.

Diolch am gwestiwn yr Aelod. Yn wir, rwy'n gobeithio bod hynny'n anghenraid er mwyn gallu cefnogi Bil yr Amgylchedd (Cymru), gan y bydd yr Aelod yn gwybod ein bod ar fin sicrhau ein bod yn deddfu ynghylch bwyd yn mynd i mewn i'r llif gwastraff ac i'r carthffosydd. Felly, rwy'n siŵr y bydd yr Aelod, yn y pwyllgor, yn newid ei safbwynt ar hyn ac yn croesawu Bil yr Amgylchedd (Cymru), ac yn benodol, yn pleidleisio o blaid y mater sy'n ymwneud â chael gwared ar wastraff i mewn i'r system garthffosiaeth.

13:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Alun Ffred Jones.

Galwaf ar Alun Ffred Jones.

*Janet Haworth a gododd—*

*Janet Haworth rose—*

13:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, sorry.

Na, mae'n ddrwg gennyf.

13:56 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Wrth groesawu'r cynnydd sydd wedi bod yn y canran sy'n cael ei ailgylchu, wrth gwrs, rydych chi wedi cyfeirio'n aml iawn at yr economi gylchynol, a'r cwestiwn sydd yn codi ydy o ran y plastig sy'n cael ei gasglu gan ein cynghorau ni, yn bennaf, o dai, faint o'r plastig hwnnw, oherwydd ei ansawdd o, sydd, yn y pen draw, yn diweddu fel deunydd tirlenwi? A oes gennych chi ganran neu bwysau?

Thank you. In welcoming the progress made in the percentage of material recycled, of course, you often refer to the circular economy, and the question that arises then is, in terms of the plastic that is collected by our councils, in the main, from people's homes, how much of that plastic, because of its quality, ultimately ends up in landfill? Do you have a percentage or a weight?

13:57 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't have the figures for the Member today, but I will write to the Member in response to his question. I think it's an important question, because it is about making sure that people are engaged in this programme and recycle, and they hope that this will go into the recycling stream, as opposed to landfill. It would trouble me if we had major programmes where there were failings in the system, so we need to identify them and deal with them appropriately.

Nid oes gennyf y ffigurau ar gyfer yr Aelod heddiw, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod yn ymateb i'w gwestiwn. Rwy'n credu ei fod yn gwestiwn pwysig, gan ei fod yn ymwneud â sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn y rhaglen hon ac yn ailgylchu, ac maent yn gobeithio y bydd hyn yn mynd i'r ffrwd ailgylchu, yn hytrach na safleoedd tirlenwi. Byddai'n peri pryder i mi pe bai gennym raglenni mawr gyda diffygion yn y system, felly mae angen i ni eu nodi ac ymdrin yn briodol â hwy.

13:57 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it would be clearly very helpful to boost recycling rates if there was more consistency between local authorities in Wales in terms of what packaging is recyclable—but also, actually, across Europe, on a European basis, that the packaging that foods and other products are being put in is likely to be recyclable. With a 40 per cent increase in its budget, do you anticipate that WRAP Cymru will now be moving further into upstream communication work, rather than working with those who are then dealing with the waste that's created?

Weinidog, byddai'n amlwg yn ddefnyddiol iawn i roi hwb i gyfraddau ailgylchu pe bai mwy o gysondeb rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru o ran gwybod pa becynnu sy'n ailgylchadwy—ond hefyd ar draws Ewrop ar sail Ewropeaidd, pa ddeunydd pacio bwyd a chynhyrchion eraill sy'n debygol o fod yn ailgylchadwy. Gyda chynnydd o 40 y cant yn eu cyllideb, a ydych yn rhagweld y bydd WRAP Cymru yn awr yn symud ymhellach at waith cyfathrebu uwch, yn hytrach na gweithio gyda'r rheini sy'n delio gyda'r gwastraff sy'n cael ei greu?

13:58

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Indeed. They're a very proactive organisation. I visited a company in Llantrisant with WRAP Cymru, and they changed the whole principle of how the company operated, actually making them a viable company for the future. They received a green dragon award in terms of environmental impact, and that's just one example of an operation that took place. The company said that gives them market advantage by doing this and being much more effective in their waste streams. It's something that WRAP Cymru, we hope, will move forward on to develop even more successful programmes in Wales.

Yn wir. Mae'n sefydliad rhagweithiol iawn. Ymwelais â chwmni yn Llantrisant gyda WRAP Cymru, ac roeddent wedi newid yr holl egwyddor o sut y mae'r cwmni'n gweithredu, gan eu gwneud yn gwmni hyfyw ar gyfer y dyfodol. Cawsant wobr draig werdd am effaith ar yr amgylchedd, a dyna un enghraifft yn unig o waith a gyflawnwyd. Dywedodd y cwmni fod gwneud hyn yn rhoi mantais iddynt yn y farchnad a'u bod yn llawer mwy effeithiol gyda'u ffrydiau gwastraff. Mae'n rhywbeth y bydd WRAP Cymru, gobeithio, yn symud ymlaen arno i ddatblygu rhaglenni a fydd hyd yn oed yn fwy llwyddiannus yng Nghymru.

### Polisïau Rheoli Llifogydd

### Flood Management Policies

13:59

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau rheoli llifogydd Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0326(NR)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's flood management policies? OAQ(4)0326(NR)*

13:59

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for Neath for her question. The Welsh Government takes a risk-based approach to flood and coastal erosion risk management policy. The focus of our approach is set out in the national strategy for flood and coastal erosion risk management in Wales.

Diolch i'r Aelod dros Gastell-nedd am ei chwestiwn. Mae gan Lywodraeth Cymru ddull o weithredu sy'n seiliedig ar risg at bolisi rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae ffocws ein dull wedi ei nodi yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

13:59

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that, Minister. Natural Resources Wales have recently integrated flood risk information into their impressive interactive map viewer. People in Wales can now, at a glance, check the flood risk to their properties, see what areas receive flood warnings, and identify localities benefitting from flood defences, which, thanks to previous Welsh Governments, include a number of communities in my constituency. This excellent innovation is currently in the beta stage, and NRW are looking for feedback from the public. Minister, what can the Welsh Government do to publicise this development and encourage improvement, yet again, in the system?

Diolch i chi am hynny, Weinidog. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi integreiddio gwybodaeth perygl llifogydd yn rhan o'u syllwr mapiau rhyngweithiol trawiadol yn ddiweddar. Bellach, gall pobl yng Nghymru weld yn syth beth yw'r perygl o lifogydd i'w heiddo, gweld pa ardaloedd sy'n derbyn rhybuddion llifogydd, a nodi ardaloedd sy'n elwa o amddiffynfeydd rhag llifogydd, sy'n cynnwys nifer o gymunedau yn fy etholaeth i, diolch i Lywodraethau blaenorol yng Nghymru. Mae'r ddyfais newydd ardderchog hon ar y cam beta ar hyn o bryd, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am adborth gan y cyhoedd. Weinidog, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r datblygiad hwn ac annog gwelliant, unwaith eto, yn y system?

13:59

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm grateful for the Member's positive question. There are far too many people who are ready to knock the work that Natural Resources Wales do. I think they're doing an impressive job under challenging times. This is just one example of how they are absolutely at the front line of supporting our communities in Wales. I requested NRW to develop and host these maps as part of their priorities for this year. They've delivered on that and I think it's a very positive intervention—something very different in terms of what we're doing in Wales to what's happening over the border in England. I thank the Member for her question.

Diolch am gwestiwn cadarnhaol yr Aelod. Mae llawer gormod o bobl yn rhy barod i danseilio'r gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud. Rwy'n credu eu bod yn gwneud gwaith aruthrol mewn cyfnod heriol. Dyma un enghraifft yn unig o sut y maent ar y rheng flaenaf un o ran cefnogi ein cymunedau yng Nghymru. Rwyf wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu a chynnal y mapiau hyn fel rhan o'u blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn hon. Maent wedi cyflawni hynny ac rwy'n credu ei bod yn ymyrraeth hynod o gadarnhaol—mae'n rhywbeth gwahanol iawn o ran yr hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru o'i gymharu â'r hyn sy'n digwydd dros y ffin yn Lloegr. Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn.

14:00 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Minister, I have a number of cases in my constituency where multiple properties are being consistently flooded due to drainage issues from adjoining land. Now, according to both my county councils, they do not have any direct powers or tools that they can use to bring those landowners to the negotiating table. To be frank, the adjoining landowners are simply not disposed to do anything about it, and these houses continue to be flooded. What can you do to resolve this catch-22 situation?

Weinidog, mae gennyf nifer o achosion yn fy etholaeth o sawl eiddo'n dioddef llifogydd yn gyson oherwydd problemau draenio o dir cyfagos. Nawr, yn ôl fy nau gyngor sir, nid oes ganddynt unrhyw bwerau nac adnoddau uniongyrchol y gallant eu defnyddio i ddod â rhai o'r tirfeddianwyr hynny at y bwrdd trafod. A siarad yn blaen, nid yw perchnogion y tir cyfagos yn dangos awydd i wneud dim ynglŷn â hyn, ac mae'r tai hyn yn parhau i ddioddef llifogydd. Beth allwch chi ei wneud i ddatrys y sefyllfa anodd hon?

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I'm very grateful to the Member. If she'd like to write to me on the detail in terms of those specific issues, I'd be grateful for that information. I'll write to the Member with a response. But, more broadly, again another member of the Conservative Party—and I welcome this—will be supporting the environment Bill as we look at land-based management, indeed around how we manage flood plains, including land and water drainage. I welcome the Member's positive contribution, with her group, when we bring the environment Bill forward.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelod. Os hoffai ysgrifennu ataf gyda'r manylion penodol hynny, fe fyddwn yn ddiolchgar am y wybodaeth honno. Fe anfonaf ymateb ysgrifenedig at yr Aelod. Ond yn fwy cyffredinol, bydd aelod arall o'r Blaid Geidwadol—ac rwy'n croesawu hyn—yn cefnogi'r Bil amgylchedd wrth i ni edrych ar reoli tir—yn wir, o ran sut rydym yn rheoli gorlifdiroedd, gan gynnwys draenio tir a dŵr. Rwy'n croesawu cyfraniad cadarnhaol yr Aelod, gyda'i grŵp, pan fyddwn yn cyflwyno'r Bil amgylchedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill wedi bod yn ymgynghori â phobl yn ardal y Teifi yn Aberteifi ar gynlluniau atal llifogydd. Pobl yw'r rhain sydd wedi gweld eu tai yn cael llifogydd ar sawl achlysur nawr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae trigolion Aberteifi, fel y gallwch ddychmygu, yn awyddus i weld cynlluniau atal llifogydd yn cael eu gweithredu yn y dre honno. A allwch chi roi sicrwydd i mi y bydd eich adran chi a Chyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r gwaith yma yn y dyfodol agos?

Minister, Natural Resources Wales and others have been consulting people living near the river Teifi in Cardigan on flood management schemes. These are people who have seen their houses flooded on a number of occasions now over the past few years. Cardigan residents, as you can imagine, are keen to see flood management schemes being introduced in the town. Can you provide me with assurances that your department and Natural Resources Wales will give priority to this work in the near future?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I'm grateful for the Member's question. As she will be aware, I absolutely understand why she asked me to make a commitment to this. Of course, we have to look at a risk-based approach and measure that within the financial envelope that we have. I will give some further consideration to the Member's request to see where this fits in with the flood-risk programme. Of course, she continues to raise the local issues at the highest level, and I'm very grateful for that.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Fel y bydd yn gwybod, rwy'n deall yn llwyr pam ei bod yn gofyn i mi ddatgan ymrwymiad i hyn. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni edrych ar ddull sy'n seiliedig ar risg a mesur hynny o fewn yr amlen ariannol sydd gennym. Byddaf yn ystyried cais yr Aelod ymhellach i weld lle mae hyn yn cyd-fynd â'r rhaglen perygl llifogydd. Wrth gwrs, mae'n parhau i godi'r materion lleol ar y lefel uchaf, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware of repeated calls by Coed Cadw on Welsh Government to actually bring forward a programme of tree planting, the creation of shelter belts, and the restoration of hedges, because of the contribution that that can make to mitigating flood risk. In recent statements, the Welsh Government has emphasised the importance of harnessing local knowledge, and also of working with forestry and landowners to this end. But in this context, Minister, will you consider working with your Deputy Minister, the Deputy Minister for Farming and Food to look at specific proposals that could come out of the emerging rural development plan to actually make real some of the potential for benefit in communities across Wales?

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod Coed Cadw wedi galw ar Lywodraeth Cymru sawl gwaith i gyflwyno rhaglen ar gyfer plannu coed, creu lleiniau cysgodi ac adfer gwrychoedd, oherwydd y cyfraniad y gall hynny ei wneud i liniaru perygl llifogydd. Mewn datganiadau diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan pa mor bwysig yw harneisio gwybodaeth leol, yn ogystal â gweithio gyda choedwigaeth a thirfeddianwyr i'r perwyl hwn. Ond yn y cyd-destun hwn, Weinidog, a wnewch chi ystyried gweithio gyda'ch Dirprwy Weinidog, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i edrych ar gynigion penodol a allai ddeillio o'r cynllun datblygu gwledig i sicrhau bod rhywfaint o'r potensial ar gyfer creu budd i gymunedau ledled Cymru yn cael ei wireddu?

Senedd.tv Fideo Video

14:03

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. I think he's absolutely right, and I'm with him and others on the principle of this. I think we've got to get away from, 'They plant trees because it's good to plant trees'. Actually, we should be clever planting. I've spoken to many organisations about re-profiling what we should be investing in to where we plant for the very issues that the Member raises around flood prevention, shelter belts or tackling issues that are related to climate. We have to be much more precise in what we invest in during these financially challenging times. Of course, I have met with the Deputy Minister around Glastir and other woodland strategy programmes that we can invest in. I will be making a statement shortly regarding an update on the woodland strategy as we move forward.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwy'n credu ei fod yn hollol gywir, ac rwy'n cytuno ag ef ac eraill ar egwyddor hyn. Rwy'n credu bod angen i ni symud oddi wrth y meddylfryd, 'Maent yn plannu coed oherwydd bod plannu coed yn beth da'. A dweud y gwir, dylem fod yn plannu'n glyfar. Rwyf wedi siarad â llawer o sefydliadau ynglŷn â newid proffil o'r hyn y dylem fod yn buddsoddi ynddo i ble rydym yn plannu oherwydd yr union faterion y mae'r Aelod yn eu crybwyll o ran atal llifogydd, lleiniau cysgodi neu fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â hinsawdd. Mae'n rhaid i ni fod yn llawer mwy manwl o ran yr hyn rydym yn buddsoddi ynddo ar adeg heriol yn ariannol. Wrth gwrs, rwyf wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog mewn perthynas â Glastir a rhaglenni eraill y strategaeth goetiroedd y gallwn fuddsoddi ynddynt. Byddaf yn gwneud datganiad yn fuan ynglŷn â'r wybodaeth ddiweddaraf ar y strategaeth goetiroedd wrth i ni symud ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

### Gwastraff Ymbelydrol

### Radioactive Waste

14:04

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar waredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol? OAQ(4)0339(NR)*

*7. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's policy in relation to geological disposal of radioactive waste? OAQ(4)0339(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:04

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. On 19 May, I issued a written statement, which set out my decision to adopt a policy of geological disposal for higher-activity radioactive waste. I also issued a consultation on the processes by which interested volunteer host communities could engage in discussions about potentially hosting a geological disposal facility.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Ar 19 Mai, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig, a oedd yn nodi fy mhenderfyniad i fabwysiadu polisi gwaredu daearegol ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. Hefyd, cyhoeddais ymgynghoriad ar y prosesau i gymunedau sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli i gynnal cyfleuster gwaredu daearegol allu cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o wneud hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:04

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Diolch. Rydych yn iawn i'n hatgoffa ni fod y Llywodraeth wedi symud yn ddiweddar o sefyllfa o beidio â chael safbwynt mewn difri ar waredu gwastraff niwclear hirdymor i ddweud mai gwaredu daearegol sydd fwyaf ffafriol fel polisi Lloegr a Gogledd Iwerddon. Y cwestiwn wedyn, wrth gwrs, ydy ymhle, ac yn ddealladwy iawn, y diffyg ateb i'r cwestiwn hwnnw yn un o brif bryderon y rheini sy'n gwrthwynebu datblygiadau fel Wylfa Newydd. Rŵan, rydych chi yn ymgynghori, fel rydych chi'n ei ddweud, ar hyn o bryd, ar sut y gallai cymuned wahodd claddfa o'r fath, ond gan gofio bod Ynys Môn yn dweud yn berffaith glir nad ydym ni am weld claddfa ar yr ynys, a gaf i ofyn sut mae Llywodraeth Cymru am ddiffinio 'cymuned'? Pwy fydd â llais yn y penderfyniad a sut mae sicrhau bod y llais yna yn cael ei glywed a'i pharchu yn achos Ynys Môn?

Thank you. You're right to remind us that the Government has moved recently from a position of not having a view, if truth be told, on long-term disposal of radioactive waste to saying that geological disposal is the favoured policy, as is the policy in England and Northern Ireland. The question then, of course, is where, and quite understandably, the fact that there hasn't been a response to that question is one of the main concerns of those people who oppose developments such as Wylfa Newydd. Now, you are consulting at present, as you say, on how a community could invite such a disposal site, but bearing in mind that Ynys Môn has stated quite clearly that we don't want to see a disposal site on the island, can I ask how the Welsh Government is going to define 'community'? Who will ultimately have a voice in that decision and how do we ensure that that voice is properly heard and respected in the case of Ynys Môn?

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Let me be very clear: we haven't changed our policy on this at all. What we're actually doing is engaging communities across Wales and giving them the chance to consider whether they wish to be a volunteer host community. By the very nature of the question and the definition, 'volunteer' means it's up to them, not up to Government, to say where we will have a site. It will be for the consideration of the community. The Member has been very clear about his view in terms of disposal for Ynys Môn, but of course, if there are communities across Wales that wish to be considered, the consultation process is the appropriate tool to do that.

Gadewch i mi fod yn glir iawn: nid ydym wedi newid ein polisi ar hyn o gwbl. Yr hyn rydym yn ei wneud mewn gwirionedd yw ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru a rhoi cyfle iddynt ystyried a ydynt yn dymuno bod yn gymuned sy'n gwirfoddoli i gynnal safle o'r fath. Yn ôl union natur y cwestiwn a'r diffiniad, mae'r gair 'gwirfoddolwr' yn golygu mai mater iddynt hwy, nid y Llywodraeth, yw dweud ble y bydd gennym safle. Mater i'r gymuned ei ystyried ydyw. Mae'r Aelod wedi gwneud ei farn yn glir iawn o ran gwaredu ar gyfer Ynys Môn, ond wrth gwrs, os oes cymunedau ledled Cymru sy'n dymuno cael eu hystyried, y broses ymgynghori yw'r dull priodol ar gyfer gwneud hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

14:06 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Minister, I'm pleased the Welsh Government policy document on the management and disposal of higher-activity radioactive waste reiterates the Government's support for a new nuclear power station at Wylfa to provide a constant, reliable low-carbon energy source. That will inevitably produce high-level radioactive waste, for which, as you say, long-term geological disposal is the only option. Will the Welsh Government stand by its commitment in this document that geological disposal will only be developed in Wales if a community is prepared to enter into discussions about potentially hosting it? If the community withdraws, then I understand that is the end of the process. That's what I understand volunteering to be part of this process means.

Weinidog, rwy'n falch fod dogfen bolisi Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ategu cefnogaeth y Llywodraeth i orsaf bŵer niwclear newydd yn yr Wylfa i ddarparu ffynhonnell ynni, carbon isel, cyson a dibynadwy. Bydd hynny'n anochel yn cynhyrchu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd, ac yn sgil hynny, fel y dywedwch, gwaredu daearegol hirdymor yw'r unig ddewis. A fydd Llywodraeth Cymru yn cadw at ei hymrwymiad yn y ddogfen hon sy'n dweud y bydd gwaredu daearegol ond yn cael ei ddatblygu yng Nghymru os yw cymuned yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o'i gynnal? Os yw'r gymuned yn tynnu'n ôl, yna rwy'n deall mai dyna fydd diwedd y broses. Dyna'r hyn rwyf i'n ei ddeall y mae gwirfoddoli i fod yn rhan o'r broses hon yn ei olygu.

Senedd.tv
Fideo Video

14:07 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Member is absolutely right, and I wholeheartedly agree with him today.

Mae'r Aelod yn llygad ei le ac rwy'n cytuno'n llwyr ag ef heddiw.

Senedd.tv
Fideo Video

## Nodau Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru

## The Strategic Goals of Natural Resources Wales

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y nodau strategol y mae wedi'u rhoi ar waith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru? OAQ(4)0340(NR)*

*8. Will the Minister make a statement on the strategic goals he has implemented for Natural Resources Wales? OAQ(4)0340(NR)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:07 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. To support the statutory purpose and duties of NRW, I issue an annual remit letter to Natural Resources Wales setting out their goals for the year. In addition, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 also contains a set of goals, all of which NRW will be expected to achieve.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. I gefnogi pwrpas a dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru, rwy'n anfon llythyr cylch gwaith blynyddol at Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi eu hamcanion ar gyfer y flwyddyn. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cynnwys cyfres o amcanion, a bydd disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni pob un ohonynt.

Senedd.tv
Fideo Video

14:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Obviously, one of the key goals for Natural Resources Wales is flood prevention, and obviously, the maintenance of rivers and riverbanks and waterways is a key objective for Natural Resources Wales, so that obstacles can be removed that might constrain water flow. We're in the summer months and obviously, leading into the autumn, this is the optimum time for much of this work to be undertaken. What importance do you as a Minister put on those goals to make sure that, where their resources are useable, they are put to full effect to make sure that waterways are clear and obstructions are removed so that, come the winter months and we get high levels of rainfall, as best as can be expected, those waterways are able to take the run-off from the land and the industrial estates?

Diolch yn fawr, Weinidog. Yn amlwg, un o amcanion allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru yw atal llifogydd, ac yn amlwg, mae cynnal a chadw afonydd, glannau afonydd a dyfrffyrdd yn amcan allweddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn gallu cael gwared ar rwystrau a allai gyfyngu ar lif y dŵr. Rydym ynghanol misoedd yr haf ac yn amlwg, yn arwain i mewn i'r hydref, dyma'r amser gorau posibl i gyflawni llawer o'r gwaith hwn. Pa mor bwysig rydych chi fel Gweinidog yn ystyried yr amcanion i wneud yn siŵr bod modd defnyddio'r adnoddau y gellir eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr fod dyfrffyrdd yn glir a'n bod yn cael gwared ar rwystrau, fel bod modd i'r dyfrffyrdd hynny, pan ddaw misoedd y gaeaf a phan fydd y lefelau glawiad yn uchel, gymryd y dŵr ffo oddi ar y tir a'r stadau diwydiannol gystal ag y gellid ei ddisgwyl?

14:08 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Member's right to raise the issue. I do expect NRW to act appropriately on a risk-based approach to the management of water courses. I am not aware that isn't the case in terms of delivery, but if the Member has got any specific issues he'd like to raise with me, I'd be happy to take that up by letter

Wrth gwrs, mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at y mater. Rwy'n disgwyl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu'n briodol drwy ddilyn dull o weithredu'n seiliedig ar risg i reoli cyrsiau dŵr. Nid wyf yn ymwybodol nad yw hynny'n cael ei gyflawni, ond os oes gan yr Aelod unrhyw faterion penodol yr hoffai eu dwyn i fy sylw, byddwn yn hapus i dderbyn llythyr ganddo.

14:08 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, yng nghyd-destun cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru tuag at fynd i'r afael â phroblemau o ran llifogydd, a ydy hi'n wir bellach bod y mapiau llifogydd sy'n cael eu cadw gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn gyson â'r mapiau y mae'r Llywodraeth yn eu defnyddio?

Minister, in the context of the responsibilities of Natural Resources Wales over addressing problems in terms of floods, is it now true that that the flood maps that are kept by Natural Resources Wales are consistent with the maps that the Government use?

14:09 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we aim to ensure that we have consistency in terms of planning and assessment tools, and that's something where we want to make sure that we're as up to date as possible in all aspects of this. It is about making sure that, while the arm's-length body operates autonomously from Government, it is important that we do use the best available evidence when we're making decisions.

Wel, rydym yn anelu i sicrhau bod gennym gysondeb o ran dulliau cynllunio ac asesu, ac mae hynny'n rhywbeth rydym eisiau sicrhau ei fod mor gyfoes â phosibl ym mhob agwedd ar hyn. Mae'n ymwneud â sicrhau, er bod y corff hyd braich yn gweithredu'n annibynnol o'r Llywodraeth, ein bod yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau.

### Gwarchod Draenogod y Môr

### Sea Bass Conservation

14:09 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod draenogod y môr? OAQ(4)0335(NR)*

*9. Will the Minister maker a statement on bass conservation? OAQ(4)0335(NR)*

14:09 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. Scientific advice recommends a substantial reduction in fishing for sea bass. Therefore, the European Commission has brought in a package of emergency measures. In Wales, my officials, in conjunction with stakeholders, are developing a long-term management plan that will further protect the fishery and ensure long-term sustainability.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae cyngor gwyddonol yn argymell gostyngiad sylweddol yn y lefelau pysgota am ddraenogod y môr. Felly, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyflwyno pecyn o fesurau brys. Yng Nghymru, mae fy swyddogion, ar y cyd â rhanddeiliaid, yn datblygu cynllun rheoli hirdymor a fydd yn amddiffyn y bysgodfa ymhellach ac yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

14:09 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Yes, this question is about fish, not beer. [Laughter.] Minister, England and Wales are lagging far behind Ireland on the conservation of bass. The Republic of Ireland banned the commercial fishing for bass in 1990, with a positive impact on stocks of the fish there, and they've since resisted strong lobbying for the ban to be overturned. Will you see what Wales can learn from the Irish situation with regard to fish conservation, and will you work with the UK Government to consider ways that bass off the Welsh coast can be protected—offered greater protection—from overfishing in the future?

Diolch yn fawr, Weinidog. Ydy, mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â physgod, nid cwrw. [Chwerthin.] Weinidog, mae Cymru a Lloegr ymhell ar ôl Iwerddon o ran gwarchod draenogod y môr. Gwaharddwyd pysgota masnachol am ddraenogod y môr yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 1990, a chafodd hynny effaith gadarnhaol ar stociau pysgod yno. Ers hynny, maent wedi gwrthwynebu lobïo cryf i'r gwaharddiad hwnnw gael ei ddiddymu. A wnewch chi edrych i weld beth y gall Cymru ei ddysgu o'r sefyllfa yn Iwerddon o ran gwarchod pysgod, ac a wnewch chi weithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried ffyrdd o ddiogelu draenogod y môr oddi ar arfordir Cymru—neu gynnig mwy o ddiogelwch iddynt—rhag gorbysgota yn y dyfodol?

14:10 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Member will be aware that the conservation of sea bass has been widely debated across Europe over the last few years, and the scientific advice, as I mentioned, recognises that the stocks are heading towards collapse. Already in south Wales, we have a much stricter law to protect bass than any other part of the UK, in terms of catchment size, but it's something I will review very carefully.

Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol fod cadwraeth draenogod y môr wedi cael ei drafod yn helaeth ar draws Ewrop yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r cyngor gwyddonol, fel y soniais, yn cydnabod bod y stociau ar y trywydd i fethu'n llwyr. Eisoes yn ne Cymru, mae gennym ddeddfwriaeth lawer llymach i ddiogelu draenogod y môr nag unrhyw ran arall o'r DU, o ran maint y dalgylch, ond mae'n rhywbeth y byddaf yn ei adolygu'n ofalus iawn.

14:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gobeithio y byddwch yn gwneud hynny, Weinidog, oherwydd fel sydd wedi cael ei amlinellu, mae'r rhywogaeth yma'n bwysig i'n moroedd ni ac mae hefyd mewn perygl o ddiflannu, ond mae hefyd yn bwysig o ran pysgota traddodiadol i rywfaint o ddraenogiaid y môr gael eu gwerthu yn lleol ar gyfer siopau pysgod ac ar gyfer bwytai a'r diwydiant bwyd lleol hefyd, lle mae'n cael ei weld fel rhan o ymweld ag arfordir Cymru yn ystod yr haf, er enghraifft. Felly, beth yw'r cydbwysedd y gallwch chi ei daro rhwng cadw'r stoc, sy'n bwysig ar gyfer y tymor hir, a galluogi pobl i bysgota'n lleol?

I hope you will do that, Minister, because as has already been outlined, this species is extremely important for our seas and it is at risk of becoming extinct, but it's also important in terms of traditional fishing for some bass to be sold locally for local fishmongers and for restaurants and the local food industry as well, where it is seen as part of the visitor experience of the Welsh coastline during the summer months, for example. So, what balance can you strike between maintaining the stock, which is important in the long term, and also enabling people to fish on a local level?

14:11 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The European Commission have already brought a number of emergency measures, as I mentioned earlier. These include a ban on mid-water trawling and a catch limit of three fish per person for recreational fisheries. So, we do believe that the balance is right, but it is appropriate that we, on a regular basis, look at what the impacts are on a more local basis. I will keep that under review.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd eisoes wedi cyflwyno nifer o fesurau brys, fel y soniais yn gynharach. Mae'r rhain yn cynnwys gwaharddiad ar dreillio dŵr canol a chyfyngu dalfa i dri physgodyn y person ar gyfer pysgodfeydd hamdden. Felly, rydym yn credu fod y cydbwysedd yn iawn, ond mae'n briodol ein bod yn edrych ar yr effeithiau ar sail fwy lleol, a hynny'n fwy rheolaidd. Byddaf yn cadw llygad ar hynny.

## Gweithredu Datganiadau Ardal

## The Implementation of Area Statements

14:12 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae ei adran wedi'u cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch gweithredu datganiadau ardal? OAQ(4)0331(NR)*

*10. Will the Minister outline what discussions his department has had with Natural Resources Wales regarding the implementation of area statements? OAQ(4)0331(NR)*

14:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Over the last three years, the Welsh Government has worked closely with Natural Resources Wales on the development of the Environment (Wales) Bill, including on the design of the area statement provisions. NRW's area trials will further help the implementation of area statements, pending Royal Assent.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygu Bil yr Amgylchedd (Cymru), yn cynnwys llunio'r darpariaethau datganiad ardal. Bydd treialon ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i ddatblygu datganiadau ardal ymhellach wrth aros am Gydsyniad Brenhinol.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. You will be aware that the Environment (Wales) Bill speaks of NRW being provided with broad powers over the siting, number and geographical scope of area statements. What plans does the Minister have to resolve the concerns of the National Farmers Union and the Welsh Local Government Association regarding the timetable for the completion of this particular initiative?

Diolch yn fawr, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol fod Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn dweud bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau eang dros leoli, nifer a chwmpas daearyddol datganiadau ardal. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddatrys pryderon Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch yr amserlen ar gyfer cwblhau'r fenter benodol hon?

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

This is a very complex process and a different way of protecting and managing the environment in Wales, and it's something that NRW have been working towards getting right in the first place. It's important that they take some time to assess what the implications may or may not be and develop the process. That's why we have three pilots ongoing already in Wales with very positive outcomes, and we are learning from that process to develop the legislation as we move forward. But, I do accept the issues raised by external bodies that we have to have clarity about the process, and I aim to ensure NRW will give that clarity as we move forward.

Mae hon yn broses gymhleth iawn ac yn ffordd wahanol o warchod a rheoli'r amgylchedd yng Nghymru, ac mae'n rhywbeth y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gweithio tuag at ei gael yn iawn yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig eu bod yn cymryd ychydig o amser i asesu'r goblygiadau posibl a datblygu'r broses. Dyna pam y mae gennym dri chynllun peilot ar waith eisoes yng Nghymru gyda chanlyniadau cadarnhaol iawn, ac rydym yn dysgu o'r broses honno i ddatblygu'r ddeddfwriaeth wrth i ni symud ymlaen. Ond rwy'n derbyn y materion a godwyd gan gyrff allanol o ran yr angen i ni sicrhau eglurder ynglŷn â'r broses, ac rwy'n anelu i sicrhau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi'r eglurder hwnnw wrth i ni symud ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

### Effaith Amgylcheddol Cloddio Glo Brig

### The Environmental Impact of Opencast Mining

14:13 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith amgylcheddol cloddio glo brig yng Nghymru? OAQ(4)0329(NR)*

*11. Will the Minister make a statement on the environmental impact of opencast mining in Wales? OAQ(4)0329(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

'Minerals Planning Policy Wales' and 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal' take a robust approach to mitigating the environmental and social impacts associated with opencast coal extraction.

Mae gan 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' ddull cadarn o liniaru'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â chloddio glo brig.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, thank you very much for the invite to the opencast summit, though Assembly Members were the hecklers at the back of the room. You mentioned in that meeting that you would do many things; you wanted to have a competent minerals planning service across all of Wales, a best-practice framework drawn up with the local coal authority, a very focused review of MTAN, a centre of excellence and action on legacy sites. I wonder if you could give us some idea of a timeline, so that AMs and others can focus their attentions on those particular pieces of work.

Weinidog, diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad i'r uwchgynhadledd glo brig, er mai Aelodau'r Cynulliad oedd yr heclwyr yng nghefn yr ystafell. Fe sonioch yn y cyfarfod hwnnw y byddech yn gwneud llawer o bethau; roeddech am gael gwasanaeth cynllunio mwynau cymwys ar draws Cymru gyfan, llunio fframwaith arfer gorau gyda'r awdurdod glo lleol, cynnal adolygiad manwl iawn o MTAN, canolfan ragoriaeth a chamau gweithredu ar safleoedd a adewir ar ôl. Tybed a allech roi rhyw syniad o amserlen i ni, fel y gall Aelodau'r Cynulliad ac eraill ganolbwyntio ar y darnau penodol hynny o waith.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. Indeed, there were many AMs there, but there was only one heckling from the back—unfortunately it was the Member, which was less than helpful. I think it was a very positive summit that we held with all stakeholders across Wales and across the UK, in terms of interested parties. I made recommendations to my officials to take some of that work forward. I did commit to making a statement in the Chamber following that summit, and when I've got some more detailed timelines, I will share them will colleagues across the Chamber.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Yn wir, roedd llawer o Aelodau'r Cynulliad yno, ond un heclwr yn unig oedd yn y cefn—yn anffodus, yr Aelod oedd hwnnw, ac nid oedd hynny'n ddefnyddiol o gwbl. Rwy'n credu ei bod yn uwchgynhadledd gadarnhaol iawn, wedi'i chynnal gyda'r holl randdeiliaid ar draws Cymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, o ran y grwpiau a oedd â diddordeb. Gwneuthum argymhellion i fy swyddogion i symud rhywfaint o'r gwaith yn ei flaen. Ymrwymais i wneud datganiad yn y Siambr hon yn dilyn yr uwchgynhadledd, a phan fydd gennyf amserlenni mwy manwl, byddaf yn eu rhannu gyda chyd-Aelodau ar draws y Siambr.

14:15 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one environmental impact of opencast mining is huge voids left in the ground, when they're left and they're not restored properly, as we see in Margam, and that void fills with water. It's actually presenting, therefore, a hazard to communities. What's the Welsh Government doing with Natural Resources Wales to ensure that hazard is safe? We have the summer coming up, and young people are going to be enticed into water areas. What are you doing to protect people?

Weinidog, un effaith amgylcheddol o gloddio glo brig yw'r gwagleoedd enfawr sy'n cael eu gadael ar ôl yn y ddaear, pan gânt eu gadael heb eu hadfer yn iawn, fel y gwelwn ym Margam, ac mae'r gwagle hwnnw'n llenwi â dŵr. Mae felly'n creu perygl i gymunedau. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y perygl hwnnw'n ddiogel? Mae'r haf ar y ffordd, ac mae pobl ifanc yn mynd i gael eu denu i ardaloedd â dŵr. Beth rydych chi'n ei wneud i amddiffyn pobl?

14:15 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raises a very serious issue about swimming in unauthorised areas over the summer period. I would urge all persons not to do that; it is a very dangerous activity, and we see loss of life across the UK with events that take place. I will raise this with NRW and other stakeholders to ensure, as much as possible, that they can protect the entities that they are responsible for, but of course, ultimately, what we have to do is encourage people not to go swimming in unauthorised areas during the summer period or, indeed, at any other time.

Mae'r Aelod yn crybwyll mater difrifol iawn ynghylch nofio mewn mannau heb awdurdod dros gyfnod yr haf. Byddwn yn annog pob person i beidio â gwneud hynny; mae'n weithgaredd peryglus iawn, ac rydym yn gweld marwolaethau ledled y DU gyda digwyddiadau fel hyn. Byddaf yn codi hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau, i'r graddau sy'n bosibl, eu bod yn gallu amddiffyn y safleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt, ond wrth gwrs, yn y pen draw, yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw annog pobl i beidio â mynd i nofio mewn mannau heb awdurdod yn ystod yr haf, neu'n wir, ar unrhyw adeg arall.

14:16 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, going back to the summit last week, I think you saw that there was still some confusion amongst stakeholders about the interpretation and meaning of the current 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'. The variety of interpretations over time has left communities near Margam opencast and East Pit in my region, or near my region, feeling ignored, as companies pursue their own goals. I'm pleased to hear that you're reviewing MTAN 2, but can you say exactly how you intend to reach the residents, community councils and tourism businesses—groups who care about our local environment—to make sure that their views aren't outweighed by big business?

Wel, gan ddychwelyd at yr uwchgynhadledd yr wythnos diwethaf, rwy'n credu eich bod yn gweld fod peth dryswch o hyd ymysg rhanddeiliaid ynghylch dehongliad ac ystyr y 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo' cyfredol. Mae'r amrywiaeth o ddehongliadau dros gyfnod o amser wedi achosi i gymunedau ger gwaith glo brig Margam ac East Pit yn fy rhanbarth i, neu ger fy rhanbarth i, deimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, wrth i gwmnïau ddilyn eu hamcanion eu hunain. Rwy'n falch o glywed eich bod yn adolygu MTAN 2, ond a allwch ddweud yn union sut rydych yn bwriadu cyrraedd y trigolion, cynghorau cymuned a busnesau twristiaeth—grwpiau sy'n poeni am ein hamgylchedd lleol—i wneud yn siŵr nad yw eu barn yn cael ei threchu gan y busnesau mawr?

14:16 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, and that's why it was really important for me that we had groups of communities at the summit to show exactly what the impact was on their communities from this type of development. With respect, Presiding Officer, I can't speak about any specific developments, but in general terms, I think the Member raises an important point, as many others have in this Chamber, about what is understood by MTAN 2. We, as Welsh Government and our policy objectives, do understand what that means, but if there is confusion out there in the sector, we have to clarify that. We are looking at a focused review of MTAN 2, particularly around the buffer zone area, and what a 500m buffer zone means or doesn't mean, and it will be something that I will, of course, let Members in this Chamber know in due course.

Wrth gwrs, a dyna pam roedd hi'n bwysig iawn i mi fod gennym grwpiau o gymunedau yn yr uwchgynhadledd i ddangos yn union beth oedd effaith y math hwn o ddatblygiad ar eu cymunedau. Gyda phob parch, Lywydd, ni allaf siarad am unrhyw ddatblygiadau penodol, ond yn gyffredinol, rwy'n credu fod yr Aelod yn tynnu sylw at bwynt pwysig, fel y mae llawer o Aelodau eraill wedi ei wneud yn y Siambr hon, ynglŷn â'r hyn y mae MTAN 2 yn ei olygu. Rydym ni, fel Llywodraeth Cymru a'n hamcanion polisi, yn deall yr hyn y mae'n ei olygu, ond os oes dryswch allan yn y sector, mae'n rhaid i ni ei egluro. Rydym yn edrych ar adolygiad penodol o MTAN 2, yn arbennig mewn perthynas ag ardal y parth clustogi, a'r hyn a olygir wrth glustogfa 500m, a byddaf yn rhoi gwybod amdano i Aelodau'r Siambr hon maes o law wrth gwrs.

14:17 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I do welcome the steps that you're taking, particularly the focused review of the MTAN. Can I ask whether you would be prepared to include community representation on that review?

Weinidog, rwy'n croesawu'r camau rydych yn eu cymryd, yn enwedig yr adolygiad manwl o'r MTAN. A gaf fi ofyn a fyddech yn barod i gynnwys cynrychiolaeth gymunedol yn yr adolygiad hwnnw?

14:17 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will give that further consideration, but I'm minded to.

Byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i hynny, ond dyna'r bwriad.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:17

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

## 2. Questions to the Minister for Minister for Education and Skills

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Education and Skills. Question 1 is from Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Daw cwestiwn 1 gan Janet Finch-Saunders.

### Diogelwch Adeiladau Ysgol a Choleg

### The Safety of School and College Buildings

14:17 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch adeiladau ysgol a choleg ledled Cymru? OAQ(4)0613(ESK)*

*1. Will the Minister make a statement on the safety of school and college buildings across Wales? OAQ(4)0613(ESK)*

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

My thanks to the Member for Aberconwy. I am committed to the provision of safe, sustainable and inspiring learning environments. The twenty-first century schools and education programme represents a £1.4 billion investment over five years that will see the rebuilding and refurbishment of over 150 of our poorest condition schools and colleges in Wales.

Diolch i'r Aelod dros Aberconwy. Rwyf wedi ymrwymo i ddarparu amgylcheddau dysgu diogel, cynaliadwy a llawn ysbrydoliaeth. Mae'r rhaglen ysgolion ac addysg ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn cynrychioli buddsoddiad o £1.4 biliwn dros bum mlynedd tuag at ailadeiladu ac adnewyddu dros 150 o'r ysgolion a'r colegau gwaelaf eu cyflwr yng Nghymru.

14:18

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A constituent, Mrs Gwyneth Bonnet, aged 60, sadly died at her home in January after a battle against the asbestos-related disease malignant mesothelioma, after previously working as a lecturer in what she described before her death as 'asbestos cladded and rat-infested temporary buildings' at Coleg Menai. Mr John Gittins, the coroner, said evidence provided by her indicated that the exposure to asbestos would have occurred during her time at Pencraig. Now, despite the fact these buildings have been demolished, the management at Coleg Menai still refuse to respond to concerns raised by the family in relation to this matter, but also in relation to others potentially exposed similarly at the time. Now, in the interests of full transparency—

Yn anffodus, bu farw un o fy etholwyr, Mrs Gwyneth Bonnet, 60 oed, yn ei chartref ym mis Ionawr ar ôl brwydro yn erbyn y clefyd mesothelioma malaen sy'n gysylltiedig ag asbestos, ar ôl gweithio'n flaenorol fel darlithydd yn yr hyn a ddisgrifiodd cyn iddi farw fel adeiladau mawr dros dro wedi'u gorchuddio ag asbestos, llawn llygod mawr yng Ngholeg Menai. Dywedodd Mr John Gittins, y crwner, fod ei thystiolaeth yn dangos mai yn ystod ei hamser ym Mhencraig y byddai wedi dod i gysylltiad ag asbestos. Nawr, er bod yr adeiladau hyn wedi cael eu dymchwel, mae rheolwyr Coleg Menai yn dal i wrthod ymateb i bryderon y teulu mewn perthynas â'r mater hwn, a hefyd mewn perthynas ag eraill a allai fod yn agored i'r un perygl ar y pryd. Nawr, er mwyn sicrhau tryloywder—

14:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Are you coming to the question?

A ydych yn dod at y cwestiwn?

14:19

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Continues.]—and accountability, will you support my attempts to investigate this matter, and can you assure me what steps you are taking as Minister to safeguard our teaching staff and pupils from the danger of asbestos within our school or college buildings?

[Yn parhau.]—ac atebolrwydd llawn, a wnewch chi gefnogi fy ymdrechion i ymchwilio i'r mater hwn, ac a allwch fy sicrhau pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith fel Gweinidog i ddiogelu ein staff dysgu a'n disgyblion rhag perygl asbestos yn ein hadeiladau ysgol neu golegau?

14:19

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm more than happy, Presiding Officer, to look into the very sad case that the Member raises as an issue. I was, until this afternoon, unaware of that particular very sad case. I did meet my officials on 9 July to discuss the published review of asbestos management in schools by the UK Government Department for Education. I remind Members that the Welsh Government has no direct responsibility in this regard: it is a matter for the owners—usually local authorities—and for the Health and Safety Executive. Officials will review existing guidance for Wales with key stakeholders such as NHS Wales, HSE Wales and Welsh Government public health colleagues to ensure information remains current and accurate. My officials are currently organising this process with a view to completing it early in the new academic year. We will also maintain a watching brief during the design of the UK Government's air sampling study.

Lywydd, rwy'n fwy na pharod i archwilio'r achos trist iawn y mae'r Aelod yn ei grybwyll. Tan y prynhawn yma, nid oeddwn yn ymwybodol o'r achos trist hwn. Cyfarfûm â fy swyddogion ar 9 Gorffennaf i drafod yr adolygiad a gyhoeddwyd o drefniadau rheoli asbestos mewn ysgolion gan yr Adran Addysg Llywodraeth y DU. Atgoffaf yr Aelodau nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol yn hyn o beth: mater i'r perchnogion ydyw—yr awdurdodau lleol fel arfer—ac i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd swyddogion yn adolygu'r canllawiau presennol ar gyfer Cymru gyda rhanddeiliaid allweddol fel GIG Cymru, HSE Cymru a chydweithwyr iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y wybodaeth yn parhau'n gyfredol ac yn gywir. Mae fy swyddogion wrthi'n trefnu'r broses hon gyda golwg ar ei chwblhau yn gynnar yn y flwyddyn academaidd newydd. Byddwn hefyd yn gwylio yn ystod y gwaith o lunio astudiaeth samplu aer Llywodraeth y DU.

14:20

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I welcome the twenty-first century schools programme that we are delivering here in Wales, unlike what the Tory Government did in England in cutting school development. We are creating modern education facilities and an education environment in which children can flourish, and that is critical here. But, as we see these schools being built, obviously there are schools being made vacant as we see the transfer of pupils and they become populated. Some of those old schools are possibly going to be demolished, but some may be used for other purposes. What is the Welsh Government doing to give guidelines or place requirements upon local authorities to ensure that those schools, if they're going to become other places for education, are up to the standards that we would expect from schools here in Wales?

Weinidog, rwy'n croesawu rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain a gyflwynir gennym yma yng Nghymru, yn wahanol i'r hyn a wnaeth y Llywodraeth Doriaidd yn Lloegr drwy dorri cynlluniau datblygu ysgolion. Rydym yn creu cyfleusterau addysg modern ac amgylchedd addysgu lle gall plant ffynnu, ac mae hynny'n hollbwysig yma. Ond wrth i ni weld yr ysgolion hyn yn cael eu hadeiladu, yn amlwg caiff ysgolion eu gwneud yn wag pan drosglwyddir disgyblion i'r ysgolion newydd. Caiff rhai o'r hen ysgolion hyn eu dymchwel o bosibl, ond gallai rhai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi arweiniad neu osod gofynion ar awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion sy'n mynd i fod yn fannau eraill ar gyfer addysgu, yn cyrraedd y safonau y byddem yn eu disgwyl ar gyfer ysgolion yma yng Nghymru?

14:21 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Aberavon. Our twenty-first century schools programme is unique within the UK. He's quite right to point out that one of the first acts of the Liberal-Tory coalition Government was to junk the equivalent English scheme, and it is not being revived by the current Tory Government. But, we push ahead with that generational shift in terms of the quality of the environment that our young people can expect for their education.

Diolch i'r Aelod dros Aberafan. Mae ein rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn unigryw yn y DU. Mae'n hollol iawn i nodi mai un o weithredoedd cyntaf Llywodraeth glymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid oedd cael gwared ar y cynllun cyfatebol yn Lloegr, ac nid yw'n cael ei adfer gan y Llywodraeth Dorïaidd gyfredol. Ond rydym yn bwrw ymlaen â'r symud hwn o un genhedlaeth i'r llall o ran ansawdd yr amgylchedd addysgu y gall ein pobl ifanc ei ddisgwyl.

In terms of older buildings, I would encourage local authorities as they move towards refurbishing or building new premises always to have an exit plan for the old buildings that may be left behind, and I know this has been an issue in several local authorities across Wales. But, it is ultimately a matter for local authorities.

O ran adeiladau hŷn, wrth iddynt symud tuag at adnewyddu neu adeiladu safleoedd newydd, byddwn yn annog awdurdodau lleol bob amser i gael cynllun ymadael ar gyfer yr hen adeiladau a allai gael eu gadael ar ôl, ac rwy'n gwybod bod hon wedi bod yn broblem mewn nifer o awdurdodau lleol ar draws Cymru. Ond mater i awdurdodau lleol yw hyn yn y pen draw.

14:22 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, there's no guarantee that the Varteg opencast threat will ever go away. Will you use your ministerial influence to ensure that no child in Wales should be taught within 120m of an opencast mine?

Weinidog, nid oes unrhyw sicrwydd fod bygythiad glo brig Farteg byth yn mynd i ddiflannu. A wnewch chi ddefnyddio eich dylanwad gweinidogol i sicrhau na ddylai unrhyw blentyn yng Nghymru gael ei addysgu o fewn 120m i gloddfa glo brig?

14:22 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I congratulate the Member on a valiant piece of shoehorning of getting questions around Varteg into the education questions. I would, of course, encourage all local authorities to have a mind to all questions concerning the environment when considering the development of their schools estate.

Rwy'n llongyfarch yr Aelod ar ei ddawn yn gwthio cwestiynau am Farteg i blith y cwestiynau addysg. Byddwn yn annog pob awdurdod lleol, wrth gwrs, i gadw pob cwestiwn yn ymwneud â'r amgylchedd mewn cof wrth ystyried datblygu eu hystâd ysgolion.

14:22 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'd like to thank you for the way in which you've engaged with the Petitions Committee on the issue of asbestos in schools, and there's been a petition in front of the committee now for some time, brought by Cenric Clement-Evans and a campaign group, on the issue of parents and guardians' right to know about the presence of asbestos in schools. In your most recent correspondence to the committee, you've indicated maybe a shift of emphasis, in the sense that the Welsh Government does need to do some additional work in the area. I wonder if you could please give us a timeline as to the likely delivery of that piece of work, and also whether as yet you've formed a view as to whether there should be an asbestos steering group for schools in Wales, to mirror what is currently present in England.

Weinidog, hoffwn ddiolch i chi am y ffordd rydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Deisebau ar fater asbestos mewn ysgolion, ac mae deiseb wedi bod gerbron y pwyllgor ers peth amser, wedi'i chyflwyno gan Cenric Clement- Evans a grŵp ymgyrchu, ar fater hawl rhieni a gwarcheidwaid i wybod am bresenoldeb asbestos mewn ysgolion. Yn eich gohebiaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor, rydych wedi nodi newid pwyslais o bosibl, yn yr ystyr bod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhywfaint o waith ychwanegol yn y maes. Tybed a allwch roi llinell amser i ni i nodi pa bryd y mae'r gwaith yn debygol o gael ei gyflawni, a hefyd a ydych wedi ffurfio barn eto ynglŷn ag a ddylid cael grŵp llywio asbestos ar gyfer ysgolion yng Nghymru, i adlewyrchu'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Lloegr.

14:23 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, Presiding Officer, it's very important that we stay alive to developments and issues, and that we obviously do our best by the public in terms of making sure that our estate is safe. It's also important not to duplicate efforts that are going on on an England and Wales basis. As I say, my officials are currently organising the process of reviewing existing guidance, and in terms of timescale, I expect that process to be completed in the new academic year, this autumn.

Lywydd, rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn i ni ddal i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau a materion sy'n codi, a gwneud ein gorau dros y cyhoedd, yn amlwg, o ran sicrhau bod ein hystâd yn ddiogel. Mae hefyd yn bwysig peidio â dyblygu ymdrechion sy'n digwydd ar sail Cymru a Lloegr. Fel y dywedais, mae fy swyddogion wrthi'n trefnu'r broses o adolygu'r canllawiau presennol, ac o ran yr amserlen, rwy'n disgwyl y bydd y broses honno wedi'i chwblhau yn y flwyddyn academaidd newydd, yn yr hydref.

## 'Dyfodol Llwyddiannus'

## 'Successful Futures'

14:24 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr argymhellion yn yr adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'? OAQ(4)0599(ESK)*

*2. Will the Minister make a statement on the recommendations in the 'Successful Futures' report? OAQ(4)0599(ESK)*

14:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Delyn. I accepted Professor Donaldson's recommendations in full. The vision provided in 'Successful Futures' provides an opportunity to build a curriculum by Wales, for Wales. Working in partnership, we will design and develop an engaging curriculum, fit for the twenty-first century. I will publish our plan in the autumn.

Diolch i'r Aelod dros Ddelyn. Rwy'n derbyn argymhellion yr Athro Donaldson yn llawn. Mae'r weledigaeth yn 'Dyfodol Llwyddiannus' yn rhoi cyfle i adeiladu cwricwlwm gan Gymru ar gyfer Cymru. Gan weithio mewn partneriaeth, byddwn yn dylunio ac yn datblygu cwricwlwm deniadol sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Byddaf yn cyhoeddi ein cynllun yn yr hydref.

14:24 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you are well aware, one of the key recommendations is embedding digital competency into school life and equipping pupils with the ability to programme and code computers. What provisions will the Welsh Government make available to schools so that they have the necessary equipment to teach pupils these skills?

Fel y gwyddoch yn dda, un o'r prif argymhellion yw ymgorffori cymhwysedd digidol ym mywyd yr ysgol ac arfogi disgyblion â'r gallu i raglennu a chodio cyfrifiaduron. Pa ddarpariaethau y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau eu bod ar gael i ysgolion er mwyn iddynt gael yr offer angenrheidiol i ddysgu'r sgiliau hyn i ddisgyblion?

14:25 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course, as the Member will be aware, I've instructed my officials to fast track that element of digital competency and embed this across the curriculum in the same way that literacy and numeracy are. Over the past three years, the Welsh Government has significantly invested in the provision of digital resources and tools that are available to all schools in Wales. Hwb, the national digital content repository, hosts an extensive collection of digital tools and resources to support learning and teaching for learners aged three to 19 in Wales. I would encourage Members that haven't taken a look at Hwb, to take a look; it is truly impressive and a made-in-Wales success. In addition to these centrally-funded resources and tools, the learning in digital Wales grant has enabled the Welsh Government to invest around £37 million in broadband connectivity to schools across Wales.

Ie, wrth gwrs, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i roi'r elfen honno o gymhwysedd digidol ar y llwybr carlam ac ymgorffori hyn ar draws y cwricwlwm yn yr un modd â llythrennedd a rhifedd. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn y ddarpariaeth o adnoddau ac offer digidol sydd ar gael i bob ysgol yng Nghymru. Mae Hwb, y storfa ddigidol genedlaethol, yn cadw casgliad helaeth o offer ac adnoddau digidol i gefnogi dysgu ac addysgu dysgwyr rhwng tair a 19 oed yng Nghymru. Byddwn yn annog Aelodau nad ydynt wedi bwrw golwg ar Hwb, i wneud hynny; mae'n llwyddiant gwirioneddol drawiadol wedi'i wneud yng Nghymru. Yn ogystal ag adnoddau ac offer o'r fath a ariennir yn ganolog, mae'r grant dysgu yn y Gymru ddigidol wedi galluogi Llywodraeth Cymru i fuddsoddi tua £37 miliwn mewn cysylltedd band eang i ysgolion ledled Cymru.

14:26 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, one of the things that Donaldson identifies is the importance of getting people into the senior management team and, in particular, taking headships. There does seem to have been a problem in past years of, obviously, people taking deputy heads but not making the transition then into the ultimate job, in primary schools in particular, of the headship. What measures do you think the Welsh Government can be bringing forward that will remove the stumbling block that many people feel is an obstacle to going in to taking over being a headteacher—whether it be in primary or secondary schools—because unless we've got good headteachers, then there really is going to be a dearth of leadership at the top of many of these primary and secondary schools?

Weinidog, un o'r pethau y mae Donaldson yn ei nodi yw pwysigrwydd cael pobl i mewn i'r uwch dîm rheoli ac yn benodol, i gymryd swyddi penaethiaid. Mae'n ymddangos fod problem wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod pobl yn mynd am swyddi is-benaethiaid ond yn ymatal rhag trosglwyddo wedyn i'r swydd ar y brig mewn ysgolion cynradd yn benodol, sef swydd pennaeth. Pa gamau rydych chi'n credu y gall Llywodraeth Cymru eu cyflwyno a fydd yn cael gwared ar y rhwystr y mae llawer o bobl yn ei deimlo rhag mabwysiadu swydd pennaeth—boed mewn ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd—oherwydd heb benaethiaid da, bydd prinder arweinyddiaeth ar frig llawer o'r ysgolion cynradd ac uwchradd hyn?

14:26 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Well, the Member is quite right to point this out as a problem that's been hanging over us now for some years. The redesign of professional development that we can now undertake through the new deal that I have announced in terms of professional development, gives us an opportunity to reengineer our support for leadership contenders within education. He's quite right to say that it seems as if, in the past, the leap from deputy headship to headship has been seen by many people as a little too difficult to contemplate, and supporting people through that transition needs to be a key feature of how the new deal works, and we are currently at work to improve the support around those particular teachers.

Wel, mae'r Aelod yn hollol iawn i dynnu sylw at hon fel problem a fu'n hongian uwch ein pennau ers rhai blynyddoedd. Mae ailgynllunio datblygiad proffesiynol sy'n bosibl i ni ei wneud yn awr drwy'r fargen newydd a gyhoeddais ar ddatblygiad proffesiynol, yn rhoi cyfle i ni ail-saernïo ein cefnogaeth i rai sy'n ymgeisio am swyddi arweiniol yn y byd addysg. Mae'n hollol iawn i ddweud ei bod yn ymddangos, yn y gorffennol, fel pe bai llawer o bobl yn gweld y naid o fod yn ddirprwy bennaeth i fod yn bennaeth ychydig yn rhy anodd ei hystyried, a rhaid i gefnogi pobl drwy'r trosglwyddiad hwn fod yn nodwedd allweddol o'r ffordd y mae'r fargen newydd yn gweithio, ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio i wella'r cymorth i'r athrawon penodol hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

14:27 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, you will be establishing various panels to look at the Donaldson review and its implementation, and you'll know I'll have a vested interest in the panel that will discuss financial education, as I will have somebody on that. But, I wondered if you could give me some outline of timelines, because, of course, it's important for how this whole process goes ahead, and not only for financial education.

Weinidog, fe fyddwch yn sefydlu amryw o baneli i edrych ar adolygiad Donaldson a'i weithrediad, a byddwch yn gwybod y bydd gennyf ddiddordeb yn y panel a fydd yn trafod addysg ariannol, gan y bydd gennyf rywun yn aelod ohono. Ond tybed a allwch roi rhyw amlinelliad o'r llinell amser oherwydd mae'n bwysig, wrth gwrs, o ran sut y mae'r holl broses hon yn mynd i ddatblygu, ac nid o ran addysg ariannol yn unig.

Senedd.tv
Fideo Video

14:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Yes, there will be experts, there will be panels, but at the centre of all this there will be pioneer schools that will be the furnace, if you like, in which the new curriculum is forged. This will be, from the beginning, a made-in-schools curriculum, led by our teaching professionals at the forefront. I've not changed my predictions about the timescale for Donaldson, taking Professor Graham Donaldson's advice. We anticipate a timescale of between seven and eight years for the compiling and bedding in of the new curriculum.

Ie, fe fydd arbenigwyr, a phaneli, ond yng nghanol hyn i gyd bydd yna ysgolion arloesol a fydd yn ffwrnais, os mynnwch chi, lle caiff y cwricwlwm newydd ei ffurfio. O'r dechrau, bydd hwn yn gwricwlwm a luniwyd yn yr ysgolion, dan arweiniad ein gweithwyr proffesiynol addysgu ar flaen y gad. Nid wyf wedi newid fy rhagfynegiadau ynghylch yr amserlen ar gyfer Donaldson, gan ddilyn cyngor yr Athro Graham Donaldson. Rydym yn rhagweld amserlen o rhwng saith ac wyth mlynedd ar gyfer llunio ac ymgorffori'r cwricwlwm newydd.

Senedd.tv
Fideo Video

14:28 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

The fourth recommendation from Professor Donaldson is around creating healthy, confident individuals, and I wonder what consideration you'll be giving to the role that can be played by school food in both encouraging young people to eat a balanced diet, as well as understanding where food comes from, particularly in the context of some of the issues around sustainable food miles that were outlined in the 'The Farmer and the Food Chain' BBC Wales programme recently. And, I wondered if you could just tell us what thoughts you have on how we can fix that problem.

Mae'r pedwerydd argymhelliad gan yr Athro Donaldson yn ymwneud â chreu unigolion iach a hyderus, ac rwy'n meddwl tybed pa ystyriaeth y byddwch yn ei rhoi i'r rôl y gall bwyd ysgol ei chwarae yn annog pobl ifanc i fwyta deiet cytbwys, yn ogystal â deall o ble y daw bwyd, yn enwedig yng nghyd-destun rhai o'r materion sy'n ymwneud â milltiroedd bwyd cynaliadwy a amlinellwyd ar raglen BBC Wales, 'The Farmer and the Food Chain' yn ddiweddar. Ac roeddwn yn meddwl tybed a allwch ddweud wrthym pa sylwadau sydd gennych ynglŷn â sut y gallwn fynd ati i ddatrys y broblem.

Senedd.tv
Fideo Video

14:29 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, my thanks to Jenny Rathbone for that important point. I have repeatedly stated, of course—and I'm sincere in this—that I'm not a Minister that is going to dictate the dots and commas of the new curriculum. But, in those two words, 'healthy' and 'confident', Donaldson really has opened up a wealth of opportunity for us now to take a holistic view of what our education system delivers for the whole child. That includes, of course, it must—needs must it, in my view—include a healthy attitude and an informed attitude towards food and nutrition. And, as I say, we will be hammering out exactly what that means over the next few years within our pioneer schools.

Wel, diolch i Jenny Rathbone am ei phwynt pwysig. Rwyf wedi datgan dro ar ôl tro, wrth gwrs—ac rwyf o ddifrif ynglŷn â hyn—nad wyf yn Weinidog sy'n mynd i benderfynu lle i roi'r comas a'r atalnodau llawn yn y cwricwlwm newydd. Ond yn y ddau air 'iach' a 'hyderus', mae Donaldson wedi creu cyfle go iawn i ni fwrw golwg gyfannol yn awr ar yr hyn y mae ein system addysg yn ei gyflawni i'r plentyn cyfan. Mae hynny'n cynnwys, wrth gwrs—mae'n rhaid iddo gynnwys, yn fy marn i—agwedd iach ac agwedd wybodus tuag at fwyd a maeth. Ac fel y dywedais, byddwn yn mynd i graidd beth yn union y mae hynny'n ei olygu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf yn ein hysgolion arloesol.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Aled Roberts.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

14:30 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Weinidog, fe gyhoeddwyd adolygiad ychwanegol ddoe ar reoleiddio a throsolwg addysg a hyfforddiant ôl-16. Wrth edrych ar y canllawiau ar gyfer adolygiad Diamond, a allwch chi esbonio sut yn union y bydd yr adolygiad gan y Llywodraeth ddoe yn bwydo i mewn i, neu yn effeithio ar, yr adolygiad gan Diamond, sydd, wrth gwrs, yn adolygiad trawsbleidiol?

Thank you, Presiding Officer. Minister, an additional review was announced yesterday on the regulation and oversight of post-16 education and training. In looking at the guidance for the Diamond review, can you explain how exactly the Government's review of yesterday will feed into or impact on the Diamond review, which, of course, is a cross-party review?

14:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think we will all have to find our way, as political parties and as public representatives, through the implications of what Diamond will deliver to us just after the election next year. Of course, there will be a factual report from Professor Sir Ian Diamond this autumn, which I hope will then inform a sensible discussion amongst political parties and others—other interested parties, obviously—in the run-up to the next Assembly elections. I really wouldn't want to say any more than that at this point, because I am no better informed at this point as to what the detailed content of the Diamond review would be than any other Member here.

Wel, rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i ni gyd, fel pleidiau gwleidyddol ac fel cynrychiolwyr y cyhoedd, ddod o hyd i'n ffordd drwy oblygiadau'r hyn y bydd Diamond yn ei gyflwyno i ni yn syth ar ôl yr etholiad y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, fe ddaw adroddiad ffeithiol gan yr Athro Syr Ian Diamond yr hydref hwn, a gobeithio y bydd yr adroddiad hwnnw wedyn yn llywio trafodaeth synhwyrol ymysg y pleidiau gwleidyddol ac eraill—pobl eraill sydd â diddordeb, yn amlwg—yn y cyfnod yn arwain at etholiadau nesaf y Cynulliad. Nid wyf am ddweud mwy na hynny ar yr adeg hon, gan nad wyf yn gwybod mwy nag unrhyw Aelod arall yma ynghylch cynnwys manwl adolygiad Diamond ar hyn o bryd.

14:31 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I accept the point you make, Minister. The concern I have is that your announcement yesterday indicated that you would expect the conclusions of yesterday's review to be reporting back to you in the spring of 2016, that is, before the Assembly elections. I'm just concerned that, if there's a new structure and a new regime as far as further education and higher education funding, regulation and structures are concerned, that will actually hamper our ability as parties to actually consider perhaps a more radical departure, if that's what the Diamond review comes up with.

Rwy'n derbyn y pwynt a wnewch, Weinidog. Y pryder sydd gennyf yw bod eich cyhoeddiad ddoe yn dangos y byddech yn disgwyl cael adroddiadau ar gasgliadau adolygiad ddoe yn ystod gwanwyn 2016, hynny yw, cyn etholiadau'r Cynulliad. Os oes strwythur newydd a threfn newydd i ariannu, rheoleiddio a strwythurau addysg bellach ac addysg uwch, rwy'n bryderus y bydd hynny mewn gwirionedd yn rhwystro ein gallu fel pleidiau i ystyried symud i gyfeiriad mwy radical efallai, os mai dyna fydd adolygiad Diamond yn ei ddweud.

14:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is open to any politician to be as radical as they view to be wise. But, really, the implications of the Diamond review will be heavily slanted towards the HE situation—the student support situation. And so I don't see any reason why yesterday's events should necessarily trip us up in terms of developing—. Difficulties there will be, for sure, but I don't see how the two sets of announcements would necessarily trip over each other.

Wel, mae'n agored i unrhyw wleidydd fod mor radical ag y teimlant sy'n ddoeth. Ond mewn gwirionedd, bydd goblygiadau adolygiad Diamond yn gwyro'n drwm tuag at sefyllfa addysg uwch—sefyllfa cymorth myfyrwyr. Ac felly nid wyf yn gweld unrhyw reswm pam y dylai digwyddiadau ddoe ein baglu o reidrwydd o ran datblygu—. Bydd yna anawsterau, yn sicr, ond nid wyf yn gweld sut y byddai'r ddwy set o gyhoeddiadau o angenrheidrwydd yn baglu dros ei gilydd.

14:32 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a hefyd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn edrych i mewn i sefyllfa'r consortia rhanbarthol ar hyn o bryd. Mae yna nifer ohonom ni'n pryderu ynglŷn â pha mor dryloyw y mae'r consortia yna. Mae yna lythyr wedi cael ei dderbyn gan aelodau'r pwyllgor yr wythnos yma, sydd yn dweud wrthym ni bod yna £2.2 miliwn wedi cael ei wario gan ddau gonsortia ar gael gwared ar staff yn ystod y flwyddyn olaf. A ydych chi'n fodlon bod yr arian cyhoeddus yma yn cael ei wario'n effeithiol, a, hefyd, a wnewch chi sicrhau bod gwybodaeth ar gael gan holl Aelodau'r Cynulliad er mwyn gweld o ble yn union y mae'r arian yna wedi dod, ac nad ydy arian sy'n cael ei gyfeirio at wella ysgolion yn cael ei wario ar gael gwared ar staff?

The Children, Young People and Education Committee and the Public Accounts Committee are looking into the situation of the regional consortia at the moment. A number of us are concerned about how transparent those consortia are. A letter has been received by members of the committee this week that tells us that £2.2 million has been spent by two consortia on getting rid of staff during this last year. Are you satisfied that this public money is being spent effectively, and, also, will you ensure sure that information is available all to Assembly Members to see where exactly that money has come from, and that money that is directed at improving schools is not being spent on getting rid of staff?

14:33 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the money that the consortia have access to is local government money. Local government contracts with the consortia to deliver school improvement support across the country. An essential element of that, I have to say, would need to be—in some circumstances—HR support. I'm unaware of the letter that the Member references; perhaps if he can forward it to me, I can take a look, and ask officials to investigate.

Wel, wrth gwrs, arian llywodraeth leol yw'r arian at ddefnydd y consortia. Mae llywodraeth leol yn contractio gyda'r consortia i ddarparu cymorth gwella ysgolion ar draws y wlad. Rhaid i mi ddweud y byddai'n rhaid i elfen hanfodol ohono fod yn gymorth adnoddau dynol mewn rhai amgylchiadau. Nid wyf yn ymwybodol o'r llythyr y cyfeiria'r Aelod ato; efallai y gallai ei anfon ymlaen ataf, i mi edrych arno, a gofyn i swyddogion ymchwilio.

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives spokesperson, Angela Burns.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Angela Burns.

14:34 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. Minister, in a recent interview with BBC 'Sunday Politics', you said, about the Programme for International Student Assessment:

'There was an issue in 2012. We'll see another round of PISA this autumn, with the results coming out early in 2016.'

Minister, first of all, could you clarify that timescale, as I understand PISA results are normally due in December of 2016? And, furthermore, if you describe the PISA results of 2012 as 'an issue', may I ask if you also believe that there was an issue in 2009 and 2006?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Weinidog, mewn cyfweliad diweddar gyda rhaglen 'Sunday Politics' y BBC, fe ddywedoch hyn ynglŷn â'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr:

'There was an issue in 2012. We'll see another round of PISA this autumn, with the results coming out early in 2016. '

Weinidog, yn gyntaf oll, a allwch egluro'r amserlen honno, gan fod canlyniadau PISA i fod i ymddangos ym mis Rhagfyr 2016 yn ôl yr hyn a ddeallaf? A hefyd, os ydych yn disgrifio canlyniadau PISA 2012 fel 'problem', a gaf fi ofyn a ydych hefyd yn credu fod yna broblem yn 2009 a 2006?

14:34 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There are no revelations here; everyone's well aware that the whole of the UK has had an issue regarding PISA for at least the last two rounds of PISA and nobody, most particularly myself, is content in terms of the way our young people performed in the last round of PISA. I would point out to her, though, that there have been considerable changes since then and a huge amount of work has gone into equipping our young people for the type of thinking skills that are necessary to work their way through that kind of assessment of their abilities, most particularly, problem-solving real-world problems. Indeed, our entire English and mathematics GCSE courses are adapting to make sure that the teaching of those thinking skills is part and parcel of what happens in Welsh classrooms.

Nid oes unrhyw ddatguddiadau yma; mae pawb yn ymwybodol iawn fod y Deyrnas Unedig gyfan wedi cael problemau gyda PISA ers o leiaf y ddwy rownd olaf o PISA ac nid oes neb, a minnau'n arbennig, yn fodlon gyda'r ffordd y perfformiodd ein pobl ifanc yn y cylch PISA diwethaf. Byddwn yn tynnu sylw'r Aelod, fodd bynnag, at y newidiadau sylweddol a fu ers hynny a gwnaed llawer iawn o waith ar gyfarparu ein pobl ifanc ar gyfer y math o sgiliau meddwl sydd eu hangen i weithio eu ffordd drwy'r math hwnnw o asesiad o'u galluoedd, yn fwyaf arbennig, datrys problemau byd go iawn. Yn wir, mae ein cyrsiau Saesneg a mathemateg TGAU yn eu cyfanrwydd yn addasu i sicrhau bod addysgu sgiliau meddwl yn rhan annatod o'r hyn sy'n digwydd mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru.

14:35 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Let me be clear, Minister: I fight for Wales and it is the Wales PISA results that I'm interested in. Now, you also went on to say, as you've just said here, that there's been this huge change in the way that mathematical reasoning is taught. You said that, two years ago, mathematical reasoning did not exist in our educational system, and now it's become part and parcel of how we do mathematics. But, Minister, how can you make a claim like that, because the most recent maths GCSE results simply do not bear out that assertion?

Gadewch i mi fod yn glir, Weinidog: rwy'n ymladd dros Gymru a chanlyniadau PISA Cymru yw'r hyn sydd o ddiddordeb i mi. Nawr, fe sonioch hefyd, fel rydych chi newydd ei wneud yma, am y newid mawr a fu yn y ffordd y caiff rhesymu mathemategol ei ddysgu. Fe ddywedoch nad oedd rhesymu mathemategol yn bodoli yn ein system addysg ddwy flynedd yn ôl, a bellach mae wedi dod yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gwneud mathemateg. Ond Weinidog, sut y gallwch wneud honiad o'r fath, gan nad yw'r canlyniadau mathemateg TGAU diweddaraf yn ategu'r honiad hwnnw o gwbl?

14:36 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'm puzzled. They wouldn't, would they? The new GCSE maths, which includes that separate GCSE examination aimed at mathematical reasoning, is for first teaching this September. But there has been, throughout the school system, in all key stages, a move towards introducing mathematical reasoning into the classroom, and we have seen, through the literacy and numeracy tests, that that now is part and parcel of the way things are done in every maths classroom up and down the country.

Wel, rwyf mewn penbleth. Ni fyddent yn gwneud hynny, na fyddent? Mae'r TGAU mathemateg newydd, sy'n cynnwys yr arholiad TGAU annibynnol ar resymu mathemategol, i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi. Ond gwelwyd symud ar draws y system ysgolion, ym mhob cyfnod allweddol, tuag at gyflwyno rhesymu mathemategol yn yr ystafell ddosbarth, ac rydym wedi gweld, drwy'r profion llythrennedd a rhifedd, fod hynny bellach yn rhan annatod o'r ffordd y gwneir pethau ym mhob ystafell ddosbarth mathemateg ar hyd a lled y wlad.

14:37 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You're absolutely right: two years isn't enough to bed in that change in GCSEs, and yet, Minister, in the very same interview, you appear to think that two years is enough to embed the change in PISA so that we will have a better PISA result. So, which is it to be? It's this kind of woolly assertion that goes out onto the public airwaves that really does just simply reflect a very woolly Government policy. Two years is either enough to improve GCSEs and PISA, or it's not enough to improve GCSEs, nor will it be enough to improve the result of our 15-year-olds, who will have had two years to absorb this new mathematical reasoning process.

Rydych yn llygad eich lle: nid yw dwy flynedd yn ddigon i ymgorffori'r newid yn y TGAU, ac eto, Weinidog, yn yr un cyfweliad yn union, roedd hi'n ymddangos eich bod yn meddwl bod dwy flynedd yn ddigon i ymgorffori'r newid yn PISA er mwyn i ni gael canlyniad PISA gwell. Felly, pa un yw hi am fod? Dyma'r math o honiad gwlanog a ddarlledir yn gyhoeddus sydd mewn gwirionedd yn adlewyrchu polisi gwlanog iawn gan y Llywodraeth. Mae dwy flynedd naill ai'n ddigon i wella TGAU a PISA, neu nid yw'n ddigon i wella TGAU, ac ni fydd yn ddigon i wella canlyniadau ein pobl ifanc 15 mlwydd oed, a fydd wedi cael dwy flynedd i amsugno'r broses rhesymu mathemategol newydd hon.

14:37 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member, but, if there's anything woolly here, I think it's the question. Of course, a great deal can be accomplished in two years. A great deal can be accomplished in a single academic term if there is a focused commitment from professionals to embrace the change. I'm sure that two years will show progress. It will not show all the progress that we want to see. I hope to be proud of our young people in the coming round of PISA tests—proud, but not satisfied, in terms of their progress.

Diolch i'r Aelod, ond os oes unrhyw beth yn wlanog yma, rwy'n meddwl mai'r cwestiwn yw hwnnw. Wrth gwrs, gellir cyflawni llawer mewn dwy flynedd. Gellir cyflawni llawer iawn mewn un tymor academaidd os ceir ymrwymiad â ffocws gan weithwyr proffesiynol i groesawu'r newid. Rwy'n siŵr y bydd dwy flynedd yn dangos cynnydd. Ni fydd yn dangos yr holl gynnydd rydym am ei weld. Rwy'n gobeithio bod yn falch o'n pobl ifanc yn y rownd nesaf o brofion PISA—yn falch o'u cynnydd, ond nid yn fodlon.

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

14:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, could you tell the Assembly what the Welsh Government is doing to combat extremism in schools and other educational settings?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, a allech ddweud wrth y Cynulliad beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag eithafiaeth mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill?

14:38 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, I think Simon Thomas touches upon a very important issue that should concern us all in terms of how schools approach these profoundly important issues. The Welsh Government does have a national community cohesion delivery plan, which helps to enhance a better understanding of communities and enables services to respond to the changing needs of communities. And the Welsh Government funds eight regional community cohesion co-ordinators to provide all-Wales coverage to support the development of work through that delivery plan.

Wel, rwy'n meddwl bod Simon Thomas yn cyffwrdd â mater pwysig iawn a ddylai fod o ddiddordeb i ni i gyd o ran sut y mae ysgolion yn ymdrin â'r materion hynod o bwysig hyn. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer cydlyniant cymunedol, sy'n helpu i sicrhau dealltwriaeth well o gymunedau a galluogi gwasanaethau i ymateb i anghenion newidiol cymunedau. Ac mae Llywodraeth Cymru yn ariannu wyth o gydlynwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol dros Gymru gyfan i gefnogi datblygiad gwaith drwy'r cynllun cyflenwi.

I would, though, if you'll allow me, take the opportunity to also mention this afternoon my intent that schools individually, and as a whole, need to rise to the challenge of community cohesion, and I believe that Professor Graham Donaldson's four purposes, one of which is that children should be ethical, informed citizens of Wales and the world, demands that we take action. And, in that regard, I'd like to take the opportunity to announce this afternoon that I believe we need to transform our current religious education curriculum. My contention would be that we rename the RE curriculum and transform it into the religion, philosophy and ethics element of the curriculum, where there is an explicit commitment to allowing children to ponder ideas around ethics and citizenship and what it means to be a citizen of a free country.

Ond os caniatewch i mi fanteisio ar y cyfle heddiw i sôn y prynhawn yma mai fy mwriad yw sicrhau bod ysgolion yn unigol, ac yn gyffredinol, angen ymateb i her cydlyniant cymunedol, a chredaf fod pedwar diben yr Athro Graham Donaldson, gydag un ohonynt yn datgan y dylai plant fod yn ddinasyddion moesol gwybodus sy'n perthyn i Gymru a'r byd, yn mynnu ein bod yn rhoi camau ar waith. Ac yn hynny o beth, hoffwn fanteisio ar y cyfle i gyhoeddi y prynhawn yma fy mod yn credu ein bod angen trawsnewid ein cwricwlwm addysg grefyddol ar hyn o bryd. Byddwn yn haeru y dylem ail-enwi'r cwricwlwm Addysg Grefyddol a'i newid yn elfen crefydd, athroniaeth a moeseg y cwricwlwm, lle ceir ymrwymiad pendant i ganiatáu i blant fyfyrio ynghylch syniadau am foeseg a dinasyddiaeth a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd mewn gwlad rydd.

14:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his reply and it proves it's always worth asking a question in the Assembly, to gain a response like that. Some further consideration is clearly going on around these issues in Welsh Government and I'm pleased to hear that.

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb ac mae'n profi ei bod bob amser yn werth gofyn cwestiwn yn y Cynulliad, er mwyn cael ymateb fel yna. Mae'n amlwg fod Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried y materion hyn ymhellach ac rwy'n falch o glywed hynny.

If we look to the past, there's clearly been a certain uncertainty around the Westminster Government's Prevent strategy and that's been changed over the years. The evaluation of the Advisory Directorate For Youth, Women and Imams' Active Development, which is an earlier Welsh Government cohesion strategy with the Muslim Council of Wales—which was set up to combat an earlier kind of exhibition of extremism that was around at that stage, namely Al-Muhajiroun, working in Cardiff—found that it didn't target sufficiently those at risk of embracing extremism. So, I'm grateful that the Minister said that he's aware of these issues. I don't think that we can wait for Donaldson, however, to deliver on some of these things. I would ask the Minister now, as many teachers are in the front line of seeing extremism being expressed in the classroom or, indeed, in pupils' attitudes to each other, is he confident that they now have the skills and training to deal with such issues?

Os edrychwn ar y gorffennol, roedd hi'n amlwg fod ansicrwydd penodol ynghlwm wrth strategaeth Prevent Llywodraeth San Steffan ac mae honno wedi'i newid dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r Weithrediaeth Gynghorol ar gyfer Datblygiad Gweithredol Ieuenctid, Menywod ac Imamiaid (ADFYWIAD), sef strategaeth gydlyniant gynharach Llywodraeth Cymru gyda Chyngor Mwslimaidd Cymru a sefydlwyd i fynd i'r afael â math cynharach o arddangosiad o eithafiaeth ar y cam hwnnw sef Al-Muhajiroun, a oedd yn weithredol yng Nghaerdydd. Gwelodd y gwerthusiad nad oedd yn targedu'n ddigonol y rhai sydd mewn perygl o gofleidio eithafiaeth. Felly, rwy'n ddiolchgar fod y Gweinidog wedi dweud ei fod yn ymwybodol o'r materion hyn. Nid wyf yn credu y gallwn aros am Donaldson i gyflawni rhai o'r pethau hyn, fodd bynnag. Carwn ofyn i'r Gweinidog yn awr, gan fod llawer o athrawon yn y rheng flaen o ran gweld eithafiaeth yn cael ei fynegi yn y dosbarth neu'n wir, yn agweddau disgyblion at ei gilydd, a yw'n hyderus fod ganddynt y sgiliau a'r hyfforddiant bellach i ymdrin â materion o'r fath?

14:41 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, no, I don't suppose that all teachers would feel confident in terms of how to react to, for instance, an obvious example of spoken or acted-out religious extremism within a school. That's why we do need to shift gear, really, in terms of the support that's out there and available for our professionals. We also need to be proactive, in my view. I think to be reactive is not enough. We really need to allow young people the space and the time, within the school curriculum, to consider fundamental issues of faith and of citizenship and of the meaning of freedom. That is why, I think, we do need to consider change, through Donaldson, in the current religious education curriculum.

Wel na, nid wyf yn tybio y byddai pob athro yn teimlo'n hyderus o ran sut i ymateb i enghraifft amlwg o eithafiaeth grefyddol lafar neu weithredol mewn ysgol. Dyna pam y mae angen i ni wella'r gefnogaeth sydd ar gael i'n gweithwyr proffesiynol. Mae angen i ni fod yn rhagweithiol hefyd yn fy marn i. Nid wyf yn meddwl fod ymagwedd adweithiol yn ddigon. Mae gwir angen i ni ganiatáu gofod ac amser i bobl ifanc, o fewn y cwricwlwm ysgol, i ystyried materion sylfaenol ffydd a dinasyddiaeth ac ystyr rhyddid. Dyna pam rwy'n meddwl bod angen i ni ystyried newid, drwy Donaldson, i'r cwricwlwm addysg grefyddol ar hyn o bryd.

14:42 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I concur with the Minister's hopes and ambitions, but clearly that has not been sufficiently embedded in our current curriculum because several young people, educated through our education system completely in Wales, have nevertheless left Wales to join ISIS and have not only engaged in radical terrorism, but engaged in trying to promote such extremism back home in Wales.

Cytunaf â gobeithion ac uchelgeisiau'r Gweinidog, ond mae'n amlwg nad yw hynny wedi ei ymgorffori'n ddigonol yn ein cwricwlwm cyfredol gan fod nifer o bobl ifanc, a addysgwyd drwy ein system addysg yn gyfan gwbl yng Nghymru, er hynny wedi gadael Cymru i ymuno ag ISIS, ac nid yn unig wedi cymryd rhan mewn terfysgaeth radical, ond wedi ceisio hyrwyddo eithafiaeth o'r fath yn ôl adref yng Nghymru.

The EU commissioner for education, Tibor Navracsics, has established a process for discussion with education Ministers on citizenship in the curriculum—precisely the issue that the Minister was talking about—and to promote inter-community dialogue. He told the European Parliament's cultural committee, in response to a question from Jill Evans, Member of the European Parliament, that this should include devolved Governments also. Can you tell me, Minister, are you part of this dialogue at present, and, if not, and in light of the comments that you've just made, will you now take the opportunity to commit to becoming part of that dialogue?

Mae comisiynydd addysg yr UE, Tibor Navracsics, wedi sefydlu proses ar gyfer trafod dinasyddiaeth yn y cwricwlwm â Gweinidogion addysg—yr union fater y siaradai'r Gweinidog amdano—ac i hyrwyddo deialog rhyng-gymunedol. Dywedodd wrth bwyllgor diwylliannol Senedd Ewrop, mewn ymateb i gwestiwn gan Jill Evans, Aelod o Senedd Ewrop, y dylai hyn gynnwys y llywodraethau datganoledig hefyd. A allwch ddweud wrthyf, Weinidog, a ydych yn rhan o'r ddeialog hon ar hyn o bryd, ac os nad ydych, ac yn sgil y sylwadau rydych newydd eu gwneud, a wnewch chi yn awr fanteisio ar y cyfle i ymrwymo i ddod yn rhan o'r ddeialog honno?

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:43.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:43.*

14:43 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that comment. I'm not aware of any contact from the level of the EU on this issue, concerning that strand of work that's going on in Europe. So, I will undertake to ask officials to seek out the agenda that he mentions and, as he suggests, engage with it.

Diolch i'r Aelod am y sylw. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gysylltiad o lefel yr UE ar y mater hwn, yn ymwneud â'r maes gwaith sy'n digwydd yn Ewrop. Felly, byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar yr agenda y mae'n sôn amdani, ac yn ymgysylltu â hi, fel y mae'n awgrymu.

### Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

### Youth Work in Wales

14:43 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith ieuenctid yng Nghymru? OAQ(4)0611(ESK)*

*3. Will the Minister make a statement on youth work in Wales? OAQ(4)0611(ESK)*

14:43 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Unfortunately, in many parts of Wales, local decisions are resulting in cutbacks in youth work provision. In response to this, the youth work reference group have recommended that we accelerate our plans, set out in the national youth work strategy, to consider how outcomes for young people can best be secured for the future.

Yn anffodus, mewn sawl rhan o Gymru, mae penderfyniadau lleol yn arwain at doriadau yn y ddarpariaeth o waith ieuenctid. Mewn ymateb i hyn, mae'r grŵp cyfeirio ar waith ieuenctid wedi argymell ein bod yn cyflymu ein cynlluniau, a nodir yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, i ystyried sut y gellir sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ifanc ar gyfer y dyfodol.

14:43 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i chi am eich ateb. Rŷm ni wedi gweld heddiw fan hyn yn y Senedd, yn ogystal ag yn flaenorol, y cyfoeth o ddarpariaeth y mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ei ddarparu i bobl ifanc yng Nghymru. Ond, yn aml iawn, wrth gwrs, mae darparwyr addysg anffurfiol yn bodoli yng nghysgod darparwyr addysg ffurfiol. Mae llawer o bobl ifanc, wrth gwrs, yn cael cymaint, os nad mwy, o fudd o'r gwasanaeth ieuenctid yn aml iawn ag y maen nhw o'r gwasanaeth ysgolion. A gaf fi ofyn, felly, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i bontio rhwng y ddau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y budd gorau o'r ddau wasanaeth?

Thank you for that response. We have seen today here in the Senedd, as well as previously, the wealth of provision that the youth service provides for young people in Wales. But, very often, of course, informal education providers exist in the shadow of formal providers, and many young people get as much, if not more, benefit from the youth service as they do from the school services. Can I ask you, therefore, what the Welsh Government is doing to bridge those two areas to ensure that young people do get the best benefit from both services?

14:44 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You're absolutely right and I completely agree with what you said about the necessity for both the voluntary sector and for the statutory sector in youth work, and the complementary work that they do with our education services. The youth work reference group is made up of representatives from right across the youth work sector—from the voluntary sector as well as from the statutory sector, and a number of expert advisers and so on, and I chair that group. We've been working very hard on what we can do to ensure that youth work, which we very much value, stays alive and well in Wales. So, as to what we're doing, we have a piece of exploratory work at this stage, which is looking at scoping the potential strengths and weaknesses posed by different ways of reorganising youth work in Wales around the national strategy. That group is looking to report back to me very shortly, just after the recess. Then we will be taking something forward based on the work of the youth workers themselves in terms of what we can do to protect and enhance our youth work service.

Rydych yn hollol gywir a chytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedoch am yr angen am y sector gwirfoddol a'r sector statudol mewn gwaith ieuenctid, a'r gwaith cyflenwol y maent yn ei wneud gyda'n gwasanaethau addysg. Lluniwyd y grŵp cyfeirio ar waith ieuenctid o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector gwaith ieuenctid—o'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r sector statudol—a cheir nifer o ymgynghorwyr arbenigol ac yn y blaen, ac rwy'n cadeirio'r grŵp hwnnw. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn ar yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau bod gwaith ieuenctid, a werthfawrogwn yn fawr, yn parhau'n fyw ac yn iach yng Nghymru. Felly, o ran yr hyn rydym yn ei wneud, mae gennym waith archwiliol ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n edrych ar gwmpasu cryfderau a gwendidau posibl y gwahanol ffyrdd o ad-drefnu gwaith ieuenctid yng Nghymru o amgylch y strategaeth genedlaethol. Mae'r grŵp yn bwriadu cyflwyno adroddiad i mi yn fuan iawn, yn union ar ôl y toriad. Yna, byddwn yn datblygu camau yn seiliedig ar waith y gweithwyr ieuenctid eu hunain o ran yr hyn y gallwn ei wneud i ddiogelu a gwella ein gwasanaeth gwaith ieuenctid.

14:45 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, will you join with me in celebrating the tremendous contribution of faith communities in Wales to youth work? The 'Faith in Wales' report, which was published by Gweini a number of years ago, made mention of the fact that there were around 1,000 youth projects that were faith based across Wales and that, of those, a significant proportion were done on a voluntary basis, with volunteer hours that contributed to the £40 million-worth of volunteer hours that were noted in the report. What are you doing to support faith groups in the delivery of those youth services, given the tremendous contribution that they do make, as the largest provider of youth work in the country?

Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i ddathlu cyfraniad enfawr cymunedau ffydd yng Nghymru i waith ieuenctid? Roedd adroddiad 'Ffydd yng Nghymru', a gyhoeddwyd gan Gweini nifer o flynyddoedd yn ôl, yn nodi bod yna oddeutu 1,000 o brosiectau ieuenctid yn seiliedig ar ffydd ar draws Cymru ac o'r rheini, fod cyfran sylweddol yn cael eu cynnal ar sail wirfoddol, gydag oriau gwirfoddoli'n cyfrannu at y gwerth £40 miliwn o oriau gwirfoddolwyr a nodai'r adroddiad. Beth rydych chi'n ei wneud i gynorthwyo grwpiau ffydd i ddarparu'r gwasanaethau ieuenctid hynny, o ystyried y cyfraniad aruthrol y maent yn ei wneud, fel y darparwyr gwaith ieuenctid mwyaf yn y wlad?

14:46 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm more than happy to acknowledge the huge amount of work that groups from all faiths across Wales do in youth work. The Member is absolutely right; they are a vibrant part of the youth work scenario and very much included in our work in terms of taking that strategy forward for the future.

Rwy'n fwy na pharod i gydnabod y gwaith enfawr y mae grwpiau o bob ffydd ledled Cymru yn ei wneud mewn gwaith ieuenctid. Mae'r Aelod yn hollol iawn; maent yn rhan fywiog o'r maes gwaith ieuenctid ac maent wedi eu cynnwys i raddau helaeth iawn yn ein gwaith o ran datblygu'r strategaeth honno ar gyfer y dyfodol.

14:46 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was very pleased to attend, fairly briefly, the Vote @16? engagement conference in the Senedd today, which was made up of different youth groups, including Cardiff Youth Council. I was very pleased that 53 per cent of the young people surveyed had voted to lower the voting age to 16. So, I wondered if the Minister was aware of how much discussion was taking place in youth settings throughout the country about topical issues such as votes at 16.

Roeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol, am ychydig, yng nghynhadledd ymgysylltu Pleidleisio @16? yn y Senedd heddiw, a oedd yn cynnwys gwahanol grwpiau ieuenctid, gan gynnwys Cyngor Ieuenctid Caerdydd. Roeddwn yn falch iawn fod 53 y cant o'r bobl ifanc a holwyd wedi pleidleisio i ostwng yr oedran pleidleisio i 16. Felly, rwy'n meddwl tybed a oedd y Gweinidog yn ymwybodol o faint o drafodaeth sy'n digwydd mewn sefydliadau ieuenctid ledled y wlad ynglŷn â materion cyfoes fel pleidlais yn 16?

14:47 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think there's a lot of discussion about such issues. The Member will know that I am very much a proponent of votes at 16, as the First Minister made clear very recently here in the Senedd. It is a matter discussed very much by youth groups and youth workers. Actually, it is one of the most vibrant discussions in youth work, I think, at the moment. I would just like to make clear that my own view is that the younger you engage somebody in citizenship and in the meaning and understanding of a democracy and living in a free society, the better for all concerned.

Ie, rwy'n credu bod llawer o drafodaeth am faterion o'r fath. Bydd yr Aelod yn gwybod fy mod yn lladmerydd cryf iawn dros bleidleisio yn 16 oed, fel y gwnaeth y Prif Weinidog yn glir yn ddiweddar iawn yma yn y Senedd. Mae'n fater a drafodir yn helaeth gan grwpiau ieuenctid a gweithwyr ieuenctid. A dweud y gwir, rwy'n credu ei fod un o'r pynciau trafod mwyaf bywiog ym maes gwaith ieuenctid ar hyn o bryd. Hoffwn ei gwneud yn glir fy mod o'r farn mai gorau oll i bawb po ieuengaf y byddwch yn cynnwys person mewn materion yn ymwneud â dinasyddiaeth, ystyr democratiaeth a dealltwriaeth ohoni, a byw mewn cymdeithas rydd.

14:47 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, youth workers are not currently registered under the Education Workforce Council, but, during the passage of the Education (Wales) Act 2014, the Minister did indicate that he would include them in the future. I am wondering if you have an update as to when that might take place.

Ddirprwy Weinidog, nid yw gweithwyr ieuenctid yn cael eu cofrestru ar hyn o bryd o dan y Cyngor Gweithlu Addysg, ond yn ystod taith Deddf Addysg (Cymru) 2014, nododd y Gweinidog y byddai'n eu cynnwys yn y dyfodol. Tybed a oes gennych ragor o wybodaeth ynglŷn â phryd y gallai ddigwydd.

14:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Before you reply, a Minister and a senior frontbencher seem to think it's appropriate to have a private conversation here, whilst the rest of us are doing question time. It is not in any way appropriate. Deputy Minister.

Trefn. Cyn i chi ateb, mae'n ymddangos bod Gweinidog ac uwch-Aelod o'r meinciau blaen yn ei hystyried hi'n briodol i gael sgwrs breifat yma, tra bo'r gweddill ohonom yn cynnal y sesiwn gwestiynau. Nid yw'n briodol o gwbl. Ddirprwy Weinidog.

14:48 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm afraid I don't have the information right here in front of me, but I'd be very happy to write to the Member with any update that's available.

Rwy'n ofni nad oes gennyf y wybodaeth yma o fy mlaen, ond byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu at yr Aelod gydag unrhyw newyddion.

### Her Ysgolion Cymru

### Schools Challenge Cymru

14:48 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Her Ysgolion Cymru? OAQ(4)0596(ESK)*

*4. Will the Minister make a statement on Schools Challenge Cymru? OAQ(4)0596(ESK)*

14:48 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Swansea East. I am confident that much has been achieved in the three terms since the programme started. Each Pathways to Success school is now firmly on an improvement journey. Collaborative working has been strengthened within and between schools, and rapid progress is being driven by the accelerated improvement boards.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe. Rwy'n hyderus fod llawer wedi'i gyflawni yn ystod y tri thymor ers i'r rhaglen ddechrau. Mae pob ysgol Llwybrau Llwyddiant bellach yn gadarn ar y daith tuag at welliant. Mae cydweithio wedi cael ei gryfhau yn yr ysgolion a rhyngddynt, ac mae cynnydd cyflym yn cael ei yrru gan y byrddau gwella carlam.

14:48 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for that reply? Secondary schools only provide the last five years of education prior to GCSEs, with primary schools providing the first eight years. What is being done to support primary feeder schools in the Schools Challenge Cymru areas?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw? Y pum mlynedd olaf yn unig o addysg cyn TGAU y mae ysgolion uwchradd yn ei ddarparu, a'r ysgolion cynradd sy'n darparu'r wyth mlynedd gyntaf. Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi ysgolion bwydo cynradd yn ardaloedd Her Ysgolion Cymru?

14:48 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. Primary schools have, of course, been part of the conversation from the beginning of the schools challenge, but I have made the point directly to each and every one of the 40 challenge schools, their advisers and their boards, as well as the local authorities in which they're embedded, that year 2 of the schools challenge should respond wholeheartedly to Professor Graham Donaldson's view that we should have a line of sight from the age of three to 16 in terms of young people's education. So, in year 2 of the challenge, the feeder primary schools of each and every one of the 40 Pathways to Success schools will be placed in no doubt that they are very much part of the challenge and that, particularly, the work that is undergone on transition issues between primary and secondary will be a very live issue during year 2 of the challenge for them all.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae ysgolion cynradd wedi bod yn rhan o'r drafodaeth o ddechrau'r her ysgolion, wrth gwrs, ond rwyf wedi gwneud y pwynt yn uniongyrchol i bob un o 40 ysgol yr her, eu cynghorwyr a'u byrddau, yn ogystal â'r awdurdodau lleol y maent yn rhan ohonynt, y dylai blwyddyn 2 yr her ysgolion ymateb yn gyfan gwbl i farn yr Athro Graham Donaldson y dylem gael llinell welediad glir rhwng tair a 16 oed o ran addysg pobl ifanc. Felly, ym mlwyddyn 2 yr her, ni fydd unrhyw amheuaeth gan ysgolion bwydo cynradd pob un o'r 40 ysgol Llwybrau Llwyddiant eu bod yn rhan annatod o'r her ac yn arbennig, bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar faterion pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn fater a fydd yn cael llawer o sylw yn ystod blwyddyn 2 yr her i bob un ohonynt.

14:50 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In your recent written statement on Schools Challenge Cymru, you mentioned that relationships and collaborative working have been strengthened, but this requires effective communication, something that's been lacking, as was exemplified through Estyn's findings that Schools Challenge Cymru advisers don't share information with the Central South Consortium and the Education Achievement Service for south-east Wales consortium. What measures, Minister, are you able to put in place to improve communications between Schools Challenge Cymru advisers and consortia? Funds are, of course, vital, but communication is crucial to ensure that this money is used in the most effective way possible.

Yn eich datganiad ysgrifenedig diweddar ar Her Ysgolion Cymru, fe sonioch fod y berthynas a'r cydweithio wedi cael eu cryfhau, ond mae hyn yn gofyn am gyfathrebu effeithiol, rhywbeth sydd wedi bod yn brin, fel y gwelwyd yng nghanfyddiadau Estyn nad yw cynghorwyr Her Ysgolion Cymru yn rhannu gwybodaeth gyda Chonsortiwm Canolbarth y De a'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg ar gyfer consortiwm de-ddwyrain Cymru. Weinidog, pa fesurau y gallwch eu rhoi ar waith i wella cyfathrebu rhwng ymgynghorwyr Her Ysgolion Cymru a'r consortia? Mae cyllid yn hanfodol, wrth gwrs, ond mae cyfathrebu'n hanfodol er mwyn sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posibl.

14:50 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the Member is quite right, and I have to say that, in my experience, certainly in my previous career as a teacher and then in my time here as a politician and as a Minister, I cannot recall ever, certainly in my lifetime, such an advanced degree of communication now as you would see happening between schools, particularly those schools in the schools challenge and their partner schools. If you talk to professionals out there, you will hear them say repeatedly that they have never been in such an open and collaborative working environment in their entire careers, and I'm confident that that will pay off. It is a prerequisite, really, of a profession that has a sense of itself and is moving forward.

Wel, mae'r Aelod yn gwbl gywir, ac mae'n rhaid i mi ddweud, yn fy mhrofiad i, yn sicr yn fy ngyrfa flaenorol fel athro ac yna yn fy amser yma fel gwleidydd ac fel Gweinidog, ni allaf gofio cymaint o gyfathrebu ag a geir yn awr yn digwydd rhwng ysgolion, yn sicr yn fy oes i, yn enwedig yr ysgolion yn yr her ysgolion a'u hysgolion partner. Os siaradwch â gweithwyr proffesiynol, fe fyddwch yn eu clywed yn dweud dro ar ôl tro nad ydynt erioed wedi bod mewn amgylchedd gwaith mor agored a chydweithredol ar unrhyw adeg yn ystod eu gyrfaoedd, ac rwy'n hyderus y bydd yn talu ar ei ganfed. Mae'n rhan hanfodol, mewn gwirionedd, o broffesiwn sy'n sicr ohono'i hun ac yn symud ymlaen.

14:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, o edrych ar eich datganiad ddoe ar Her Ysgolion Cymru, hoffwn i ofyn dau gwestiwn byr i chi. Yn gyntaf oll, mae'n ymddangos i mi fod tua trydedd ran o'r arian rŷch chi wedi'i ddyrannu i'r prosiect yma wedi mynd i'r consortia yn hytrach nad i'r ysgolion. A ydych chi'n hyderus mai dyna yw'r cydbwysedd iawn rhwng y gwahanol ddarparwyr fan hyn? Rydych chi hefyd yn gwneud y pwynt yn eich datganiad eich bod chi bron £4 miliwn yn brin o'r £20 miliwn a osodwyd yn y lle cyntaf. A ydych chi'n meddwl, felly, fod mwy o brosiectau a mwy o geisiadau am yr arian yma i ddod gerbron, neu a ydych chi'n defnyddio'r £4 miliwn mewn ffordd arall?

Minister, in looking at your statement of yesterday on Schools Challenge Cymru, I'd like to ask two brief questions. First of all, it appears to me that around a third of the money allocated to this project has gone to the consortia rather than to the schools. Are you confident that that is the correct balance between the various providers here? You've also made the point in your statement that you are almost £4 million short of the £20 million originally designated. Do you think, therefore, that more projects and applications for this funding are in the pipeline, or are you using the £4 million in a different way?

14:52 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, in terms of the balance, of course, we'd have to look more closely at each individual one of the four different consortia. I'm sure the balance is not the same across all of them. But, of course, the business of consortia is school improvement. So, it was always going to be the case that, for instance, around those critical elements like HR support that we were talking about earlier, consortia had an important role to play, and that's quite right. There's no mystery around the £4 million. He is quite right. He's quite forensic in his observations—

Yn gyntaf oll, o ran y cydbwysedd, wrth gwrs, byddai'n rhaid i ni edrych yn fanylach ar bob un o'r pedwar consortia gwahanol yn unigol. Rwy'n siŵr nad yw'r cydbwysedd yr un fath ar draws pob un ohonynt. Ond wrth gwrs, gwaith consortia yw gwella ysgolion. Felly, roedd bob amser yn mynd i fod yn wir, er enghraifft, mewn perthynas â'r elfennau hollbwysig fel cymorth adnoddau dynol yr oeddem yn sôn amdanynt yn gynharach, fod gan y consortia rôl bwysig i'w chwarae, ac mae hynny'n hollol iawn. Nid oes unrhyw ddirgelwch ynglŷn â'r £4 miliwn. Mae'n hollol iawn. Mae'n eithaf fforensig yn ei sylwadau—

14:52 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I passed maths.

Fe basiais mewn mathemateg.

14:52 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. [Laughter.] You'd do well in the new GCSE. It's not going to be spent on any other mysterious item. It has yet to be earmarked in terms of budget lines and so on. But I will undertake here this afternoon to guarantee that the full commitment in terms of finance to Schools Challenge Cymru will be met.

Do. [Chwerthin.] Fe fyddech yn gwneud yn dda yn y TGAU newydd. Nid yw'n mynd i gael ei wario ar unrhyw eitem ddirgel arall. Mae eto i'w glustnodi o ran llinellau cyllideb ac yn y blaen. Ond rwy'n ymrwymo y prynhawn yma i warantu y bydd yr ymrwymiad llawn o ran cyllid i Her Ysgolion Cymru yn cael ei ddarparu.

14:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Questions 5 and 6 are grouped. Question 5, William Graham.

Mae cwestiynau 5 a 6 wedi'u grwpio. Cwestiwn 5, William Graham.

### Cyllid Ysgolion

### School Funding

14:53 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y lefel o gyllid a ddarperir i bob disgybl yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0610(ESK)*

*5. Will the Minister make a statement on the level of funding per pupil in Welsh schools? OAQ(4)0610(ESK)*

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyllid ysgolion? OAQ(4)0598(ESK)*

*6. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's commitment to increase school funding? OAQ(4)0598(ESK)*

14:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. As you mentioned, these questions are grouped. The additional funding we have made available for schools is a matter of record. Recently published figures by the Welsh Government show that the schools' delegated budgets overall have increased from £1.8 billion in 2010-11 to £2.09 billion in 2015-16. This represents an increase per pupil from £4,054 up to £4,629.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel y sonioch, mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu grwpio. Mae'r cyllid ychwanegol sydd ar gael gennym i ysgolion wedi ei gofnodi. Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod cyllidebau dirprwyedig yr ysgolion ar y cyfan wedi cynyddu o £1.8 biliwn yn 2010-11 i £2.09 biliwn yn 2015-16. Dyma gynnydd o £4,054 i £4,629 y disgybl.

14:53 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Minister for his reply. Most commentators agree that pupil funding in Wales is much less than in other parts of the United Kingdom and has consistently fallen, despite your figures given today. Pupils in schools only get one chance, Minister. I believe, genuinely, that you are committed to success, but, with such underfunding, such persistent underfunding, how can this really be achieved?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn cytuno bod cyllid disgyblion yng Nghymru yn llawer llai nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'i fod wedi gostwng yn gyson, er gwaethaf eich ffigurau heddiw. Un cyfle y mae disgyblion ysgol yn ei gael, Weinidog. Rwy'n credu'n gryf eich bod wedi ymrwymo i lwyddiant, ond gyda thangyllido o'r fath, tangyllido parhaus o'r fath, sut y gellir cyflawni hyn mewn gwirionedd?

14:54 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, it's becoming a standard technique of the Tory party now that, if you repeat a statement often enough, then, by definition, it somehow becomes true. Let me draw William Graham's attention to his own Conservative Government's Treasury figures, which have unequivocally stated that funding for education in Wales is 8 per cent higher than in England.

Wel, wrth gwrs, mae'n dod yn dechneg safonol gan y blaid Doriaidd yn awr, os byddwch yn ailadrodd datganiad yn ddigon aml, yna, drwy ddiffiniad, mae rywsut yn dod yn wir. Gadewch i mi dynnu sylw William Graham at ffigurau Trysorlys ei Lywodraeth Geidwadol ei hun, sydd wedi datgan yn ddiamwys fod cyllid ar gyfer addysg yng Nghymru 8 y cant yn uwch nag yn Lloegr.

14:54 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you'll be aware of the recent publication of Welsh Government figures that show that total school spending per head is down by 1 per cent, and, although that obviously reflects the way that public expenditure has also been going, there are wide variations between local authorities in terms of that fall, with Swansea being the biggest fall at 3.9 per cent. How closely are you monitoring the expenditure of local authorities on schools to ensure that they are keeping to the Welsh Government's pledge to fund schools at 1 per cent above the change in the Welsh block?

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol o ffigurau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n dangos bod cyfanswm gwariant ysgol y pen wedi gostwng 1 y cant, ac er bod hynny'n amlwg yn adlewyrchu'r ffordd y mae gwariant cyhoeddus hefyd wedi bod yn mynd, mae amrywiadau eang rhwng awdurdodau lleol o ran y cwymp, gyda'r gostyngiad mwyaf gan Abertawe, ar 3.9 y cant. Pa mor agos ydych chi'n monitro gwariant yr awdurdodau lleol ar ysgolion i sicrhau eu bod yn cadw at addewid Llywodraeth Cymru i ariannu ysgolion 1 y cant yn uwch na'r newid ym mloc Cymru?

14:55 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Very closely. My officials are in constant contact, really, with local authorities that are, it is true, under enormous pressure in terms of their whole budgetary allocation, and so on. But, I am pleased to say that, with the co-operation of Welsh local government, we have, over the Assembly term, delivered that 1 per cent commitment to schools above the rate of change to the Welsh block overall. And what that has meant is a relative protection for schools in Wales as compared with the rest of the UK of £106 million over this Assembly term. That would not have been possible, frankly, without the positive engagement of local government and my officials working closely with them.

Yn agos iawn. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad cyson, mewn gwirionedd, gydag awdurdodau lleol sydd, mae'n wir, o dan bwysau enfawr o ran eu dyraniad cyllidebol cyfan, ac yn y blaen. Ond rwy'n falch o ddweud, gyda chydweithrediad llywodraeth leol yng Nghymru, ein bod wedi cadw at yr ymrwymiad 1 y cant yn uwch na chyfradd y newid i grant bloc Cymru yn gyffredinol dros dymor y Cynulliad. Ac mae hynny wedi golygu diogelwch cymharol i ysgolion Cymru o gymharu â gweddill y DU o £106 miliwn yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl, a dweud y gwir, heb ymgysylltiad cadarnhaol â llywodraeth leol a fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda hwy.

14:56 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Despite the Welsh Government budget being 10 per cent lower in real terms than it was in 2011, we have continually delivered on our commitment to maintain spending on schools in Wales by at least 1 per cent above the Welsh block grant. Of course, in terms of pupil funding, we've uplifted spending on the pupil deprivation grant, much to the pleasure of headteachers in my constituency, and, of course, extended it by £300 per pupil into the education phase. Minister, do you agree with me that this would all be put at risk if the Tories had their way and slashed the education budget in Wales by 12 per cent, as we know they plan to do if, heaven forbid, they were ever to find themselves in power in Wales?

Er bod cyllideb Llywodraeth Cymru 10 y cant yn is mewn termau real nag yn 2011, rydym wedi cyflawni'n gyson ein hymrwymiad i gynnal gwariant ar ysgolion yng Nghymru o leiaf 1 y cant yn uwch na grant bloc Cymru. Wrth gwrs, o ran cyllid disgyblion, rydym wedi cynyddu gwariant ar y grant amddifadedd disgyblion, er mawr bleser i benaethiaid yn fy etholaeth, ac wrth gwrs, wedi ei gynyddu £300 y disgybl i mewn i'r cyfnod addysg. Weinidog, a ydych yn cytuno y byddai hyn i gyd yn cael ei roi mewn perygl pe bai'r Toriaid yn cael eu ffordd ac yn torri'r gyllideb addysg yng Nghymru 12 y cant, fel y gwyddom eu bod yn bwriadu ei wneud pe baent, a'n gwaredo, yn llwyddo i ddod i rym yng Nghymru?

14:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course it would, and that is the agenda that we must guard against here in Wales. The 1 per cent protection has delivered an extra £106 million to our schools in this Assembly term. The schools challenge has delivered an extra £20 million to those 40 schools; the pupil deprivation grant has delivered an extra £82 million, which is not part of the 1 per cent, incidentally, and our twenty-first century schools capital investment programme more than £1.5 billion. There is the vote of confidence that this Government places in our schools system and our commitment to those young people. The benches behind me spent their time during the last general election working hard for the opposite—for cuts. They delivered leaflets for cuts, they knocked doors for cuts and they campaigned for cuts, and now they come to this Chamber and have the temerity to bleat about the pressures that the public services are under here in Wales. For the sake of their own credibility, they should drop what is becoming a rather pathetic charade.

Wrth gwrs y byddai, a dyna'r agenda y mae'n rhaid i ni ochel rhagddi yma yng Nghymru. Mae'r diogelwch o 1 y cant wedi sicrhau £106 miliwn yn ychwanegol i'n hysgolion yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae'r her ysgolion wedi darparu £20 miliwn yn ychwanegol i'r 40 ysgol honno; mae'r grant amddifadedd disgyblion wedi darparu £82 miliwn yn ychwanegol, nad yw'n rhan o'r 1 y cant, gyda llaw, ac mae ein rhaglen fuddsoddi cyfalaf i sicrhau ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain wedi darparu mwy na £1.5 biliwn. Dyna'r bleidlais o hyder y mae'r Llywodraeth hon yn ei rhoi yn ein system ysgolion a'n hymrwymiad i'r bobl ifanc hynny. Treuliodd y meinciau y tu ôl i mi eu hamser yn ystod yr etholiad cyffredinol diwethaf yn gweithio'n galed dros y gwrthwyneb—dros doriadau. Aethant ati i ddosbarthu taflenni dros doriadau, i guro ar ddrysau dros doriadau ac i ymgyrchu dros doriadau, ac yn awr dônt i'r Siambr hon â'r hyfdra i hel esgusion am y pwysau y mae'r gwasanaethau cyhoeddus oddi tano yma yng Nghymru. Er mwyn eu hygrededd eu hunain, dylent roi'r gorau i'r hyn sy'n datblygu'n siarâd braidd yn druenus.

14:58 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, at present, no extra funding is given for dual stream schools, which, by their very nature, of course, lead to a diseconomy of scale, as children numbers in each age group vary widely from year to year and don't neatly pigeonhole into equal class sizes. What intention do you have to allocate additional funding for dual stream schools?

Weinidog, ar hyn o bryd, nid oes arian ychwanegol yn cael ei roi i ysgolion dwy ffrwd, sydd, oherwydd eu natur wrth gwrs, yn arwain at ddiffyg arbedion maint, gan fod niferoedd y plant ym mhob grŵp oedran yn amrywio'n eang o flwyddyn i flwyddyn ac nid ydynt yn ddosbarthiadau o faint cyfartal sy'n ffitio'n daclus. Pa fwriad sydd gennych i ddyrannu cyllid ychwanegol i ysgolion dwy ffrwd?

14:58 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm not aware that—. Well, there is no intention to make any kind of distinction in this regard. If the Member is pointing towards a particular circumstance about which he's concerned, if he would write to me, I will instruct officials to investigate the matter and respond.

Nid oeddwn yn ymwybodol fod—. Wel, nid oes bwriad i wahaniaethu mewn unrhyw fodd yn hyn o beth. Os yw'r Aelod yn cyfeirio at amgylchiad penodol y mae'n bryderus yn ei gylch, os gall ysgrifennu ataf, byddaf yn cyfarwyddo swyddogion i ymchwilio i'r mater ac yn ymateb.

14:59 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you've adequately put the case for the investment that Welsh Government is actually giving to education, but, unfortunately, I think the LEAs are not necessarily passing that on to schools at this point in time. So, can you tell me what actions you will be taking if the LEAs are actually seen to not be putting the 1 per cent into schools, particularly if we're seeing school class sizes going above the level of 30 pupils per class?

Weinidog, rydych wedi cyflwyno'r achos dros y buddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn addysg yn ddigonol, ond yn anffodus, rwy'n credu nad yw'r AALl o reidrwydd yn trosglwyddo hynny ymlaen i ysgolion ar hyn o bryd. Felly, a allwch ddweud wrthyf pa gamau y byddwch yn eu cymryd os gwelir nad yw'r AALlau yn rhoi'r 1 y cant i mewn i ysgolion, yn enwedig os gwelwn fod maint dosbarthiadau ysgol yn codi dros 30 disgybl i bob dosbarth?

14:59 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I can reassure the Member that the LEAs have; they've delivered and I can provide him with the figures. They are there in the public domain, and, over the Assembly term, each and every local authority area has delivered the 1 per cent protection or, in some cases, has gone further and, actually, there's been more investment in schools than that 1 per cent in the most difficult of circumstances. As I have said, I do pay tribute to the WLGA particularly, in terms of the good working relationship between themselves and my officials that has made this possible.

Wel, gallaf sicrhau'r Aelodau fod y AALlau wedi gwneud hynny; maent wedi cyflawni a gallaf roi'r ffigurau iddo. Maent yno i'r cyhoedd eu gweld, a thros dymor y Cynulliad, mae pob ardal awdurdod lleol wedi darparu'r diogelwch o 1 y cant neu, mewn rhai achosion, wedi mynd ymhellach ac wedi buddsoddi mwy yn yr ysgolion, mewn gwirionedd, na'r 1 y cant yn yr amgylchiadau mwyaf anodd. Fel y dywedais, rwy'n talu teyrnged i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn arbennig, o ran y berthynas waith dda rhyngddynt a fy swyddogion sydd wedi gwneud hyn yn bosibl.

15:00 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth i Gyngor Gwynedd chwilio am arbedion a thoriadau o £34 miliwn i'w cyllideb flynyddol nhw, mae'r strategaeth yn golygu torri cyllideb ysgolion o 6 y cant dros y blynyddoedd nesaf yma. A ydy'r cwtogi hwnnw yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws Cymru?

As Gwynedd Council looks for cuts and savings of £34 million to their annual budget, the strategy means cutting school budgets by 6 per cent over these coming few years. Does that reduction reflect the situation throughout Wales?

15:00 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm no expert on what is currently going through in terms of all 22 local authority budgets, but it's plain to see that 1 per cent protection that I've been talking about this afternoon, of course, is relative protection. The architects of the Welsh block, who sit in Whitehall, really have control over the overall investment in the Welsh public realm, and they have made it very clear that they are in the business of shrinking the state. They've made it very clear that they are not interested in the agenda around protecting schools, despite their protests. The pressures upon local government, unfortunately, seem set to grow over the next few years. 'Twas ever thus: vote Tory and get cuts.

Wel, nid wyf yn arbenigwr ar yr hyn sy'n digwydd yn awr o ran holl gyllidebau'r 22 awdurdod lleol, ond mae'n amlwg mai diogelwch cymharol yw'r 1 y cant o ddiogelwch y soniais amdano y prynhawn yma. Penseiri bloc Cymru yn Whitehall sydd â rheolaeth dros y buddsoddiad cyfan yn y byd cyhoeddus yng Nghymru, mewn gwirionedd, ac maent wedi dweud yn glir iawn mai eu bwriad yw crebachu'r wladwriaeth. Maent wedi ei gwneud yn glir iawn nad oes ganddynt ddiddordeb yn yr agenda sy'n ymwneud â diogelu ysgolion er gwaethaf eu protestiadau. Mae'n edrych yn debyg, yn anffodus, fod y pwysau ar lywodraeth leol yn mynd i gynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Dyma fel y bu erioed: pleidleisiwch dros y Torïaid ac fe gewch doriadau.

### Addysg Gymraeg yn Sir y Fflint

### Welsh-language Education in Flintshire

15:01 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg Gymraeg yn Sir y Fflint? OAQ(4)0609(ESK)*

*7. Will the Minister make a statement on Welsh-language education in Flintshire? OAQ(4)0609(ESK)*

15:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Flintshire's revised Welsh in education strategic plan was approved with modifications. Currently 5.7 per cent of all seven-year-olds in the area are in Welsh-medium education, but I expect Flintshire to achieve its target of a 1 per cent to 2 per cent increase per year as set out in its WESP.

Gwnaf, cafodd cynllun strategol diwygiedig Cymraeg mewn addysg Sir y Fflint ei gymeradwyo gydag addasiadau. Ar hyn o bryd, 5.7 y cant o'r holl blant saith oed yn yr ardal sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, ond rwy'n disgwyl i Sir y Fflint gyrraedd ei tharged o 1 y cant i 2 y cant o gynnydd y flwyddyn fel y nodwyd yn ei Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

15:01 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch ichi am eich ateb. Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth gwrs, yn bwriadu cau yr unig ysgol Gymraeg yng ngogledd y sir, sy'n gwasanaethau ardal reit eang. Y bwriad fyddai anfon y disgyblion dros y ffin i sir Ddinbych i ysgol sydd, mae'n debyg, yn llawn. A gaf i ofyn ichi, felly, pa drafodaethau ŷch chi wedi'u cael gyda'r sir i sicrhau eu bod nhw'n cwrdd â'r angen am addysg Gymraeg yn gyffredinol? Hefyd, sut y gall cau ysgol Gymraeg fod yn gydnaws â pholisi Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y disgyblion sydd yn derbyn addysg Gymraeg?

Thank you for your response. Flintshire County Council, of course, intends to close the only Welsh-medium school in the north of the county, which serves a broad area. The intention would be to send those pupils over the border to Denbighshire to a school which is, apparently, full. Can I ask you, therefore, what discussions you've had with the county to ensure that they meet the need for Welsh-medium education more generally? Also, how can closing a Welsh-medium school be in keeping with Welsh Government policy to increase the number of pupils receiving a Welsh-medium education?

15:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I note the Member for North Wales's concern about these issues—entirely legitimate concern—and I'm aware of the proposals in Flintshire, but these are matters for the local authority at present. I could only remind him that Flintshire has noted in its WESP that they will continue to increase Welsh-medium provision throughout the county. My officials will closely monitor developments in that regard over the coming period.

Wel, rwy'n nodi pryder yr Aelod dros Ogledd Cymru ynglŷn â'r materion hyn—pryderon cwbl deg—ac rwy'n ymwybodol o'r cynigion yn Sir y Fflint, ond materion i'r awdurdod lleol yw'r rhain ar hyn o bryd. Ni allwn ond ei atgoffa bod Sir y Fflint wedi nodi yn ei chynllun strategol y bydd yn parhau i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sir. Bydd fy swyddogion yn monitro datblygiadau'n fanwl yn y cyswllt hwnnw dros y cyfnod sydd i ddod.

15:02

## Cwestiwn Brys: Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

## Urgent Question: The Regeneration Investment Fund for Wales

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have accepted two urgent questions under Standing Order 12.66, and I call on Andrew R.T. Davies to ask the first urgent question.

Rwyf wedi derbyn dau gwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66, a galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn y cwestiwn brys cyntaf.

15:02

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyhoeddi adroddiad yr archwilydd cyffredinol am gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio? EAQ(4)0346(NR)*

*Will the Minister make a statement on the publication of the auditor general's report on the regeneration investment fund for Wales? EAQ(4)0346(NR)*

15:03

### Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I thank the Member for his question. We welcome the Auditor General for Wales's report into RIFW and the scrutiny process that will follow. There are clearly lessons to be learned, but the auditor general's report sets out a complex background and provides the basis for a more informed debate about the strengths and weaknesses of the RIFW model.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rydym yn croesawu adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a'r broses graffu i ddilyn. Mae'n amlwg fod gwersi i'w dysgu, ond mae adroddiad yr archwilydd cyffredinol yn nodi cefndir cymhleth ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer trafodaeth fwy gwybodus am gryfderau a gwendidau model Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio.

15:03

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that answer. I appreciate you weren't the Minister at the time, but can you confirm today, Minister, that this is the largest financial loss to the Welsh taxpayer in a single transaction that has occurred, given the district valuer's valuation clearly indicates that £15 million plus has been lost on this particular land deal?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n sylweddoli nad chi oedd y Gweinidog ar y pryd, ond a allwch gadarnhau heddiw, Weinidog, mai dyma'r golled ariannol fwyaf erioed i'r trethdalwr yng Nghymru mewn trafodiad unigol, o ystyried bod prisiad y prisiwr dosbarth yn dangos yn glir bod £15 miliwn a mwy wedi cael ei golli ar y trafodiad tir penodol hwn?

Secondly, would you agree with me that there's been an appalling lack of previous ministerial oversight in this matter, which has led to this massive financial loss to the Welsh taxpayer? That will result in many communities not benefiting from the regeneration that the additional moneys could've provided to those communities the length and breadth of Wales.

Yn ail, a fyddech yn cytuno fod diffyg arolygiaeth weinidogol enbyd ar y mater hwn yn flaenorol wedi arwain at y golled ariannol enfawr i drethdalwyr Cymru? Bydd yn golygu na fydd nifer o gymunedau yn elwa o'r adfywio y gallai'r arian ychwanegol fod wedi ei ddarparu i'r cymunedau hynny ledled Cymru.

15:04

### Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, the Member's right to raise the question, and this is the appropriate context in which he does, but I don't agree with the assumptions that the Member makes. The fact is that these figures are an assumption. They are based on non-cash valuations. There are many valuations in this process. Actually, what I'm really more concerned about—and the Member made no reference to this a few weeks ago—is when we were reduced in our budget in-year by £50 million. You didn't make any statement or call for anybody's heads in the Tory Government in London. Let us stick to the facts here. The report is clear. We recognise there are some issues that we need to respond to, but I'll not take any lessons from the opposition Member on this. [Interruption.]

Wel, mae'r Aelod yn iawn i ofyn y cwestiwn, a dyma'r cyd-destun priodol iddo wneud hynny, ond nid wyf yn cytuno â rhagdybiaethau'r Aelod. Y ffaith yw mai rhagdybied y ffigurau hyn a wna. Maent yn seiliedig ar brisiadau heb fod yn arian parod. Mae yna lawer o brisiadau yn y broses hon. A dweud y gwir, yr hyn rwy'n poeni mwy amdano—ac ni chyfeiriodd yr Aelod at hyn ychydig wythnosau yn ôl—yw pan oeddem £50 miliwn i lawr yn ein cyllideb canol blwyddyn. Ni wnaethoch unrhyw ddatganiad na galw am ben neb yn y Llywodraeth Doriaidd yn Llundain. Gadewch i ni gadw at y ffeithiau yn y fan hon. Mae'r adroddiad yn glir. Rydym yn cydnabod bod rhai materion sydd angen i ni ymateb iddynt, ond ni chymeraf unrhyw wersi gan yr Aelod o'r wrthblaid ar hyn. [Torri ar draws.]

15:04

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Order. Jenny Rathbone.

Trefn. Jenny Rathbone.

15:04 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

The investment management agreement required Amber Infrastructure and Lambert Smith Hampton to comply with EU regulations, including in relation to state aid. Is there any evidence that they provided the board with advice to this effect? Clearly, the way in which the business was actually carried out did not comply in that respect.

Roedd y cytundeb rheoli buddsoddiadau yn ei gwneud yn angenrheidiol i Amber Infrastructure a Lambert Smith Hampton gydymffurfio â rheoliadau'r UE, gan gynnwys mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol. A oes unrhyw dystiolaeth eu bod wedi rhoi cyngor i'r bwrdd i'r perwyl hwn? Yn amlwg, nid oedd y modd y gwnaed y gwaith yn cydymffurfio yn hynny o beth mewn gwirionedd.

Senedd.tv Fideo Video

15:05 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think there are many questions to respond to following the auditor general's report. As I mentioned earlier, I welcome the opportunity for Ministers to clarify that position through the Public Accounts Committee. The Member has written to the Welsh Government in terms of appearing before committee. We have only just received this report. We've got to work through that carefully to ensure that the good points that the organisation was set up for—. The principle was to set this organisation up when there was a crisis in the economy. We took action to develop a structure that would benefit Wales, and we believe we have had some positive effects there, but there are lessons to be learned, clearly.

Rwy'n credu bod llawer o gwestiynau i ymateb iddynt yn dilyn adroddiad yr archwilydd cyffredinol. Fel y soniais yn gynharach, rwy'n croesawu'r cyfle i Weinidogion egluro'r sefyllfa honno drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r Aelod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymddangos gerbron y pwyllgor. Rydym newydd dderbyn yr adroddiad hwn. Mae'n rhaid i ni weithio drwyddo'n ofalus i sicrhau bod y pwyntiau da y cafodd y sefydliad ei sefydlu ar eu cyfer—. Yr egwyddor oedd sefydlu'r sefydliad hwn pan fyddai argyfwng yn yr economi. Rhoddwyd camau ar waith i ddatblygu strwythur a fyddai o fudd i Gymru, a chredwn ein bod wedi cael rhai effeithiau cadarnhaol, ond mae gwersi i'w dysgu, yn amlwg.

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Roedd penderfyniad bwrdd RIFW i werthu'r portffolio tir i'r cwmni o Guernsey yn mynd yn groes i'r strategaeth gwaredu tir yr oedd y bwrdd ei hun newydd ei fabwysiadu. Sut oedd y bwrdd yn adrodd ar ei benderfyniadau i'r Llywodraeth, a phryd oedd y Llywodraeth yn ymwybodol o'r penderfyniad? A wnaed unrhyw ymholiad i'r newid strategaeth?

The decision by the RIFW board to sell the land portfolio to the company from Guernsey was contrary to the land disposal strategy that the board itself had just adopted. How did the board report on its decisions to the Government, and when did the Government become aware of that decision? Were any inquiries made into that change of strategy?

Senedd.tv Fideo Video

15:06 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Of course, the Member will be aware that this whole process was set up in the One Wales Government, at a point when we were very keen to ensure that collective responsibility around this organisation was brought forward. I think the Member will agree with me that this was an innovative programme. This wasn't risk free, but we recognised the fact that we were able to ensure that some of the decisions made were appropriate, and it would be fair to say that some were more risk based. Therefore, we have to work through that process and make sure we give a full answer to this Assembly through the appropriate channels.

Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol fod yr holl broses hon wedi ei sefydlu ar adeg Llywodraeth Cymru'n Un, ar bwynt pan oeddem yn awyddus iawn i sicrhau bod cydgyfrifoldeb yn cael ei ddwyn ymlaen mewn perthynas â'r sefydliad hwn. Rwy'n credu y bydd yr Aelod yn cytuno fod hon yn rhaglen arloesol. Nid oedd hyn heb ei risgiau, ond roeddem yn cydnabod y ffaith ein bod yn gallu sicrhau bod rhai o'r penderfyniadau a wnaed yn briodol, a byddai'n deg dweud bod rhai'n fwy seiliedig ar risg. Felly, mae'n rhaid i ni weithio drwy'r broses honno a sicrhau ein bod yn rhoi ateb llawn i'r Cynulliad hwn drwy'r sianeli priodol.

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware that there are many projects around Wales that are still waiting for the funding that RIFW promised, and not least the one around Mumbles pier in my region. Could you clarify the status of the regeneration fund money previously held by RIFW? In particular, how much is being held by the Welsh Government from this fund? What is the process by which it will be distributed from now? How many of the projects previously earmarked for funding by RIFW for investment are still available for funding from this fund? What priority will be given to these projects considering the dispersal of the regeneration fund?

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod llawer o brosiectau ledled Cymru sy'n dal i aros am y cyllid a addawyd gan Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, a'r un yn gysylltiedig â phier y Mwmbwls yn fy rhanbarth i yn arbennig. A wnewch chi egluro statws arian y gronfa adfywio a ddelid gan y Gronfa yn flaenorol? Yn benodol, faint sy'n cael ei ddal gan Lywodraeth Cymru o'r gronfa hon? Yn rhan o ba broses y bydd yn cael ei ddosbarthu yn awr? Faint o'r prosiectau a glustnodwyd eisoes ar gyfer cyllid gan Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ar gyfer buddsoddi sy'n dal ar gael ar gyfer cyllido o'r gronfa hon? Pa flaenoriaeth a roddir i'r prosiectau hyn o ystyried didoliad y gronfa adfywio?

Senedd.tv Fideo Video

15:07 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for the Member's question, and it's fair to say he has raised this question consistently through the programme and its development. I will ask the Minister for Communities and Tackling Poverty to write to the Member with details, and we'll publish a letter in the Library for openness and transparency, on the detailed question that the Member raises.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod, ac mae'n deg dweud ei fod wedi gofyn y cwestiwn hwn yn gyson drwy gydol y rhaglen a'i datblygiad. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion, a byddwn yn cyhoeddi llythyr yn y Llyfrgell er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw ar y cwestiwn manwl y mae'r Aelod yn ei ofyn.

But let's look at this: there have been issues with this fund. We recognise that, we were very clear, and the auditor general recognised that. We took steps to ensure that we managed this process at the appropriate times, but with challenges. I'm with the Member. The regional Member represents the Swansea bay area. I think there are new opportunities that we have to challenge, and we have to look at making the right investments in the right places, and I will get the Minister to write to him personally.

Ond gadewch i ni edrych ar hyn: cafwyd problemau gyda'r gronfa hon. Rydym yn cydnabod hynny, roeddem yn glir iawn, ac roedd yr archwilydd cyffredinol yn cydnabod hynny. Rhoesom gamau ar waith i sicrhau ein bod yn rheoli'r broses hon ar yr adegau priodol, ond gyda heriau. Rwy'n cefnogi'r Aelod. Mae'r Aelod rhanbarthol yn cynrychioli ardal bae Abertawe. Rwy'n meddwl bod cyfleoedd newydd sy'n rhaid i ni eu herio, ac mae'n rhaid i ni ymdrechu i wneud y buddsoddiadau cywir yn y lleoedd cywir, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu ato'n bersonol.

15:08 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I see that the former Welsh Development Agency land at Wonastow Road in Monmouth was part of this land sale—land that was subsequently approved for housing development to meet the Welsh Government's own additional demands for increased housing in Monmouthshire. Convenient, that, you might say. You said that this is not a significant amount of money, but it is actually £15 million overall. Minister, the public is getting the impression that this Welsh Government really doesn't do finance. What are you doing to make sure that this sort of debacle does not happen in future, and that the public can trust you to deal with publicly owned land to the best of your ability and as they would expect? This is public land. They trust you to deal with it properly.

Weinidog, rwy'n gweld bod tir Awdurdod Datblygu Cymru gynt yn Heol Wonastow yn Nhrefynwy yn rhan o dir y gwerthiant tir hwn—tir a gafodd ei gymeradwyo wedyn ar gyfer datblygiad tai i ddiwallu galw ychwanegol Llywodraeth Cymru ei hun am fwy o dai yn Sir Fynwy. Cyfleus, fe allech ddweud. Fe ddywedoch nad yw hwn yn swm sylweddol o arian, ond mae'n £15 miliwn i gyd. Weinidog, mae'r cyhoedd yn cael yr argraff nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu delio â chyllid mewn gwirionedd. Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau nad yw'r math yma o helynt yn digwydd yn y dyfodol, ac y gall y cyhoedd ymddiried ynoch i ddelio â thir sy'n eiddo cyhoeddus hyd eithaf eich gallu, ac fel y byddent yn ei ddisgwyl? Mae hwn yn dir cyhoeddus. Maent yn ymddiried ynoch i ddelio ag ef yn briodol.

15:09 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, again, I'm grateful for the Member's question. The issue for us is about what the real value of this land was. Many of the valuers, including the district valuer, came up with different values than appropriated in the committee report.

Wel, unwaith eto, rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Y mater sy'n codi i ni yw beth oedd gwir werth y tir hwn. Nododd llawer o'r priswyr, gan gynnwys y prisiwr dosbarth, brisiau gwahanol i'r hyn a bennwyd yn adroddiad y pwyllgor.

I would say to the Member, at times when the UK was in financial crisis, we were very brave to bring forward a programme, collectively, to look at major investments for the people of Wales. Building the economy was something that we were very keen to pursue. [Interruption.] Now, the Members can baulk over the other side, but the reality of this is that we have made significant investment and we have made changes to communities, and we will continue to do so. There are challenges set out by the auditor general in his report, and we will take them very seriously and amend them as we move forward.

Fe fyddwn yn dweud wrth yr Aelod, ar adegau pan oedd y DU mewn argyfwng ariannol, roeddem yn ddewr iawn i gyflwyno rhaglen ar y cyd i edrych ar fuddsoddiadau mawr ar gyfer pobl Cymru. Roedd adeiladu'r economi yn rhywbeth roeddem yn awyddus iawn i fynd ar ei drywydd. [Torri ar draws.] Nawr, gall Aelodau wrthod hyn ar yr ochr arall, ond realiti hyn yw ein bod wedi gwneud buddsoddiad sylweddol ac rydym wedi newid cymunedau, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Gosodwyd heriau gan yr archwilydd cyffredinol yn ei adroddiad, a byddwn o ddifrif yn eu cylch ac yn eu diwygio wrth i ni symud ymlaen.

15:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:10 **Cwestiwn Brys: Tawel Fan** / **Urgent Question: Tawel Fan** Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to ask the second urgent question.

Galwaf ar Darren Millar i ofyn yr ail gwestiwn brys.

15:10 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pryderon newydd a godwyd gan berthnasau cleifion Tawel Fan ynghylch cyfathrebu gwael a diffyg cynnydd o ran ymchwiliadau'r bwrdd iechyd hyd yma? EAQ(4)0621(HSS)*

*Will the Minister make a statement on the fresh concerns raised by the relatives of Tawel Fan patients over poor communication and a lack of progress in the health board's investigations to date? EAQ(4)0621(HSS)*

15:10 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Clearly, I sympathise with the families affected by a failure that has taken place in the administrative process. I understand it'll be deeply frustrating for them. I note the apology Simon Dean, the interim chief executive officer, has offered to relatives, and his assurance that steps have been put in place to improve communications. More widely, the board yesterday published detailed plans on taking forward its investigations.

Yn amlwg, rwy'n cydymdeimlo â'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan fethiant sydd wedi digwydd yn y broses weinyddol. Rwy'n deall ei fod yn rhwystredig iawn iddynt. Nodaf yr ymddiheuriad y mae Simon Dean, y prif swyddog gweithredol interim, wedi ei roi i berthnasau, a'i sicrwydd fod camau wedi eu rhoi ar waith i wella cyfathrebu. Yn fwy cyffredinol, ddoe cyhoeddodd y bwrdd gynlluniau manwl ar gyfer bwrw ymlaen â'i ymchwiliadau.

15:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that response, Minister. Frankly, patients' families are fed up of the apologies that they're receiving. They want to see some determined change from the board in delivering on the recommendations in the Ockenden report. Let me just put this into context. We have individual families who were not contacted about important meetings that they should have attended to receive the outcome of mortality reviews undertaken into the deaths of their relatives. They were notified days later. In one case, a deceased relative received a letter in a home where he was, obviously, no longer living. This is completely unacceptable from a board that is yet to rebuild the trust and confidence that the people of north Wales need to have in their mental health services. All of this, of course, on yet another day when we read of shocking inadequacies in the standards in another mental health unit in north Wales—in the Heddfan unit, of course, in Wrexham. What action are you going to take to ensure that this board pulls itself together and gets itself into gear, so that the people of north Wales can have confidence in the mental health services not just at Ysbyty Glan Clwyd but in the other two main hospitals in north Wales, as well?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A dweud y gwir, mae teuluoedd cleifion wedi cael llond bol ar yr ymddiheuriadau a gânt. Maent am weld newid pendant gan y bwrdd yn gysylltiedig â chyflawni'r argymhellion yn adroddiad Ockenden. Gadewch i mi roi hyn mewn cyd-destun. Mae gennym deuluoedd unigol na chysylltwyd â hwy i sôn am gyfarfodydd pwysig y dylent fod wedi eu mynychu i glywed canlyniad yr adolygiadau a wnaed i farwolaethau eu perthnasau. Cawsant eu hysbysu ddiwrnod wedyn. Mewn un achos, derbyniodd perthynas ymadawedig lythyr mewn cartref lle nad oedd, yn amlwg, yn byw mwyach. Mae hyn yn gwbl annerbyniol gan fwrdd sydd eto i ailadeiladu'r ymddiriedaeth a'r hyder sydd eu hangen ar bobl gogledd Cymru yn eu gwasanaethau iechyd meddwl. Hyn i gyd, wrth gwrs, ar ddiwrnod arall eto pan ddarllenwn am ddiffygion syfrdanol yn y safonau mewn uned iechyd meddwl arall yng ngogledd Cymru—yn uned Heddfan, yn Wrecsam, wrth gwrs. Pa gamau a gymerwch i sicrhau bod y bwrdd hwn yn gwneud ymdrech ac yn rhoi trefn arno'i hun, er mwyn i bobl gogledd Cymru gael hyder yn y gwasanaethau iechyd meddwl, nid yn unig yn Ysbyty Glan Clwyd ond yn y ddau brif ysbyty arall yng ngogledd Cymru hefyd?

15:12 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do think it's incumbent on us to bear in mind the remarkably difficult circumstances that families find themselves in following what happened in Tawel Fan, and to address our comments in a responsible and reasoned manner. There is no dispute that the errors that took place in communication are not acceptable. I do not believe they're acceptable; the health board does not pretend they're acceptable. In terms of improving that communication, the interim chief executive has already introduced a dedicated resource to ensure that the families have a trusted point of contact to resolve the issues around communication. That, in itself, is a matter that has maintained a level of trust with those families. I do commend them for their remarkable dignity and forbearance in this matter. I also recognise from the BBC report yesterday that the families remain committed to working with the health board to see improvements.

Rwy'n meddwl ei bod yn ddyletswydd arnom i gadw mewn cof yr amgylchiadau hynod o anodd y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth ddilyn yr hyn a ddigwyddodd ar ward Tawel Fan, ac i fynd i'r afael â'n sylwadau mewn ffordd gyfrifol a rhesymegol. Nid oes unrhyw ddadl nad yw'r camgymeriadau a ddigwyddodd o ran cyfathrebu yn dderbyniol. Nid wyf yn credu eu bod yn dderbyniol; nid yw'r bwrdd iechyd yn honni eu bod yn dderbyniol. O ran gwella cyfathrebu, mae'r prif weithredwr dros dro eisoes wedi cyflwyno adnodd penodol i sicrhau bod gan y teuluoedd gyswllt dibynadwy i ddatrys y materion sy'n codi o ran cyfathrebu. Mae hynny, ynddo'i hun, yn fater sydd wedi cynnal lefel o ymddiriedaeth ymhlith y teuluoedd hynny. Rwy'n eu canmol am eu hurddas a'u hamynedd hynod yn y mater hwn. Sylwais hefyd yn adroddiad y BBC ddoe fod y teuluoedd yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda'r bwrdd iechyd i sicrhau gwelliannau.

Wherever there are challenges and problems—we have said this before—we will look to see those addressed. That relates to the Healthcare Inspectorate Wales report that has been published today, and it relates to our commitment to see through the requirement that we expect the health board to deliver on resolving issues around Tawel Fan. We are doing this in the proper manner. We could not, and the health board could not, take matters further forward. On the significant delays in the police and Crown Prosecution Service investigations, the professional regulators will do their job. The challenge now is to resolve the remaining matters of investigation fairly, robustly and promptly. The health board understand that, and the update yesterday provided useful and helpful information about addressing each and every one of the Ockenden report recommendations.

Lle bynnag y bo heriau a phroblemau—rydym wedi dweud hyn o'r blaen—byddwn yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn cael sylw. Mae hynny'n berthnasol i adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gyhoeddwyd heddiw, ac mae'n ymwneud â'n hymrwymiad gyflawni'r gofyniad ein bod yn disgwyl i'r bwrdd iechyd ddatrys problemau'n ymwneud â ward Tawel Fan. Rydym yn gwneud hyn yn y ffordd gywir. Ni allem, ac ni allai'r bwrdd iechyd, ddatblygu pethau ymhellach. Ar yr oedi sylweddol yn ymchwiliadau'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, bydd y rheoleiddwyr proffesiynol yn gwneud eu gwaith. Yr her yn awr yw datrys y materion sy'n dal i gael eu harchwilio yn deg, yn gadarn ac yn brydlon. Mae'r bwrdd iechyd yn deall hynny, ac roedd y diweddariad ddoe yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â mynd i'r afael â phob un o argymhellion adroddiad Ockenden.

15:14 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I believe what you've just said about the families and the way in which they want to stay committed to the health board and to help the health board in a very positive way can only be achieved if Donna Ockenden is at the centre of that. I think Donna Ockenden has got the confidence of the families, certainly the families that I've been dealing with, over the Tawel Fan issue. So, I think I've asked this question before, but I think I need to put it back on record. Will you ensure that the health board works with the families, through Donna Ockenden, so that those families can put their positive attention towards making sure that we don't face another Tawel Fan? I think it's important that we signal to those families that we are very seriously looking at ways in which we can avoid or attempt to avoid another Tawel Fan situation.

Ddirprwy Weinidog, rwy'n credu mai'r unig ffordd y gellir cyflawni'r hyn rydych newydd ei ddweud am y teuluoedd a'r modd y maent yn dymuno parhau'n ymrwymedig i'r bwrdd iechyd a helpu'r bwrdd iechyd mewn modd cadarnhaol iawn yw drwy sicrhau bod Donna Ockenden yn ganolog i hynny. Rwy'n meddwl bod gan y teuluoedd hyder yn Donna Ockenden ynglŷn â mater Tawel Fan, yn sicr y teuluoedd rwyf fi wedi ymwneud â hwy. Felly, rwy'n meddwl fy mod wedi gofyn y cwestiwn hwn o'r blaen, ond rwy'n meddwl bod angen i mi ei roi yn y cofnod eto. A wnewch chi sicrhau bod y bwrdd iechyd yn gweithio gyda'r teuluoedd, drwy Donna Ockenden, fel y gall y teuluoedd hynny roi eu sylw cadarnhaol tuag at wneud yn siŵr nad ydym yn wynebu Tawel Fan arall? Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni ddangos i'r teuluoedd ein bod yn edrych o ddifrif ar ffyrdd o osgoi neu geisio osgoi sefyllfa arall fel Tawel Fan.

15:15 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for the question. You touched on a really important issue for families, about confidence and trust. Those families have confidence and trust in Donna Ockenden, given the independent report that she provided—and it was genuinely independent—and, in the content of it, she showed she's listened to them and taken seriously their concerns, and I'm pleased that the board have continued to engage Donna Ockenden to provide a greater level of independence and reassurance in their ongoing work. That is particularly important in addressing the concerns that families and the wider public still have, and it's also why the individual dedicated resource they have for a named person to provide the communication between families and the health board is important, too, because that's another person they have trust and confidence in. It's also why Peter Meredith-Smith is helping the board—another independent person to look at the wider mental health service issues. That point about independence underscores our view about seeing improvement made to try and avoid, if at all possible, anything like Tawel Fan happening across the rest of the NHS in Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydych yn cyffwrdd â mater gwirioneddol bwysig i deuluoedd, ynglŷn â hyder ac ymddiriedaeth. Mae'r teuluoedd hynny yn ymddiried yn Donna Ockenden, yn sgil yr adroddiad annibynnol a ddarparodd—ac roedd yn wirioneddol annibynnol—ac o ran ei gynnwys, dangosodd ei bod wedi gwrando arnynt ac wedi bod o ddifrif ynglŷn â'u pryderon, ac rwy'n falch fod y bwrdd wedi parhau i gynnwys Donna Ockenden er mwyn darparu lefel uwch o annibyniaeth a thawelwch meddwl yn eu gwaith parhaus. Mae hynny'n arbennig o bwysig wrth fynd i'r afael â'r pryderon sydd gan y teuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol, a dyna pam hefyd y mae'r adnodd penodol unigol sydd ganddynt i sicrhau bod unigolyn a enwir yn gyfrwng i gyfathrebu rhwng teuluoedd a'r bwrdd iechyd yn bwysig hefyd, oherwydd dyna berson arall y mae ganddynt ffydd a hyder ynddo. Dyna pam hefyd y mae Peter Meredith-Smith yn helpu'r bwrdd—person annibynnol arall i edrych ar faterion ehangach y gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r pwynt ynghylch annibyniaeth yn tanlinellu ein barn ynghylch gweld gwelliant yn cael ei wneud er mwyn ceisio atal, os yn bosibl o gwbl, unrhyw beth tebyg i'r hyn a ddigwyddodd ar ward Tawel Fan rhag digwydd ar draws gweddill y GIG yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

15:16 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Fe gysylltodd un o fy etholwyr â chi yn ddiweddar, Ddirprwy Weinidog, i godi pryderon am y gofal a dderbyniodd ei thad ar ward Gwanwyn yn Wrecsam Maelor. Fe ateboch chi yn dweud bod yn flin gennych chi i ddarllen am achos ei thad, cyn mynd ymlaen i ddweud eich bod chi'n gresynu at y driniaeth a ddarparwyd iddo fe yn Nhawel Fan, er, wrth gwrs, bod y llythyr yn ei gwneud yn glir mai mewn ysbyty gwbl wahanol, yn Wrecsam Maelor, yr oedd ei thad—ac mae'r llythyr gen i yn fan hyn. Sut, felly, y mae disgwyl i deuluoedd cleifion Tawel Fan gael hyder yn ymchwiliad y bwrdd i'r achosion erchyll yno pan nad yw Llywodraeth Cymru hyd yn oed yn rhoi'r sylw dyledus i lythyrau y maen nhw'n eu derbyn sy'n codi gofidiau difrifol ynglŷn â'r gwasanaeth yng ngogledd Cymru?

A constituent of mine contacted you recently, Deputy Minister, to raise concerns about the care that her father received on the Gwanwyn ward in Wrexham Maelor. You responded saying you were sorry to read about her father's case, before going on to say that you regretted the treatment provided to him in Tawel Fan, although, of course, the letter made it clear that he was in Wrexham Maelor, an entirely different hospital—and I have the letter here. How, then, can the families of the Tawel Fan patients gain confidence in the board inquiry into the terrible cases there when even the Welsh Government can't give due attention to correspondence they receive that raise serious concerns about the service in north Wales?

Senedd.tv Fideo Video

15:17 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

I think that's a very unfortunate way to try and address a serious issue, I have to say. The correspondence that I provided was to provide the context of the concern that we have in addressing Tawel Fan and the fact that we do take issues seriously. I read through the correspondence that the individual member of the public provided about his family and their treatment in a different part of north Wales. We take seriously all the issues about the mental health service in north Wales. It's why it's one of the parts of the special measures that the Minister announced and implemented, and it's why there is an independent person to go and assist the board on that wider view on the mental health service. I've written again to the constituent, again clarifying that I'm trying to give context to the comments that I made about ensuring that we take Tawel Fan seriously and his individual issue seriously. He provided that commentary to us to give another example about where he felt there were concerns that we should look at, and we certainly will do that.

Rwy'n credu bod honno'n ffordd anffodus iawn o geisio mynd i'r afael â mater difrifol, rhaid i mi ddweud. Mae'r ohebiaeth a ddarperais i fod i osod cyd-destun y pryder sydd gennym wrth fynd i'r afael â mater Tawel Fan a'r ffaith ein bod o ddifrif ynghylch y materion hyn. Darllenais drwy'r ohebiaeth a ddarparodd yr aelod unigol o'r cyhoedd am ei deulu a'u triniaeth mewn rhan wahanol o ogledd Cymru. Rydym o ddifrif ynghylch yr holl faterion sy'n codi ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd meddwl yng ngogledd Cymru. Dyna pam y mae'n un o rannau'r mesurau arbennig a gyhoeddodd y Gweinidog a'u rhoi ar waith, a dyna pam y ceir person annibynnol i fynd i gynorthwyo'r bwrdd i edrych yn fwy eang ar y gwasanaeth iechyd meddwl. Rwyf wedi ysgrifennu eto at yr etholwr, yn egluro unwaith eto fy mod yn ceisio rhoi cyd-destun i'r sylwadau a wneuthum ynglŷn â sicrhau ein bod o ddifrif ynghylch Tawel Fan a'i broblem unigol ef. Darparodd y sylwebaeth honno ar ein cyfer i roi enghraifft arall o ble y teimlai fod pryderon y dylem edrych arnynt, a byddwn yn sicr o wneud hynny.

Senedd.tv Fideo Video

15:18 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You've indicated, Deputy Minister, that special measures are applicable to mental health services. There was an unannounced visit at Gwanwyn ward within the Heddfan unit some months ago, where certainly matters of great concern were raised. The report published today by Healthcare Inspectorate Wales into the Heddfan unit, I think, raises real issues with regard to estates maintenance in north Wales. It's a relatively new unit, and yet physical conditions within the ward are criticised. I'm also aware, from a constituent who contacted me this morning, that a person is now being admitted to the Hergest ward at Ysbyty Gwynedd on the third occasion in a month, having been told last week that there were no psychiatric beds available across north Wales, and had walked 4.5 miles from her home during the course of yesterday evening. Now, one of the issues that's also raised in the Heddfan report is a concern that the number of beds within the unit was less than the number of patients in the unit. Can I therefore ask that you actually outline to all of us as Members in north Wales exactly what greater assurance we can gain from special measures than clearly is the case with the way that the board have been operating to date?

Rydych wedi nodi, Ddirprwy Weinidog, fod mesurau arbennig yn gymwys ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Cafwyd ymweliad dirybudd â ward Gwanwyn yn uned Heddfan rai misoedd yn ôl, lle tynnwyd sylw at faterion o bryder mawr. Rwy'n meddwl bod yr adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar uned Heddfan yn crybwyll problemau go iawn mewn perthynas â chynnal a chadw ystadau yng ngogledd Cymru. Mae'n uned gymharol newydd, ac eto caiff cyflwr ffisegol y ward ei feirniadu. Rwyf hefyd wedi cael gwybod gan etholwr a gysylltodd â mi y bore yma, fod person yn cael ei dderbyn i ward Hergest yn Ysbyty Gwynedd yn awr am y trydydd tro mewn mis, ar ôl cael gwybod yr wythnos diwethaf nad oedd gwelyau seiciatrig ar gael ar draws gogledd Cymru, ac roedd wedi cerdded 4.5 milltir o'i chartref neithiwr. Nawr, un o'r materion sy'n codi yn adroddiad Heddfan hefyd yw pryder fod nifer y gwelyau yn yr uned yn llai na nifer y cleifion yn yr uned. A gaf fi felly ofyn i chi amlinellu i bob un ohonom sy'n Aelodau yng ngogledd Cymru yn union pa sicrwydd mwy y gallwn ei gael o'r mesurau arbennig na'r hyn sy'n amlwg o ran y ffordd y mae'r bwrdd wedi bod yn gweithredu hyd yn hyn?

15:19 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the question, and I note the content of the report from Healthcare Inspectorate Wales, following their unannounced visit. The report is balanced. It notes the areas that are positive to the service, and there are many positives to the level of care and quality of treatment that people receive. It also recognises there are issues for immediate improvement, and they have sought immediate assurance that I expect the board to provide in that individual instance. I recognise the issues you raised about bed management and the physical conditions within that particular part of the service. I'm interested in when we report after four months on progress with special measures, there will be an honest appraisal of what happens. The 100-day plans that are being introduced are designed to ensure that there are real and measurable points in progress that the public and stakeholders, including Assembly Members, can see and have confidence in. But, in terms of the assessment of what progress this service has made, there'll be no soft-soaping. So, if there is a requirement for further progress to be made, then that will be laid out for all Members to see and understand as well. I'm not interested in trying to hide away from accountability or responsibility for the board or ourselves; I'm interested in having an honest conversation with Members of this Chamber and the wider public about the sort of service we expect to see and people in north Wales deserve to receive.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn, ac rwy'n nodi cynnwys yr adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn eu hymweliad dirybudd. Mae'r adroddiad yn gytbwys. Mae'n nodi'r meysydd sy'n gadarnhaol i'r gwasanaeth, ac mae llawer o bethau cadarnhaol ynghylch lefel y gofal ac ansawdd y driniaeth y mae pobl yn ei chael. Mae hefyd yn cydnabod bod materion i'w gwella ar unwaith, ac maent wedi ceisio sicrwydd ar unwaith y disgwyliaf i'r bwrdd ei roi yn yr achos hwnnw. Rwy'n cydnabod y materion a godwyd gennych ynghylch rheoli gwelyau a'r amodau ffisegol yn y rhan benodol honno o'r gwasanaeth. Mae gennyf ddiddordeb mewn gweld arfarniad gonest o'r hyn sy'n digwydd, pan fyddwn yn cyflwyno adroddiad ar ôl pedwar mis ar gynnydd ar y mesurau arbennig. Mae'r cynlluniau 100 diwrnod sy'n cael eu cyflwyno wedi eu llunio i sicrhau bod pwyntiau gwirioneddol a mesuradwy ar y gweill y gall y cyhoedd a rhanddeiliaid, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, eu gweld ac ymddiried ynddynt. Ond o ran asesu pa gynnydd y mae'r gwasanaeth hwn wedi ei wneud, ni fydd unrhyw seboni. Felly, os oes gofyniad i sicrhau cynnydd pellach, caiff ei gyflwyno i'r holl aelodau ei weld a'i ddeall hefyd. Nid oes gennyf ddiddordeb mewn ceisio cuddio rhag atebolrwydd na chyfrifoldeb ar ran y bwrdd na ni ein hunain; Mae gennyf ddiddordeb mewn cael sgwrs onest gydag Aelodau'r Siambr hon a'r cyhoedd yn gyffredinol am y math o wasanaeth rydym yn disgwyl ei weld ac y mae pobl gogledd Cymru yn haeddu ei gael.

15:20

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Deputy Minister, when the issue of the Tawel Fan report was announced here, I think it's fair to say this Chamber was in great shock. I certainly had confidence that you were actually going to go in there and make a difference, along with the new acting chief executive. We heard from one lady, whose late brother was a Tawel Fan patient for nine months, that communication was poor and that she was sent an invitation by letter that had been sent to the wrong address, arriving two days after the meeting had happened. These people want redress and they want accountability, but I can tell you now the whole system within Betsi Cadwaladr is an absolute nightmare for families. In other departments within that trust—. I can tell you now, I attended a multidisciplinary meeting—a second one—with a grieving family only recently, only to find that members of staff and officers who should have been there weren't present, to find that promised recorded notes would have been available and that for the days that that person had been in hospital, the nursing records had been omitted. Now, we've just received another letter for another meeting asking the family, 'Who would you like to be present at the meeting?' and that is just one example of many. The complaints system is burning away quite merrily. You write in now and you get a standard letter saying, 'I'm afraid this complaint will not be dealt with within the usual 30 days', then it goes on to two months, to three months, and I've got complaints going on—I've even had one going on two years. The whole thing is an absolute disgrace. I want you as a Deputy Minister and the Minister to accept some responsibility, but I can't see any difference today to procedures over the way we're dealing with constituents on their behalf. There is nothing going on of any meaningful worth since you intervened. I think you should be held responsible for this—

Ddirprwy Weinidog, pan gyhoeddwyd mater adroddiad Tawel Fan yma, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud fod y Siambr hon wedi cael sioc fawr. Yn sicr, roeddwn yn hyderus eich bod yn mynd i fynd i mewn yno a gwneud gwahaniaeth, gyda'r prif weithredwr dros dro newydd. Clywsom gan un wraig, y bu ei diweddar frawd yn un o gleifion Tawel Fan am naw mis, fod cyfathrebu yn wael a'i bod wedi cael gwahoddiad drwy lythyr a anfonwyd i'r cyfeiriad anghywir, a gyrhaeddodd ddeuddydd ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal. Mae'r bobl hyn eisiau gweld camau unioni'n cael eu rhoi ar waith ac maent eisiau atebolrwydd, ond gallaf ddweud wrthych yn awr fod y system gyfan yn Betsi Cadwaladr yn hunllef lwyr i deuluoedd. Mewn adrannau eraill yn yr Ymddiriedolaeth—. Gallaf ddweud wrthych yn awr, bûm mewn cyfarfod amlddisgyblaethol—ail un—gyda theulu a oedd yn galaru yn ddiweddar, a darganfod bod aelodau o staff a swyddogion a ddylai fod wedi bod yno yn absennol, a darganfod y byddai cofnodion a oedd wedi'u haddo wedi bod ar gael a bod y cofnodion nyrsio ar gyfer y dyddiau y bu'r person yn yr ysbyty wedi eu gadael allan. Nawr, rydym newydd gael llythyr arall yn trefnu cyfarfod arall ac yn gofyn i'r teulu, 'Pwy fyddech chi'n hoffi iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod?' a dim ond un enghraifft o lawer yw honno. Mae'r system gwynion yn llosgi'n ulw yn hapus braf. Rydych yn ysgrifennu yn awr a byddwch yn cael llythyr safonol yn dweud, 'Rwy'n ofni na chaiff y gŵyn hon ei datrys o fewn y 30 diwrnod arferol', yna mae'n mynd yn ddeufis, yn dri mis, ac mae gennyf gwynion sydd wedi bod ar y gweill—mae gennyf un sydd wedi bod ar y gweill ers dwy flynedd. Mae'r holl beth yn warth llwyr. Rwyf am i chi fel Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog ysgwyddo peth cyfrifoldeb, ond ni allaf weld unrhyw wahaniaeth heddiw i weithdrefnau o ran y ffordd rydym yn delio ag etholwyr ar eu rhan. Nid oes dim yn digwydd sydd o unrhyw werth ystyrlon ers i chi ymyrryd. Rwy'n credu y dylech ysgwyddo cyfrifoldeb am hyn—

15:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

15:22

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Deputy Presiding Officer, people are coming in every day heartbroken about the situations that are arising. I'm writing off, in all good faith, hoping that someone at the other end is listening, that someone at the other end will pick it up, and they're not doing. I'm asking you and I'm also telling you—

Ddirprwy Lywydd, mae pobl yn dod i mewn bob dydd yn torri eu calonnau am y sefyllfaoedd sy'n codi. Rwy'n ysgrifennu llythyron, gyda phob ewyllys da, yn gobeithio y bydd rhywun yn y pen arall yn gwrando, y bydd rhywun ar y pen arall yn edrych ar y mater, ac nid ydynt yn gwneud hynny. Rwy'n gofyn i chi, ac rwyf hefyd yn dweud wrthych —

15:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I've given you a lot of latitude. You can have one more sentence and then I'm going to the Deputy Minister.

Rwyf wedi rhoi llawer o ras i chi. Gallwch gael un yn frawddeg arall ac yna rwy'n troi at y Dirprwy Weinidog.

15:23

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Okay. Perhaps I should write to you now on every case like this, and believe me, I think you'll be—

Iawn. Efallai y dylwn ysgrifennu atoch yn awr ar bob achos fel hwn, a chredwch fi, rwy'n credu y byddwch yn—

15:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you. Deputy Minister.

Diolch yn fawr. Ddirprwy Weinidog.

15:23

### Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—kept busy over the summer.

[Yn parhau.]—cael eich cadw'n brysur dros yr haf.

15:23

### Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if there is an individual case that the Member outlines, whether it be unacceptable delays in a response or that communication errors have been made, then the Member should support her constituents and raise it directly with the board. It would be entirely appropriate for her to write to me about that, and I do take all of these matters seriously. I do read the correspondence that we are provided with and the replies that then go out; I take that part of this job very, very seriously. I understand the impact that it has on individuals.

Wel, os oes achos unigol y mae'r Aelod yn ei amlinellu, boed yn oedi annerbyniol cyn ymateb neu'n gamgymeriadau cyfathrebu a wnaed, yna dylai'r Aelod gefnogi ei hetholwyr a chodi'r mater yn uniongyrchol gyda'r bwrdd. Byddai'n gwbl briodol iddi ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny, ac rwyf o ddifrif ynghylch pob un o'r materion hyn. Rwy'n darllen yr ohebiaeth rydym yn ei derbyn a'r atebion sy'n mynd allan wedyn; rwy'n bendant o ddifrif ynghylch y rhan hon o'r swydd. Rwy'n deall yr effaith y mae'n ei gael ar unigolion.

There have been incidents of the patient administration system not being properly up to date and for there to be errors within that. That is clearly not acceptable, and I would not pretend otherwise. I do, though, think that in pursuing entirely legitimate matters with the vigour that every Member of any party should do, we should at the same time recognise that we can go beyond that. And suggesting—in fact, stating—that nothing meaningful is happening is unfortunate at best. Part of the challenge in Betsi Cadwaladr health board is the uneven nature of service delivery. There are real challenges in the mental health service. That is why it is part of the special measures. But, there is also very real, compassionate, high-quality care being delivered day in, day out, and I think every Member in this Chamber should remember that when they pursue issues of entirely legitimate concern, as each and every Member in this Chamber could and should do.

Mae achosion wedi bod pan nad oedd y system gweinyddu cleifion yn gyfredol ac roedd camgymeriadau'n digwydd o achos hynny. Mae hynny'n amlwg yn annerbyniol, ac ni fyddwn yn honni fel arall. Fodd bynnag, wrth fynd ar drywydd materion cwbl ddilys gyda'r egni y dylai pob Aelod o unrhyw blaid ei wneud, rwy'n credu y dylem ar yr un pryd gydnabod y gallwn fynd y tu hwnt i hynny. Ac mae awgrymu—datgan, yn wir—nad oes dim byd ystyrlon yn digwydd yn anffodus ar y gorau. Rhan o'r her ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yw natur anwastad y modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae heriau gwirioneddol yn y gwasanaeth iechyd meddwl. Dyna pam y mae'n rhan o'r mesurau arbennig. Ond mae gofal tosturiol real iawn, o ansawdd uchel hefyd yn cael ei ddarparu ddydd ar ôl dydd, ac rwy'n meddwl y dylai pob Aelod yn y Siambr gofio hynny pan fyddant yn mynd ar drywydd materion sy'n destun pryder cwbl gyfiawn, fel y gall, ac fel y dylai pob Aelod yn y Siambr hon ei wneud.

15:24

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:24

## 3. Dadl ar yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad

## 3. Debate on the Annual Compliance Report on the Assembly Commission's Official Languages Scheme

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Eitem 3 yw'r ddadl ar yr adroddiad cydymffurfio blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig y gynnig.

Item 3 is the debate on the annual compliance report on the Assembly Commission's official languages scheme. I call on Rhodri Glyn Thomas to move the motion.

Cynnig NDM5818 Rosemary Butler

Motion NDM5818 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8(8) o Atodlen 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with paragraph 8(8) of Schedule 2 of the Government of Wales Act 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Gorffennaf 2015.

Notes the Annual Compliance Report on the Assembly Commission's Official Languages Scheme, laid before the National Assembly for Wales on 8 July 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:24 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n bleser gen i gyflwyno gerbron yr Aelodau y prynhawn yma yr adroddiad cydymffurfio blynyddol. Fe ddywedais i y llynedd wrth gyflwyno'r adroddiad fod angen inni newid y diwylliant sy'n bodoli yn y sefydliad yma, a gobeithio, drwy hynny, gynnig arweiniad ledled Cymru ynglŷn â sut y gellir ymdrin â dwy iaith swyddogol yn gyfartal. Wrth gwrs, rŷm ni'n cydnabod bod yna broblem sylfaenol yn yr ystyr fod mwyafrif y bobl sydd yn gweithio yma, a mwyafrif y bobl sydd yn cysylltu â'r lle yma, yn defnyddio un iaith yn unig. Felly, mae'r sialens yma rŷm ni wedi gosod i ni'n hunain, i geisio ymdrin â'r ddwy iaith yn gyfartal, yn sialens wirioneddol. Ond, rwy'n hyderus ein bod ni wedi gwneud camau breision yn ystod y flwyddyn sydd wedi mynd heibio, a'n bod ni yn agosáu at greu sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yma yn y Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n mawr obeithio fod Aelodau wedi gweld gwahaniaeth a bod yr Aelodau hynny sydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u gwaith yn y lle yma yn teimlo fod y Comisiwn wedi cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Rŷm ni wedi bod yn cysylltu yn unigol ag Aelodau i weld beth yn union yw eu hanghenion nhw er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb i'r anghenion hynny—

It's a great pleasure for me to present before the Members this afternoon the annual compliance report. I stated last year in presenting the report that there was a need for us to change the culture that exists within this institution, and hopefully, by so doing, provide a lead throughout Wales on how two official languages can be treated in an equal manner. Of course, we acknowledge that there is a fundamental problem in the sense that the majority of people who work here, and the majority of people who contact this place, use only one language. So, this challenge that we've set for ourselves, to try to put both languages on an equal footing, is a real challenge. But, I am confident that we have taken great steps over the year that has gone by, and that we are actually moving towards creating a truly bilingual institution here at the National Assembly. I very much hope that Members have seen a difference, and that those Members who wish to use the Welsh language in every aspect of their work in this place feel that the Commission has increased the support available to them. We have been contacting Members individually to ascertain what their exact needs are and to ensure that the provision matches those needs—

*Simon Thomas a gododd—*

*Simon Thomas rose—*

15:26 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yn sicr.

Certainly.

15:26 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i jest ddiolch i'r Aelod am ildio, a dweud fy mod i'n un o'r Aelodau sydd wedi derbyn y cymorth yna, ac yn sicr, mae'n fwy cyson nawr ac yn fwy trwyadl, ac mae'r cynllun yn y modd yna yn gweithio? Serch hynny, nid oes yna fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol yn y Cynulliad a'r pwyllgorau nag oedd cynt, gan taw'r un Aelodau sy'n dueddol o ddefnyddio'r Gymraeg. O edrych ymlaen, a oes unrhyw beth yn y cynllun a fydd yn hyrwyddo a hybu'r defnydd gan Aelodau newydd, efallai?

May I thank the Member for giving way, and say that I am one of the Members who has received that assistance, and, certainly, it's more consistent now and more thorough, and in that sense the scheme is working? However, there is no more use of the Welsh language generally in the Assembly and its committees than there was before, as it's the same Members who tend to use the Welsh language. In looking to the future, is there something in that scheme that will promote the use of the Welsh language by new Members, perhaps?

15:27 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, y gobaith yn sicr oedd, wrth inni gynyddu'r gefnogaeth i Aelodau, y bydden nhw’n teimlo’n fwy hyderus i ddefnyddio’r Gymraeg. Rwyf yn credu bod yna ryw gymaint o gynnydd wedi bod—mae Aelodau yn dweud wrthyf bellach eu bod nhw’n teimlo eu bod nhw yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn pwyllgorau oherwydd bod y deunydd cefndirol ar gael bellach yn y Gymraeg, ac felly nad ydyn nhw’n gorfod symud o un iaith i’r llall. Ond, yn y pen draw, ni allaf i orfodi pobl i ddefnyddio’r Gymraeg. Fe allaf i annog pobl—ac rwyf yn annog pawb sydd yn medru’r Gymraeg, ac yn cymeradwyo hefyd yn arbennig y bobl hynny sydd wedi dysgu’r iaith, yn fwy diweddar na phan ddysgodd Simon Thomas yr iaith, nad ydyn nhw’n gwbl hyderus ond sydd wedi bod yn barod i fentro yn y Gymraeg. Ond, mae e’n bryder gwirioneddol gen i fod cyn lleied o’r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y pwyllgorau. Rwy’n meddwl bod y defnydd o’r Gymraeg yma yn y Siambr, hwyrach, yn adlewyrchu'r niferoedd sydd yn medru’r Gymraeg, ond nid yw hynny’n wir yn y pwyllgorau, ac mae’n rhaid inni, unwaith eto, edrych ar beth y gallwn ni ei wneud, fel Comisiwn, i sicrhau bod hynny yn digwydd.

Well, the hope most certainly was that, in increasing the support for Members, they would feel more confident to use the Welsh language. I do believe that there has been some progress made—Members now tell me that they feel that they can use the Welsh language in committees because the background briefings are available now in Welsh, and therefore they don’t have to shift from one language to another. But, ultimately, I cannot force people to use the Welsh language. I can encourage people—and I do encourage everybody who speaks Welsh to do so, and I very much commend those people who have learned the language, more recently than when Simon Thomas learned the language, who aren’t completely confident but who have been willing to have a go, as it were. But, it is a real concern of mine that so little Welsh is used in the committees. I believe that the use of Welsh here in the Chamber perhaps reflects the numbers who are able to speak Welsh, but that is not true in the committees, and we must once again look at what we as a Commission can do to ensure that that happens.

Rhan arall o’n gwaith ni, wrth gwrs, gyda'r cynllun ieithoedd swyddogol ydy sicrhau bod unrhyw un sy’n dymuno cysylltu â’r sefydliad yma yn gallu gwneud hynny yn yr iaith o’u dewis nhw. Ac fe allaf i ddweud gyda sicrwydd a hyder y prynhawn yma fod hynny yn digwydd. Mae unrhyw un sydd yn cysylltu â ni yn derbyn yr ymateb yn yr iaith y maen nhw yn dewis ei defnyddio. Ac un o’r pethau rŷm ni wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ydy ehangu'r defnydd o’r ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd. Nid oes yna reswm, erbyn hyn, i unrhyw gyfarfod sydd yn digwydd yn y lle yma ddigwydd mewn un iaith yn unig, oherwydd y mae’r ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Ac, unwaith eto, byddwn i’n annog Aelodau i wneud hynny.

The other side of our work, of course, with the official languages scheme is to ensure that anyone who wishes to contact this institution can do so in the language of their choice. I can say with confidence and give an assurance this afternoon that that is in fact the case. Anyone who contacts us receives the response in the language that they wish to use. And one of the things that we have done over the past year is enhance the use of the interpretation service. There is no reason by now why any meeting taking place in this place should have to take place in only one language, because the simultaneous translation provision is available. And, once again, I would encourage Members to use it.

Ond, yn y pen draw, cyfrifoldeb yr Aelodau unigol ydy manteisio ar y cyfleoedd sydd i’w cael. Mae yna gyfle i chi ddefnyddio’r iaith o’ch dewis ym mhob agwedd o’ch gwaith, ac os oes yna broblemau ymarferol yn codi, da chi, cysylltwch â ni, ac fe geisiwn ni ein gorau i ymateb i’r galw hynny. Rŷm ni yn symud tuag at sefyllfa lle y mae’r sefydliad yma yn sefydliad sydd yn naturiol ddwyieithog, yn wahanol, rwy’n credu, i’r rhan fwyaf o sefydliadau cyfatebol yng Nghymru, lle mae’r iaith Gymraeg yn iaith israddol, sy’n cael ei chyfieithu iddi. Nid dyna yw ein bwriad ni. Ein bwriad ni ydy defnyddio’r adnoddau sydd gyda ni i alluogi’r iaith i gael ei defnyddio ym mhob agwedd o weithgareddau’r lle yma.

But, ultimately, it is the responsibility of individual Members to take advantage of the available opportunities. There is an opportunity for you to use the language of your choice in every aspect of your work, and if there are practical barriers or problems arising, then, please contact us, and we will endeavour to respond as best we can to that demand. We are moving to a situation where this institution is a naturally bilingual institution, which is different, I believe, to very many similar organisations in Wales, where the Welsh language is a subordinate language, if you like, seen as one into which people translate. Our aim is to use the resources that we have to make sure that Welsh can be used in every aspect of the activities of this place.

A gaf i fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr iawn am gefnogaeth frwd Comisiwn y Cynulliad i’r hyn rŷm ni wedi ei wneud? Mae e wedi bod yn her wirioneddol, ond y mae’r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, a’r Comisiwn i gyd wedi bod yn gwbl gefnogol—ac yn gwbl frwdfrydig—o ran y bwriad i sefydlu Cynulliad cwbl ddwyieithog. Y mae hynny hefyd yn wir am holl swyddogion y Comisiwn, ac rwy’n ddiolchgar iawn iddyn nhw i gyd.

May I take advantage of the opportunity to say thank you very much for the enthusiastic support of the Assembly Commission for what we’ve done? It’s been a real challenge, but the Presiding Officer, the Deputy Presiding Officer and the whole Commission have been totally supportive, and totally enthusiastic, in their intention of establishing a truly bilingual Assembly. That is also true of all the Commission officials, and I’m most grateful to them all.

15:30 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i chi, Rhodri Glyn, am eich gwaith fel Comisiynydd. Rwy'n drist i ddeall taw hwn fydd y cyfle olaf ar bwnc y cynllun. A gaf i ddweud diolch hefyd wrth staff y Comisiwn am eu gwaith ar y cynllun, hefyd Comisiynydd y Gymraeg, a'r sefydliadau allanol eraill a grybwyllwyd yn yr adroddiad?

Thank you, Rhodri Glyn, for your work as Commissioner. I was sad to hear that this will be your last contribution on the issue of the plan. May I also thank Commission staff for their work on the plan, as well as the Welsh Language Commissioner and the other external organisations mentioned in the report?

Mae rhan sylweddol o'r adroddiad hwn yn delio â gwelliannau ac arloesedd tuag at ddwyieithrwydd ymhlith staff y Comisiwn eu hunain. Rwy'n siŵr fy mod i wedi clywed lot mwy o Gymraeg mewn llefydd fel y lifftiau, er enghraifft, Simon, felly, nid wyf yn siŵr a ydw i'n cytuno â chi. Fel arfer, nid ydym ni, fel Aelodau, yn gweld y gwaith hwn, ac rydym yn dibynnu ar yr adroddiad hwn er mwyn cael rhyw syniad o beth sy'n digwydd, a sut mae gwaith cydlynwyr y cynllun wedi bod yn mynd rhagddo.

A significant part of this report deals with improvements and innovation as we work towards bilingualism among Commission staff. I'm sure that I've heard a lot more Welsh spoken in the lifts and so on, for example, Simon, so I'm not sure if I'd agree with your comments. Usually, we, as Members, don't see this work and we rely on this compliance report to have some idea of what is happening and how the work of the scheme co-ordinators has been progressing.

Y llynedd, mynegodd Aelodau rywfaint o siom nad oeddem yn gwybod mwy am y strategaeth sgiliau dwyieithog. Cymerodd naw mis i'w chyhoeddi, ac, yn anffodus, nid wyf yn dal yn gwybod sut mae'n edrych, achos—dyma beth mae'r cyfrifiadur yn ei ddweud, beth bynnag—nid oes caniatâd gennyf i weld y dudalen drwy'r ddolen a roddir ar dudalen 19 yr adroddiad. Efallai bydd yr awduron am ailwirio'r ddolen yn y ddwy iaith eto—am resymau eraill, beth bynnag. Byddaf i'n ei adael yno, ac yn gobeithio bod y strategaeth ei hunan yn helpu mewn ffordd fesuradwy gyda chynnydd.

Last year, Members expressed some disappointment that we didn't know more about the bilingual skills strategy. It took nine months to publish it, and, unfortunately, I still don't know what the bilingual skills strategy looks like because—this is what the computer tells me anyway—I have no permission to see that page through the link provided on page 19 of the report. Perhaps the authors would want to review that link in both languages once again—for other reasons, anyway. I'll leave that there, and I do hope that the strategy itself will help with progress in this area in a measurable way.

Ar nodyn mwy positif, gall Aelodau'r Cynulliad ddweud o'u profiad eu hunain bod gwaith y Comisiwn—gyda ni, a'n staff—wedi helpu i greu ethos fwy dwyieithog eleni. Mae'r cyfieithu peirianyddol yn parhau i wella. Mae'r system Microsoft yn fwy cyfleus, ond mae Google Translate yn fwy cywir. Hefyd, yn y Siambr, mae Microsoft yn cynnig cyfieithu ar unwaith i nifer o ieithoedd, ond nid y Gymraeg. Serch hynny, mae fy staff cymorth yn defnyddio'r ddwy system i baratoi drafftiau cyntaf o ddeunydd cyhoeddusrwydd, ac rwyf i wedi eu defnyddio i baratoi'r araith hon, er enghraifft. Mae technoleg, yn sicr, wedi helpu gyda chyfieithu sydd ei angen ar fyr rybudd. Ac mae'r geirfaoedd hefyd yn werthfawr.

On a more positive note, Assembly Members can speak from their own experience that the Commission's work with us and our staff has helped in creating a more bilingual ethos this year. Machine translation continues to improve. The Microsoft system is more convenient, but Google Translate is more accurate. Also, in the Chamber, Microsoft provides immediate translation into a number of languages, but not the Welsh language. However, my support staff do use both systems to prepare first drafts of publicity materials, and I have used these facilities to prepare this speech, for example. Technology has certainly assisted with translation needed with a swift turnaround. The glossaries are also very valuable.

Nawr, yn bersonol, nid wyf yn tueddu i ddefnyddio papurau pwyllgor dwyieithog llawn, ond mae dim ond cael y papurau ym mhob sesiwn yn fy helpu i fod yn gyfarwydd â strwythurau mwy cymhleth a geirfa newydd. Mae i gyd yn asglodi fy rhwystr iaith personol. A dyna un o'r pethau rwy'n ei hoffi am yr adroddiad hwn: pwyslais ar sgiliau penodol i unigolion. Mae dewis iaith yn bersonol iawn, ac yn unigol iawn, a dyna pam rwy'n falch o weld y 'lanyards' 'Dysgwr' o'r diwedd, oherwydd gall profiad dysgwyr a phrofiad siaradwyr hyderus fod yn wahanol iawn.

Personally, I don't tend to use the bilingual committee papers in full, but just having the brief in each session does help me with becoming familiar with more complex constructions and new terminology and so on. It all chips away at my personal language barriers. This is one of the things I like about this report: the emphasis on the specific skills of individuals. The choice of language is a very personal and individual thing, and that's why I was pleased to see the 'Dysgwr' lanyards at last, because the experience of Welsh-language learners and confident speakers can be very different.

Mae yna le i ddysgu strwythuredig, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd â sgiliau bach iawn. Ac mae yna le i loywi, ac mae pawb angen gwahanol fath o loywi. Fodd bynnag, er mwyn i'r ddau weithio, mae angen rhywfaint o gysondeb i ddysgwyr. Cwynodd aelodau staff, yn y gorffennol, nad oedd y sesiynau dysgu strwythuredig, ar amser penodol bob wythnos, yn dangos cynnydd yn eu dysgu, a chollon nhw ddiddordeb. Fy mhrofiad i yw bod ansawdd y gwaith cartref gloywi, trwy'r fewnrwyd, braidd yn dda, ond ysbeidiol iawn. Rwy'n falch, felly, fod yr archwiliad iaith staff wedi cael ei wneud, anghenion wedi cael eu hasesu, a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gwrdd â nhw.

There is room for structured learning, particularly for those with little skill. There is also scope for 'gloywi', as it is described, and everyone needs different kinds of language enhancement. But, for both to work, we do need some consistency for Welsh learners. Staff members have complained in the past that the structured learning sessions, held at a particular time every week, didn't lead to significant development and they tended to lose interest. My experience is that the standard of the 'gloywi' homework provided through the intranet is very good, but not particularly consistent. I am pleased, therefore, that the staff language audit has been done, needs have been assessed, and efforts are being made to meet those needs.

Rwy'n meddwl ein bod ni i gyd wedi gwerthfawrogi bod mwy a mwy o Aelodau yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn y Siambr, a bod mwy o'n staff cyswllt cyntaf wedi prynu i mewn i'r syniad y dylai'r lle hwn gynnig croeso i unrhyw ymwelydd yn yr iaith swyddogol y bônt yn ei dewis. Roedd yn siom felly i dderbyn e-bost ar ran cyn-aelod o'r tîm diogelwch yn sôn bod digalondid gweithgar rhag defnyddio'r Gymraeg yn dod o du fewn y tîm hwnnw. Roedd y gŵyn yn ymwneud â chyfnod dair blynedd yn ôl. Mae'r adroddiad heddiw yn dweud bod y gallu i weithio'n ddwyieithog wedi gwella o fewn y tîm diogelwch, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi sicrwydd i ni, Rhodri, fod diwylliant ac ethos dwyieithog yn rhan annatod ar draws staff sy'n wynebu'r cyhoedd, nid y tîm cyswllt cyntaf yn unig, achos roedd hwn yn nod yn yr adroddiad llynedd.

I hope that we all appreciate the fact that more and more Members are using some Welsh in the Chamber, and that more of our front-line staff have bought in to the concept that this place should offer a welcome to any visitor in their official language of choice. I was disappointed, therefore, to receive an e-mail on behalf of a former member of the security team, stating that there had been active discouragement from using the Welsh language from within that team. The complaint related to a period three years ago. Today's report states that the ability to work bilingually has improved within the security team, and I very much hope that you can give us an assurance, Rhodri, that the culture and ethos of bilingualism is engrained with front-line staff, not only the front-of-house team, because this was an aim in last year's report.

Ar hynny, a gaf longyfarch Sue yng nghaffi'r Cynulliad am ei chynnydd hi? O ran staff arlwyo eraill, fodd bynnag, mae problem amserlennu ac rwy'n siŵr y gallai'r Comisiwn ddatrys hyn. Nid yw staff sy'n ymwneud â pharatoi a sefydlu ein digwyddiadau lletygarwch yn rhydd i fynychu dosbarthiadau Cymraeg sylfaenol ar brynhawn dydd Mawrth; dyma'u cyfnod mwyaf prysur. Os ydym i gael mwy na 'bore da' ganddyn nhw, gwell aildrefnu amser y dosbarth.

On that note, may I congratulate Sue in the cafe in the Assembly on her progress? For other catering staff, however, there is a timetabling problem, but I'm sure that the Commission could solve that problem. The staff who are involved in the preparation and setting up of hospitality events aren't free to attend basic classes on Tuesday afternoons; that's their most busy period. If we want more than 'bore da' from them, then we need to reorganise the classes.

15:36

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf hefyd ddiolch i chi, Gomisiynydd, am yr adroddiad, ac rwyf hefyd yn ddiolchgar i staff y Comisiwn sydd wedi bod yn cyfarfod efo fi yn rheolaidd i drin a thrafod y ffordd rŷm ni, yn ymarferol, yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg? O'm rhan i, y peth mwyaf pwysig oedd y mater roeddech chi'n ei godi rai munudau yn ôl, achos roedd problem efo gwaith y pwyllgorau yn arbennig. Roedd rhai pwyllgorau yn gweithio llawer iawn mwy trwy gyfrwng y Gymraeg na'r lleill, a lle, os mai chi ydy'r unig Aelod sy'n medru'r Gymraeg, ar adegau, roedd hi'n anodd iawn i wneud defnydd o'r Gymraeg. Ond rwyf yn deall bod pob pwyllgor yn mynd drwy ryw fath o raglen o ddatblygiad ac, yn y pwyllgorau rwy'n aelod ohonyn nhw, mae'r sefyllfa yn bendant wedi gwella yn ystod y flwyddyn yma. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl bod yn dal i fod un neu ddau o broblemau ynglŷn â'r ffaith bod dogfennau ar gael yn y Gymraeg yn hwyrach nag y maen nhw yn Saesneg o fewn rhai pwyllgorau. Ond, rwy'n meddwl mai mater, hwyrach, o arfer o ran staff ac ati ydy hynny.

May I also thank you, Commissioner, for the report, and I'm also grateful to the Commission staff who have been meeting with me on a regular basis to discuss the way in which we are making more practical use of the Welsh language? From my point of view, the most important issue was the one you raised some minutes ago, because there was a problem with the committee work in particular. Some committees were working in a much more bilingual manner than others, and, if you are the only Assembly Member who is bilingual, at times it was very difficult to make use of the Welsh language. But I understand that every committee is going through some kind of development programme, and, in the committees on which I sit, the situation has most definitely improved over this past year. However, I do think that there are still a couple of problems as regards the fact that documents are sometimes available later in Welsh than in English within some committee. But, that is perhaps a matter of getting used to it from the point of view of staff.

Rwyf am ofyn i chi yn benodol; mae'r adroddiad yn cadarnhau ei bod hi'n ofynnol o dan Ddeddf 2012 i'r Comisiwn adolygu'r cynllun cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob etholiad. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i drafod bod gwaith rhagarweiniol a fydd yn cymryd lle o fewn y flwyddyn yma yn arwain at etholiadau'r Cynulliad yn 2016. Rwyf jest yn cysidro y prynhawn yma os gallwch chi roi ryw fath o siâp ar natur y gwaith yna, ac os bydd cyfle i ni roi mewnbwn fel Aelodau unigol, ond hefyd, hwyrach, rhai rhanddeiliaid eraill sydd yn awyddus iawn i weld cynnydd o ran y defnydd o'r Gymraeg.

I would like to ask you specifically; the report does confirm that it is a requirement under the 2012 Act for the Commission to review the scheme as soon as is practicably possible after each election. The report goes on to say that some preparatory work will take place this year, leading up to the Assembly elections in 2016. I'm just wondering this afternoon whether you could please give us some kind of idea about the shape and nature of that work, and whether there will be an opportunity for us to have an input as individual Members, but also, possibly, some other stakeholders who are very eager to see progress made from the point of view of the use of the Welsh language.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod yr adroddiad hefyd yn nodi barn Aelodau unigol; mae Keith Davies yn sôn am y ffordd y mae'r gyfundrefn yn y Swyddfa Gyflwyno wedi gwella, a'i bod hi erbyn hyn yn bosib i chi wneud eich holl drafodaethau drwy'r iaith Gymraeg. Ac, hefyd, rwy'n meddwl, yn benodol o ran gwaith deddfwriaethol, fod y geirfaoedd sy'n cael eu paratoi ar ein cyfer ni fel Aelodau yn fater pwysig, achos, ar adegau, roeddem yn trafod yn Gymraeg, ond o achos nad oeddem yn gwybod y geiriau a'r derminoleg swyddogol, roeddem yn troi'r rheini i'r Saesneg. Felly, o leiaf rŵan, rŷm ni'n cael yr eirfa ac nid yw'n ofynnol arnom ni i ddefnyddio geiriau Saesneg yng nghanol ryw frawddeg, er rwy'n gwybod eich bod chi yn deall yn iawn, fel rhywun sydd wedi byw yn y gogledd-ddwyrain, fod yn dal i fod tueddiad gan rai ohonom i ddefnyddio geiriau Saesneg ar adegau.

I think that it is important that the report also notes the views of individual Members; Keith Davies has talked about the way in which the system within the Table Office has improved, and that by now it's possible for you to transact all your discussions through the medium of Welsh. And I also think, specifically from the point of view of legislation, that the glossaries that are prepared for us as Members are exceptionally important, because, at times, we were discussing these issues in Welsh, but because we didn't know the official words or terminology, we'd turn to English. But, now, we get the glossaries and we don't have to use English words in the middle of sentences, although I know that you understand, as somebody who has lived in the north-east, that there is a tendency among some of us to use English words on occasion.

Rwy'n gwybod mai un o'r pynciau llosg ar hyd y tair neu bedair blynedd olaf yma ydy Cofnod y Trafodion. Mae yna sôn yn yr adroddiad bod amserlen erbyn hyn o ran y prosiect. Rwyf jest yn gofyn i chi os oes gennych chi ryw ddyddiad mewn golwg lle bydd rhyw fath o adroddiad, neu rhyw fath o benderfyniad yn cael ei wneud o ran hynny, er mae'n rhaid imi ddweud bod yna sôn yn yr adroddiad hefyd nad yw'r golygu'n mynd i fod mor llym o ran y trafodion o hyn ymlaen. Rwy'n gobeithio, felly, y bydd y Cofnod yn adlewyrchu defnydd o iaith y Rhos yn y dyfodol.

I know that one of the controversial topics over the past three to four years is the Record of Proceedings. There is a note in the report that there is a timetable for the project. I just wish to ask you whether you have any date in mind when there will be some sort of report, or some sort of decision made on that, although I must say that the report also refers to the fact that the editing won't be as strict as regards proceedings in future. So, I hope that the Record will reflect the use of Rhosllannerchrugog dialect in future.

Roedd Suzy, rwy'n meddwl, yn gwneud pwynt teg o ran yr arolwg sgiliau iaith. Mae'r adroddiad yn dweud bod y data wedi'u casglu. Ces i'r un anhawster â Suzy i fynd at y data yna. Ond, nid yw'n glir ychwaith beth ydy'r amserlen o ran y ffordd y mae cynlluniau iaith gwasanaethau unigol yn mynd i gael eu paratoi—os oes yna unrhyw fath o flaenoriaeth o ran y gwahanol wasanaethau unigol neu os ydych yn mynd i wneud y gwaith yn ei gyfanrwydd ar unwaith. Ond, rwy'n meddwl bod yna waith positif. Rwy'n gobeithio y bydd rhai o'r cwynion a dderbyniwyd o ran materion adnoddau dynol, hwyrach, yn cael eu cyfeirio at swyddogion penodol o fewn y Comisiwn i'w hystyried, os oes unrhyw faterion na fu edrych i mewn iddyn nhw o'r blaen.

Suzy, I believe, made a fair point as regards the language skills audit. The report states that the data have been collected. I encountered the same difficulty as Suzy in accessing those data. However, it's not clear either what the timetable will be as regards how the individual service plans will be prepared—whether priority will be given to various individual services or whether all the work will be undertaken simultaneously. But, I do think that there has been some positive work. I hope that some of the complaints received from the point of view of human resource issues, perhaps, will be referred to particular officials within the Commission for consideration, if there are any issues that have not been previously investigated.

15:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i ymateb i'r ddadl.

I call on Rhodri Glyn Thomas to reply to the debate.

15:41 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

*Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r ddau Aelod sydd wedi ymateb—tri Aelod, mae'n ddrwg gen i, o gynnwys yr ymyrraeth a gafwyd gan Simon Thomas? Diolch yn fawr i chi am eich mynegiant cadarnhaol iawn yng nghyd-destun yr hyn sydd wedi bod yn digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf a'r ffaith eich bod chi i gyd wedi gweld gwahaniaeth yn y modd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y lle yma. Mae'n wir i ddweud bod y Gymraeg i'w chlywed yn llawer iawn mwy aml y dyddiau yma ar bob rhan o ystâd y Cynulliad, ac mae hynny'n bwysig.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. May I thank both the Members who have contributed—or the three, rather, if we include the intervention from Simon Thomas? I also thank you for your very positive comments in the context of what has happened over the past 12 months and the fact that you have all seen a difference in the way in which the Welsh language is used in this place. It is true to say that the Welsh language is to be heard far more often these days on all parts of the Assembly estate, and that is extremely important.

Rwyf i hefyd yn awyddus iawn i weld mwy o ddogfennau'n cael eu drafftio yn Gymraeg. Nid oes dim rheswm yn y byd pam na all pobl sydd yn rhugl yn y Gymraeg ddrafftio mwy o ddogfennau yn Gymraeg. Rwy'n codi'r cwestiwn hwnnw bob amser pan fyddaf yn derbyn dogfen sydd wedi'i drafftio yn Saesneg ac wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg: pam na ysgrifennwyd y ddogfen honno yn y lle cyntaf yn Gymraeg?

I am also very eager to see more documents drafted in Welsh. There is no reason at all why people who are fluent Welsh speakers shouldn't draft more documents in Welsh. I raise that question consistently when I receive a document drafted in English and translated into Welsh: why wasn't the original document drafted in Welsh?

A gaf i ddelio â'r pwyntiau rŷch chi wedi eu codi? O ran y broblem dechnegol, nid fi yw'r person gorau i roi cyfarwyddiadau i chi ynglŷn â materion felly, ond fe wnaf i ofyn i'r swyddog priodol i gysylltu â chi er mwyn i ni gael gweld beth yn union oedd y broblem a oedd yn eich wynebu chi o ran cael y wybodaeth honno.

May I deal with the points that you've raised? As to the technical problem, I'm not the best person to give you any instruction on such issues, but I will ask the appropriate official to contact you so that we can identify the specific problem that you faced in accessing that information.

Mae'r ddau ohonoch wedi sôn am y gefnogaeth yr ydych wedi'i derbyn yng nghyd-destun adnoddau yn y Gymraeg, ac yn enwedig yr eirfa yn y Gymraeg. Fel rhywun sydd, hwyrach, yn or-hyderus ynglŷn â'i allu i ddefnyddio'r ddwy iaith, fe ganfyddais innau hefyd, pan oeddwn yn delio â deddfwriaeth, fod angen yr eirfa arna i, oherwydd mae'r eirfa dechnegol yn gwbl benodol ac, os ydych yn mynd ati i gyfieithu, pa mor dda bynnag yr ydych yn credu eich bod yn gallu cyfieithu yn eich pen, nid yw'n ddigon da. Rwy'n credu bod hynny wedi bod yn gam sylweddol ymlaen, sy'n golygu ein bod ni hyd yn oed yn gallu ymdrin â deddfwriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg bellach.

Both of you mentioned the support that you have received in the context of Welsh-language resources, and particularly the glossaries. As someone who, perhaps, is overly confident in his ability to use both languages, I also found, when I was dealing with legislation, that I needed that glossary, because the technical, legislative terminology is very specific indeed and, if you try to translate it yourself, however good a translator you consider yourself to be, you will never be totally accurate. I think that that has been a huge step forward, as it means that we can even deal with legislation through the medium of Welsh.

Roedd Suzy yn cyfeirio at gyn-aelod o'r staff diogelwch. Mae'r cyhuddiadau hynny'n ymwneud â chyfnod dair blynedd yn ôl ac rwy'n argyhoeddedig bod y sefyllfa wedi gwella. Mae'n rhaid dweud bod y staff diogelwch wedi ymateb gyda brwdfrydedd mawr i'r gwersi yr ydym wedi darparu ar eu cyfer nhw. Os ewch chi ar YouTube, fe allwch chi eu gweld nhw i gyd wrth eu boddau yn ymarfer eu Cymraeg. Serch hynny, mae yna broblemau'n codi, ac fe gawsom ni broblem arall eleni. Rydym wedi delio â'r sefyllfa honno. Roedd yn sefyllfa lle wnaeth un unigolyn beidio â chyflawni'r hyn yr oedd wedi ei gyflogi i'w gyflawni, ac nid oes modd rheoli'r sefyllfa honno.

Suzy made reference to a former member of the security staff. Those allegations relate to a period three years ago, and I'm convinced that the situation has improved. I have to say that the security staff have responded with great enthusiasm to the language lessons that we've provided for them. If you go to YouTube, you can see them all enjoying themselves while practising their Welsh. However, problems do arise, and we had another problem this year, which we have dealt with. It was a situation where one individual didn't deliver the service that he had been employed to deliver, and that was a situation beyond our control to a certain extent.

Rydym yn ymwybodol hefyd fod angen i ni gael mwy o adnoddau o ran siaradwyr y Gymraeg o fewn y staff diogelwch. Yr hyn sy'n digwydd ydy, pan fo Cymry Cymraeg yn cael eu penodi i'r staff diogelwch, maen nhw'n tueddu symud i adrannau eraill o fewn y Cynulliad, ac mae hynny'n gadael ni yn gyson gyda llai o siaradwyr y Gymraeg nag y byddem ni'n dymuno ymhlith y staff diogelwch. Ond rŷm ni'n ymwybodol o hynny ac yn benodol yn recriwtio yn awr i gael mwy o siaradwyr y Gymraeg yn yr adran honno. O ran yr adran gyfarch—y ddesg flaen, er enghraifft—mae yna nawr bob amser ddigon o siaradwyr y Gymraeg yn y fan honno.

We are also aware that we need more resources in terms of Welsh speakers on our security staff. What happens is that, when Welsh speakers are appointed to our security staff, they tend to move to other departments within the Assembly, and that leaves us consistently with fewer Welsh speakers than we would wish among our security staff. But we are aware of that issue and are specifically recruiting now to have more Welsh speakers in that department. In terms of the front-of-house service—the front desk, for example—there is now always a sufficient number of Welsh speakers there.

15:45

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roeddwn i jest eisiau gwneud ychwanegiad i'r ddadl. Rwyf wedi ei godi gyda chi o'r blaen, ond rwy'n credu ei bod hi'n bwysig inni ddweud wrth bobl sy'n rhoi tystiolaeth gerbron pwyllgorau hefyd i gadw eu clustffonau arnynt. Weithiau rwy'n gweld—nid wyf am enwi pobl o gwmpas fan hyn, ond efallai fy mod i'n newid i'r Saesneg pan fydd pobl wedi cymryd eu clustffonau oddi arnynt ac wedyn mae'n amharu ar lif y drafodaeth. A yw hynny'n rhywbeth yr ydych chi hefyd—. Rwy'n gwybod ei bod hi'n rhywbeth bach, ond mae'n rhywbeth sy'n fy mhoeni o hyd pan fydd pobl yn dod i roi tystiolaeth gerbron y pwyllgorau.

I just wanted to add to the debate. I have raised this with you previously, but I think it's important that we tell people who give evidence to committees that they should keep their headsets on. Sometimes I see—I'm not naming names around this Chamber, but perhaps I may switch to English when people have taken their headsets off and that then affects the flow of the discussion. Is that something that you also—. I know that it's a tiny thing, but it's something that really niggles me when people come to give evidence to committees.

15:46

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gobeithio mai'r arfer ydy bod Cadeiryddion pwyllgorau yn dweud ar ddechrau pob sesiwn dystiolaeth bod y Cynulliad yn cynnal ei drafodaethau yn y ddwy iaith ac felly y dylai pobl gadw eu clustffonau wrth eu hymyl. Ond rwy'n derbyn y pwynt, a'r pwynt yr oedd Aled yn ei wneud hefyd—pan fydd rhywun ar ei ben ei hun yn siarad Cymraeg mewn pwyllgor, mae hi yn anoddach, ond, yn anffodus, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ymateb iddo. Rwyf fi, yn y gorffennol, wedi cadeirio pwyllgor yn y Cynulliad lle nad oedd neb arall yn siarad Cymraeg. Dim ond fi oedd yn siarad Cymraeg ac roeddwn i'n cadeirio ac yn cyflwyno'r tystion a gwneud popeth arall yn Gymraeg, ac nid oedd dim gair arall o Gymraeg yn digwydd. Felly, mae'n anodd yn yr amgylchiadau hynny, ond byddwn i'n gofyn ichi ddyfalbarhau, oherwydd beth sy'n mynd i ddigwydd heblaw am hynny yw bod y pwyllgor i gyd yn mynd i fynd i'r Saesneg. Ond rwy'n derbyn bod hynny yn anodd ar adegau. Os oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud i'ch cynorthwyo chi, yna dewch ar ein gofyn ni ac fe wnawn ni ein gorau. Ac fe wnaf i godi'r pwynt ynglŷn â'r clustffonau eto.

I hope that the practice is that committee Chairs state at the beginning of each evidence session that the Assembly does conduct its proceedings bilingually and that people should therefore keep their headsets close by. But I accept the point, and the point that Aled made too—when one is the lone Welsh speaker in a committee, it is more difficult, but, unfortunately, that is something that we have to respond to. I, in the past, have chaired a committee in the Assembly where there were no other Welsh speakers. I was the only one who spoke Welsh and I chaired and introduced the witnesses and did everything else in Welsh, and no other Welsh was spoken. So, it is difficult in those circumstances, but I would ask you to persevere, because what will happen otherwise is that the whole committee will be held in English. But I accept that that can be difficult at times. If there is anything that we can do to assist you, then do come and speak to us and we will do everything we can. And I will raise that point about the headsets once again.

Yr adolygiad, Aled—ie, wrth reswm, fe fydd yna gyfle i Aelodau gael mewnbwn, a rhanddeiliaid hefyd. Rŷm ni'n croesawu unrhyw fewnbwn i'r broses yma. Wrth gwrs, yn y pen draw, fe fydd y cyfrifoldeb am yr adolygiad yn gorwedd gyda'r Cynulliad nesaf, gyda'r Comisiwn nesaf, a chyda'r Comisiynydd nesaf sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Y cyfan y gallaf ei ddweud yw fy mod i'n credu bod y Comisiwn presennol yn trosglwyddo i'r Comisiwn nesaf ac i'r Comisiynydd nesaf sefyllfa gref iawn, lle rŷm ni wedi bod yn adeiladu'n gyson a chynyddu yn gyson ein cefnogaeth i'r Gymraeg.

The review, Aled—yes, of course, there will be an opportunity for Members to have an input, as well as stakeholders. We welcome any input into this process. Of course, ultimately, the responsibility for the review lies with the next Assembly, the next Commission, and the next Commissioner with responsibility for the Welsh language. All I can say is that I think the current Commission will transfer to the next Commission and the next Commissioner a position of strength, where we have consistently built on and increased our support for the Welsh language.

O ran y defnydd o eiriau Saesneg, peidiwch ag ofni gwneud hynny, a pheidiwch, da chi, â throi i'r Saesneg oherwydd nad ŷch chi'n gallu meddwl am un gair yn y Gymraeg. Gallaf eich sicrhau chi mai ychydig iawn o bobl yn y lle yma sy'n siarad Saesneg yn gwbl gywir, ac felly peidiwch â phoeni nad yw'ch Cymraeg chi ddim yn ddigon cywir. Ie, mae'r broses o olygu'r Cofnod yn newid, ac rwy'n mawr obeithio y gallwn ni adlewyrchu iaith y Rhos—'nene'—yn y Cofnod. Y bwriad ydy bod y Cofnod nawr i fod i adlewyrchu llawer iawn mwy o'r hyn sy'n cael ei ddweud, yn hytrach na bod yna bobl yn cywiro ein Cymraeg a'n Saesneg ni i wneud iddi ymddangos yn well nag y maent. Rŷm ni yn adolygu'r Cofnod ar hyn o bryd; y bwriad ydy cyhoeddi'r Cofnod llawer iawn ynghynt a symud at sefyllfa lle mae'n ymddangos nid 24 awr wedi'r sesiwn, ond yn ystod y sesiwn. Rŷm ni'n edrych nawr ar sut y gallwn ni wneud hynny gyda'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyfieithu peirianyddol.

In terms of the use of English words, don't be afraid to use English words, and please don't switch to English because you can't think of a particular word in Welsh. I can assure that very people in this place speak English entirely correctly, and so don't worry that your Welsh is not good enough. Yes, the process of editing the Record is changing, and I very much hope that we can reflect the language of Rhosllannerchrugog—'nene' and so on—in the Record of Proceedings. The intention is that the Record now should much more closely reflect what is actually said, rather than that things are corrected in terms of our use of Welsh and English to make it appear better than it is. We are reviewing the Record of Proceedings at the moment; the intention is to publish the record far sooner and to move towards a situation where it appears not 24 hours after the session, but during the session itself. We are now looking at how that can be achieved with the progress we have made in terms of machine translation.

Rwy'n meddwl—. Do, fe godwyd y pwynt hefyd ynglŷn â'r papurau yn cyrraedd yn hwyrach yn y Gymraeg. Os oes yna unrhyw enghraifft o hynny, a wnewch chi adael inni wybod, os gwelwch chi fod yn dda? Yr unig gyfle rwyf wedi'i gael i weithredu ar hynny—. Fe wnaeth Simon Thomas godi'r mater gyda fi gydag un pwyllgor arbennig. Roedd hynny'n anffodus; nid oedd y swyddogion wedi gwneud yr hyn roedden nhw i fod i'w wneud. Mae problemau felly yn codi. Fe allwn ni greu rheolau, ond mae yna wastad eithriadau i reolau. Y peth pwysig ydy, os oes yna eithriadau, os wnewch chi gysylltu â ni, fe awn ni i'r afael â'r problemau hynny. Ond diolch yn fawr iawn i chi am y gefnogaeth. Diolch yn fawr iawn i'r staff sydd wedi bod yn gweithio yn ddyfal iawn ar y cynllun ieithoedd swyddogol a hefyd ar yr adroddiad blynyddol yma. Rŷm ni yn symud ymlaen i'r cyfeiriad cywir, ac rwy'n mawr obeithio y bydd y sefydliad yma yn datblygu fwyfwy i fod yn sefydliad naturiol dwyieithog a fydd yn esiampl ac yn her i weddill Cymru.

I think—. There was a point raised also about the papers in Welsh arriving later. If there are any examples of that, please let me know. The only opportunity I've had to take action on that—. Simon Thomas raised the issue with me with one particular committee. That was a very unfortunate occurrence; the officials hadn't done what they were supposed to do. Such problems do arise. We can create rules, but there will always be exceptions to those rules. The important thing is, if there are those exceptions, do get in touch with us, and we will tackle those problems. But thank you very much for your support. Thank you to the staff who have been working extremely hard on the official languages scheme and also on this annual compliance report. We are moving in the right direction, and I very much hope that this institution will develop further towards being a naturally bilingual institution that will be an example and a challenge to the rest of Wales.

15:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn y cynnig? A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 15:51.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 15:51.*

15:51

## Rhodri Glyn Thomas

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, diolch am y cyfle nawr i lywyddu ar ran o sesiwn y Cynulliad Cenedlaethol. Er mwyn i fi gael darganfod y lle yn union—. Rwy'n galw yn awr ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, i gyflwyno—. Nac ydwyf. Mae'n ddrwg gen i.

Well, thank you for the opportunity to take the Chair in this next part of this Plenary session. Just so I can find where exactly we are—. I call on the Minister for Education and Skills, Hugh Lewis to—. No, I don't. I do apologise.

15:51

## 4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig i Staff Meithrinfeydd

## 4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Paediatric First Aid Training for Nursery Staff

Senedd.tv
Fideo Video

### Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv). Yn hytrach, rwy'n galw ar Aled Roberts i wneud y cynnig.

This is a debate by individual Members under Standing Order 11.21(iv). I call on Aled Roberts, rather, to move the motion.

Cynnig NNDM5789 Aled Roberts, Suzy Davies, Bethan Jenkins

Motion NNDM5789 Aled Roberts, Suzy Davies, Bethan Jenkins

Cefnogwyd gan Eluned Parrott

Supported by Eluned Parrott

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant cymorth cyntaf arbenigol ar gyfer staff meithrin, fel bod ganddynt y sgiliau a'r hyfforddiant i ymateb yn gyflym ac yn briodol os bydd argyfwng.

1. Recognises the importance of specialist first aid training for nursery staff, so that they have the skills and training to respond quickly and appropriately in an emergency situation;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r ddarpariaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig i staff meithrinfeydd ac asesu opsiynau ar gyfer ei gwneud yn ofynnol bod yr holl staff sy'n gweithio mewn meithrinfeydd yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig a gydnabyddir yn swyddogol.

2. Calls on the Welsh Government to expand the provision of paediatric first aid training for nursery staff and to assess options for requiring all nursery staff to complete an officially recognised paediatric first aid course.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:51

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, a diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro. Rydych chi'n ennill eich cyflog y prynhawn yma. A gaf hefyd diolch i'r Aelodau sydd wedi cefnogi'r ddadl yma y prynhawn yma? Mae hyn yn canolbwyntio ar alwad gan Sant Ioan yng Nghymru ar gyfer sgiliau achub bywyd i staff yn meithrinfeydd.

Thank you very much, and thank you, temporary Deputy Presiding Officer. You are earning your salary this afternoon. May I also thank those Members who have supported this debate this afternoon? This focuses on a call by St John's in Wales for life-saving skills for staff within nurseries.

Mae'r galwad yma yn dilyn marwolaeth drasig Millie Thompson, merch ifanc naw mis oed, a bu farw ar ôl tagu ar ei chinio yn ei meithrinfa yn 2012. Roedd hwn yn achos trist iawn. Y trydydd diwrnod i Millie fod yn y feithrinfa oedd hi, ac nid wyf yn gallu meddwl am funud sut oedd ei rheini hi yn teimlo pan gawson nhw alwad ffôn i ddweud ei bod hi wedi tagu ar ei bwyd, er ei bod hi, ar y pryd, yn anadlu'n gywir, ond, erbyn iddyn nhw gyrraedd yr ysbyty, yn anffodus, roedd Millie eisoes wedi marw. Datgelodd ymchwiliad yr heddlu a'r adroddiad i'r crwner fod nifer o staff yn y feithrinfa wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gwaith, ond nid oedden nhw wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Ac, yn anffodus, bu'n rhaid i Millie aros 10 munud tan i'r ambiwlans gyrraedd nes iddi gael unrhyw gymorth cyntaf.

This calls follows the tragic death of Millie Thompson, a nine-month-old child, who died after choking on her lunch at her nursery in 2012. This was a desperately sad case. It was only the third day that Millie had attended the nursery, and I cannot imagine for one moment how her parents felt when they received a phone call to say that she had choked on her food, although, at the time, she was breathing freely, but, by the time they arrived at the hospital, unfortunately, Millie had already died. A police investigation and the report to the coroner revealed that a number of nursery staff had received first aid at work training but that they hadn't received the paediatric first aid training. And, unfortunately, Millie had to wait for around 10 minutes before the ambulance arrived for her to receive any first aid.

Rwyf am ddweud yn y lle cyntaf fod staff mewn meithrinfeydd yn gwneud gwaith anhygoel, ac rwy'n siŵr bod pob un ohonom ni sydd â phlant, neu sydd wedi cael plant yn y gorffennol, yn sylweddoli bod plentyn ifanc yn gallu tagu yn gyflym iawn, heb rybudd, ac, yn aml, heb unrhyw arwyddion gweladwy.

I wish to say in the first place that nursery staff do an incredible job, and I am sure that each one of us who has children, or had young children in the past, realise that a young child can choke very quickly without warning and often without any visible signs.

Wrth imi baratoi ar gyfer y ddadl yma y prynhawn yma, nid oeddwn i wedi deall bod y cyrsiau cenedlaethol ar gymorth cyntaf, sef cymorth cyntaf yn y gwaith neu gymorth cyntaf brys, yn canolbwyntio ar drin oedolion a bod yna sgiliau penodol o ran cyrsiau cymorth cyntaf pediatrig. Pan fydd cymorth cyntaf yn delio â phlentyn neu faban mae gwahaniaethau penodol o ran yr hyfforddiant wrth reoli'r digwyddiad—y ffordd yr ydych chi'n perfformio CPR, er enghraifft, a'r ffordd yr ydych yn ymdrin â thagu—sydd yn cael eu cwmpasu mewn cyrsiau cymorth cyntaf pediatrig. Mae'n hanfodol, felly, bod staff yn cael y sgiliau penodol a'r hyder i ymateb yn gyflym yn y sefyllfaoedd hyn. Mae meithrinfeydd yn hyfforddi staff ar gwrs cymorth cyntaf, ond, os ydyn nhw'n cael y cyrsiau penodol yma, hwyrach y buasai staff efo mwy o hyder. Ac, wrth gysidro hynny, felly, mae'n debyg y buasai rieni efo mwy o hyder i adael eu plant mewn dwylo diogel y feithrinfa, gan wybod bod y staff wedi cael yr hyfforddiant priodol.

Yn dilyn marwolaeth Millie, roedd yna ddeiseb efo dros 100,000 o lofnodion a gafodd ei chyflwyno gan Aelod Seneddol Democratiaid Rhyddfrydol ar y pryd, Mark Hunter, yn gofyn i San Steffan gynnal Bil ar gyfer hyfforddiant ar gyfer holl staff y feithrinfa. Rwy'n falch o ddweud, ym mis Mawrth, cyhoeddodd Lywodraeth San Steffan y bydd hyfforddiant mewn cymorth cyntaf pediatrig yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer staff meithrinfeydd yn Lloegr, fel y gall bob aelod o staff ymateb i argyfwng yn gyflymach.

O dan y cynlluniau ar gyfer Lloegr, os ydych chi'n aelod o staff lefel 2 a lefel 3, bydd yn rhaid i chi gael y cymorth cyntaf pediatrig brys yma, o ran tystysgrif. Bydd y cwrs hyfforddi, sy'n cyfateb i un diwrnod o hyfforddiant, y mae'n rhaid ei adnewyddu bob tair blynedd, yn ofynnol ymhob sefyllfa. Mae hyn yn swnio fel egwyddor synnwyr cyffredin, ond mae'n rhaid i ni edrych ar y sefyllfa yma yng Nghymru.

Mae'n rheoliadau presennol ni ar gyfer lleoliadau nas cynhelir yng Nghymru o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) ar hyn o bryd, yn mynd yn ôl i 2010. Mae'r rheoliadau hynny'n gofyn bod o leiaf un person, bob amser, sy'n gofalu am blant perthnasol, wedi'u cymhwyso mewn cymorth cyntaf addas.

Mewn lleoliadau cofrestredig, mae'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant yn 2012 yn dweud ei bod yn ofynnol, bob amser, i o leiaf un person bod efo'r cymhwyster cymorth cyntaf cyfredol ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc. Ond cofiwch: mai ond angen un aelod o staff yn y lleoliad sydd yno ar hyn o bryd. Os ydy'r person yna'n absennol oherwydd salwch, neu ddim ar gael er mwyn ymateb yn gyflym, nid oes yna ddiffyg o ran y feithrinfa bryd hynny.

As I prepared for this debate this afternoon, I had not understood that the national courses for first aid, namely the first aid at work and emergency first aid at work courses, focus on treating adults and that there are specific skills from the point of view of paediatric first aid courses. When first aid deals with a child or an infant there are distinct differences in terms of the training in managing the incident—the way in which you perform CPR, for example, and the way in which you deal with choking—which are covered in first aid paediatric courses. It is vital, therefore, that staff have these specialist skills and the confidence to respond rapidly in these situations. Nurseries train their staff in first aid, but, if they are given these specific courses, perhaps staff would have greater confidence. And, in considering that, therefore, it is likely that parents would feel more confident in leaving their children in the safe hands of the nursery, knowing that the staff had received the appropriate training.

Following Millie's death, a petition that collected 100,000 signatures was presented by Mark Hunter, a Liberal Democrat Member of Parliament at the time, asking Westminster for a Bill to secure training for all nursery staff. I'm pleased to say that, in March, the Westminster Government announced that training in paediatric first aid will be a legal requirement for nursery staff in England, so that all staff can respond to emergencies more quickly.

Under the plans for England, if you're a staff member at level 2 and level 3, you will be required to have this emergency paediatric first aid certificate. The training course, which corresponds to one day of training, and which must be renewed every three years, is compulsory in every situation. This sounds like common sense, but we have to look at the situation here in Wales.

Our current regulations for non-maintained settings in Wales under the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations at present, date back to 2010. Those regulations require that, at all times, at least one person caring for relevant children, has a suitable first aid qualification.

In registered settings, the national minimum standards for childcare in 2012 state that it is a requirement, at all times, that at least one person must have a current qualification in first aid for infants, children and young people. But you must bear in mind that you only need one person in that setting at present. If that person is off ill, or is not available to respond quickly, then the nursery isn't considered to be lacking at that time.

Os ydych chi'n cofio, ym mis Ebrill, mi gyflwynwyd gwelliant gennym ni, fel grŵp, i'r ddadl ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth yn ei wneud yn ofynnol i holl staff y feithrinfa i gwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig a gydnabyddir yn swyddogol. Roeddwn i'n sylweddoli ar y pryd, ac yn derbyn esboniad Llywodraeth Cymru, nad yw'n bosib, o ran yr amserlen, i ni symud ar hynny o fewn y Cynulliad hwn. Ond dyna pam rydym ni, fel Aelodau unigol, wedi dod â'r cynnig yma gerbron y Senedd y prynhawn yma yn gofyn i Lywodraeth Cymru i wneud popeth y gallent i ehangu'r ddarpariaeth o hyfforddiant cymorth cyntaf ar gyfer staff y feithrinfa. Hefyd, rydym ni'n gofyn ar y Llywodraeth i asesu opsiynau ar gyfer ei wneud yn ofynnol yma yng Nghymru i holl staff y feithrinfa gwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig a gydnabyddir yn swyddogol.

If you recall, in April, we as a group tabled an amendment to the debate on the legislative programme calling on Welsh Government to introduce legislation making it a requirement for all nursery staff to complete an officially recognised paediatric first aid course. I realised at the time, and accepted the Welsh Government's explanation, that it is not possible, because of the timetable, for us to move on that within this Assembly term. But that is why we, as individual Members, have brought this motion before the Senedd this afternoon asking Welsh Government to do all that it can to expand the provision of first aid training for nursery staff. Also, we ask the Government to assess options for making it a requirement in Wales that all nursery staff complete an officially recognised paediatric first aid course.

Os mai deddfwriaeth yw'r ffordd orau ymlaen ar ôl hynny, ar ôl i'r Llywodraeth adolygu'r sefyllfa, rwy'n gobeithio y bydd pawb yn ymrwymo i wneud hyn yn ystod y Cynulliad nesaf.

If legislation is the best route forward following that, after the Government reviews the situation, I hope that all parties will commit to doing this during the next Assembly term.

Yn ystod cwest i farwolaeth Millie Thompson ym mis Rhagfyr 2013, dywedodd y crwner, John Pollard, ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol ein bod ni'n adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â meithrinfeydd ynghylch cymorth cyntaf pediatrig.

During the inquest into Millie Thompson's death in December 2013, the coroner, John Pollard, said it is of national importance that the legislation surrounding nurseries regarding paediatric first aid is reviewed.

Mae Ambiwlans Sant Ioan yn credu y dylai fod pob oedolyn sy'n gweithio mewn rôl gyda phlant yn cael hyfforddiant mewn cymorth cyntaf pediatrig. Gwrandawodd Lywodraeth Loegr ar alwad Ambiwlans Sant Ioan. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol, yn ymateb yn yr un modd.

St John Ambulance believes that every adult working in a child-facing role should have training in paediatric first aid. The Government of England listened to that call from St John Ambulance. I hope that Welsh Government, in future, will respond in the same manner.

16:00

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf yn cefnogi y ddadl yma. Rwy'n credu bod Aled wedi dweud yn gynhwysfawr iawn beth yw'r prif bwyntiau sy'n cael eu gofyn amdano yma heddiw. I ddechrau, efallai, gyda chyd-destun mwy eang—oherwydd mae Aled wedi mynd i fanylion ynglŷn â'r sector yma yn benodol—fel y gwnes i ddweud yn y ddadl yr oedd Suzy Davies wedi dod â hi gerbron am gael mwy o hyfforddiant cymorth cyntaf mewn ysgolion, fel rhywun sydd wedi cael ei hyfforddi fel achubwr bywyd, rwy'n gweld ei bod hi'n bwysig iawn i bobl gael eu hyfforddi yn y maes yma er mwyn cael y pŵer i allu helpu pobl, nid yn unig wrth ochr pwll nofio, ond wrth ochr afon, wrth ochr y môr. Mae wastad rhyw fath o broblem, yn anffodus, yn mynd i wynebu pob un ohonom ni os ydym ni mas yn cerdded, os ydym ni allan gyda'r teulu. Felly, i fi, mae'n fater o egwyddor mwy eang na bod un sector yn cael y sgiliau, er mor bwysig yw hynny, a'n bod ni'n cael y sgiliau yn bersonol i wthio ymlaen gyda hynny.

I do support this debate. I think that Aled has very comprehensively covered the main points that are being asked about here today. To start, perhaps, with a broader context—given that Aled has gone into great detail on this particular sector—as I said in the debate that Suzy Davies brought before us in terms of getting more first aid training in schools, as someone who has been trained as a lifeguard, I feel that it's very important for people to receive training in this area so that they are empowered to assist people, not only at the side of swimming pools, but on the banks of rivers, or at the seaside. There is always some kind of problem, unfortunately, that will face each and every one of us, whether we are out walking or out with the family. Therefore, for me, it's a broader matter of principle rather than one sector having the skills, although that is important, and that we have the skills personally to press forward with that.

16:01

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member very much for giving way. On the point she was making there, I fully support this debate and will be voting for it, but does she agree that these proposals also apply to settings in the home, because there are unacceptably high rates of accidental injuries within the home? I really feel that there should be a concerted effort in the home as well. Would she agree with that?

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am ildio. O ran y pwynt a wnâi, rwy'n llwyr gefnogi'r ddadl hon a byddaf yn pleidleisio o blaid, ond a yw'n cytuno bod y cynigion hyn hefyd yn berthnasol i'r cartref, oherwydd ceir cyfraddau annerbyniol o uchel o anafiadau damweiniol yn y cartref? Rwy'n teimlo'n gryf y dylid cael ymdrech gydunol yn y cartref yn ogystal. A fyddai'n cytuno â hynny?

16:01 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddwn i yn cytuno â hynny, achos mae jest yn cario ymlaen o beth rwyf newydd fod yn ei ddweud. Wrth gwrs, rydym ni wedi bod yn benodol ar hyn, oherwydd rwy'n credu bod y gwaith wedi bod yn digwydd ar lefel San Steffan yn benodol yn y sector yma, ond mae'n bwysig bod pob un ohonom ni yn cael yr hyfforddiant yma. Mae cymdeithas Sant Ioan yn enghraifft wych o hynny, ond mae cymdeithasau gwahanol hefyd yn gweithio i'r diben hwnnw. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig inni ddweud pam y dylem ni ei wneud e yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod ni'n gweithredu yng Nghymru oherwydd efallai y gallai fe ddigwydd yma.

I would agree with that because it just develops the point that I was just making. Of course, we have been very specific on this issue because, I think, the work has been ongoing in Westminster, particularly in this sector, but it's important that each and every one of us has this training. St John Ambulance is a great example of that, although there are other organisations also working to the same end. I think it's important for us to say why we should do this in Wales. It is important that we take action in Wales because problems could arise here.

Rydym ni'n gwybod am un enghraifft: Louise Pitman o dde Cymru, a oedd wedi cymryd rhan mewn cwrs BabySafe er mwyn dod yn warchodwr plant. Ddau ddiwrnod cyn iddi orffen y cwrs yna, roedd merch Louise Pitman, o'r enw Aimee, a oedd yn ddwy flwydd oed ar y pryd, yn bwyta ffrwyth gyda ei mab, a oedd yn wyth mlwydd oed—bwyta grawnwin yn benodol. Gwnaeth hi droi ei chefn am un eiliad a ffeindio mas bod Aimee yn tagu ar y grawnwin hynny. Roedd hi wedi mynd yn goch yn yr wyneb, ac roedd y fam wedi dechrau poeni, ond oherwydd ei bod hi wedi gallu derbyn yr hyfforddiant gan BabySafe, roedd hi'n gallu ymddwyn yn y ffordd gywir—rhywbeth nad oedd wedi digwydd yn achos Millie Thompson. Felly, fel rwyf wedi'i ddweud ar y dechrau, os ydym ni'n gwybod sut i ymdrin â'r sefyllfa'n gywir, yna mae mwy o siawns wedyn i'r person ifanc yna wella a pheidio mynd i'r un sefyllfa ag a oedd wedi digwydd yn Lloegr.

We know of one example: Louise Pitman from south Wales, who participated in a BabySafe course to become a child minder. Two days before she completed that course, Louise Pitman's daughter, who is called Aimee, who was two years old at the time, was eating some fruit with her son, who was eight years old—she was eating grapes, to be specific. She turned her back for just a moment and found that Aimee was choking on those grapes. She had become red in the face, and the mother became concerned, but because she had been able to receive that training from BabySafe, she was able to respond appropriately—something that didn't happen in the case of Millie Thompson. Therefore, as I said at the outset, if we know how to respond to these situations appropriately, there is a far better chance that that young person will recover and will not get into the same situation as that which happened in England.

So, wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod ni'n hybu pobl i gymryd rhan yn yr hyfforddiant yma, neu mewn hyfforddiant gwahanol, ond wrth gwrs yn y sector yma, mae'r cyrsiau BabySafe yn effeithiol iawn.

So, of course it's important that we encourage people to take part in this training, or in similar training, but of course, in this sector, BabySafe courses are extremely effective.

Rwy'n credu, fel yr oedd Aled wedi'i ddweud, os ydym ni'n gwybod am bobl sydd yn cael plant, neu ddim yn cael plant—nid wy'n credu ei bod hi'n bwysig eich bod chi wedi cael plant o reidrwydd—ond os ydych chi'n gweithio gyda phlant, mae pob elfen o addysg yn bwysig. Weithiau, mae cyfrifoldebau athrawon yn newid o ddydd i ddydd, felly nid ydych chi'n gallu jest dibynnu ar un aelod o staff i gael hyfforddiant, achos efallai y byddan nhw'n sâl ar un diwrnod, neu efallai ar drip gyda chanran o'r plant. Felly, mae angen i bawb gael yr hyfforddiant hwnnw. Dyna pam rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n cael y drafodaeth yma heddiw, a gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gwrando yn astud ar y dadleuon.

I believe, as Aled was saying, if we know of people who have children, or who don't have children—I don't think that it's important that you have children, necessarily—but if you work with children, all aspects of education are important. Sometimes, teachers' responsibilities can change from day to day, so you can't rely on just one member of staff to receive the training, because perhaps they will be off ill on any given day, or they may be away on a trip with a percentage of the pupils. Therefore, everyone needs that training. That's why I believe it's important that we have this debate today, and I hope that the Welsh Government will listen carefully to the arguments put forward.

16:04 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

16:04 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer. Can I begin by thanking Members for bringing forward this debate today? Many of us have, of course, at some time used childcare provision for our own children. When we do, above all, we want to know that it is high quality and we want to know that it is safe. I want to start by re-stating the Welsh Government's commitment to high-quality early education and childcare for children and families in Wales.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau am gyflwyno'r ddadl hon heddiw? Wrth gwrs, mae llawer ohonom wedi defnyddio darpariaeth gofal plant ar ryw adeg ar gyfer ein plant ein hunain. Pan wnawn hynny, yn fwy na dim rydym eisiau gwybod ei fod yn ofal o ansawdd uchel ac rydym eisiau gwybod ei fod yn ddiogel. Rwyf am ddechrau drwy ail-ddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel i blant a theuluoedd yng Nghymru.

International evidence shows that a positive start in life produces long-term benefits for children and strongly influences their future life chances. Our early years and childcare plan, 'Building a Brighter Future', sets out our clear intention to deliver high-quality services for children from pre-birth to the age of seven, as well as provide support for their parents and carers. Critically, affordable, accessible childcare enables parents to work. It helps them access training. It helps support our drive as a nation to increase economic growth, tackle poverty and reduce inequalities. However, clearly, childcare has to be safe.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod dechrau cadarnhaol mewn bywyd yn cynhyrchu manteision hirdymor i blant ac yn dylanwadu'n gryf ar eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Mae ein cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant, 'Adeiladu Dyfodol Disglair', yn nodi ein bwriad clir i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer plant o'r cyfnod cyn-geni hyd at saith oed, yn ogystal â darparu cymorth i'w rhieni a'u gofalwyr. Yn allweddol, mae gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn galluogi rhieni i weithio. Mae'n eu helpu i gael hyfforddiant. Mae'n helpu i gefnogi ein hymgyrch fel cenedl i gynyddu twf economaidd, mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau. Fodd bynnag, yn amlwg, rhaid i ofal plant fod yn ddiogel.

It is important to recognise that first aid requirements already exist for childcare staff in Wales. All registered settings are required, under the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010, to ensure at all times that, as has been said, at least one person caring for children has a suitable first aid qualification. The national minimum standards for regulated childcare stipulate that there must always be one person trained in first aid for infants and young children for every 10 children cared for. All child minders must hold a valid first aid certificate appropriate for the care of infants and young children. The Care and Social Services Inspectorate Wales, CSSIW, inspects all registered child-minding and childcare provision against the legislation and national minimum standards, and reports no systematic issues.

Mae'n bwysig cydnabod bod gofynion cymorth cyntaf eisoes yn bodoli ar gyfer staff gofal plant yng Nghymru. Mae'n ofynnol i bob lleoliad cofrestredig, o dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, sicrhau bob amser, fel y dywedwyd, fod o leiaf un person sy'n gofalu am blant yn meddu ar gymhwyster cymorth cyntaf addas. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir yn mynnu bod yn rhaid i un person bob amser fod wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf i fabanod a phlant ifanc am bob 10 plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid i bawb sy'n warchodwyr plant feddu ar dystysgrif cymorth cyntaf ddilys briodol ar gyfer gofalu am fabanod a phlant ifanc. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, AGGCC, yn arolygu pob darpariaeth gwarchod plant a gofal plant cofrestredig yn erbyn y ddeddfwriaeth a'r safonau gofynnol cenedlaethol, ac yn adrodd ar faterion systematig sy'n codi.

We know some settings exceed the minimum standards, and in addition, through funding and grant programmes, the Welsh Government makes funding available to the wide range of early years and childcare organisations via local authorities and third sector bodies. A proportion of the funding is used to support workforce development within these sectors according to local organisational and individual practitioner requirements, including the support for the delivery of first aid training.

Rydym yn gwybod bod rhai lleoliadau yn rhagori ar y safonau gofynnol, ac yn ogystal, drwy raglenni cyllid a grantiau, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r ystod eang o sefydliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector. Defnyddir cyfran o'r cyllid i gefnogi datblygiad y gweithlu yn y sectorau hyn yn unol â gofynion ymarferwyr sefydliadol ac unigol lleol, gan gynnwys y cymorth ar gyfer darparu hyfforddiant cymorth cyntaf.

For the benefit of our young children and the confidence of their parents, it is important that that early years and childcare provision is, as I say, of the highest quality, and to achieve this it is essential to have a respected, highly qualified and committed workforce. In 10 years' time, we want a highly skilled early education, childcare and play workforce, and to achieve this a draft 10-year plan for the early years, childcare and play workforce has been developed, and a public consultation on the plan was undertaken at the end of 2014. A summary of the responses will be published during the summer, and a final plan later in the year.

Er lles ein plant ifanc a hyder eu rhieni, mae'n bwysig fod y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant o'r ansawdd uchaf, fel y dywedais, ac er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol cael gweithlu ymroddedig, uchel ei barch a chymwys iawn. Ymhen 10 mlynedd, rydym am gael gweithlu addysg gynnar, gofal plant a chwarae sy'n fedrus iawn, ac er mwyn cyflawni hyn, datblygwyd cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun ar ddiwedd 2014. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf, a chynllun terfynol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Given our commitment to workforce development, we will of course look at any proposals to develop first aid training and knowledge across the sector. It is therefore timely that Members have raised the issue of ensuring the quality of our early years, childcare and play provision through the training and qualification levels of these practitioners. We wish to ensure the first aid capability within early years and childcare provision is appropriate, and, in doing this, we must take into account whether our present statutory requirements are fit for purpose, and whether there is any evidence of a requirement for change. We also need to assess the impact any changes would have on the sector in terms of regulatory burden and costs, and whether this would provide any benefits for children and their parents. We will also consider how other UK countries are approaching this matter, and the case of England has been mentioned today.

O ystyried ein hymrwymiad i ddatblygu'r gweithlu, byddwn yn edrych, wrth gwrs, ar unrhyw gynigion i ddatblygu hyfforddiant a gwybodaeth cymorth cyntaf ar draws y sector. Felly, mae'n amserol fod Aelodau wedi crybwyll mater sicrhau ansawdd ein darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae drwy lefelau hyfforddiant a chymwysterau'r ymarferwyr hyn. Rydym am sicrhau bod y gallu cymorth cyntaf o fewn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant yn briodol, ac er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni ystyried a yw ein gofynion statudol presennol yn addas i'r diben, ac a oes unrhyw dystiolaeth o angen am newid. Mae angen i ni hefyd asesu'r effaith y byddai unrhyw newidiadau yn ei chael ar y sector o ran baich rheoleiddio a chostau, ac a fyddai hyn yn cynnig unrhyw fanteision i blant a'u rhieni. Byddwn hefyd yn ystyried sut y mae gwledydd eraill y DU yn ymdrin â'r mater, ac mae achos Lloegr wedi'i grybwyll heddiw.

We're currently scoping these matters, and I know the Minister for Communities and Tackling Poverty will continue to keep Members informed. We all want to ensure the safety of children. We would expect the numbers of staff trained in first aid to rise as our overall training for childcare staff expands, and we are very willing to assess the options for a universal requirement. On that basis, the Welsh Government will be supporting today's motion.

Ar hyn o bryd rydym yn cwmpasu'r materion hyn, a gwn fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Rydym i gyd yn awyddus i sicrhau diogelwch plant. Byddem yn disgwyl i nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf godi wrth i'n hyfforddiant cyffredinol ar gyfer staff gofal plant ehangu, ac rydym yn barod iawn i asesu'r opsiynau ar gyfer gofyniad cyffredinol. Ar y sail honno, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw.

16:09

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

I call on Suzy Davies to respond to the debate.

16:09

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro.

Thank you, temporary Deputy Presiding Officer.

Thank you to everyone who spoke today, and stayed to listen, as well. I particularly wanted to take part in this debate as I was the chair of a board of trustees in a community nursery back in the early 2000s. I was speaking with some confidence before this debate that all our staff had been suitably trained in life-saving skills, but actually the motion that's come forward today has really made me think: what did I mean by that, when I said that our staff were all properly trained? Is there, even now, a difference between what nurseries provide legally and what families in Wales assume they provide? I think, you know, there probably is a difference. Especially now, if the families of Wales knew more widely that children in English nurseries are better protected than children in Welsh nurseries, then what do you think that their response is likely to be?

Diolch yn fawr i bawb a siaradodd heddiw, ac a arhosodd i wrando hefyd. Roeddwn yn arbennig o awyddus i gymryd rhan yn y ddadl hon gan fy mod yn arfer bod yn gadeirydd bwrdd o ymddiriedolwyr mewn meithrinfa gymunedol yn ôl yn y 2000au cynnar. Roeddwn yn siarad gyda pheth hyder cyn y ddadl hon fod ein holl staff wedi cael eu hyfforddi'n addas mewn sgiliau achub bywyd, ond mewn gwirionedd mae'r cynnig sydd wedi ei gyflwyno heddiw wedi gwneud i mi feddwl mewn gwirionedd: beth oeddwn i'n ei olygu wrth hynny, pan ddywedais fod ein staff i gyd wedi eu hyfforddi'n briodol? Hyd yn oed yn awr, a oes gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae meithrinfeydd yn ei ddarparu'n gyfreithlon a'r hyn y mae teuluoedd yng Nghymru yn cymryd yn ganiataol eu bod yn ei ddarparu? Wyddoch chi, rwy'n meddwl bod yna wahaniaeth yn ôl pob tebyg. Yn enwedig nawr, pe bai teuluoedd Cymru yn gwybod yn fwy cyffredinol fod plant mewn meithrinfeydd yn Lloegr yn cael eu diogelu'n well na phlant mewn meithrinfeydd yng Nghymru, beth yw eu hymateb yn debygol o fod yn eich barn chi?

Aled, I think you put the case of Millie Thompson very well. It's both appallingly sad and, of course, appallingly powerful. Paediatric first aid is not the same as general first aid, and it's not even the same as emergency life-saving skills for adults, but do you know they're not difficult to learn and they're not difficult to keep refreshed, despite the fact that they're specialist? If all staff had that training, then the threats posed by the absence of the trained member, as Bethan was talking about, simply don't arise.

Aled, rwy'n meddwl eich bod wedi cyflwyno achos Millie Thompson yn dda iawn. Mae'n ofnadwy o drist ac wrth gwrs, yn ofnadwy o bwerus. Nid yw cymorth cyntaf pediatrig yr un fath â chymorth cyntaf cyffredinol, ac nid yw hyd yn oed yr un fath â sgiliau achub bywyd mewn argyfwng ar gyfer oedolion, ond a ydych yn gwybod nad ydynt yn anodd eu dysgu ac nid ydynt yn anodd eu cadw wedi eu diweddaru, er eu bod yn arbenigol? Pe bai pob aelod o staff yn cael yr hyfforddiant, yna, yn syml iawn, ni fyddai'r bygythiadau y soniodd Bethan amdanynt sy'n cael eu hachosi gan absenoldeb aelod hyfforddedig o staff yn codi.

Minister, I'm quite happy for you to set out your Government's commitments to high-quality and safe childcare, and I'm certainly not disputing that at all, but those of us interested in this debate already know what's on offer at the moment and what's expected. What we're talking about today is the little bit that's missing. I wonder, are you genuinely content that just some settings exceed requirements? If your consultation on the 10-year plan doesn't actually raise paediatric first aid training on a wider scale as an issue, will you consider introducing it anyway?

Weinidog, rwy'n eithaf hapus i chi nodi ymrwymiadau eich Llywodraeth i ofal plant diogel o ansawdd uchel, ac yn sicr nid wyf yn amau hynny o gwbl, ond mae'r rhai ohonom sydd â diddordeb yn y ddadl hon eisoes yn gwybod beth sydd ar gael ar hyn o bryd a beth sy'n ddisgwyliedig. Yr hyn rydym yn sôn amdano heddiw yw'r darn bach sydd ar goll. Tybed a ydych yn fodlon mewn gwirionedd ar weld rhai lleoliadau'n unig yn rhagori ar y gofynion? Os nad yw eich ymgynghoriad ar y cynllun 10 mlynedd yn tynnu sylw at hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ar raddfa ehangach, a wnewch chi ystyried ei gyflwyno beth bynnag?

I actually think this is part of a bigger story, and Bethan Jenkins was kind enough to mention this. I certainly don't want to hijack the debate, but there is a bigger story here, I think, isn't there, of population awareness and population-level skills? One of the first things I did as an AM was to table a statement of opinion on emergency life-saving skills becoming a mandatory part of the school curriculum, and it had cross-party support. That plea has persisted, and has persisted all the way to my consultation response to the Donaldson curriculum review, and, Minister, I still ask you to consider it today.

Rwy'n meddwl o ddifrif fod hyn yn rhan o stori fwy, ac roedd Bethan Jenkins yn ddigon caredig i sôn am hyn. Yn sicr, nid wyf am herwgipio'r ddadl, ond mae stori fwy yma, rwy'n meddwl, onid oes, am ymwybyddiaeth poblogaeth a sgiliau ar lefel y boblogaeth? Un o'r pethau cyntaf a wneuthum fel Aelod Cynulliad oedd cyflwyno datganiad barn ar wneud sgiliau achub bywyd mewn argyfwng yn rhan orfodol o gwricwlwm yr ysgol, a chafodd gefnogaeth drawsbleidiol. Mae'r apêl honno wedi parhau, ac mae wedi parhau yr holl ffordd at fy ymateb i'r ymgynghoriad i adolygiad cwricwlwm Donaldson, a Weinidog, rwy'n dal i ofyn i chi ei ystyried heddiw.

Nursery workers should receive compulsory specialist paediatric first aid training to save the lives of children, but every child should be trained to save the life of even one of the 15,000 people who suffer a cardiac arrest in public, as Bethan said, in front of bystanders, and those bystanders include children themselves. If children are equipped with basic life-saving skills from an early age, then we raise young people who will not be afraid of intervening and who will not stand back, like the frightened—trained—staff in poor Millie Thompson's case.

Dylai gweithwyr meithrinfa gael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig arbenigol gorfodol i achub bywydau plant, ond dylai pob plentyn gael ei hyfforddi i achub bywyd hyd yn oed un o'r 15,000 o bobl sy'n dioddef trawiad ar y galon yn gyhoeddus, fel y dywedodd Bethan, o flaen pobl eraill, gan gynnwys plant eu hunain. Os caiff plant eu cyfarparu â sgiliau achub bywyd sylfaenol o oedran cynnar, yna rydym yn magu pobl ifanc na fyddant yn ofni ymyrryd ac na fyddant yn cilio, fel y staff ofnus—wedi'u hyfforddi—yn achos Millie Thompson, druan.

Learning life-saving skills is a bit like learning a language: if you don't practise, you can still go to pieces under stress. That's more or less what happened in Millie Thompson's case. Every nursery worker should've passed a paediatric first aid course as part of their level 2 qualification—and actually, Julie, to respond to the issue that you raised in the course of the debate, I actually can't see why midwives can't include this particular part of their training in antenatal classes. As I said before, this may be specialist, but it's not difficult.

Mae dysgu sgiliau achub bywyd yn debyg i ddysgu iaith: os nad ydych yn ymarfer, gallwch ddal i fynd i banig o dan straen. Dyna a ddigwyddodd, fwy neu lai, yn achos Millie Thompson. Dylai pob gweithiwr meithrinfa fod wedi pasio cwrs cymorth cyntaf pediatrig yn rhan o'u cymhwyster lefel 2—ac mewn gwirionedd, Julie, i ymateb i'r mater a godoch yn ystod y ddadl, ni allaf weld mewn gwirionedd pam na all bydwragedd gynnwys y rhan benodol hon o'u hyfforddiant mewn dosbarthiadau cyn-geni. Fel y dywedais o'r blaen, gall fod yn arbenigol, ond nid yw'n anodd.

The confidence in using specialised skills is surely going to be stronger if they're built on a foundation of general regularly refreshed emergency life-saving skills that have been part of your education right through from foundation phase to college. Aled, you called for a range of options to be considered here. Minister, you were concerned about the regulatory impact that the introduction of compulsory paediatric first aid might cause. I have to ask, do we really need acres of consultation and guidance on this? It's simple: the more nursery staff who have the training, the less likely it is that a child in their care will die from a preventable cause.

Mae'r hyder wrth ddefnyddio sgiliau arbenigol yn sicr yn mynd i fod yn gryfach os ydynt wedi eu hadeiladu ar sylfaen o sgiliau achub bywyd cyffredinol mewn argyfwng sy'n cael eu hadnewyddu'n rheolaidd ac sydd wedi bod yn rhan o'ch addysg yr holl ffordd o'r cyfnod sylfaen i'r coleg. Aled, fe alwoch am amrywiaeth o opsiynau i'w hystyried yma. Weinidog, roeddech yn pryderu am yr effaith reoleiddiol y gallai cyflwyno cymorth cyntaf pediatrig gorfodol ei achosi. Rhaid i mi ofyn, a oes gwir angen erwau o ymgynghori a chanllawiau ar hyn? Mae'n syml: po fwyaf o staff meithrin sy'n cael yr hyfforddiant, y lleiaf tebygol yw hi y bydd plentyn yn eu gofal yn marw o achos ataliadwy.

*Huw Lewis a gododd—*

*Huw Lewis rose—*

16:13 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm happy to take the intervention.

Rwy'n hapus i gymryd yr ymyriad.

16:13 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I take Suzy Davies's point, but I think she may be misunderstanding the thrust of my comments this afternoon. I drew attention to these issues as things that have to be considered as part of a reform, but the Welsh Government will support the motion this afternoon.

Derbyniaf bwynt Suzy Davies, ond rwy'n meddwl efallai ei bod yn camddeall byrdwn fy sylwadau y prynhawn yma. Tynnais sylw at y materion hyn fel pethau sy'n rhaid eu hystyried fel rhan o broses ddiwygio, ond bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma.

16:13 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm absolutely delighted to hear that, and I'm hoping that concerns about regulation won't deter you from acting on your support for this motion today, if at all possible, because, of course, the financial cost, I think, Minister, is pretty negligible in this particular case. Trainers are already available. Of course, Minister, the power to introduce this is already in your hands, so I hope that you will consider exercising that power. Thank you very much.

Rwyf wrth fy modd yn clywed hynny, ac rwy'n gobeithio na fydd pryderon ynghylch rheoleiddio yn eich atal rhag gweithredu ar eich cefnogaeth i'r cynnig hwn heddiw, os yn bosibl, oherwydd, wrth gwrs Weinidog, rwy'n credu na fydd y nesaf peth i ddim cost ariannol yn yr achos penodol hwn. Mae hyfforddwyr ar gael eisoes. Wrth gwrs, Weinidog, mae'r pŵer i gyflwyno hyn eisoes yn eich dwylo, felly rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried arfer y pŵer hwnnw. Diolch yn fawr iawn.

16:14 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn, felly, yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question, therefore, is whether to accept the proposal. Are there any objections? Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## 5. Dadl Plaid Cymru: Y Sectorau Cig Coch a Llaeth

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 5, 6, 7, 8 a 9 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.*

## 5. Plaid Cymru Debate: The Red Meat and Dairy Sectors

*The following amendments have been selected: amendments 1, 5, 6, 7, 8 and 9 in the name of Paul Davies, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.*

16:14

### Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe symudwn ni ymlaen at eitem 5, dadl Plaid Cymru: y sectorau cig coch a llaeth. Galwaf ar Llyr Gruffydd i wneud y cynnig.

We now come to item 5, the Plaid Cymru debate on the red meat and dairy sectors. I call on Llyr Gruffydd to move the motion.

Cynnig NDM5817 Elin Jones

Motion NDM5817 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r anawsterau difrifol sy'n wynebu'r sectorau cig coch a llaeth yng Nghymru.

1. Notes the serious difficulties facing the red meat and dairy sectors in Wales;

2. Yn gresynu at y dirywiad ym mhris wrth gât y fferm llaeth a chig oen.

2. Regrets the decline in the farm-gate price of milk and lamb;

3. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ardoll cig coch.

3. Regrets the failure of the UK Government to reform the red meat levy;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) defnyddio'r Rhaglen Datblygu Gwledig i ddarparu cefnogaeth ar unwaith i'r sectorau a'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf;

a) utilise the Rural Development Programme to provide immediate support for those sectors and businesses most affected;

b) amddiffyn ffermwyr Cymru rhag anwadalrwydd y marchnadoedd byd-eang drwy gryfhau cadwyni cyflenwi domestig;

b) protect Welsh farmers from the volatility of global markets by strengthening domestic supply chains;

c) gwneud sylwadau brys i Lywodraeth y DU gyda'r bwriad o gyflwyno system ddosbarthu ardoll cig coch decach; a

c) make urgent representation to the UK Government with a view to introducing a fairer red meat levy distribution system; and

d) gweithio tuag at gynnal blwyddyn cenedlaethol bwyd a diod Cymru fel canolbwynt ar gyfer hyrwyddo cynnyrch Cymreig ar lefel ddomestig a rhyngwladol.

d) work towards holding a Welsh national year of food and drink as a focal point for the promotion of Welsh produce on a domestic and international level.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:14

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Rwy'n cyflwyno'r cynnig yma, wrth gwrs, yn enw Plaid Cymru. Rŷm ni wedi bod fan hyn o'r blaen, rwy'n meddwl. Mae Plaid Cymru yn gyson wedi arwain dadleuon ar y diwydiant amaeth fan hyn yn y Siambr. Nid ydym ni'n ymddiheuro am hynny, wrth gwrs, ac mi fyddwn ni yn dal i wneud hynny er mwyn sicrhau bod llais cymunedau gwledig yn cael ei glywed a bod eu cyfraniad economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i gynaliadwyedd cefn gwlad Cymru yn cael y gydnabyddiaeth rwy'n siŵr y bydd pawb yn cytuno y maen nhw'n ei haeddu.

Thank you very much. I present this motion, of course, in the name of Plaid Cymru. We have been here before, I think. Plaid Cymru has consistently led debates on the agricultural industry here in the Chamber. We make no apologies for that, of course, and we will continue to do so in order to ensure that the voice of rural communities is heard and that their economic, social, environmental and cultural contribution to the sustainability of the Welsh countryside receive the recognition I'm sure everyone would agree they deserve.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:15.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:15.*

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Mae sawl agwedd i'r cynnig yma heddiw, a sawl gwelliant hefyd, ac ymatebaf i'r rheini yn unigol yn nes ymlaen. Mae pawb yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant, ac mi fydd yna gyfle inni, mae'n siŵr—i bob un ohonom ni, gobeithio—i drafod hynny mewn manylder ac mewn mwy o ddyfnder yr wythnos nesaf yn y Sioe Fawr. Mae'n hynod, wrth gwrs, fod cymaint o sectorau, fel y mae pethau ar hyn o bryd, yn dioddef prisiau isel wrth gât y fferm, a hynny ar yr un pryd. Mae pris llaeth, fel rŷm ni'n gwybod, i lawr o 34c y litr ar ddechrau llynedd i brin 20c y litr erbyn hyn, gyda rhai yn cael eu talu cyn lleied ag 16c y litr. Mae prisiau ŵyn i lawr £25 neu £30 y pen o'i gymharu â llynedd. Gallwch wneud y fathemateg: os ydych yn cynhyrchu 1,000 o ŵyn, yna mae hynny rhyw £30,000 yn llai o incwm, er bod y costau, wrth gwrs, nid yn unig yn aros yr un peth ond, yn wir, yn mynd i fyny. Mae cig eidion hefyd yn dioddef, er bod eidion wedi dod yn ôl ychydig yn yr wythnosau diwethaf.

There are many aspects to this motion today, and a number of amendments to it, too, and I will respond to those individually a little later. Everyone is aware, of course, of the challenges facing the industry, and there will be an opportunity, I'm sure—for each and every one of us, hopefully—to discuss that in greater detail and in greater depth next week in the Royal Welsh Show. It's surprising, of course, that so many sectors, as things currently stand, are suffering low prices at the farm gate, and that that's all happening simultaneously. The price of milk, as we know, is down from 34p a litre at the start of last year to barely 20p a litre, with some paid as little as 16p a litre. The price of lamb is down £25 or £30 per head on last year. You can do the maths: if you produce 1,000 lambs, then that's some £30,000 of a decline in income, although the costs, of course, not only remain the same, but actually increase. The beef sector is also suffering, although there has been some recovery over the past few weeks.

Canlyniad hynny oll, wrth gwrs, yw bod nifer fawr o gynhyrchwyr yma yng Nghymru yn cynhyrchu ar golled. Ni fedraf ddychmygu'r pwysau a'r trafferthion o safbwynt llif arian sy'n dod yn sgil hynny. Yn wir, nid oedd yn syndod, efallai, deall bod Banc Lloegr wedi cyhoeddi heddiw bod lefelau benthyca ffermydd ar eu huchaf erioed yn yr hinsawdd sydd ohoni. Ni all dim un busnes, wrth gwrs, redeg ar golled yn hir iawn, ac mae'r newyddion bod 450 yn llai o ffermydd yn y sector llaeth yng Nghymru a Lloegr heddiw o'i gymharu â 12 mis yn ôl rwy'n siŵr yn ein sobreiddio ni i gyd.

The result of all of that, of course, is that many producers here in Wales are producing at a loss. I can't imagine the pressures and difficulties in terms of cash flow that emerge from that. Indeed, it was no surprise, perhaps, to understand that the Bank of England has announced today that borrowing among farmers is at its highest level ever in the current financial conditions. No business, of course, can run at a loss for very long, and the news that there are 450 fewer farms in the dairy sector in England and Wales today compared with 12 months ago is, I'm sure, sobering for us all.

Nid oes rhagolygon y bydd pris llaeth yn codi eleni—yn wir, tan ein bod ni, efallai, tipyn o'r ffordd i mewn i'r flwyddyn nesaf. O ran cig oen, wel, mae'r bunt gref, mewnforion cig coch, yn enwedig cig oen o Seland Newydd, wrth gwrs, ynghyd â digonedd o ddarpariaeth ddomestig wedi effeithio'n drwm ar brisiau. Roedd yn ddiddorol nodi bod 24 y cant yn fwy o gig oen wedi ei fewnforio i'r Deyrnas Unedig o Seland Newydd yn chwarter cyntaf eleni o'i gymharu â'r llynedd, a hynny dros dymor hirach, a oedd yn cael effaith, yn arbennig, fel y dywedais i, pan oedd digon o gig oen domestig ar gael ar ôl gwanwyn ffafriol.

There's no sign that the price of milk will improve this year—indeed, until we are, perhaps, a fair bit into next year. In terms of lamb, well, the strong pound, imports of red meat, particularly lamb from New Zealand, of course, as well as plenty of domestic provision has had a major impact on prices. It was interesting to note that 25 per cent more lamb had been imported into the UK from New Zealand in the first quarter of this year compared with last year, and that was over a longer period, which had an impact, particularly, as I said, when there was plenty of domestically produced lamb available following a favourable spring.

Tra, wrth gwrs, fod angen datrysiadau hirdymor a fydd yn adeiladu diwydiant mwy cydnerth dros amser—ac mi oedd yn braf cael bod yn lansiad cynllun gweithredu strategol y diwydiant cig coch yng Nghymru gyda Hybu Cig Cymru neithiwr; strategaeth sy'n mynd â ni hyd at 2020—nid oes dianc o'r realiti fod rhaid, hefyd, gael ffocws ar heddiw a'r angen am ddarpariaeth frys i drafferthion a phwysau ariannol tymor byr. Mae'r Dirprwy Weinidog, rwy'n gwybod, yn ymwybodol o'r angen a'r pwysigrwydd i sicrhau taliadau cynnar o'r taliad sylfaenol, pan fydd y ffenest daliadau yn agor, a bod cymaint o hwnnw ag sy'n bosibl yn cael ei ryddhau mor fuan ag sy'n bosibl, ond hefyd, fel y mae'r cynnig yn ei ddweud, mae angen cryfhau a gwella arferion yn y gadwyn gyflenwi, mae angen, yn amlwg, tyfu'r farchnad trwy dyfu'r lefelau o fwyd a diod Cymreig sy'n cael eu defnyddio, a hefyd mae angen tyfu capasiti i brosesu. Mae yna rôl benodol, yn amlwg, i'r Llywodraeth yn hyn o beth, o safbwynt dod â phawb at ei gilydd a hwyluso cydweithio, boed yn gynhyrchwyr, yn broseswyr, yn fanwerthwyr, y banciau, ac yn y blaen. Mae'n rhaid i ni gyd weithio gyda'n gilydd, wrth gwrs, achos dyna fydd yn sicrhau bod y diwydiant yn dod allan o'r sefyllfa bresennol yn gryfach.

While, of course, we need long-term solutions that will build a more resilient industry over time—and I was pleased to be at the launch of the strategic action plan for the red meat industry in Wales with Hybu Cig Cymru just last night; a strategy that takes us up to 2020—there's no getting away from the reality that we also must have a focus on the here and now and the need for urgent provisions for the short-term financial pressures. The Deputy Minister, I know, is aware of the need and the importance of ensuring early payments of the basic payment, when the payment window opens, and that as much as that as possible is released as soon as possible, but also, as the motion states, we need to strengthen and improve practices in the supply chain, we need, obviously, to develop the market by developing the levels of Welsh food and drink that are consumed, and also we need to develop capacity to process. There is a specific role here for Government, clearly, in terms of bringing all the players together and to facilitate joint working, be they producers, processers, retailers, banks, and so on. We must all work together because, of course, that's what will ensure that the industry comes out of the current situation in a stronger position.

Mae'r cynllun datblygu gwledig, wrth gwrs, â rôl bwysig i'w chwarae, ac rwyf wedi codi'r rhaglen yma lawer tro yn y gorffennol. Mae angen, nawr, inni sicrhau bod y gefnogaeth yn mynd i le mae ei hangen o fewn y diwydiant, yn enwedig gan fod y trefniadau o safbwynt y taliadau sylfaenol wedi dod yn gliriach erbyn hyn. Mae'n gliriach hefyd, rwy'n meddwl, lle y bydd angen y gefnogaeth ychwanegol honno. Nawr, fe wrthwynebodd Plaid Cymru, wrth gwrs, Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y toriad a ddigwyddodd i'r gyllideb CAP ar lefel Ewropeaidd, a hefyd ar y trosglwyddiad o 15 y cant gan Lywodraeth Cymru o biler 1 i biler 2 a oedd yn cymryd £0.25 biliwn o bocedi ffermwyr Cymru—arian fyddai wedi treiddio i'r economi wledig ehangach trwy gael ei wario ymhlith contractwyr lleol, siopau lleol, garejys lleol, ac yn y blaen. Ond, i'r cynllun datblygu gwledig yr aeth, ac mae'n bwysig nawr ei fod yn dod yn ôl i'r diwydiant ac yn gweithio mor galed ag sy'n bosibl dros y diwydiant.

The rural development plan, of course, has an important role to play, and I have raised that programme on a number of occasions in the past. We must now ensure that the support is focused where it is required within the industry, particularly as arrangements in terms of the basic payments are now clearer. It's also clearer, I think, where the additional support will be needed. Now, Plaid Cymru, of course, opposed the UK Government's proposal on the cut that was made to the CAP budget at a European level, and also the transference of 15 per cent by the Welsh Government from pillar 1 to pillar 2, which took £0.5 billion from the pockets of Welsh farmers—money that would have permeated through the broader rural economy by being spent among local contractors, local shops, local garages, and so on. But, it went to the RDP, and it's now important that it comes back into the industry and works as hard as possible for the industry.

Rydym yn dal i aros i glywed y manylion gan y Dirprwy Weinidog o ran sut bydd y cynllun datblygu gwledig yn cael ei ddefnyddio. Er yr addewid i gydweithio a chyd-gynhyrchu rhai o'r cynlluniau a'r projectau yma gyda'r diwydiant, mae'r diwydiant hefyd yn dal i aros i glywed beth fydd y defnydd penodol a fydd yn cael ei wneud o lawer o'r arian, heb sôn am weld hwnnw'n cael ei weithredu. Rwyf yn tybio y daw ychydig o hynny yn gliriach wrth inni glywed cyhoeddiadau gan y Dirprwy Weinidog yn y sioe yr wythnos nesaf.

We are still waiting to hear the details from the Deputy Minister as to how the RDP will be used. Despite a pledge that there would be collaboration and co-production of some of these plans and projects with the industry, the industry is still waiting to hear exactly what specific use will be made of much of that funding, never mind seeing it implemented. I do anticipate that some of that will become clearer as we hear announcements from the Deputy Minister at the Royal Welsh next week.

Mae'r cynnig yn ein hatgoffa ein bod hefyd yn dal i aros am ddiwygio'r lefi cig coch, y £1 filiwn ychwanegol yma, yn ôl rhai amcangyfrifon, a allai ddod i Gymru—wel, arian sy'n ddyledus i ni, mewn gwirionedd—er mwyn marchnata'r sector cig coch. Rwy'n edrych ymlaen at gael diweddariad gan y Dirprwy Weinidog ar y trafodaethau rŷm ni i gyd yn gobeithio sydd yn digwydd ar hyn o bryd.

The motion reminds that we are still waiting for a reform of the red meat levy, this additional £1 million, according to some estimates, that could come to Wales—well, money that is owed to us, if truth be told—in order to market the red meat sector. I look forward to hearing an update from the Deputy Minister on the negotiations that we all hope are ongoing.

Galwad arall rwyf eisiau ei ategu yn y ddadl yma y prynhawn yma yw'r angen i gryfhau cadwyni cyflenwi, fel roeddwn yn sôn yn gynharach, a sicrhau yn enwedig gwell tryloywder o gwmpas prisiau, a phrisiau llaeth yn enwedig, sydd wedi bod yn destun trafod yn y cyd-destun yma yn benodol. Mae cynrychiolwyr y diwydiant wedi galw ar yr archfarchnadoedd i roi diwedd ar ddisgowntio llaeth, sy'n gwneud gymaint o niwed i'r sector mewn sawl ffordd. Yn wir, mae un o lefaryddion yr NFU wedi galw yn arbennig ar Asda, Lidl, Aldi a Morrisons i ddarparu tryloywder a chynaliadwyedd, ac yn enwedig i sicrhau nad ffermwyr sy'n talu am y rhyfel prisiau rhwng yr archfarchnadoedd pan mae'n dod i bris llaeth.

Another demand that I want to endorse in this debate this afternoon is the need to strengthen supply chains, as I mentioned earlier, and ensure more transparency around prices, and prices in the dairy sector particularly, which have been the subject of much debate in this context specifically. Representatives of the industry have called on the supermarkets to stop discounting milk, which causes so much damage to the sector in many ways. Indeed, one NFU spokesperson has called on Asda, Lidl, Aldi and Morrisons to provide transparency and sustainability, particularly to ensure that it's not farmers who pay for the price war between those supermarkets when it comes to the price of milk.

So, I want supermarkets to play a more positive and proactive role in the face of the current difficulties, because using milk as a loss leader inevitably devalues the product and it shouldn't be happening. I came across some interesting statistics recently. Between 1996 and 2011, the percentage retail margin on liquid milk increased by more than 3,000 per cent, whilst farmer margins fell by 37 per cent. Processor margins fell by 16 per cent. Retailer margin on milk cheese in the same period was up 51 per cent, whilst farm gate margins for milk supplied for cheese production fell by a whopping 80 per cent.

Felly, rwyf am i archfarchnadoedd chwarae rhan fwy cadarnhaol a rhagweithiol yn wyneb yr anawsterau cyfredol, gan fod defnyddio llaeth fel nwydd ar golled yn anochel yn dibrisio'r cynnyrch ac ni ddylai fod yn digwydd. Deuthum ar draws rhai ystadegau diddorol yn ddiweddar. Rhwng 1996 a 2011, cynyddodd canran yr elw manwerthu ar laeth hylif fwy na 3,000 y cant, er i'r elw i ffermwyr ostwng 37 y cant. Disgynnodd elw prosesyddion 16 y cant. Roedd elw manwerthu ar gaws llaeth yn yr un cyfnod i fyny 51 y cant, er bod yr elw wrth giât y fferm am laeth a gyflenwid ar gyfer cynhyrchu caws wedi gostwng cymaint â 80 y cant.

Supermarkets should be promoting Welsh produce and giving our produce pride of place on their shelves, supporting both the producers and the Welsh economy. The farmers, of course, stood by them when the boot was on the other foot during the horsemeat scandal, and it's time that that loyalty was repaid.

Dylai archfarchnadoedd hyrwyddo cynnyrch o Gymru a rhoi lle blaenllaw i'n cynnyrch ar eu silffoedd, gan gefnogi cynhyrchwyr ac economi Cymru. Wrth gwrs, safodd ffermwyr y tu cefn iddynt pan oedd yr esgid ar y droed arall yn ystod y sgandal cig ceffyl, ac mae'n bryd dychwelyd y teyrngarwch hwnnw.

I also want to refer this afternoon to Plaid Cymru's intention to make 2018 a year of Welsh food and drink. I have to say that every year and every day is a year of Welsh food and drink in our household at least, but that isn't always the case, unfortunately. So, I do want to see an intensive year-long drive to promote Welsh produce, both domestically and abroad, boosting exports and tourism as well, whilst supporting a sector that produces, of course, the finest food and drink available. The celebration, if you like, would involve increased support for food and drink producers, and procurement initiatives to drive up the level of local produce purchased by public bodies in Wales. And, you know, we don't have to look very far for examples of how to do that. I've previously referred to the excellent example of Gwynedd Council, which procures 100 per cent of its school lunches, with its school dinner contracts and provisions, from producers that are either in Gwynedd or neighbouring authorities. Contrast that to Anglesey council where the whole contract is with a company in Reading. But, we also want to see a programme of events to celebrate Welsh food and drink, and increase the support to develop and grow food fairs and farmers' markets. I'd also like to think that some of our large retailers as well, such as the supermarkets, will come on board and make the year of Welsh food and drink the opportunity to finally give Welsh produce the pride of place it deserves on their shelves.

Rwyf hefyd am gyfeirio y prynhawn yma at fwriad Plaid Cymru i wneud 2018 yn flwyddyn bwyd a diod o Gymru. Rhaid i mi ddweud bod pob blwyddyn a phob dydd yn flwyddyn bwyd a diod o Gymru yn ein cartref ni o leiaf, ond nid yw hynny'n wir bob amser, yn anffodus. Felly, rwyf am weld ymgyrch ddwys am flwyddyn i hyrwyddo cynnyrch o Gymru, yn y wlad hon a thramor, gan roi hwb i allforion a thwristiaeth yn ogystal, gan gefnogi sector sy'n cynhyrchu'r bwyd a'r diod gorau sy'n bod, wrth gwrs. Byddai'r dathliad, os mynnwch, yn golygu rhoi mwy o gefnogaeth i gynhyrchwyr bwyd a diod, a mentrau caffael i godi lefel y cynnyrch lleol a brynir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. A wyddoch chi, nid oes raid i ni edrych yn bell iawn am enghreifftiau o sut i wneud hynny. Rwyf wedi cyfeirio o'r blaen at enghraifft ardderchog Cyngor Gwynedd, sy'n caffael 100 y cant o'i giniawau ysgol, a'i fwydydd gan gynhyrchwyr naill ai yng Ngwynedd neu mewn awdurdodau cyfagos. Cymharwch hynny â Chyngor Ynys Môn lle mae'r contract cyfan gyda chwmni yn Reading. Ond rydym hefyd eisiau gweld rhaglen o ddigwyddiadau i ddathlu bwyd a diod o Gymru, a chynyddu'r gefnogaeth i ddatblygu a thyfu ffeiriau bwyd a marchnadoedd ffermwyr. Hoffwn feddwl hefyd fod rhai o'n manwerthwyr mawr yn ogystal, megis yr archfarchnadoedd, yn dod gyda ni a gwneud blwyddyn bwyd a diod o Gymru yn gyfle i roi'r lle blaenllaw y mae'n ei haeddu i gynnyrch o Gymru ar eu silffoedd.

I'll pick up on the amendments in my closing remarks, and my colleagues here will expand on some particular aspects of the motion. I look forward to hearing the contributions of other colleagues here in the Chamber this afternoon.

Soniaf am y gwelliannau yn fy sylwadau i gloi, a bydd fy nghydweithwyr yma yn ymhelaethu ar rai agweddau penodol ar y cynnig. Edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau cyd-Aelodau eraill yma yn y Siambr y prynhawn yma.

16:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the 9 amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be de-selected. I call on Russell George to move amendments 1, 5, 6, 7, 8 and 9 tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y 9 gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Russell George i gynnig gwelliannau 1, 5, 6, 7, 8 a 9 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r ardoll hybu cig.*

*Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to reform the meat promotional levy.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau lladd-dy cig eidion a chig oen wedi'i leoli yng ngogledd Cymru i sicrhau cynaliadwyedd hir dymor cynhyrchu cig coch yng Ngogledd Cymru.*

*Calls on the Welsh Government to secure a north Wales-based beef and lamb abattoir to ensure the long-term sustainability of red meat production in North Wales.*

*Gwelliant 6—Paul Davies*

*Amendment 6—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw am god ymarfer gwirfoddol ar gyfer archfarchnadoedd a siopau i neilltuo rhan o'u lloriau i gefnogi a hyrwyddo statws dynodiad daearyddol gwarchodedig o Gymru a chig tractor coch Prydeinig.*

*Calls for a voluntary code of practice for supermarkets and shops to dedicate a section of floor space to the support and promotion of Welsh PGI status and British Red Tractor meat.*

*Gwelliant 7—Paul Davies*

*Amendment 7—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'n sylweddol y canran o'r cynnyrch a gaffelir yn gyhoeddus sy'n dod o Gymru.*

*Calls on the Welsh Government to significantly increase the percentage of publicly procured produce that is from Wales.*

*Gwelliant 8—Paul Davies*

*Amendment 8—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion adolygiad Richardson o'r sector llaeth yn ddi-oed.*

*Calls on the Welsh Government to implement the recommendations of the Richardson review of the dairy sector without delay.*

*Gwelliant 9—Paul Davies*

*Amendment 9—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw am ymestyn labelu gwlad tarddiad gorfodol i'r sector llaeth.*

*Calls for mandatory country of origin labelling to be extended to the dairy sector.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 5, 6, 7, 8 a 9.*

*Amendments 1, 5, 6, 7, 8 and 9 moved.*

16:24 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As we look forward to celebrating the best of Welsh food and agriculture at next week's Royal Welsh Show, I'm delighted to be able to take part in this debate, and I move the amendments on behalf of the Welsh Conservative group, in the name of Paul Davies.

Wrth i ni edrych ymlaen at ddathlu'r gorau o fwyd ac amaethyddiaeth Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru yr wythnos nesaf, rwy'n falch iawn o allu cymryd rhan yn y ddadl hon, ac rwy'n cynnig y gwelliannau ar ran grŵp Ceidwadwyr Cymru, yn enw Paul Davies.

The success of both the Welsh red meat and dairy industries are vital to the health of the whole Welsh economy. International sales of Welsh beef and Welsh lamb are worth more than £200 million to the Welsh economy, and this underpins, of course, the importance and potential for growth in this sector. We on these benches are in broad agreement with the general principles of the Plaid Cymru motion today, and listening to Llyr's opening remarks, I have to say I can almost agree with all that was said. But, I hope Members will consider supporting our amendments today, which we feel further enhance and strengthen the motion, sending a united message, I hope, to the Welsh agriculture and food industries that we, as Assembly Members, are prepared to act on their concerns.

Mae llwyddiant diwydiannau cig coch a llaeth Cymru yn hanfodol i iechyd economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae gwerthiant rhyngwladol cig eidion a chig oen o Gymru yn werth dros £200 miliwn i economi Cymru, ac mae hyn wrth gwrs yn tanlinellu pwysigrwydd y sector a'r potensial ar gyfer twf yn y sector hwn. Rydym ni ar y meinciau hyn yn cytuno'n fras ag egwyddorion cyffredinol cynnig Plaid Cymru heddiw, ac wrth wrando ar sylwadau agoriadol Llyr, rhaid i mi ddweud y gallaf gytuno â bron y cyfan a ddywedwyd. Ond rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n ystyried cefnogi ein gwelliannau heddiw. Teimlwn eu bod yn gwella ac yn cryfhau'r cynnig ymhellach, gan anfon neges unedig, gobeithio, i ddiwydiannau amaethyddiaeth a bwyd Cymru ein bod ni, fel Aelodau Cynulliad, yn barod i weithredu ar eu pryderon.

In moving amendment 1, while we believe that reform of the meat promotional levy is essential to ensure the level is payable to the country in which the animal is born rather than slaughtered, the motion does fail to recognise the role, of course, that Welsh Government has also in pressing for reform. I agree that the current levy distribution system is not fit for purpose—a problem that has been exasperated by the closure of a north Wales abattoir, and this has led, of course, to more stock being slaughtered in England, to the detriment of Welsh farmers.

Wrth gynnig gwelliant 1, er ein bod yn credu bod diwygio'r ardoll hyrwyddo cig yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y lefel yn daladwy i'r wlad lle ganed yr anifail yn hytrach na lle cafodd ei ladd, mae'r cynnig yn methu cydnabod y rôl sydd gan Lywodraeth Cymru hefyd, wrth gwrs, yn pwyso am ddiwygio. Rwy'n cytuno nad yw'r system ddosbarthu ardoll bresennol yn addas at y diben—problem a waethygwyd gan gau lladd-dy yng ngogledd Cymru, ac mae hyn wedi arwain, wrth gwrs, at fwy o stoc yn cael eu lladd yn Lloegr, er anfantais i ffermwyr Cymru.

*Alun Davies a gododd—*

*Alun Davies a gododd-*

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In a moment. Therefore, in moving amendment 5, Deputy Presiding Officer, we are calling on the Welsh Government

Mewn munud. Felly, wrth gynnig gwelliant 5, Ddirprwy Lywydd, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru

'to secure a north Wales-based beef and lamb abattoir to ensure the long-term sustainability of red meat production in North Wales.'

'i sicrhau lladd-dy cig eidion a chig oen wedi'i leoli yng ngogledd Cymru i sicrhau cynaliadwyedd hir dymor cynhyrchu cig coch yng Ngogledd Cymru.'

And the Welsh red meat industry is one of the best in the world, and as such, we have a duty to protect and develop this industry.

Ac mae diwydiant cig coch Cymru yn un o'r rhai gorau yn y byd, ac fel y cyfryw, mae gennym ddyletswydd i ddiogelu a datblygu'r diwydiant hwn.

16:26 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for giving way. You accept that the Welsh Government has a role in the levy negotiations and structures, and that's probably true, but the levy is managed by the United Kingdom Government, and it is successive Conservative Ministers who have refused to tolerate any change to that levy system at all. Will you take this up with your party in Westminster?

Diolch yn fawr iawn am ildio. Rydych yn derbyn bod gan Lywodraeth Cymru rôl yn y trafodaethau ar yr ardoll a'i strwythurau, ac mae hynny'n wir yn ôl pob tebyg, ond mae'r ardoll yn cael ei rheoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a Gweinidogion Ceidwadol olynol sydd wedi gwrthod goddef unrhyw newid o gwbl i'r system ardoll. A wnewch chi drafod hyn gyda'ch plaid yn San Steffan?

16:26 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I will, and I have done, and I'll continue to do so. And I accept the majority of what you've said as well, Alun Davies.

Gwnaf, ac rwyf wedi gwneud hynny, a byddaf yn parhau i wneud hynny. Ac rwy'n derbyn y rhan fwyaf o'r hyn rydych wedi'i ddweud hefyd, Alun Davies.

Another way in which we can ensure that Welsh farmers are supported is to ensure that they are given a fair crack of the whip by our major retailers. I've repeatedly called for a voluntary code of practice to be established for supermarkets and shops to dedicate a prominent section of floor space to support the promotion of Welsh protected geographical indication status and British red tractor meat. I find it quite shocking that, at a peak time for new season lamb, retailers are purely making decisions based on cost and sourcing old season lamb from the other side of the world, rather than making decisions based on the quality and locality. I feel that major retailers in Wales need to urgently start to be taking more pride in our red meat industry, and start giving them both the recognition and support that hard-working farmers need. And Llyr talked about loyalty during a previous crisis and deserving the same back, and I agree with that as well.

Ffordd arall y gallwn sicrhau bod ffermwyr Cymru yn cael eu cefnogi yw sicrhau eu bod yn cael cyfle teg gan ein prif fanwerthwyr. Rwyf wedi galw dro ar ôl tro am sefydlu cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer archfarchnadoedd a siopau i neilltuo rhan amlwg o arwynebedd llawr i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo statws dynodiad daearyddol gwarchodedig a chig tractor coch o Brydain. Rwy'n ei chael hi'n syfrdanol, pan fo cig oen tymor newydd ar ei anterth, fod manwerthwyr yn gwneud penderfyniadau'n unig ar sail cost ac yn cyrchu cig oen hen dymor o'r ochr arall i'r byd, yn hytrach na gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ansawdd a lleoliad. Rwy'n teimlo bod angen ar frys i fanwerthwyr mawr yng Nghymru ddechrau dangos mwy o falchder yn ein diwydiant cig coch, a dechrau rhoi'r gydnabyddiaeth a chymorth mawr ei angen i ffermwyr gweithgar. A siaradodd Llyr am deyrngarwch yn ystod argyfwng blaenorol a haeddu'r un teyrngarwch yn ôl, a chytunaf â hynny hefyd.

In moving amendment 6, I would urge the Deputy Minister to use the levers at the Welsh Government's disposal to crack down on misleading labelling and encourage retailers to do more to work together to celebrate locally produced Welsh beef and lamb. Indeed, amendment 9 also calls for the

Wrth gynnig gwelliant 6, byddwn yn annog y Dirprwy Weinidog i ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i gyfyngu ar labelu camarweiniol ac annog manwerthwyr i wneud mwy i weithio gyda'i gilydd i ddathlu cig eidion a chig oen o Gymru a gynhyrchwyd yn lleol. Yn wir, mae gwelliant 9 hefyd yn galw am

'country of origin labelling to be extended to the dairy sector.'

'ymestyn labelu gwlad tarddiad gorfodol i'r sector llaeth.'

And we believe it's important that the public know where their produce is coming from. There is clear evidence to suggest that people like to buy locally where possible, and mandatory country-of-origin labelling would, of course, serve to encourage consumers to further support the Welsh dairy sector.

Ac rydym yn credu ei bod yn bwysig fod y cyhoedd yn gwybod o ble y daw eu cynnyrch. Mae tystiolaeth glir i awgrymu bod pobl yn hoffi prynu'n lleol lle bo modd, a byddai labelu gwlad y tarddiad, wrth gwrs, yn annog defnyddwyr i gefnogi sector llaeth Cymru ymhellach.

In moving amendment 7, we call on the Welsh Government

Wrth gynnig gwelliant 7, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru

'to significantly increase the percentage of publically procured produce that is from Wales.'

'i gynyddu'n sylweddol y canran o'r cynnyrch a gaffelir yn gyhoeddus sy'n dod o Gymru.'

The Government has a golden opportunity to set an example for other public and private sector bodies. The recent Institute of Welsh Affairs report, 'Good Food for All', rightly says, and I quote from it:

Mae gan y Llywodraeth gyfle euraidd i osod esiampl i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat. Mae adroddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig, 'Good Food for All', yn dweud yn gwbl gywir:

'caterers feel obliged for reasons of cost or mindset to source from the cheapest ends of the food chain.'

'caterers feel obliged for reasons of cost or mindset to source from the cheapest ends of the food chain.'

And this is demonstrated by the fact that only 63 per cent of public sector food and drink purchases are from Welsh companies. I would be grateful if the Deputy Minister could commit to working with the national procurement service to change the culture and mindset of some public sector caterers to improve the quality of public procurement of Welsh produce.

A chaiff hyn ei ddangos gan y ffaith mai dim ond 63 y cant o fwyd a diod y sector cyhoeddus a brynir gan gwmnïau o Gymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog ymrwymo i weithio gyda'r gwasanaeth caffael cenedlaethol i newid diwylliant a meddylfryd rhai o arlwywyr y sector cyhoeddus i wella lefel y cynnyrch o Gymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus.

Finally, Deputy Presiding Officer—I can see my time is up and I'll leave my contribution there, Presiding Officer. Thank you.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd—gallaf weld fod fy amser ar ben a gadawaf fy nghyfraniad yn y fan honno, Lywydd. Diolch yn fawr.

16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I call on William Powell to move amendments 2, 3 and 4 tabled in the name of Aled Roberts.

Diolch yn fawr. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 2, 3 a 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn cydnabod yr angen brys i ddiwygio'r ardoll cig coch ac yn croesawu'r gwaith gan Fforwm y Diwydiant Cig Coch i ddatblygu cynigion ar gyfer ailddosbarthu'r ardoll hon.*

*Recognises the urgent need to reform the red meat levy and welcomes the work by the Red Meat Industry Forum to develop proposals for the redistribution of this levy.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Cynnwys ar ddechrau is-bwynt 4(c):*

*Insert at the start of sub-point 4(c):*

*'rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Fforwm y Diwydiant Cig Coch a'*

*'provide an update on the work of the Red Meat Industry Forum and'*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:*

*Insert as new sub-point at end of point 4:*

*'Yn sefydlu gwobrau bwyd a diod newydd i Gymru i ddarparu meincnod cydnabyddedig o ragoriaeth o ran ansawdd i gynhyrchwyr a helpu i godi proffil bwyd a diod o Gymru yn y DU a thramor.'*

*'establish new Welsh food and drink awards to give producers a recognised benchmark of excellence in quality and help raise the profile of Welsh food and drink in the UK and abroad.'*

*Cynigiwyd gwelliant 2, 3 a 4.*

*Amendments 2, 3 and 4 moved.*

16:29 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts and the Welsh Liberal Democrat group.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts a grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

I very much welcome this debate today being brought forward by Plaid Cymru, and the opportunity to discuss these important and highly topical issues. We've heard much in recent weeks from farmers unions across Wales about the difficulties being faced by the red meat and dairy sectors. As other colleagues have commented, we will have an excellent opportunity next week at Llanelwedd to take these matters up with people from across Wales and, indeed, with the agriculture Commissioner, Phil Hogan, who will be opening the Royal Welsh Show on Monday.

Rwy'n croesawu'r ddadl hon heddiw a gyflwynwyd gan Blaid Cymru yn fawr iawn, a'r cyfle i drafod y materion pwysig a hynod o amserol hyn. Rydym wedi clywed llawer yn ystod yr wythnosau diwethaf gan undebau ffermwyr ledled Cymru am yr anawsterau a wynebir gan y sector cig coch a'r sector llaeth. Fel y mae cyd-Aelodau eraill wedi dweud, cawn gyfle gwych yr wythnos nesaf yn Llanelwedd i drafod y materion hyn gyda phobl o bob cwr o Gymru ac yn wir, gyda'r Comisiynydd amaethyddiaeth, Phil Hogan, a fydd yn agor y Sioe Frenhinol ddydd Llun.

Our first amendments seek to acknowledge the work currently being carried out by the red meat industry forum, established in order to consider a solution to the redistribution of the red meat levy. It seems to me that Plaid's point 3 of the motion as it stands fails fully to acknowledge the work, so far, that the forum has done, through which devolved bodies are working together to find deliverable and cost-effective solutions that will, hopefully, make the system more equitable. The forum has representatives on it from Hybu Cig Cymru, the Agriculture and Horticulture Development Board, the AHDB, and Quality Meat Scotland. Rather than being critical, it is now clearly more than high time that the UK Government should act on this issue. We would rather see the UK Government move to listen to and act upon the views of the forum so that we can find resolution.

Mae ein gwelliannau cyntaf yn ceisio cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y fforwm diwydiant cig coch, a sefydlwyd er mwyn ystyried ateb i ailddosbarthu'r ardoll cig coch. Mae'n ymddangos i mi fod pwynt 3 y cynnig gan Blaid Cymru fel y mae'n sefyll yn methu rhoi cydnabyddiaeth lawn i'r gwaith y mae'r fforwm wedi ei wneud hyd yn hyn, lle mae cyrff datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion cost-effeithiol sy'n bosibl eu cyflawni ac a fydd, gobeithio, yn gwneud y system yn decach. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o Hybu Cig Cymru, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, a Quality Meat Scotland. Yn hytrach na bod yn feirniadol, mae'n awr yn amlwg yn hen bryd i Lywodraeth y DU weithredu ar y mater hwn. Byddai'n well gennym weld Llywodraeth y DU yn gwrando a gweithredu ar farn y fforwm er mwyn i ni ddod o hyd i ateb.

The Deputy Minister updated us back in March on what the forum had been working on in terms of an options paper on the potential delivery models for the red meat levy. Given the closure of several abattoirs of different sizes in Wales over time, many Welsh farmers are, as we've heard, having to send increasing amounts of livestock to be slaughtered in England, with the natural consequences in terms of the levy also crossing the border. Not surprisingly, many producers, levy boards and farmers find this solution deeply unfair. It was a useful exchange that we had earlier with regard to the fact that this matter does lie with the Westminster Government. I would, however, hope that the forum will come forward with recommendations that will ensure a fairer system. Our second amendment today calls on the Welsh Government to provide an update on the red meat industry forum's deliberations. I would be grateful if the Deputy Minister could furnish us with details on this, and also set out a clear timeline.

Rhoddodd y Dirprwy Weinidog y newyddion diweddaraf i ni ym mis Mawrth am yr hyn y mae'r fforwm wedi bod yn gweithio arno o ran papur opsiynau ar fodelau cyflenwi posibl ar gyfer yr ardoll cig coch. O ystyried bod nifer o ladd-dai o wahanol faint yng Nghymru wedi cau dros gyfnod o amser, mae llawer o ffermwyr Cymru, fel rydym wedi clywed, yn gorfod anfon nifer gynyddol o dda byw i gael eu lladd yn Lloegr, gyda'r canlyniad naturiol fod yr ardoll hefyd yn croesi'r ffin. Nid yw'n syndod fod llawer o gynhyrchwyr, byrddau ardollau a ffermwyr yn ystyried hwn yn ateb annheg iawn. Cawsom drafodaeth ddefnyddiol yn gynharach mewn perthynas â'r ffaith mai mater i Lywodraeth San Steffan yw hwn. Fodd bynnag, byddwn yn gobeithio y bydd y fforwm yn cyflwyno argymhellion a fydd yn sicrhau system decach. Mae ein hail welliant heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau fforwm y diwydiant cig coch. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog roi manylion i ni ynglŷn â hyn, a nodi'r amserlen yn glir hefyd.

Our final amendment today calls for the establishment of a new Welsh food and drink awards system. As we know, the True Taste awards were disbanded back in 2013, but the Welsh Government has yet to establish a successor to these awards, nor has there been a clear indication, as yet, from the Deputy Minister, that the reinstatement of such a scheme is imminent or, indeed, planned. Of course, I welcome the fact that the Great Taste Awards were brought to Wales for the first time this year, but there are strong arguments for a distinct Welsh scheme. In responding to the Richardson review of the dairy sector and the specific recommendation to instigate an annual Welsh dairy farming awards scheme to celebrate excellence in the dairy industry, the Welsh Government said that they recognise the need to celebrate success within the industry and are committed to working to implement an awards ceremony by 2016. I would maintain that a similar commitment is necessary now, also, for the food and drink sector as a whole.

Mae ein gwelliant olaf heddiw yn galw am sefydlu system gwobrau bwyd a diod newydd yng Nghymru. Fel y gwyddom, cafodd y gwobrau Great Taste eu diddymu yn ôl yn 2013, ond mae Llywodraeth Cymru eto i sefydlu olynydd i'r gwobrau hyn, ac ni fu arwydd clir hyd yma gan y Dirprwy Weinidog fod bwriad i adfer cynllun o'r fath yn fuan, os o gwbl, yn wir. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r ffaith fod y gwobrau Great Taste wedi dod i Gymru am y tro cyntaf eleni, ond ceir dadleuon cryf dros gynllun penodol i Gymru. Wrth ymateb i adolygiad Richardson o'r sector llaeth a'r argymhelliad penodol i gychwyn cynllun gwobrwyo ffermwyr llaeth yng Nghymru yn flynyddol i ddathlu rhagoriaeth yn y diwydiant llaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cydnabod yr angen i ddathlu llwyddiant o fewn y diwydiant ac maent wedi ymrwymo i weithio i weithredu seremoni wobrwyo erbyn 2016. Byddwn yn honni bod ymrwymiad tebyg yn angenrheidiol yn awr hefyd ar gyfer y sector bwyd a diod yn ei gyfanrwydd.

We will be supporting all of the other Conservative amendments this afternoon. The Welsh Liberal Democrats have been open in our criticism of the way in which a number of abattoirs have been forced to close over time, and we would certainly support the opening of a north-Wales-based beef and lamb abattoir. We are equally supportive of the proposal for a voluntary code of practice for supermarkets, and, indeed, shops, to dedicate floor space to the support and promotion of Welsh protected geographical indication status and British red tractor meat. I would certainly join in the comments made by colleagues already in this debate, in calling for swift implementation of the recommendations of the Richardson review. I hope that this debate today might also provide an opportunity for the Deputy Minister to update us on the progress being made with regard to these recommendations. The next few months are crucial for Welsh agriculture, and whilst the Welsh Government clearly does not have control over global market forces, it is nevertheless vital that Welsh farmers are offered the support and guidance that they need, and to which they're entitled. Diolch yn fawr.

Byddwn yn cefnogi pob un o welliannau eraill y Ceidwadwyr y prynhawn yma. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn agored yn ein beirniadaeth o'r ffordd y mae nifer o ladd-dai wedi cael eu gorfodi i gau dros amser, a byddem yn sicr yn cefnogi agor lladd-dy cig eidion a chig oen yng ngogledd Cymru. Rydym yr un mor gefnogol i'r cynnig i sefydlu cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer archfarchnadoedd, ac yn wir, i siopau neilltuo arwynebedd llawr i gefnogi a hyrwyddo statws dynodiad daearyddol gwarchodedig i Gymru a chig tractor coch o Brydain. Byddwn yn sicr yn ategu'r sylwadau gan gyd-Aelodau yn y ddadl hon eisoes yn galw am weithredu argymhellion adolygiad Richardson yn gyflym. Rwy'n gobeithio hefyd y gallai'r ddadl hon heddiw roi cyfle i'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar yr argymhellion hyn. Mae'r misoedd nesaf yn allweddol i amaethyddiaeth yng Nghymru ac er ei bod yn amlwg nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros rymoedd y farchnad fyd-eang, mae'n hollbwysig serch hynny fod ffermwyr Cymru yn cael cynnig y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt, ac y mae ganddynt hawl iddo. Diolch yn fawr.

16:34 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel mae Llyr Gruffydd wedi amlinellu, mae hi'n gyfnod anodd iawn i ffermwyr Cymru. Mae hynny'n deillio o'r cyfuniad yna o benderfyniadau niweidiol yn y sector gyhoeddus gan y Llywodraeth a hefyd y prisiau trychinebus sydd nawr ar gael i ffermwyr yn y farchnad agored. Mae'n werth mynd nôl am funud dros hanes y 18 mis diwethaf a'r newidiadau i'r cymorthdaliadau uniongyrchol i ffermwyr. Nid wyf yn credu bod yna benderfyniad mwy niweidiol i gefnogaeth ffermwyr i ddatganoli ers 1999 na'r penderfyniad gan y cyn-Weinidog i ddargyfeirio 15 y cant o'r taliad sengl i'r cynllun datblygu gwledig—y ganran fwyaf y gellid ei chymryd ac yn fwy na phob gwlad arall yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon.

As Llyr Gruffydd has outlined, it is a very difficult period for Welsh farmers. That is a result of that combination of damaging decisions in the public sector by the Government and the disastrous prices that are now paid to farmers in the open market. It is worth going back over the history of the past 18 months and the changes to the direct subsidies for farmers. I don't think that there has been a more damaging decision to farmer support for devolution since 1999 than the decision by the former Minister to divert 15 per cent of the single payment to the RDP— the highest percentage that could have been diverted, and more than every other nation in the UK or Ireland.

Yn ychwanegol i hyn, ac eto yn niweidiol i hygrededd y Llywodraeth yn llygaid y ffermwyr, fe gafwyd y penderfyniad i gyflwyno system newydd o daliadau a gafodd ei threchu yn y pen draw drwy her gyfreithiol, ac yna gorfodwyd y Llywodraeth i ymgynghori a chreu cyfundrefn gwbl newydd. Nawr, 18 mis yn ddiweddarach, rŷm ni bellach yn gwybod beth yw'r gyfundrefn newydd ac mae'r cloc yn tician nawr ar y Gweinidog presennol—y Dirprwy Weinidog—i sicrhau bod y taliadau o dan y gyfundrefn newydd yna yn cael eu talu yn brydlon o 1 Rhagfyr eleni ymlaen. Mae disgwyliadau ffermwyr ar hyn yn uchel iawn ac fe fydd unrhyw fethiant gan Lywodraeth i gyflawni hyn yn cael ei feirniadu'n llym iawn gan ffermwyr. Fel rŷm ni'n gwybod fan hyn, gwae'r Gweinidog hynny nad sy'n talu cymorthdaliadau mewn pryd.

In addition to this and, again, damaging to the Government's credibility in farmers' eyes, there was the decision to introduce a new system of payments, which was quashed following a legal challenge, and then the Government was forced to consult and create an entirely new system. Now, 18 months later, we know what that new regime is, and the clock is now ticking for the current Minister—the Deputy Minister—to ensure that the payments under that new regime are made promptly from 1 December onwards. Farmers' expectations are very high in this regard, and any failure by the Government to achieve this will be very harshly criticised by farmers. As we know here, woe betide that Minister who doesn't pay subsidies on time.

Mae yna ansicrwydd felly yn parhau o gwmpas y taliad sylfaenol newydd, ond fe fyddai'n bosib i ffermwyr fyw gydag elfen o ansicrwydd o'r fath os nad oedden nhw hefyd yn wynebu'r ffaith bod cwymp difrifol mewn prisiau y cynhyrchion maen nhw'n gyfrifol amdanynt yng Nghymru —llaeth, wŷn a bîff yn y farchnad. Mae'r ffaith bod y ddau bwynt hyn yn cyd-ddigwydd yn niweidiol iawn ar hyn o bryd i hyder ein diwydiant amaethyddol ni.

There is uncertainty remaining around that basic payment, but it would be possible for farmers to live with an element of uncertainty if they weren't also facing the fact that there has been a serious decline in the price of the produce that they make here in Wales—dairy, lamb and beef. And the fact that these two points have collided is very damaging at present in terms of the confidence of our agricultural industry.

Rwyf eisiau troi nawr at fy nghwestiwn i, ynghynt y prynhawn yma, i'r Dirprwy Weinidog a sôn yn benodol iawn am y cwmni cydweithredol First Milk, cwmni sydd yn bwysig iawn yn y gorllewin yn benodol, yn prynu canran helaeth o'r llaeth yn y gorllewin, er bod yna yn gynyddol fwyfwy o laeth y de-orllewin yn mynd mewn lori lan i'r gogledd-orllewin, i Ddwyfor ac i Ynys Môn, i gael ei brosesu. Rwyf eisiau tynnu sylw'n benodol at farn y ffermwyr hynny sydd yn parhau i gyflenwi First Milk, sydd yn feirniadol iawn, ac wedi bod yn feirniadol iawn, o'r Llywodraeth yma am beidio dangos cefnogaeth benodol i First Milk ac am beidio bod yn rhagweithiol yn ei chefnogaeth i First Milk drwy'r cyfnod anodd yma. Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban eu cynlluniau llaeth tua'r un pryd, ychydig fisoedd yn ôl. Nid oes cyfeiriad penodol i gefnogi First Milk yng nghynllun Llywodraeth Cymru. Mae hynny i'w gymharu â chynllun llaeth Llywodraeth yr Alban, lle mae yna pump prif thema i'r cynllun hwnnw ac un o brif themâu cynllun yr Alban yw:

'to Support First Milk in transforming its operation in Scotland.'

Cyfeiriad penodol iawn at gwmni pwysig yn yr Alban, ond sydd llawn mor bwysig i ni yma yng Nghymru. Mae'n hawdd felly i ffermwyr weld y flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i First Milk yn yr Alban a chymharu hynny gyda'r diffyg blaenoriaeth sydd yn ymddangos, o leiaf, i beidio â chael ei rhoi gan y Llywodraeth yma yng Nghymru. Felly, rwyf i eisiau clywed y Dirprwy Weinidog unwaith eto yn dangos yr arweiniad hwnnw gan Lywodraeth sydd ei angen i sicrhau hyder a sicrhau dyfodol prosesu a chynhyrchu llaeth yn y gorllewin. Pan fydd prisiau yn wael, a phan fydd cwmnïau yn fregus, dyna bryd mae mwyaf angen yr arweiniad a'r weledigaeth gan Lywodraeth, a gan Lywodraeth Cymru yn yr achos yma.

I want to turn to a question that I asked earlier of the Deputy Minister and to refer specifically to the First Milk co-operative, a company that's very important in west Wales particularly, buying a large percentage of the milk produced in west Wales, although there is an increasing amount of milk from the south-west going in a lorry up to the north-west to Dwyfor and Anglesey for processing. I want to highlight specifically the views of those farmers who continue to supply First Milk, who are extremely critical, and have been extremely critical, of this Government for not showing specific support for First Milk or for not being proactive in that support for First Milk through this difficult period. The Welsh Government and the Scottish Government published their dairy plans around the same time, just a few months ago. There is no specific reference to supporting First Milk in the Welsh Government's plan. That compares with the Scottish Government's milk plan, where there are five major themes, and one of those main themes in the Scottish plan is:

'to Support First Milk in transforming its operation in Scotland.'

That is a very specific reference to a company that's important in Scotland, but is just as important for us here in Wales. It's easy, therefore, for farmers to see the priority given to First Milk in Scotland and to compare that with the lack of priority that appears, at least, to be given by the Welsh Government here in Wales. So, I want to hear the Deputy Minister, once again, showing that leadership from Government that is so necessary in terms of engendering confidence and the future of processing and milk production in west Wales. When prices are low and when companies are vulnerable, that is when we most need that vision and leadership from Government, and from the Welsh Government in this case.

16:39

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the bits of this debate I wanted to just question is really whether it's appropriate for the rural development programme to be used to combat major events outside our control, and, in particular, the decision to impose sanctions on Russia in response to the conflict in the Ukraine and the inevitable retaliation that then closed its very, very large markets to European produce. Inevitably, that then created a glut, both in the meat market and the dairy product market, which, across the UK, was worth £5.4 million. But across the EU, it was £1 billion, so it was absolutely inevitable that this was going to cause a glut in these products across Europe. So, I appreciate the pain that both sectors are suffering, but I can't see how £1 billion, which is the full extent of the RDP over seven years, is really going to be able to combat that sort of huge shift.

Un o rannau'r ddadl hon roeddwn i am ei chwestiynu mewn gwirionedd yw pa mor briodol yw hi i ddefnyddio'r rhaglen datblygu gwledig i wrthsefyll digwyddiadau mawr y tu allan i'n rheolaeth, ac yn arbennig, y penderfyniad i osod sancsiynau ar Rwsia mewn ymateb i'r gwrthdaro yn yr Wcráin a'r dial anochel a gaeodd ei marchnadoedd enfawr i gynnyrch Ewropeaidd. Yn anochel, creodd hynny ormodedd wedyn yn y farchnad gig a'r farchnad cynnyrch llaeth a oedd yn werth £5.4 miliwn ar draws y DU. Ond ar draws yr UE, roedd yn £1 biliwn, felly roedd yn hollol anochel fod hyn yn mynd i achosi gormodedd o'r cynhyrchion hyn ar draws Ewrop. Felly, rwy'n sylweddoli'r boen y mae'r ddau sector yn ei ddioddef, ond ni allaf weld sut y mae £1 biliwn, sef maint llawn y Cynllun Datblygu Gwledig dros saith mlynedd, yn mynd i allu gwrthsefyll y math hwnnw o newid enfawr.

We read that China is now constructing a 100,000-cow dairy unit in the north-east of China in order to supply the Russian market. I'm sure I'm not the only one who has read about the tribute Russian cheeses that Russian businesses are developing to mimic the European cheeses that they used to enjoy. Some of them, apparently, are quite good. So, whatever the international situation, and how that may change, I don't think we will necessarily be able to go back to thinking we're going to be able to sell to the Russian market any time soon. So, diversification has to be the name of the game.

Rydym yn darllen bod Tsieina yn awr yn adeiladu uned o 100,000 o wartheg llaeth yng ngogledd-ddwyrain Tsieina er mwyn cyflenwi i farchnad Rwsia. Rwy'n siŵr nad fi yw'r unig un sydd wedi darllen am y cawsiau teyrnged Rwsiaidd y mae busnesau Rwsia yn eu datblygu i ddynwared y cawsiau Ewropeaidd yr arferent eu mwynhau. Mae rhai ohonynt, mae'n debyg, yn eithaf da. Felly, beth bynnag yw'r sefyllfa ryngwladol, a'r modd y gallai hynny newid, nid wyf yn meddwl y byddwn o reidrwydd yn gallu mynd yn ôl i feddwl ein bod yn mynd i allu gwerthu i farchnad Rwsia yn y dyfodol agos. Felly, rhaid i ni arallgyfeirio.

I'm interested in how we can develop alternative markets, bearing in mind that the rest of Europe is also trying to find alternative markets, and also alternative products that farmers can be developing. I very much support the developing of local markets for Welsh produce, not least because of our climate change obligations and, in particular, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which will oblige the public sector, at least, to act sustainably. So, I think that the NFU is quite right to highlight the £70 million that is spent by the public sector on food procurement and the focus on obtaining more of that £70 million for Welsh produce.

Mae gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y gallwn ddatblygu marchnadoedd amgen, gan gofio bod gweddill Ewrop hefyd yn ceisio dod o hyd i farchnadoedd amgen, a hefyd cynnyrch amgen y gallai ffermwyr eu datblygu. Rwy'n cefnogi datblygu marchnadoedd lleol ar gyfer cynnyrch o Gymru yn fawr iawn, nid yn lleiaf oherwydd ein rhwymedigaethau mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd ac yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a fydd yn gorfodi'r sector cyhoeddus, o leiaf, i weithredu'n gynaliadwy. Felly, credaf fod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn llygad ei le yn tynnu sylw at y £70 miliwn a werir gan y sector cyhoeddus ar gaffael bwyd a'r ffocws ar sicrhau mwy o'r £70 miliwn ar gyfer cynnyrch o Gymru.

But we also need to encourage the people of Wales to buy Welsh food, not least because it's tastier, as well as much better for us, and to use fresh ingredients, rather than processed food that contains goodness knows what. So, I'm interested in the Andy Richardson review recommending encouraging new entrants to dairy farming and I'm just wondering whether that's wise, given the challenges that the dairy sector is already facing.

Ond mae angen i ni hefyd annog pobl Cymru i brynu bwyd o Gymru, nid yn lleiaf am ei fod yn fwy blasus, ac yn llawer gwell i ni, ac i ddefnyddio cynhwysion ffres yn hytrach na bwydydd wedi'u prosesu sy'n cynnwys dyn a ŵyr beth. Felly, mae gennyf ddiddordeb yn adolygiad Andy Richardson sy'n argymell annog newydd-ddyfodiaid i ffermio llaeth ac rwy'n meddwl tybed a yw hynny'n ddoeth o ystyried yr heriau y mae'r sector llaeth eisoes yn eu hwynebu.

I note that he also calls for benchmarking the cost and environmental impact of the energy used by dairy farmers. I reflect on what we saw in Germany when the environment committee went to visit a farm in Baden-Württemberg, where they were using the heat from the milk of the cows to create warmth for their own homes—a very innovative heat transfer that is something that might be of interest to other dairy farmers in Wales—as well as, of course, the opportunities that are on offer from putting up windfarms if they happen to be in hilly, windy places that are begging us to be exploited, given that the National Grid is now talking about the lights going out if we don't have alternative sources of energies.

Nodaf ei fod hefyd yn galw am feincnodi cost ac effaith amgylcheddol yr ynni a ddefnyddir gan ffermwyr llaeth. Rwy'n meddwl am yr hyn a welsom yn yr Almaen pan aeth y pwyllgor amgylchedd i ymweld â fferm yn Baden-Württemberg, lle'r oeddent yn defnyddio'r gwres o laeth y gwartheg i greu cynhesrwydd ar gyfer eu cartrefi eu hunain—system drosglwyddo gwres arloesol iawn sy'n rhywbeth a allai fod o ddiddordeb i ffermwyr llaeth eraill yng Nghymru—yn ogystal, wrth gwrs, â'r cyfleoedd sy'n deillio o godi ffermydd gwynt os ydynt yn digwydd bod mewn mannau bryniog a gwyntog sy'n ymbil am gael eu defnyddio, o gofio bod y Grid Cenedlaethol bellach yn siarad am y goleuadau'n diffodd os nad oes gennym ffynonellau eraill o ynni.

I also want to just mention that the environment Bill will enable us to quantify the cost of importing food from half way around the world, including the cost of the carbon emissions involved. So, Welsh producers have an opportunity here, but also need to think of the risks of putting too much of their hopes on the export market when they, too, will need to bear the likely true cost in the prices in the receiving country of the carbon emissions involved in getting them there.

Rwyf hefyd am grybwyll y bydd y Bil amgylchedd yn ein galluogi i fesur cost mewnforio bwyd o hanner ffordd o amgylch y byd, gan gynnwys cost yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â hynny. Felly, mae cyfle i gynhyrchwyr Cymru yma, ond mae angen hefyd iddynt feddwl am beryglon rhoi gormod o'u ffydd ar y farchnad allforio pan fydd angen iddynt hwythau, hefyd, gynnal gwir gost debygol allyriadau carbon sydd ynghlwm wrth eu cael i'r wlad sy'n derbyn yn y prisiau.

So, it is a very interesting time for both the meat and milk industries, but I think we need to be cautious about exactly what we're going to do and how we're going to make the Welsh dairy and meat sectors more resilient, and sell much more food locally, which I would be very happy to get involved in.

Felly, mae'n amser diddorol iawn ar y diwydiannau cig a llaeth, ond rwy'n credu bod angen i fod yn ofalus ynglŷn â beth yn union a wnawn a sut rydym yn mynd i wneud sectorau llaeth a chig Cymru yn fwy cydnerth, a gwerthu llawer mwy o fwyd yn lleol, a byddwn yn fodlon iawn i gymryd rhan yn hynny.

16:44

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch o gael y cyfle i siarad y prynhawn yma. Rwy'n falch o fod yn cynrychioli etholaeth sy'n chwarae rhan mor bwysig fel cynhyrchydd bwyd o'r safon uchaf, ochr yn ochr, wrth gwrs, â ffermwyr rhagorol ar hyd a lled Cymru. Pan fydd ffermydd yn fy etholaeth i a dros Gymru i gyd yn dioddef, fel maen nhw wedi'i wneud yn ddiweddar, mae'r economi wledig i gyd, wrth gwrs, yn dioddef, ac mae cyfnod hir o wasgu ar incwm ffermydd, fel rydym ni wedi tystio iddo yn ddiweddar, yn broblem na allwn ni ddim ei rhoi mewn bocs efo'r label 'incwm ffermydd yn unig'.

I'm pleased to have the opportunity to speak this afternoon. I'm proud to be able to represent a constituency that plays such an important role as a food producer of the highest standard, alongside other excellent farmers the length and breadth of Wales. When farms in my constituency and across Wales are suffering, as they have done recently, the whole rural economy suffers, of course, and a long period of pressure on farm incomes, as we've borne witness to recently, is a problem that we just can't put into a box labelled 'farm income only'.

Felly, gadewch imi sôn ychydig bach am y gadwyn gyflenwi a chaffael, a hefyd am werth y lefi cig coch o ran hyrwyddo'r diwydiant. O ran y gadwyn gyflenwi, mae marchnadoedd rhyngwladol anwadal yn rhywbeth sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, ond beth sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yw ei gallu i sicrhau bod cynhyrchwyr yn cael eu gwarchod rhag effaith symudiadau mawr mewn prisiau rhyngwladol drwy, er enghraifft, gryfhau cadwynau cyflenwi. Mae'n rhaid i'r sector gyhoeddus osod esiampl a sicrhau bod cymaint â phosib o'r cynnyrch y mae'n ei brynu yn dod o ffynonellau yng Nghymru. Mae yna ddigon o enghreifftiau. Mi glywsom ni Llyr Gruffydd yn gynharach yn sôn am Gyngor Gwynedd a'r ffaith bod 100 y cant o'i gontractau cinio ysgol yn cael ei ddarparu o fewn economi Gwynedd, neu o leiaf o fewn economi ehangach y rhanbarth.

So, let me talk a little bit about the supply chain and procurement, and also about the value of the red meat levy from the point of view of promoting the industry. In terms of the supply chain, international volatile markets are beyond the control of the Welsh Government, but what is within the control of the Welsh Government, of course, is their ability to ensure that producers are safeguarded from the impact of huge shifts in international prices by, for example, strengthening supply chains. The public sector must set an example and ensure that as much as possible of the produce that it purchases comes from Welsh sources. There are plenty of examples. We heard Llyr Gruffydd earlier alluding to Gwynedd Council, with 100 per cent of its school meals contracts being provided for from within the Gwynedd economy, or at least the wider regional economy.

Mae effaith hynny, wrth gwrs, yn mynd yn llawer dyfnach na dim ond pwy sy'n gwneud y cinio. Mae rhoi cytundebau yn nwylo cwmnïau lleol yn ei gwneud hi'n llawer mwy tebyg y bydd y cynnyrch y mae'r cwmnïau hynny'n ei ddefnyddio yn dod o ffynonellau lleol. Cymharwch beth sy'n digwydd yng Ngwynedd â'r hyn sy'n digwydd yn Ynys Môn, lle mae'r cytundeb i ddarparu cinio ysgol wedi'i roi i gwmni yn Lloegr. Mae sicrhau y cytundebau lleol yma yn gallu cael effaith uniongyrchol, wrth gwrs, ar y diwydiant amaeth. Cynnyrch Môn, neu gynnyrch Cymru beth bynnag, ddylai fod ar frig rhestr siopa unrhyw gwmni sy'n darparu gwasanaeth yn y sector gyhoeddus. Nid oes wir ddim esgus dros fethu sicrhau bod mynediad ein cynhyrchwyr ni i'r fath honno o farchnad yn cael ei hyrwyddo i'r eithaf.

Of course, the impact of that permeates much deeper than who actually produces the meal. Putting the contracts in the hands of local companies makes it far more likely that the produce that they use will be locally sourced. Compare what happens in Gwynedd to what happens in Anglesey, where the school meals contract has been awarded to an English company. Securing these local contracts can have a direct impact, of course, on the agricultural industry. The produce of Anglesey, or the produce of Wales, should be at the top of the shopping list of any company providing a service within the public sector. There is really no excuse for failing to ensure that access for our producers to that kind of market is being promoted to its utmost.

A throi at y lefi cig coch, sy'n cynhyrchu incwm, wrth gwrs, i hyrwyddo'r sector cig coch yng Nghymru drwy Hybu Cig Cymru, ac sy'n cael ei dalu gan ffermwyr, proseswyr neu ladd-dai a'i gasglu pan fydd yr anifeiliaid yn cael eu lladd, mae'n golygu bod anifeiliaid sy'n cael eu cludo dros y ffin i gael eu lladd yn cynhyrchu incwm i hyrwyddo cystadleuwyr yn y diwydiant cig yn Lloegr yn hytrach nag yng Nghymru. Mae yna enghraifft ragorol o'r golled yna wedi bod yn fy etholaeth i, fel mae'n digwydd, yn Gaerwen. Roeddwn i'n darllen geiriau gan gyn-aelod o fwrdd Hybu Cig Cymru yn y 'Western Mail' yr wythnos diwethaf, yn dweud bod Hybu Cig Cymru, wrth i ladd-dy enfawr Gaerwen gau, wedi colli £0.5 miliwn o lefi. Wrth gwrs, roedd ergyd drom i'r economi yn lleol o ran colled cannoedd o swyddi, ond mae colli'r math yna o adnodd yn yr economi wledig yn mynd yn llawer pellach na dim ond y swyddi hynny. Mae colli'r arian yna yn golygu anfantais gystadleuol wedyn i'n cynhyrchwyr ni wrth gystadlu â chig o rannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol. Mae'n golygu tanseilio'r gwaith da sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd o ychwanegu gwerth i gig Cymru oherwydd yr hyn rŷm ni'n ei ddeall ynglŷn â'i safon. Mae colli'r hygrededd yna yn y cynnyrch—neu'r perig ydy y bydd hynny'n gostwng gwerth y cynnyrch ac yn tynnu'r gwerth o'i ladd o yng Nghymru a'i alw'n gynnyrch Cymreig. Felly, mae'n gylch dieflig na allwn ni ddim fforddio mynd iddo fo.

Turning to the red meat levy, which produces income, of course, to promote the red meat sector in Wales through Hybu Cig Cymru, and which is paid by farmers, processors or abattoirs and is collected as the livestock are slaughtered, that means that livestock that are transported to abattoirs across the border create income to promote our competitors in the meat industry in England rather than in Wales. There has been an excellent example of that loss in my constituency, as it happens, in Gaerwen. I was reading the words of a former member of the Hybu Cig Cymru board in the 'Western Mail' last week, stating that Hybu Cig Cymru, when the huge Gaerwen abattoir closed, lost £0.5 million in levy. Of course, that was a terrible blow to the local economy, with the loss of hundreds of jobs, but losing that kind of resource within the rural economy goes further than just the loss of those jobs. Losing that funding means a competitive disadvantage for our producers in competing with meat from other parts of the United Kingdom. It means that all the good work that has been undertaken over the years in terms of adding value to Welsh meat because of what we understand regarding its quality is undermined. Losing that credibility in the produce—or the risk is that that will reduce the value of the product and remove the value of that product being slaughtered in Wales and labelled as Welsh produce. So, it is a vicious circle that we cannot afford to enter into.

Mae'n ddwy flynedd ers i'r Gweinidog yn DEFRA, David Heath, addo chwilio am setliad newydd i greu system decach, a rŷm ni'n dal yn aros. Mae'n fater o wir frys erbyn hyn a rwyf yn apelio ar i'r Gweinidog yma gynnal trafodaethau â'r Llywodraeth yn San Steffan i ddatrys y mater hwn ar fyrder. Mae hwn yn arian sy'n cael ei golli o'r economi amaethyddol, wledig yng Nghymru na allwn ni ddim fforddio ei golli.

It's two years since David Heath, the DEFRA Minister, promised to look for a new settlement to create a more equitable system, and we are still waiting. It is a matter of real urgency now. I appeal to the Minister here to hold discussions with the Westminster Government to resolve this issue urgently. This is money that is being lost from the rural, agricultural economy in Wales that we cannot afford to lose.

Felly, gadewch i ni sylweddoli gwerth economaidd ein cynhyrchwyr ni, gadewch i ni edrych at flwyddyn o ddathlu bwyd a diod yn 2018, a gadewch i ni sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i roi seiliau mwy cadarn i'n diwydiant amaeth ni. Allwn ni ddim tawelu'r stormydd sy'n chwythu drwy farchnadoedd amaethyddol rhyngwladol, ond mi allwn ni wneud i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru allu gwrthsefyll y stormydd hynny'n well.

So, let us realise the economic value of our producers, let us look to a year of celebrating food and drink in 2018, and let us ensure that Welsh Government does everything within its ability to put our agricultural industry on a firmer footing and foundation. We cannot calm the storms that are blowing through the international agricultural markets, but we can ensure that the agricultural industry in Wales can withstand those storms better.

16:50

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do have some sympathy with some of the points that have just been made by the Member for Anglesey. I certainly think that reform of the levy is essential and urgent. I have discussed this with many UK Ministers, but I was once told by a Conservative Minister very clearly that the current system benefits England, and therefore will not be changed. Now, it's quite hard headed. We all know that to be true, but to hear a Minister actually saying that as bluntly as they did—certainly he can't be accused of avoiding realpolitik.

Mae gennyf ychydig o gydymdeimlad â rhai o'r pwyntiau a wnaed gan yr Aelod dros Ynys Môn. Rwy'n sicr yn credu bod rhaid diwygio'r ardoll ar frys. Rwyf wedi trafod hyn gyda llawer o Weinidogion y DU, ond dywedodd Gweinidog Ceidwadol wrthyf unwaith yn glir iawn fod y system bresennol o fudd i Loegr, ac felly ni fydd yn cael ei newid. Nawr, mae'n eithaf di-lol. Rydym i gyd yn gwybod bod hynny'n wir, ond mae clywed Gweinidog yn ei ddweud mor onest ag y gwnaeth—yn sicr ni ellir ei gyhuddo o osgoi realpolitic.

In terms of where we are, though, the levy needs to go much further. It's not just red meat and dairy that don't work; it's the other levies as well. We do need complete reform of the system. But, more than that, we need reform of the industry. Some of the issues that are being discussed here are symptoms of a far, far deeper problem, and I've worried for many years, and I worry today, that there are too many people in too great a thrall to the industry to actually speak honestly, bluntly and directly to the industry. The agricultural industry in Wales has not suffered from too much reform, but too little reform over the years and over successive ministerial positions. We have not got to grips with how we ensure resilience and efficiency that will enable the industry to withstand all the international pressures that are true today, but were true five years ago, were true 10 years ago, were true 15 years ago, and will be true in a decade and in 20 years' time as well, except that those pressures in the future will be greater than they were in the past because the level of public support will fall. Llyr Huws Gruffydd was entirely wrong when he suggested that I'd taken money out of farmers' pockets. It's an easy thing to do in a speech and a press release, but absolutely wrong. What I did was use taxpayers' money, public money, for public objectives, to ensure that we can invest in the industry for the future. It's the easiest thing in the world to come here or elsewhere to make a speech and to please the audience. It's a more difficult thing—[Interruption.] It's a more difficult thing—[Interruption.] I've taken lessons from Leighton in this matter. [Laughter.] It's a more difficult thing, but it's a more honest thing, to tell the truth, and to ensure that we reform and not simply continue with the same policies that have led to the situation that you described in your opening speech.

O ran ein sefyllfa, fodd bynnag, mae angen i'r ardoll fynd yn llawer pellach. Nid cig coch a chynnyrch llaeth yn unig sydd ddim yn gweithio; mae'n wir am yr ardollau eraill hefyd. Mae angen diwygio'r system gyfan. Ond yn fwy na hynny, mae angen diwygio'r diwydiant. Mae rhai o'r materion sy'n cael eu trafod yma yn arwydd o broblem lawer iawn dyfnach, ac rwyf wedi poeni ers nifer o flynyddoedd, ac rwy'n poeni heddiw, fod gormod o bobl yn rhy gaeth i'r diwydiant i siarad yn onest, yn ddi-flewyn-ar-dafod ac yn uniongyrchol â'r diwydiant. Nid yw'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru wedi dioddef o ormod o ddiwygio, ond yn hytrach o rhy ychydig o ddiwygio dros y blynyddoedd a thros safbwyntiau gweinidogol olynol. Nid ydym wedi mynd i'r afael â sut i sicrhau cydnerthedd ac effeithlonrwydd i alluogi'r diwydiant i wrthsefyll yr holl bwysau rhyngwladol sy'n wir heddiw, ond a oedd yn wir bum mlynedd yn ôl, a oedd yn wir 10 mlynedd yn ôl, a oedd yn wir 15 mlynedd yn ôl, ac a fydd yn wir mewn degawd ac ymhen 20 mlynedd 'yn ogystal, ond y bydd y pwysau yn y dyfodol yn fwy nag yn y gorffennol am y bydd lefel y gefnogaeth gyhoeddus yn disgyn. Roedd Llyr Huws Gruffydd yn gwbl anghywir pan awgrymodd fy mod i wedi mynd ag arian o bocedi ffermwyr. Mae'n beth hawdd i'w wneud mewn araith a datganiad i'r wasg, ond yn gwbl anghywir. Yr hyn a wneuthum oedd defnyddio trethdalwyr, arian cyhoeddus, ar gyfer amcanion cyhoeddus, er mwyn sicrhau y gallwn fuddsoddi yn y diwydiant ar gyfer y dyfodol. Y peth hawsaf yn y byd yw dod yma neu rywle arall i wneud araith a phlesio'r gynulleidfa. Mae'n fwy anodd—[Torri ar draws.] Mae'n fwy anodd—[Torri ar draws.] Rwyf wedi cael gwersi gan Leighton ar y mater hwn. [Chwerthin.] Mae'n fwy anodd, ond yn fwy gonest i ddweud y gwir a sicrhau ein bod yn diwygio ac nid yn parhau gyda'r un polisïau sydd wedi arwain at y sefyllfa a ddisgrifiwyd gennych yn eich araith agoriadol.

We know that public support for agriculture will be eroded over the coming few decades. Commissioner Hogan was very, very clear earlier this week when he said that he would not be addressing issues about intervention prices and the rest of it because he was committed to ensuring that market-facing reforms would continue. In the face of that from an Irish commissioner—from an Irish commissioner—in the face of that policy direction, what do we do? What do we do? Do we simply say that we will carry on doing what we've already been doing for the last few decades, which has led to the situation you describe? Or do we do something different? All too often we duck that difficult choice. We duck the difficult decisions and we duck the hard and difficult choices that we have to make. Let me say this: there will always be market volatility. There will always be a situation where prices fall and costs rise. We know that. We know that. What we need to do is to ensure there is resilience and efficiency hard-wired in the industry to ensure that it can withstand those pressures.

Gwyddom y bydd y gefnogaeth gyhoeddus i amaethyddiaeth yn cael ei herydu dros y degawdau i ddod. Roedd y Comisiynydd Hogan yn glir iawn yn gynharach yr wythnos hon pan ddywedodd na fyddai'n mynd i'r afael â materion ynglŷn â phrisiau ymyrraeth a'r gweddill ohono oherwydd ei fod yn ymrwymedig i sicrhau bod diwygiadau sy'n wynebu'r farchnad yn parhau. Yn wyneb hynny gan gomisiynydd o Iwerddon—comisiynydd o Iwerddon—yn wyneb y cyfeiriad polisi hwnnw, beth rydym yn ei wneud? Beth rydym yn ei wneud? A ydym yn dweud yn syml y byddwn yn parhau i wneud yr hyn rydym eisoes wedi bod yn ei wneud dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, sydd wedi arwain at y sefyllfa rydych yn ei disgrifio? Neu a ydym yn gwneud rhywbeth gwahanol? Yn rhy aml rydym yn osgoi'r dewis anodd. Rydym yn osgoi'r penderfyniadau anodd ac rydym yn osgoi'r dewisiadau anodd a chaled y mae'n rhaid i ni eu gwneud. Gadewch i mi ddweud hyn: bydd yna bob amser anwadalwch yn y farchnad. Bydd yna bob amser sefyllfa lle bydd prisiau'n disgyn a chostau'n codi. Rydym yn gwybod hynny. Rydym yn gwybod hynny. Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw sicrhau bod cydnerthedd ac effeithlonrwydd annatod yn y diwydiant er mwyn sicrhau y gall wrthsefyll y pwysau hynny.

16:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I will give way.

Fe ildiaf.

16:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Member for giving way. That is surely the point of the RDP and the processes set in place by a programme with, as has been pointed out, £1 billion over seven years to achieve that. That's why we're arguing for an RDP, and that's why his colleague the Member for Cardiff Central seemed to think the RDP was irrelevant to this debate.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ildio. 'Does bosibl nad dyna yw pwynt y Cynllun Datblygu Gwledig a'r prosesau sy'n cael eu rhoi ar waith gan raglen sydd â £1 biliwn dros saith mlynedd, fel y nodwyd, ar gyfer cyflawni hynny. Dyna pam rydym yn dadlau dros Gynllun Datblygu Gwledig, a dyna pam roedd ei gyd-Aelod, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, i'w weld yn meddwl bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn amherthnasol i'r ddadl hon.

16:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, that's not what she said, in fact. But it was of course Plaid Cymru that argued against the RDP being set at the rate it is. So, you're spending money you opposed raising. If you want to talk about hypocrisy, you've just given us a lesson in it. Let me say this—

Wel, nid dyna a ddywedodd, mewn gwirionedd. Ond Plaid Cymru, wrth gwrs, a ddadleuai yn erbyn gosod y Cynllun Datblygu Gwledig ar y gyfradd y mae wedi'i osod. Felly, rydych yn gwario arian roeddech chi'n gwrthwynebu ei godi. Os ydych chi am siarad am ragrith, rydych chi newydd roi gwers yn hynny i ni. Gadewch i mi ddweud hyn—

16:54 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. No-one's talked about hypocrisy. There are different views, which are perfectly legitimate. Please continue.

Trefn. Nid oes neb wedi siarad am ragrith. Mae yna wahanol safbwyntiau, sy'n hollol deg. Parhewch.

16:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will continue, and I withdraw any remark of that sort. Let me say this, though: we need to ensure that agriculture will be resilient in 10 or 20 years' time. That means that we need to invest in more efficiency and in greater reforms. We need more efficiency to ensure that it can produce products that the market wishes to buy and that we can do that at a price that the market is willing to pay.

Fe wnaf i barhau, ac fe dynnaf unrhyw sylw o'r fath yn ôl. Gadewch i mi ddweud hyn, fodd bynnag: mae angen i ni sicrhau y bydd amaethyddiaeth yn gydnerth ymhen 10 neu 20 mlynedd. Mae hynny'n golygu bod angen i ni fuddsoddi mewn mwy o effeithlonrwydd ac mewn mwy o ddiwygiadau. Mae angen mwy o effeithlonrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cynhyrchu cynnyrch y mae'r farchnad yn dymuno eu prynu ac y gallwn wneud hynny am bris y mae'r farchnad yn fodlon ei dalu.

I will finish with this: aggressive protectionism is an easy option to take, but, in any exporting country, aggressive protectionism will only end badly.

Hoffwn orffen gyda hyn: mae diffyndollaeth ymosodol yn opsiwn hawdd, ond mewn unrhyw wlad sy'n allforio, mae diffyndollaeth ymosodol yn arwain yn anorfod at ddiwedd gwael.

16:55 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

O ystyried bod Alun Davies wedi bod yn Weinidog yn gyfrifol am amaeth yn gymharol ddiweddar, rwyf wedi fy rhyfeddu braidd gan ei gyfraniad y prynhawn yma. Nid wyf yn siŵr pryd oedd y tro diwethaf iddo fe ymweld â fferm a gweld y fath o newid sydd wedi digwydd o fewn y diwydiant.

Given that Alun Davies was the Minister responsible for agriculture until relatively recently, I was rather surprised by his contribution this afternoon. I am not sure when he last visited a farm and saw the kind of change that's happened within the industry.

16:55 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A wyt ti eisiau i mi ateb y cwestiwn? Bythefnos yn ôl.

Do you want me to answer the question? It was a fortnight ago.

16:55 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wel, pe byddai Alun Davies yn ymweld â ffermydd ac yn cymryd sylw o'r hyn sy'n digwydd ar ffermydd, fe fyddai wedi gweld bod yna newid enfawr wedi digwydd yn y dull o gynhyrchu bwyd yng Nghymru, ac mae ffermydd wedi gorfod ymdopi â newidiadau sylfaenol i'r ffordd y maen nhw'n gweithio. Rhai o'r problemau yr wyf i'n gorfod delio â nhw yn fy etholaeth i ydy rhai ffermwyr sydd, am wahanol resymau, yn ei chael hi'n anodd dygymod â'r newidiadau hynny—nid gwrthodiad i weld yr angen am newid, ond yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r math o newidiadau sy'n cael eu gosod arnyn nhw.

Well, if Alun Davies visited farms and actually took note of what was happening on farms, he would have seen that there has been a huge change in production methods in Wales, and farms have had to cope with fundamental changes to their working practices. Some of the problems I have to deal with in my constituency relate to some farms and farmers who, for various reasons, find difficulty in coping with those changes—it's not a resistance to the need for change, but it is a difficulty in coping with the kind of changes imposed upon them.

Gadewch inni fod yn gwbl glir y prynhawn yma: o ran cynhyrchu bwyd, mae ffermwyr Cymru yn cynhyrchu bwyd o'r safon uchaf, gan ddefnyddio'r dulliau mwyaf modern a mwyaf glân, a hefyd yn cydymffurfio â'r rheolau mwyaf llym o ran diogelwch a glanweithdra. Fe ddylem ni ymhyfrydu yn hynny, ac fe ddylem ni fod yn ceisio hyrwyddo cynnyrch o Gymru fel cynnyrch o'r safon uchaf. A gaf i ganolbwyntio, yn y fan hyn, ar y diwydiant llaeth, oherwydd mae'r diwydiant llaeth yn eithriadol o bwysig i economi cefn gwlad? Mae yna berygl i rai cyfranwyr y prynhawn yma sôn am ffermwyr fel rhyw ddosbarth o bobl ar wahân i weddill y gymdeithas. Mae ffermwyr, yn y lle cyntaf, yn gyflogwyr yng nghefn gwlad, ac mae ffermwyr yn bobl sydd yn gwario yn yr economi yng nghefn gwlad. Os oes sefyllfa yn codi lle rŷm ni'n lleihau nifer y ffermwyr ac yn lleihau ac yn gostwng yr incwm sydd ganddyn nhw, fe fyddan nhw'n cyflogi llai o bobl yng nghefn gwlad ac fe fyddan nhw'n gwario llai o arian yng nghefn gwlad, ac fe fydd economi cefn gwlad yn ei gyfanrwydd yn cael ei danseilio.

Let us be quite clear this afternoon: in terms of food production, Welsh farmers produce food of the highest quality, using the most up-to-date and cleanest methods available, while complying with the strictest rules and regulations in terms of hygiene and safety. We should take pride in that, and we should be promoting Welsh produce as produce of the highest quality. May I concentrate at this point on the dairy sector, because the dairy industry is exceptionally important to the rural economy? There is a risk that some contributors this afternoon could speak of farmers as some class of people who are a class apart from the rest of society. Farmers, first and foremost, are employers in rural Wales, and they are people who spend money in the rural economy. If a situation arises where we reduce the number of farmers and reduce the income available to them, they will employ fewer people in rural areas and they will spend less money in the rural economy, and the whole rural economy will then be undermined.

Mi oedd Elin Jones yn sôn am yr angen i Lywodraeth Cymru roi llawer iawn yn fwy o gefnogaeth i First Milk, ac rwy'n ategu hynny yn fawr iawn ac yn erfyn ar y Gweinidog i edrych ar yr hyn sydd yn digwydd yn yr Alban ac i weld sut y gall hynny gynorthwyo a chefnogi'r diwydiant llaeth yng Nghymru. Mae First Milk wedi cyhoeddi yn ddiweddar gostyngiad arall o 1c y litr yn y pris y maen nhw'n ei dalu am laeth. Pan fo First Milk yn gwneud hynny, mae hynny'n anfon arwydd allan i'r holl ddiwydiant, a'r hyn sydd yn digwydd ydy bod cyflenwyr eraill hefyd yn dilyn yr arweiniad hynny, ac mae Arla wedi cyhoeddi yn ddiweddar eto eu bod nhw'n gostwng y pris gan dros 1c—1.18c—y litr. Felly, mae cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi gweld y pris yr oeddent yn ei gael yn gostwng traean, ac mae 3 y cant o'r cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru wedi gadael y diwydiant—56 o gynhyrchwyr llaeth mewn blwyddyn. Allwn ni ddim fforddio gweld hynny'n digwydd, oherwydd mae'r diwydiant llaeth a'r diwydiant bwyd yng Nghymru yn eithriadol o bwysig.

Elin Jones mentioned the need for the Welsh Government to give far more support to First Milk, and I endorse that most strongly and urge the Minister to look at what is happening in Scotland in order to see how that could assist and support the dairy industry in Wales. First Milk recently announced a further reduction of 1p per litre in the price that they pay for milk. When First Milk do that, it sends a signal to the whole industry, and what then happens is that other suppliers follow that lead, and Arla have recently announced that they are to reduce the price by more than 1p—1.18p—a litre. Therefore, milk producers in Wales over the past year have seen the price that they were paid reduce by a third, and 3 per cent of dairy producers in Wales have left the industry—that's 56 milk producers leaving the industry within a year. We cannot afford to see that continue, because the dairy industry and the food industry more broadly in Wales are extremely important.

Rwy'n falch iawn o weld bod y pwyllgor a fuodd yn trafod hyn yn San Steffan wedi awgrymu y dylid cynyddu pwerau a maes diddordeb y dyfarnwr cod bwydydd, ac rwy'n mawr obeithio y bydd hynny hefyd yn ffordd y gallwn ni symud ymlaen yng Nghymru. Mae'n rhaid inni gydnabod hefyd y rôl sy'n cael ei chwarae gan yr archfarchnadoedd. Er eu bod nhw'n ymhyfrydu, weithiau, eu bod nhw'n arddangos cynnyrch o Gymru ar eu silffoedd, pan fo archfarchnadoedd yn gostwng yn fwriadol bris llaeth i'r cwsmer fel ffordd o gynyddu busnes yn gyffredinol, yr hyn y maen nhw'n ei wneud, wrth gwrs, ydy tanseilio gwerth y cynnyrch hwnnw. Mae'n cael ei weld fel cynnyrch diwerth, oherwydd mae'n cael ei ddefnyddio nid oherwydd ei werth ei hunan ond er mwyn cynyddu gwerthiant mewn meysydd eraill. Fe fyddwn i'n pwyso ar y Gweinidog unwaith yn rhagor i geisio trafod gyda'r archfarchnadoedd sut y gellir ceisio hyrwyddo gwerth cynnyrch o Gymru a gwneud yn fawr o'r ffordd y mae'r cynnyrch hwnnw yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, gan ymhyfrydu bod ei safon gyfuwch, os nad yn uwch, nag yn unrhyw rhan arall o'r byd.

I'm extremely pleased to see that the committee that discussed this in Westminster has suggested that the powers and remit of the groceries code adjudicator should be enhanced, and I very much hope that that will be a means by which we can make progress in Wales. We have to acknowledge the role played by the supermarkets. Although they do occasionally take pride in displaying Welsh produce on their shelves, when supermarkets deliberately reduce the price of milk for their customers as a way of increasing business in general, a loss leader, then what they are doing, of course, is undermining the value of that produce. It is seen as being of no value, because it is being used not because of its own inherent value but in order to increase sales in other areas. I would urge the Minister once again to try to hold discussions with the supermarkets as to how we can try to promote the value of Welsh produce, and make the most of the way in which it is produced here in Wales, as well as taking pride in the fact that its quality is as high as, if not higher than, that in any other part of the world.

17:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I now call the Deputy Minister for Farming and Food, Rebecca Evans.

Galwaf yn awr ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, Rebecca Evans.

17:00

## Rebecca Evans [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Thank you. Our red meat and dairy sectors are vitally important to farming and to the wider economy here in Wales, accounting as they do for about 70 per cent of agricultural output. I think, as we have all recognised, these sectors are currently experiencing low farm-gate prices, for which there is no quick fix. Increased resilience within the industry and an approach that is more strategic will be key if we are to address these problems in the long term.

Diolch yn fawr. Mae ein sectorau cig coch a llaeth yn hanfodol bwysig i ffermio ac i'r economi ehangach yma yng Nghymru, gan ffurfio fel y maent yn ei wneud oddeutu 70 y cant o'r allbwn amaethyddol. Fel rydym i gyd wedi cydnabod, rwy'n credu bod y sectorau hyn yn wynebu prisiau isel wrth gât y fferm ar hyn o bryd, ac nid oes ateb cyflym i'r broblem. Bydd mwy o gydnerthedd yn y diwydiant ac ymagwedd fwy strategol yn allweddol os ydym am fynd i'r afael â'r problemau hyn yn y tymor hir.

Together with the industry bodies, I launched a consultation on a strategic framework for Welsh agriculture at the farming conference last month. That framework describes our shared vision: one of a prosperous, resilient agricultural industry, promoting Wales's present and future wellbeing. Agricultural products are traded on a global market, where international factors rule.

Gyda'r cyrff diwydiant, lansiais ymgynghoriad ar fframwaith strategol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn y gynhadledd ffermio y mis diwethaf. Mae'r fframwaith yn disgrifio ein cydweledigaeth am ddiwydiant amaeth ffyniannus a chydnerth, sy'n hyrwyddo lles Cymru yn y presennol a'r dyfodol. Caiff cynnyrch amaethyddol ei fasnachu mewn marchnad fyd-eang, lle mae ffactorau rhyngwladol yn rheoli.

17:01

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Deputy Minister. The point was made over there about procuring Welsh lamb and beef—the red meat industry within Wales—to actually be eaten here in Wales. I personally have raised it previously, in local authorities and hospitals.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog. Gwnaed y pwynt yno am gaffael cig oen a chig eidion Cymru—y diwydiant cig coch yng Nghymru—er mwyn ei fwyta yma yng Nghymru. Rwyf wedi ei godi o'r blaen fy hun, mewn awdurdodau lleol ac ysbytai.

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Quickly. This is becoming a speech.

Yn gyflym. Mae hon yn tyfu'n araith.

17:01

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

What are you doing, as the Minister responsible, to ensure that all local authorities, when looking to procure, actually do support our farmers and procure Welsh produce?

Beth rydych yn ei wneud, fel y Gweinidog cyfrifol, i sicrhau bod pob awdurdod lleol, wrth ystyried caffael, yn cefnogi ein ffermwyr mewn gwirionedd ac yn caffael cynnyrch o Gymru?

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Deputy Minister?

Diolch yn fawr. Ddirprwy Weinidog.

17:02 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will come to procurement further on into my contribution, Deputy Presiding Officer.

Byddaf yn dod at gaffael yn nes ymlaen yn fy nghyfraniad, Ddirprwy Lywydd.

Agricultural products are traded on global markets, where international factors rule, including world volatility in markets, and fluctuations in exchange rates. Individual farmers and the industry as a whole accept that the Welsh Government has no realistic control of the global market. However, what we can do is encourage and support our farmers to produce in the most efficient ways possible, utilising the latest technology and innovation in order to compete on that global market. We can help individual farm businesses develop resilience by becoming more business-like and more professional.

Caiff cynnyrch amaethyddol ei fasnachu mewn marchnadoedd byd-eang, lle mae ffactorau rhyngwladol yn rheoli, gan gynnwys anwadalrwydd ar lefel byd-eang mewn marchnadoedd, ac amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid. Mae ffermwyr unigol a'r diwydiant cyfan yn derbyn nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth realistig ar y farchnad fyd-eang. Fodd bynnag, yr hyn y gallwn ei wneud yw annog a chynorthwyo ein ffermwyr i gynhyrchu yn y ffyrdd mwyaf effeithlon posibl, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac arloesedd er mwyn cystadlu yn y farchnad fyd-eang. Gallwn helpu busnesau fferm unigol i ddatblygu cydnerthedd drwy fod yn fwy tebyg i fusnesau ac yn fwy proffesiynol.

Farming is critical to our rural areas, to the economic, environmental and social fabric of our country, and this Government is fully committed to supporting our famers and growers for the long term. Through the common agricultural policy, we have been able to support our producers, and we will continue to do so. Our direct support mechanism through pillar 1 is vital to most farming businesses, and my recent announcement on the basic payment scheme has given farmers the certainty that they need in order to plan for and manage change over the next five years. Through pillar 2, we will ensure that we target our support where we get the greatest return for both our economy and our environment. I'll be making further information available on the support available through the rural development plan when it formally launches tomorrow, and then I'll make further announcements at the Royal Welsh Show.

Mae ffermio'n allweddol i'n hardaloedd gwledig, i wead economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ein gwlad, ac mae'r Llywodraeth hon yn gwbl ymrwymedig i gefnogi ein ffermwyr a thyfwyr yn y tymor hir. Drwy'r polisi amaethyddol cyffredin, rydym wedi gallu cefnogi ein cynhyrchwyr, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae ein mecanwaith cymorth uniongyrchol drwy golofn 1 yn hanfodol i'r rhan fwyaf o fusnesau fferm, ac mae fy nghyhoeddiad diweddar ar y cynllun taliadau sylfaenol wedi rhoi'r sicrwydd sydd ei angen arnynt i ffermwyr allu cynllunio ar gyfer newid a rheoli newid dros y pum mlynedd nesaf. Drwy golofn 2, byddwn yn sicrhau ein bod yn targedu ein cefnogaeth lle cawn yr adenillion gorau i'n heconomi a'n hamgylchedd. Byddaf yn sicrhau bod gwybodaeth bellach ar gael ar y cymorth sydd ar gael drwy'r cynllun datblygu gwledig pan fydd yn cael ei lansio'n ffurfiol yfory, a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach yn Sioe Frenhinol Cymru.

I can assure you that ours is an ambitious programme, and we will maximise the value that we get from every pound of Welsh Government and European money that we invest. In terms of the sectors themselves, there are specific actions that need to be implemented. Last night, I launched the red meat industry strategic action plan, and that's a critical document in setting a clear direction for the sector with ambitious targets for the whole supply chain. I agree with Members who have argued that an equitable model for the distribution of the red meat levy is critical to support and promote Welsh beef and Welsh lamb. The discussions on this important issue have been ongoing for a number of years now, and I'm grateful for the work that Hybu Cig Cymru has undertaken, alongside the representations that I, and the former Minister, have made in seeking the best outcome for Welsh levy payers. Significant progress has been made, and we are currently reviewing the latest proposals. There'll be a further meeting between the levy boards at the end of this month.

Gallaf eich sicrhau bod ein rhaglen yn un uchelgeisiol, a byddwn yn sicrhau'r gwerth gorau o bob punt o arian Llywodraeth Cymru a'r arian Ewropeaidd rydym yn ei fuddsoddi. O ran y sectorau eu hunain, mae yna gamau penodol sydd angen eu rhoi ar waith. Neithiwr, lansiais gynllun gweithredu strategol y diwydiant cig coch, ac mae honno'n ddogfen hollbwysig i osod cyfeiriad clir ar gyfer y sector gyda thargedau uchelgeisiol ar gyfer y gadwyn gyflenwi gyfan. Rwy'n cytuno ag Aelodau sydd wedi dadlau bod model teg ar gyfer dosbarthu'r ardoll cig coch yn hanfodol er mwyn cefnogi a hybu cig eidion a chig oen o Gymru. Mae'r trafodaethau ar y mater pwysig hwn wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd bellach, ac rwy'n ddiolchgar am y gwaith y mae Hybu Cig Cymru wedi'i wneud, ochr yn ochr â'r cyflwyniadau rwyf fi, a'r cyn-Weinidog, wedi eu rhoi i geisio sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer talwyr ardollau yng Nghymru. Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud, ac ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r cynigion diweddaraf. Cynhelir cyfarfod pellach rhwng y byrddau ardoll ddiwedd y mis hwn.

In terms of the dairy sector, the independent review undertaken by Andy Richardson set a clear direction for the industry in Wales. One of the key recommendations was to establish a Welsh dairy leadership board, and I have accepted the proposals for the terms of reference and the founding membership, and the board is meeting this month.

O ran y sector llaeth, roedd yr adolygiad annibynnol a gyflawnwyd gan Andy Richardson yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y diwydiant yng Nghymru. Un o'r argymhellion allweddol oedd sefydlu bwrdd arweinyddiaeth llaeth Cymru ac rwyf wedi derbyn cynigion ar gyfer y cylch gorchwyl a'r aelodaeth sefydlu, ac mae'r bwrdd yn cyfarfod y mis hwn.

Following a review of our partnership agreement with DairyCo, I'll be appointing a Welsh dairy champion, who will be a strategic figurehead for the industry. As in many industries, innovation is key, and the need for innovation on farm and in the processing sector is essential if the Welsh dairy sector is to achieve sustainable growth.

Yn dilyn adolygiad o'n cytundeb partneriaeth gyda DairyCo, byddaf yn penodi hyrwyddwr llaeth Cymru, a fydd yn ffigwr strategol ar gyfer y diwydiant. Fel mewn llawer o ddiwydiannau, mae arloesi yn allweddol, ac mae'r angen am arloesi ar y fferm ac yn y sector prosesu yn hanfodol os yw'r sector llaeth yng Nghymru yn mynd i gyflawni twf cynaliadwy.

In terms of processing, my officials have completed the terms of reference for the feasibility study for further milk processing in south-west Wales. We aim to award this contract shortly in order to receive the final report by the end of October. I want to capture more value from the milk that we produce without transporting it out of Wales.

O ran prosesu, mae fy swyddogion wedi cwblhau cylch gorchwyl yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer prosesu llaeth pellach yn ne-orllewin Cymru. Rydym yn anelu at ddyfarnu'r contract hwn cyn bo hir er mwyn cael yr adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Hydref. Rwyf am sicrhau mwy o werth o'r llaeth a gynhyrchwn, heb ei gludo allan o Gymru.

The same is true for the red meat sector. We've lost processing capacity, which has had a knock-on effect on the levy received. We recognise the importance of processing facilities in Wales, as it supports the primary producers as well as providing economic growth and jobs.

Mae'r un peth yn wir am y sector cig coch. Rydym wedi colli capasiti prosesu, ac mae hynny wedi cael sgil-effaith ar yr ardoll a gafwyd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfleusterau prosesu yng Nghymru, gan eu bod yn cefnogi'r cynhyrchwyr cynradd yn ogystal â darparu twf economaidd a swyddi.

In terms of food and drink awards, we already have the Great Taste brand, which is well known and well respected, not only across the UK but across the world. Wales's previous winners have used the Great Taste award as a springboard for future success and to make their mark on the international stage. As a result of last year's success, this year's competition witnessed a significant upsurge in Welsh entries, rising from 99 companies entering 374 products to 143 companies entering 491 products.

O ran gwobrau bwyd a diod, mae brand y Great Taste gennym eisoes, ac mae'n adnabyddus ac yn fawr ei barch, nid yn unig ar draws y DU, ond ar draws y byd. Mae enillwyr blaenorol Cymru wedi defnyddio gwobr Great Taste fel man cychwyn ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol ac i wneud eu marc ar y llwyfan rhyngwladol. O ganlyniad i lwyddiant y llynedd, gwelodd y gystadleuaeth eleni gynnydd sylweddol yn y ceisiadau o Gymru, gan godi o 99 o gwmnïau'n cystadlu ar 374 o gynhyrchion i 143 o gwmnïau'n cystadlu ar 491 o gynhyrchion.

HCC continues to undertake extensive marketing campaigns to promote the protected geographical indication status of Welsh beef and lamb. Welsh Government supports the Welsh food and drink industry more widely under the Bwyd a Diod Cymru identity, and encourages the purchase of all Welsh-branded products. Through our trade development programme, we are routinely engaging with retailers, discounters, wholesalers, independents and food service companies to further build relationships and encourage the increased use of Welsh food and drink products.

Mae HCC yn parhau i gynnal ymgyrchoedd marchnata helaeth i hyrwyddo statws dynodiad daearyddol gwarchodedig cig eidion a chig oen Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi diwydiant bwyd a diod Cymru yn fwy cyffredinol o dan yr enw Bwyd a Diod Cymru ac yn annog pawb i brynu cynnyrch brand Cymru. Drwy ein rhaglen datblygu masnach, rydym yn ymgysylltu fel mater o drefn â manwerthwyr, disgowntwyr, cyfanwerthwyr, cwmnïau annibynnol a chwmnïau gwasanaethau bwyd i feithrin cysylltiadau pellach ac annog y defnydd cynyddol o gynnyrch bwyd a diod o Gymru.

My officials will continue to work with the supermarkets to highlight the food and drink market here in Wales, and I will be meeting with the retailers next week at the Royal Welsh Show to discuss their sourcing policies and their approach to Welsh produce. I look forward to being at the show from Sunday to Thursday.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r archfarchnadoedd er mwyn tynnu sylw at y farchnad fwyd a diod yma yng Nghymru, a byddaf yn cyfarfod â'r manwerthwyr yr wythnos nesaf yn Sioe Frenhinol Cymru i drafod eu polisïau cyrchu a'u hagwedd at gynnyrch o Gymru. Rwy'n edrych ymlaen at fod yn y sioe o ddydd Sul i ddydd Iau.

The grocery supply code of practice is already in place to regulate the relationship between the 10 largest supermarkets with an annual turnover of £1 billion and their direct suppliers, with the groceries code adjudicator in place to enforce this competition policy. I've met with the GCA and, together, we're planning an event in Wales for suppliers to better understand and engage with their work.

Mae'r cod ymarfer cyflenwi bwyd eisoes ar waith i reoleiddio'r berthynas rhwng y 10 archfarchnad fwyaf gyda throsiant blynyddol o £1 biliwn a'u cyflenwyr uniongyrchol, gyda'r dyfarnwr cod cyflenwi bwydydd yn gorfodi'r polisi ar gystadleuaeth. Rwyf wedi cyfarfod â'r dyfarnwr, a gyda'n gilydd, rydym yn trefnu digwyddiad yng Nghymru ar gyfer cyflenwyr i feithrin gwell ymgysylltiad a dealltwriaeth o'u gwaith.

In terms of increasing the percentage of public procurement of Welsh produce, we are fully supportive of this ambition. It's estimated that 63 per cent of total public sector purchases on food and drink were from Welsh companies. The largest proportion of spend is on meat products, and that represents around a quarter of purchases. The national procurement service is actively engaging with key stakeholders across the Welsh public sector through its food category forum, and is developing a national procurement service food strategy, to bring food and drink procurement within its scope towards the end of this year. Under EU procurement laws, we need to ensure that our sourcing is open, transparent and available to any supplier across Europe. However, there are certainly benefits from sourcing closer to home that we'll be seeking to take advantage of while we take this agenda forward.

O ran cynyddu canran y cynnyrch o Gymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus, rydym yn gwbl gefnogol i'r uchelgais hwn. Amcangyfrifir bod 63 y cant o gyfanswm bwyd a diod y sector cyhoeddus yn cael ei brynu gan gwmnïau o Gymru. Roedd y gyfran fwyaf o'r gwariant ar gynnyrch cig, sef oddeutu chwarter y pryniannau. Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy ei fforwm categori bwyd, ac mae'n datblygu strategaeth fwyd ar gyfer y gwasanaeth caffael cenedlaethol, i ddod â chaffael bwyd a diod yn rhan o'i gylch gorchwyl tuag at ddiwedd y flwyddyn. O dan ddeddfau caffael yr UE, mae angen i ni sicrhau bod ein gwaith cyrchu yn agored, yn dryloyw ac ar gael i unrhyw gyflenwr ar draws Ewrop. Fodd bynnag, mae manteision sicr i gyrchu yn nes adref y gallwn elwa arnynt tra byddwn yn symud yr agenda hon yn ei blaen.

We've discussed calls for mandatory country-of-origin labelling to be extended to the dairy sector. In discussions ahead of European Council of Ministers meetings, I continue to argue that we should explore options for making an appropriate country-of-origin labelling regulation for milk and milk products, providing that it meets the needs of both consumers and producers. In doing so, we appreciate the need to ensure that we do not inflict extra administrative costs and burdens on the industry in Wales. This approach is supported by the Department for Environment, Food and Rural Affairs.

Rydym wedi trafod galwadau i ymestyn labelu gwlad tarddiad gorfodol i gynnwys y sector llaeth. Mewn trafodaethau cyn cyfarfodydd Cyngor Ewropeaidd y Gweinidogion, rwy'n parhau i ddadlau y dylem edrych ar opsiynau ar gyfer gwneud rheoliad labelu gwlad tarddiad priodol ar gyfer llaeth a chynhyrchion llaeth, cyhyd â'i fod yn diwallu anghenion defnyddwyr a chynhyrchwyr. Drwy wneud hynny, rydym yn derbyn yr angen i sicrhau nad ydym yn creu costau a beichiau gweinyddol ychwanegol i'r diwydiant yng Nghymru. Mae'r dull hwn o weithredu yn cael ei gefnogi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

In closing, I'd like to reiterate that the red meat and dairy sectors will continue to be vital to our agriculture industry here in Wales, and, whilst there might be short-term difficulties in terms of market prices, I remain confident that the future is a positive one, if the industry at individual farm level and individual farmer level embraces fully the vision and the need for change that I described when I was side by side with the presidents of NFU Cymru and the FUW at the Wales farming conference last month. Thank you.

Wrth gloi, hoffwn ailadrodd y bydd y sectorau cig coch a llaeth yn parhau i fod yn hanfodol i'n diwydiant amaethyddol yma yng Nghymru, ac er y gallai fod anawsterau tymor byr o ran prisiau'r farchnad, rwy'n parhau'n hyderus fod y dyfodol yn gadarnhaol os yw'r diwydiant ar lefel ffermydd unigol ac ar lefel y ffermwr unigol yn croesawu'r weledigaeth yn llawn a'r angen am newid a ddisgrifiais pan oeddwn gyda llywyddion Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru yng nghynhadledd ffermio Cymru y mis diwethaf. Diolch yn fawr.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And I call on Llyr Gruffydd to reply to the debate.

A galwaf ar Llyr Gruffydd i ymateb i'r ddadl.

17:09 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddiolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddadl y prynhawn yma? Rwyf wedi addo cyfeirio at y gwelliannau, felly mi wnaf i hynny yn gyntaf. Fyddwn ni ddim yn cefnogi y gwelliant cyntaf, oherwydd fel rŷm ni wedi clywed yn ystod y ddadl, mae'n ddwy flynedd ers i Weinidog DEFRA addo gweithredu, ac mae yn deg bod y cynnig yn gresynu at y methiant i gyflwyno y newid yna. Felly hefyd yr ail welliant, oherwydd mae'r elfen o gerydd, rwy'n meddwl, yn ddilys, ond mi rŷm ni, wrth gwrs, yn cydnabod gwaith fforwm y diwydiant cig coch, ac mi fyddwn ni yn cefnogi y trydydd gwelliant.

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I thank everyone for their contributions to this afternoon's debate? I did promise that I would refer to the amendments, so I will do that first. We won't be supporting the first amendment, because, as we've already heard during the debate, it's two years since the DEFRA Minister pledged to take action, and it is fair that the motion regrets the failure to introduce that change. The same goes for the second amendment, because that element of censure is valid, I think, but we do, of course, recognise the work of the red meat industry forum, and we will support the third amendment.

Fe fyddwn ni'n cefnogi gwelliant 4 hefyd, oherwydd y ddealltwriaeth oedd, hyd y gwelaf i, mai'r bwriad yn wreiddiol oedd datblygu gwobrau amgen bwyd a diod i Gymru ar ôl cael gwared ar wobrau'r Gwir Flas. Pwy a ŵyr? Efallai fydd cyfle i lansio gwobrau o'r fath fel rhan o flwyddyn bwyd a diod Plaid Cymru. Cawn ni weld os daw'r cyfle i wneud hynny.

We will support amendment 4 also, because the understanding, as far as I could see, was that the intention was originally to develop alternative food and drink awards for Wales, having abolished the True Taste awards. Who knows? There may be an opportunity to launch such awards as part of Plaid Cymru's proposed year of food and drink. We'll see if that opportunity emerges.

O ran gwelliant 5, yn sicr, mae effaith colli Gaerwen, wrth gwrs, ar y lefi cig coch wedi cael ei hamlinellu, ac mae'n rhaid imi dalu teyrnged i Rhun ap Iorwerth, achos nid oes neb wedi gwneud mwy o waith na fe, rwy'n siŵr, i drio gwireddu agor lladd-dy arall yng ngogledd Cymru.

In terms of amendment 5, the impact of the loss of Gaerwen, of course, on the red meat levy has been outlined, and I have to pay tribute to Rhun ap Iorwerth, because no-one has worked harder than he has, I'm sure, to try to get another abattoir opened in north Wales.

Mi fyddwn ni'n cefnogi gwelliant 6. Mae amlygu rôl ymarferol yr archfarchnadoedd i hyrwyddo cynnyrch Cymru yn gwbl ddilys, ac mae angen achub ar bob cyfle i gefnogi a hyrwyddo statws dynodiad daearyddol gwarchodedig o Gymru a chig tractor coch Prydeinig, sydd wrth gwrs, yn fathodyn rŷm ni'n falch iawn ohono fe, sy'n cadarnhau'r ansawdd sy'n perthyn i gynnyrch Cymreig.

We will support amendment 6. Highlighting the practical role of the supermarkets in promoting Welsh produce is entirely valid, and we need to take every opportunity to support and promote the protected geographical indication status of produce from Wales and British red tractor meat, which, of course, is a badge that we're very proud of, and which confirms the quality of Welsh produce.

Mi fyddwn ni'n cefnogi gwelliant rhif 7 hefyd, yn ymwneud â chaffael cyhoeddus. Fel y clywom ni, mae yna lawer iawn y gellir ei wneud i dyfu y 63 y cant yna sydd yn cael ei gaffael ar hyn o bryd, ac mi oedd adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig y gwnaeth rhywun gyfeirio ato fe yn amlygu mai dim ond 22 y cant o fwyd yn y sector milwrol, heddlu a gwasanaeth tân sydd yn cael ei gaffael o Gymru. Felly, mae yna lawer o ffordd y gallwn ni fynd i gryfhau hynny.

We will support amendment 7 also, relating to public procurement. As we have heard, there's a great deal that can be done to increase that 63 per cent that is currently procured, and the report of the Institute of Welsh Affairs that someone referred to highlights that only 22 per cent of the food in the military, police and fire service sectors is procured from Wales. Therefore, there is a great deal that we can do to enhance that.

Mi fyddwn ni hefyd yn cefnogi gwelliant rhif 8. Rŷm ni wedi galw yn flaenorol am i argymhellion adolygiad Richardson o'r sector llaeth gael eu mabwysiadu mor fuan ag sy'n bosibl. O ran gwelliant 9, yn amlwg, rŷm ni'n gefnogol o sicrhau bod labelu yn cael ei gryfhau. Mae brand Cymru yn rhoi hyder i brynwyr eu bod nhw'n prynu rhywbeth o ansawdd, a bod y bwyd a'r ddiod y maen nhw yn ei brynu o Gymru wedi'u cynhyrchu i safon uchel ac mewn modd cyfrifol, ac mae'n bwysig bod y labeli yn cydnabod, ac yn wir, yn dathlu hynny.

We will also support amendment 8. We have called previously for the Richardson review recommendations on the dairy sector to be adopted as soon as possible. In terms of amendment 9, clearly, we are supportive of ensuring that labelling is strengthened. The Welsh brand does give confidence to consumers that they're buying something of quality, and that the food and drink they buy from Wales is produced to a high standard and in a responsible manner, and it's important that the labels recognise and, indeed, celebrate that fact.

Mi wnaf i bigo lan ar un neu ddau o sylwadau a wnaethpwyd yn ystod y ddadl. Os ydw i wedi deall yn iawn, Ddirprwy Weinidog, mi ddywedoch chi y byddech chi yn lansio manylion y cynlluniau o dan y rhaglen datblygu gwledig yfory. Os ydy hynny'n wir, yna fe fyddem ni'n siomedig iawn nad ydych chi wedi achub ar y cyfle i ddefnyddio'r ddadl yma, gan fod yna gyfeiriadau penodol at y rhaglen datblygu gwledig, i wneud hynny. Yn wir, mae lansio y fath beth, efallai, ddiwrnod ar ôl diwedd y tymor yn golygu na fyddwn ni fel Aelodau nawr yn cael cyfle i drafod hyn tan fis Medi, ac mae hynny yn fy synnu i ac, yn wir, yn fy siomi i. Ond mi edrychwn ni ymlaen at glywed beth yw'r cynnwys, ac yn amlwg, mi fyddwn ni yn ymateb fel rŷm ni'n teimlo sydd angen ei wneud pan glywn ni y manylion.

I will pick up on a few of the comments made during the debate. If I have understood correctly, Deputy Minister, you said that you will be launching the detail of the schemes under the rural development programme tomorrow. If that is the case, then we would be very disappointed that you haven't taken the opportunity to use this debate to do so, given that there were specific references to the rural development programme in the motion. Indeed, launching such a thing the day after the end of the Assembly term means that we as Members won't have the opportunity to discuss this until September, and I find that shocking and, indeed, disappointing. But we look forward to hearing the content of that statement, and of course we will respond appropriately when we hear the details.

Rwy'n diolch i Alun Davies am ei gyfraniad—wastad yn dod â bach o liw i drafodaethau yn ymwneud â'r diwydiant amaeth. Nid wy'n siŵr iawn bod yna 'aggressive protectionism' yn rhyw fath o agenda sy'n cael ei hyrwyddo yn y cynnig yma heddiw. Efallai fod hynny'n dweud mwy am ei agwedd e o fod, o bosib, yn rhyw fath o 'aggressive free marketeer'. Rwyf jest yn dweud mai gorsymleiddio'r ddadl oedd gwneud hynny, ac efallai fy mod i hefyd yn talu'r 'compliment' yn yr un ffordd—sydd yn annheg.

I thank Alun Davies for his contribution—he always brings a bit of colour to our discussions on the agricultural industry. I'm not sure whether aggressive protectionism is the kind of agenda that this motion is promoting today. Perhaps that says more about his attitude, of being some sort of aggressive free marketeer. I'm just saying that it was oversimplifying the debate to use those terms, and perhaps I, too, am returning the compliment—which is unfair.

Hefyd, wrth gwrs, rwyf wedi'i gwneud hi'n gwbl glir o'r cychwyn cyntaf ynglŷn â throsglwyddo 15 y cant o biler 1 i biler 2. Mi fyddai Llywodraeth Plaid Cymru wedi trosglwyddo rhywfaint o biler 1 i biler 2, ond fyddem ni ddim wedi trosglwyddo'r lefel uchaf posib a ffeindio mai ffermwyr Cymru, wrth gwrs, sydd yn trosglwyddo un o'r lefelau uchaf drwy Ewrop gyfan. Rwyf wedi dweud hynny yn gyson—efallai nad oedd pawb yn gwrando.

Also, of course, I've made it quite clear from the very outset in terms of the transfer of 15 per cent from pillar 1 to pillar 2. A Plaid Cymru Government would have transferred some percentage from pillar 1 to pillar 2, but we wouldn't have transferred the maximum level, leaving Welsh farmers with one of the highest transfer levels throughout the whole of Europe. I've made that point consistently—perhaps not everyone was listening.

A gaf i hefyd gyfeirio at Aelod Canol Caerdydd, a oedd yn sôn, neu'n awgrymu, efallai, nad yw'r £1 biliwn arfaethedig yn y cynllun datblygu gwledig yn mynd i wneud rhyw lawer o wahaniaeth? Wel, pa ddefnydd arall wnawn ni o'r RDP os nad ŷm ni yn ei ddefnyddio fe i drio tyfu y sector amaeth a chreu sector mwy cydnerth yn wyneb y farchnad 'global' anodd y maen nhw'n ei wynebu? Ac os dyna agwedd Llafur a'r Llywodraeth Lafur, wel, symudwch o'r ffordd, oherwydd mi wnaiff Llywodraeth Plaid Cymru yn siŵr ein bod ni yn defnyddio hwnnw i'r eithaf.

May I also refer to the Member for Cardiff Central, who was talking about, or suggesting, perhaps, that the proposed £1 billion in the rural development plan wasn't going to make much difference? Well, what other use should we make of the RDP if not to try and develop the agriculture sector and create a more resilient sector in the face of the difficult global market conditions that farmers are facing? And if that's the attitude of Labour and the Labour Government, well, move aside, because a Plaid Cymru Government will ensure that we will use it to the full.

Nawr, mae yna lawer iawn mwy i'w drafod, wrth gwrs, ac mi fydd yna gyfle, heb amheuaeth, fel y mae ambell un wedi cyfeirio, i wneud hynny yr wythnos nesaf. Fel Aelodau unigol, os ŷch chi yn mynd i'r Sioe Frenhinol, a gaf i eich annog chi i achub ar y cyfle i wrando ar lais y diwydiant? Mae dyletswydd ar bob un ohonom ni i sicrhau ein bod ni yn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant hwnnw.

Now, there's a great deal more to be discussed, of course, and there will be an opportunity to do so, without a doubt, as a few have referred, next week. As individual Members, if you are going to the Royal Welsh, may I encourage you to take the opportunity to listen to the voice of the industry? It's incumbent on us all to ensure that we secure a sustainable future for that industry.

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting to voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Voting time now follows. We've only the Plaid Cymru debate to vote on. Before I commence voting, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Dadl Plaid Cymru yn unig sydd gennym i bleidleisio arni. Cyn i mi ddechrau'r pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

17:15

## 6. Cyfnod Pleidleisio

## 6. Voting Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against 16. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 16 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 16, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 34, Against 16, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5817

Result of the vote on motion NDM5817

17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly? Quickly, please.

A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda? Yn gyflym, os gwelwch yn dda.

17:16

## 7. Dadl Fer: Atal Sgamiau yng Nghymru—Camau y Gellir eu Cymryd i Atal Pobl rhag Bod yn Destun Sgamiau

## 7. Short Debate: Stopping Scams in Wales—Action that Can Be Taken to Stop People Becoming Victims of Scams

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The final item is the short debate. I call on Mike Hedges to speak on the topic he has chosen.

Yr eitem olaf yw'r ddadl fer. Galwaf ar Mike Hedges i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

17:16 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'll be giving a minute of this debate to Aled Roberts.

This debate is topical, as the Age Cymru anti-scam month is July. Anyone can be a victim of a scam, but the more vulnerable in society, such as the elderly, those with early-onset dementia, the lonely and people with learning difficulties are especially at risk. Everyone is likely to be contacted by a scammer. My personal favourite was when someone on Facebook claiming to be a female contacted me and told me how they liked my looks and wanted to get to know me better. [Laughter.] Many lonely people may well be taken in by such a scam and start sending the money that will, at the first contact, be asked for.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Byddaf yn rhoi munud o'r ddadl hon i Aled Roberts.

Mae'r ddadl hon yn amserol, gan fod mis Gorffennaf yn fis gwrth-sgam Age Cymru. Gall unrhyw un fod yn agored i sgâm, ond mae'r rhai sy'n fwy agored i niwed mewn cymdeithas, megis yr henoed, pobl â dementia cynnar, pobl unig a phobl ag anawsterau dysgu yn wynebu risg arbennig. Mae pawb yn debygol o ddod i gysylltiad â sgamiwr. Fy ffefryn personol oedd pan gysylltodd rhywun â mi ar Facebook yn honni bod yn fenyw a dweud wrthyf cymaint yr oeddent yn hoffi'r ffordd rwy'n edrych ac yn awyddus i ddod i fy adnabod yn well. [Chwerthin.] Gallai llawer o bobl unig gael eu twyllo gan sgâm o'r fath a dechrau anfon yr arian y gofynnir amdano ar y cysylltiad gyntaf.

Scams go back a very long time. A true history of fraud would have to start at 300 BC when a Greek merchant named Hegestratos took out a large insurance policy known as bottomry. Basically, a merchant borrows money and agrees to pay it back with interest when the cargo—in this case, corn—is delivered. If the loan is not paid back, the lender can acquire the boat and its cargo. Hegestratos planned to sink his empty boat, keep the loan and sell the corn. It didn't work out for him, as he drowned trying to escape his crew and passengers when they caught him in the act. This is the first recorded incident, but it's safe to assume that fraud and scams have been around since the dawn of commerce.

Mae sgamiau'n mynd yn ôl yn bell iawn. Byddai'n rhaid i astudiaeth go iawn o dwyll ddechrau yn 300 CC pan gymerodd masnachwr Groegaidd o'r enw Hegestratos bolisi yswiriant mawr a elwir yn echwyn ar longau. Yn y bôn, roedd masnachwr yn benthyg arian ac yn cytuno i'w dalu'n ôl gyda llog pan fyddai'r cargo—grawn yn yr achos hwn—yn cael ei gyflenwi. Os nad ad-delid y benthyciad, gallai'r benthyciwr gaffael y cwch a'i gargo. Cynlluniodd Hegestratos i suddo ei long wag, cadw'r benthyciad a gwerthu'r grawn. Ni weithiodd y cynllun, gan iddo foddi wrth geisio dianc rhag ei griw a theithwyr pan gafodd ei ddal yn cyflawni'r twyll. Dyma'r digwyddiad cyntaf a gofnodwyd, ond mae'n ddiogel i ni gymryd yn ganiataol fod twyll a sgamiau wedi bodoli ers i'r ddynoliaeth ddechrau masnachu.

Whilst I've indicated that scams go back at least to the ancient Greeks, the big advance was with new technology that enabled personalised letters and e-mails to be targeted at an individual, and often very many of them; sending a million e-mails when you've got an e-mail list is as easy as sending one. I'm going to discuss the three main types of scam: firstly, cold calling; secondly, e-mail scams; and, finally, letter and text scams.

Er fy mod wedi dweud bod sgamiau'n mynd yn ôl i gyfnod yr hen Roegiaid fan lleiaf, digwyddodd y cynnydd mawr gyda thechnoleg newydd a'i gwnâi'n bosibl targedu llythyrau ac e-byst personol at unigolyn, a llawer iawn ohonynt yn aml; mae anfon miliwn o negeseuon e-bost pan fydd gennych restr o e-byst yr un mor hawdd ag anfon un. Rwy'n mynd i drafod y tri phrif fath o sgâm: yn gyntaf, galw diwahoddiad; yn ail, sgamiau e-bost; ac yn olaf, sgamiau llythyrau a negeseuon testun.

Firstly, cold calling: there are several different scams, but they are all variations on a theme. One of the more common ones is when a door is knocked, a problem with the roof is identified by the caller, but the good news is that they are in the area and they can repair it for a few hundred pounds. They explain that if nothing is done, then you're going to have a serious problem, water is going to be coming in, and it'll be very expensive in the future. Having visited the roof, and now, perhaps, removed a few tiles, the problem identified becomes more urgent and more expensive. Several thousand pounds later, the roof is in no better shape and possibly worse than it was when they started. An example of this type of fraud, targeted at an elderly occupant, was reported in Saturday's 'South Wales Evening Post'. Huw John Llewellyn Jones of Giants Wharf, Briton Ferry pleaded guilty to three offences at Swansea magistrates' court after failing to notify his elderly consumers of their rights and failing to complete the work.

Yn gyntaf, galw diwahoddiad: mae yna nifer o wahanol sgamiau, ond maent i gyd yn amrywiadau ar thema. Un o'r rhai mwyaf cyffredin yw curo ar y drws, y sawl sy'n galw'n tynnu sylw at broblem gyda'r to, ond y newyddion da yw eu bod yn yr ardal a gallant ei drwsio am ychydig gannoedd o bunnoedd. Maent yn egluro, os na wneir unrhyw beth, yna fe gewch broblem ddifrifol, dŵr yn dod i'r tŷ, a bydd yn ddrud iawn yn y dyfodol. Ar ôl mynd ar y to, a thynnu ychydig o deils efallai, mae'r broblem a nodwyd yn tyfu'n fwy difrifol ac yn ddrutach. Sawl mil o bunnoedd yn ddiweddarach, nid yw'r to mewn cyflwr gwell, ac efallai ei fod mewn cyflwr gwaeth o bosibl nag ar y dechrau. Cafwyd enghraifft o'r math hwn o dwyll, yn targedu preswylydd oedrannus, yn y 'South Wales Evening Post' ddydd Sadwrn. Plediodd Huw John Llewellyn Jones o Giants Wharf, Llansawel yn euog i dair trosedd yn llys ynadon Abertawe ar ôl methu rhoi gwybod i gwsmeriaid oedrannus am eu hawliau ac am fethu cwblhau'r gwaith.

The court heard how a 77-year-old woman paid a man £500 to clean the paved area at the front of her house and clear a patio at the back, after receiving a flyer though her door. I think most of us would consider that to be a substantial amount of money to be paid for what is effectively a relatively small job. But, not to worry, it gets better; she paid £125 to replace damaged tiles on her garage and £140 to replace the grouting in the patio. The customer wanted to cancel and ask for her money back, but she was refused. In March 2015, he visited a 76-year-old in Port Talbot to inspect work that he had subcontracted to another company. He was paid £100 to wash and seal a concrete driveway, or it would disintegrate. The occupant never saw the sealant and refused to pay the balance, though he insisted that he had mixed the sealant with the water. He was interviewed by Neath Port Talbot trading standards, admitted it, and eventually ended up in court and was fined.

Clywodd y llys sut y talodd dynes 77 oed £500 i ddyn am lanhau'r palmant o flaen ei thŷ a chlirio patio yn y cefn, ar ôl iddi gael taflen drwy ei blwch llythyrau. Rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ystyried bod hwnnw'n swm sylweddol o arian i'w dalu am yr hyn sydd i bob pwrpas yn waith cymharol fach. Ond arhoswch, mae'n gwaethygu; talodd y ddynes £125 i ailosod teils a dorrwyd ar ei garej a £140 i ailosod growt ar y patio. Roedd y cwsmer yn awyddus i ganslo a gofyn am ei harian yn ôl, ond cafodd ei gwrthod. Ym mis Mawrth 2015, ymwelodd â pherson 76 oed ym Mhort Talbot i arolygu gwaith roedd wedi'i is-gontractio i gwmni arall. Talwyd £100 iddo am olchi a selio tramwyfa goncrid, neu byddai'n chwalu. Ni chafodd y preswylydd weld y deunydd selio felly gwrthododd dalu'r hyn a oedd yn ddyledus, er i'r sgamiwr fynnu ei fod wedi cymysgu'r deunydd selio â dŵr. Cafodd ei gyfweld gan safonau masnach Castell-nedd Port Talbot, a chyfaddefodd yr hyn a wnaethai. Ymddangosodd yn y llys a chafodd ddirwy.

No-cold-calling zones, or cold calling control zones, are designated areas that cold callers are asked to keep out of. We know from surveys that the vast majority of residents do not want to be cold called, especially by people offering home improvement work or selling goods or services on their doorstep. There are more than 1.3 million households in Wales, but only 53,000 are covered by no-cold-calling zones, including, thankfully, one in my own constituency that has recently been set up by Swansea council. This has risen in the last 18 months, due to Welsh Government funding, from the 35,000 homes that were covered in 2013, when I first called for a major increase in zones. But it still represents about 7 per cent of the total number of households.

Mae parthau dim galw diwahoddiad, neu ardaloedd rheoli galw diwahoddiad yn ardaloedd dynodedig y gofynnir i alwyr digroeso gadw allan ohonynt. Rydym yn gwybod o arolygon nad oedd y mwyafrif llethol o drigolion eisiau i alwyr digroeso alw, yn enwedig pobl yn cynnig gwneud gwaith gwella ar y cartref neu werthu nwyddau neu wasanaethau ar garreg eu drws. Mae mwy na 1.3 miliwn o gartrefi yng Nghymru, ond dim ond 53,000 sydd mewn parthau dim galw diwahoddiad, gan gynnwys, diolch byth, un yn fy etholaeth i a sefydlwyd yn ddiweddar gan gyngor Abertawe. Mae'r nifer wedi codi yn ystod y 18 mis diwethaf, o ganlyniad i arian gan Lywodraeth Cymru, o'r 35,000 o gartrefi a gafodd eu cynnwys yn 2013, pan elwais yn gyntaf am gynnydd mawr yn nifer y parthau. Ond tua 7 y cant yn unig o gyfanswm nifer yr aelwydydd yw hyn o hyd.

The process of creating zones is expensive and time-consuming for council staff to carry out the investigation and consultation needed to conform to guidelines for creating new zones. But these guidelines were created nearly a decade ago by the now defunct Office of Fair Trading. Since then, the commercial world has raced ahead and online shopping and business internet sites have become commonplace, as has social media. It can be argued that very few businesses, perhaps things like milkmen et cetera, actually need to cold call. This is why the guidelines for creating new zones are no longer fit for purpose.

Mae'r broses o greu parthau yn ddrud ac mae'n cymryd llawer o amser i staff cyngor gynnal yr ymchwiliad a'r ymgynghoriad sydd ei angen i gydymffurfio â chanllawiau ar gyfer creu parthau newydd. Ond crëwyd y canllawiau hyn bron i ddegawd yn ôl gan y Swyddfa Masnachu Teg sydd bellach wedi darfod. Ers hynny, mae'r byd masnachol wedi prysuro yn ei flaen ac mae gwefannau siopa a busnesau rhyngrwyd ar-lein wedi dod yn gyffredin, fel y mae cyfryngau cymdeithasol. Gellir dadlau mai ychydig iawn o fusnesau, pethau fel dynion llaeth ac ati efallai, sydd angen gwneud galwadau diwahoddiad mewn gwirionedd. Dyma pam nad yw'r canllawiau ar gyfer creu parthau newydd bellach yn addas i'r diben.

Age Cymru research has indicated that more than 90 per cent of people do not want to be cold called in their homes, and they call for a complete ban. Yet, local authorities have to go through a lengthy and expensive process before setting up a zone. And many, driven by a need to reduce costs, simply don't go ahead with it. This leaves older and vulnerable people totally exposed to being cold called by ruthless rogue traders, who are often part of organised crime gangs. I would like to see the Welsh Government and the Welsh Local Government Association make a commitment to make Wales a no-cold-calling country.

Mae ymchwil Age Cymru wedi nodi nad yw dros 90 y cant o bobl eisiau i neb alw'n ddiwahoddiad yn eu cartrefi, ac maent yn galw am waharddiad llwyr. Eto i gyd, rhaid i awdurdodau lleol fynd drwy broses hir a drud cyn sefydlu parth. A bydd llawer, wedi'u hysgogi gan yr angen i leihau costau, yn rhoi'r gorau i hyn, gan adael pobl hŷn a bregus yn gwbl agored i alw diwahoddiad gan fasnachwyr twyllodrus didostur, sy'n aml yn rhan o gangiau troseddu cyfundrefnol. Hoffwn weld Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ymrwymo i wneud Cymru yn wlad dim galw diwahoddiad.

On internet scams, the most popular is the Nigerian scam, or the 419 scam, I think it was, which started off in Nigeria, when unemployed students started offering shady deals aimed at greedy businessmen in the west, and later, the wider population. The spread of e-mail, of course, has made this very easy. I don't think there's a person in Wales who is on e-mail who has not received an opportunity to just look after anything between £5 to £15 million in their bank accounts, which they can keep 10 per cent of just to look after it and get it out of the country. It's been linked to organised gangs, it's a very old Nigerian scam, and it's called the 419 scam, because it's article 419 of the Nigerian criminal code. But, it has made its way all over Africa, Asia and now eastern Europe. There are many variations of it and it's based on an old scam of somebody who existed many years ago in Nigeria, when somebody was said to be being held prisoner and all they needed was a small sum of money to pay their way out, and then they'd get access to a crock of gold.

O ran sgamiau ar y rhyngrwyd, y mwyaf poblogaidd yw sgâm Nigeria, neu'r sgâm 419, rwy'n meddwl, a ddechreuodd yn Nigeria, pan ddechreuodd myfyrwyr di-waith gynnig bargeinion amheus wedi'u hanelu at ddynion busnes barus yn y gorllewin, ac yn ddiweddarach, i'r boblogaeth ehangach. Mae lledaeniad e-byst, wrth gwrs, wedi gwneud hyn yn hawdd iawn. Nid wyf yn meddwl bod yna berson yng Nghymru sydd ag e-bost nad yw wedi cael cyfle i edrych ar ôl unrhyw beth rhwng £5 a £15 miliwn yn eu cyfrif banc, ac addewid y gallant gadw 10 y cant ohono am edrych ar ei ôl a'i gael allan o'r wlad. Mae wedi'i gysylltu â gangiau cyfundrefnol, mae'n sgâm hen iawn yn Nigeria, ac fe'i gelwir yn sgâm 419, am mai erthygl 419 o god troseddol Nigeria sy'n ymdrin â hyn. Ond mae wedi gwneud ei ffordd ar hyd a lled Affrica, Asia a dwyrain Ewrop bellach. Mae llawer o amrywiadau ohono ac mae'n seiliedig ar hen dwyll a fodolai flynyddoedd lawer yn ôl yn Nigeria, pan ddywedid bod rhywun yn cael ei ddal yn garcharor a'r cyfan oedd ei angen oedd swm bach o arian i dalu am ei ryddid, ac yna fe gaent gawg o aur.

Some are based exclusively on cheating the victim into cashing a fake cheque. Others involve vacational rentals, and others are holiday scams, where they actually rent out villas that the scammer does not actually own—they hack into the owner's e-mail and websites. Then, there are the lottery scams. Lottery scam e-mails take notice of lottery wins, tell people how they've won the lottery—often one they've never heard of, never mind entered. But they have an opportunity and all they have to do is give a few bits of information and their bank details and all this money will tumble into their account.

Mae rhai'n seiliedig yn gyfan gwbl ar dwyllo'r dioddefwr i gyfnewid siec ffug am arian. Mae eraill yn cynnwys gosod eiddo gwyliau, ac mae eraill yn sgamiau gwyliau, lle maent yn rhentu filas nad yw'r sgamiwr yn berchen arnynt mewn gwirionedd-maent yn hacio e-bost a gwefannau'r perchennog. Yna, ceir sgamiau loteri. Mae negeseuon e-bost sgâm loteri yn sylwi ar enillion loteri, yn dweud wrth bobl eu bod wedi ennill y loteri-un nad ydynt erioed wedi clywed amdani, yn aml, heb sôn am roi cynnig arni. Ond maent yn cael cyfle a'r cyfan sy'n rhaid iddynt ei wneud yw rhoi ychydig o wybodaeth a'u manylion banc a bydd yr holl arian yn arllwys i mewn i'w cyfrif.

How much does it cost? Well, in America, in 1997, a newspaper article identified that over $100 million in 15 months had been taken out of people's bank accounts by those scams, and that's what's been notified to the authorities, and they figure—and I tend to agree with them—a lot of people don't report these scams.

Faint mae'n ei gostio? Wel, yn America, yn 1997, nododd erthygl bapur newydd fod dros $100 miliwn wedi cael ei gymryd o gyfrifon banc pobl gan y sgamiau hyn o fewn 15 mis. Dyna'r rhai y mae'r awdurdodau wedi cael gwybod amdanynt, ac maent yn meddwl—ac rwy'n tueddu i gytuno â hwy—fod yna lawer o bobl nad ydynt yn rhoi gwybod am sgamiau hyn.

On the letter and text scams, the most recent text scam was reported in the 'Western Mail'. Bank customers are being warned about a sophisticated new text message scam that aims to trick victims into revealing their security details. The message appears to be from the targeted customer's bank, and because of the way technologies move, it's very easy to copy the headers and the text and the font and everything else from the real banks. Then, they send the information in, they use specialist software to make it look more authentic, they claim to be checking on fraud in the recipient's account and to be working for the financial fraud authority, which fights fraud. The information comes from the FFA's UK intelligence unit and texts encourage people to call a number or visit a website, often claiming that the matter is urgent and if they don't take action they'll be losing large sums of money. But the phone number or website is actually controlled by the fraudster, enabling them to steal security details that can be used to access the victim's bank account and steal money.

O ran sgamiau llythyrau a negeseuon testun, cafodd y twyll testun mwyaf diweddar sylw yn y 'Western Mail'. Rhybuddir cwsmeriaid banc am sgâm neges destun newydd soffistigedig sy'n ceisio twyllo pobl i ddatgelu eu manylion diogelwch. Mae'r neges yn ymddangos fel pe bai'n dod gan fanc y cwsmer sy'n cael ei dargedu, ac oherwydd y ffordd y mae technoleg yn datblygu, mae'n hawdd iawn copïo'r penawdau a'r testun a'r ffont a phopeth arall gan y banciau go iawn. Yna, byddant yn anfon y wybodaeth i mewn, maent yn defnyddio meddalwedd arbenigol i wneud iddo edrych yn fwy dilys, maent yn honni eu bod yn archwilio twyll yng nghyfrif banc y derbynnydd a'n gweithio i'r awdurdod twyll ariannol sy'n ymladd twyll. Daw'r wybodaeth o uned gudd-wybodaeth awdurdod twyll ariannol y DU a thestunau'n annog pobl i ffonio rhif, neu ymweld â gwefan, gan honni'n aml fod y mater yn un brys ac os nad ydynt yn rhoi camau ar waith byddant yn colli arian mawr. Ond mae'r rhif ffôn neu'r wefan yn cael ei reoli gan y twyllwr mewn gwirionedd, gan eu galluogi i ddwyn manylion diogelwch y gellir eu defnyddio i gael mynediad at gyfrif banc y dioddefwr a dwyn arian.

Financial Fraud Action UK said that to make the texts seem authentic fraudsters use specialist software that alters the sender's ID on a message so that it appears with the name of a bank as the sender. This can mean that a text is included in an existing message thread on the recipient's phone. The scam text may warn that the recipient will soon receive a call from their bank fraud department and the fraudster then calls the victim and attempts to trick them into revealing their security details. Intelligent also suggest that fraudsters are sending scam texts that appear to be from landline numbers, asking the recipient to simply call their bank. This is in the hope that the victim will phone the number that the text was sent from—a number controlled by the fraudster. FFA UK, the members of which include banks and card issuers, have said that to avoid becoming a victim of the scam, people should be suspicious if a text message asks them to provide sensitive, personal information, passwords or to make transactions. If a customer is asked to call the number given in the text message and the number is unknown to them, they should call the bank on a number that they trust, such as the one on the back of their bank card. The FFA said people should remember that their bank will never phone them to ask them for their four-digit personal identification number or their online banking password, or even ask them to tap them into the phone. Banks will not ask people to update their personal details by following a link in a text.

Er mwyn gwneud i'r negeseuon testun ymddangos yn ddilys, dywedodd Financial Fraud Action UK fod twyllwyr yn defnyddio meddalwedd arbenigol sy'n newid manylion adnabod yr anfonwr ar neges i wneud iddi ymddangos gydag enw banc fel anfonwr y neges. Gall hyn olygu bod neges destun yn cael ei chynnwys mewn edefyn neges bresennol ar ffôn y derbynnydd. Efallai y bydd y testun sgâm yn rhybuddio y bydd y derbynnydd yn cael galwad o adran dwyll eu banc yn fuan a bydd y twyllwr yn ffonio'r dioddefwr wedyn ac yn ceisio'i dwyllo i ddatgelu ei fanylion diogelwch. Mae'r uned gudd-wybodaeth hefyd yn awgrymu bod twyllwyr yn anfon negeseuon testun sgâm sy'n ymddangos fel pe baent yn dod o rifau llinell dir, yn gofyn i'r derbynnydd wneud dim ond ffonio'u banc. Gwneir hyn yn y gobaith y bydd y dioddefwr yn ffonio'r rhif yr anfonwyd y neges destun ohono-rhif a reolir gan y twyllwr. Er mwyn osgoi sgâm, mae FFA UK, sydd ag aelodau'n cynnwys banciau a darparwyr cardiau, wedi dweud y dylai pobl fod yn amheus os yw neges destun yn gofyn iddynt roi gwybodaeth sensitif, bersonol, cyfrineiriau neu wneud trafodion. Os gofynnir i gwsmer ffonio'r rhif a roddir yn y neges destun a bod y rhif yn anghyfarwydd iddynt, dylent ffonio'r banc ar rif y maent yn ymddiried ynddo, fel yr un ar gefn eu cerdyn banc. Dywedodd yr FFA y dylai pobl gofio na fydd eu banc byth yn eu ffonio i ofyn iddynt am eu rhif adnabod personol pedwar digid neu eu cyfrinair bancio ar-lein, neu hyd yn oed i ofyn iddynt eu tapio i'r ffôn. Ni fydd banciau yn gofyn i bobl ddiweddaru eu manylion personol drwy ddilyn dolen mewn testun.

Katy Worobec, director of FFA UK said:

Meddai Katy Worobec, cyfarwyddwr FFA UK:

'These text messages can look very authentic, so it's important to be alert…If you're ever at all suspicious, call your bank on a number that you know. Remember, fraudsters are after your security details'—

'These text messages can look very authentic, so it's important to be alert…If you're ever at all suspicious, call your bank on a number that you know. Remember, fraudsters are after your security details''-

so they can take your money.

fel y gallant gymryd eich arian.

Then, finally, is the old-fashioned letter fraud, using word-processing techniques that make the letter seem uniquely aimed at the person concerned.

Yna, yn olaf, twyll llythyrau hen ffasiwn, gan ddefnyddio technegau prosesu geiriau sy'n gwneud i'r llythyr ymddangos fel pe bai wedi ei anelu'n unswydd at y person dan sylw.

The sums again can be huge. Over a two-year period £9,000 was sent to 70 different companies, with payments ranging from £10 to £250, by an elderly couple targeted by scammers. This couple started to receive more and more junk mail. The man who reported it said that his father would make it a priority to respond to it. It became like a full-time job. He would work late at night to complete the paperwork. A few years later he started to develop dementia and although his son tried to intervene many times, his father still believed that, at some stage, he was going to win. At the peak of the problem in 2008, the couple were receiving 30 to 40 letters a day—the vast majority from overseas. They've managed to improve now, since 2008—they tend to have them redirected from a London address.

Mae'r symiau unwaith eto'n gallu bod yn enfawr. Dros gyfnod o ddwy flynedd anfonwyd £9,000 at 70 o gwmnïau gwahanol, gyda thaliadau'n amrywio o £10 i £250, gan gwpl oedrannus a dargedwyd gan sgamwyr. Dechreuodd y pâr gael mwy a mwy o bost sothach. Dywedodd y dyn a roddodd wybod amdano y byddai ei dad yn ei gwneud yn flaenoriaeth i ymateb iddo. Daeth yn debyg i swydd amser llawn. Byddai'n gweithio'n hwyr yn y nos i gwblhau'r gwaith papur. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, dechreuodd ddioddef o ddementia ac er bod ei fab wedi ceisio ymyrryd sawl gwaith, roedd ei dad yn dal i gredu y byddai'n ennill ar ryw adeg. Ar anterth y broblem yn 2008, roedd y cwpl yn cael 30 i 40 o lythyrau y dydd-y mwyafrif llethol o dramor. Mae'r sgamwyr wedi llwyddo i wella bellach, ac ers 2008, maent yn tueddu i'w cael wedi'u hailgyfeirio o gyfeiriad yn Llundain.

'My parents were very secretive because they had effectively been "groomed" by the scammers not to tell anyone about what they were doing',

'My parents were very secretive because they had effectively been "groomed" by the scammers not to tell anyone about what they were doing ',

said the son. At last, after lengthy negotiations with the Royal Mail, the son was able to redirect their mail to himself. But these people have lost lots of money. These are just examples. I mean—I'm running close to time—if I had lots of time I could run through another half a dozen of each type of those, mainly elderly, mainly vulnerable people who have been taken advantage of.

meddai'r mab. O'r diwedd, ar ôl trafodaethau hir gyda'r Post Brenhinol, gallodd y mab ailgyfeirio eu post ato ef ei hun. Ond mae'r bobl hyn wedi colli llawer o arian. Enghreifftiau'n unig yw'r rhain. Hynny yw—rwy'n brin o amser—pe bai gennyf lawer o amser gallwn redeg drwy hanner dwsin o enghreifftiau eraill o bob un o'r mathau o bobl oedrannus ac agored i niwed yn bennaf y cymerwyd mantais arnynt.

So, I've already looked at trying to make Wales a no-cold-calling zone. What I'd like to see the Welsh Government do is work with the Westminster Government to warn people about these scams. Not enough is being done in terms of advertising and warning people of these. The Royal Mail should have a duty to report to trading standards when a large amount of mail is being sent to one non-business address. I sit in a room here with lots of people who get lots of mail, but very few of us get 40 letters sent to our home address on a daily basis.

Felly, rwyf eisoes wedi ceisio gwneud Cymru'n barth dim galw diwahoddiad. Yr hyn yr hoffwn ei weld yw Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth San Steffan i rybuddio pobl am y sgamiau hyn. Nid oes digon yn cael ei wneud o ran hysbysebu a rhybuddio pobl amdanynt. Dylai fod dyletswydd ar y Post Brenhinol i roi gwybod i'r adran safonau masnach pan fydd llawer iawn o e-byst yn cael ei anfon i un cyfeiriad nad yw'n fusnes. Rwy'n eistedd mewn ystafell yma gyda llawer o bobl sy'n cael llawer o bost, ond ychydig iawn ohonom sy'n cael 40 o lythyrau wedi'u hanfon i'n cyfeiriad cartref yn ddyddiol.

There are many elderly and vulnerable people who will be targeted today. Unfortunately, some of them will be scammed today. Finally, it's our duty to do all we can to stop there being any further victims.

Bydd llawer o bobl oedrannus ac agored i niwed yn cael eu targedu heddiw. Yn anffodus, bydd rhai ohonynt yn cael eu twyllo heddiw. Yn olaf, ein dyletswydd ni yw gwneud popeth yn ein gallu i atal neb arall rhag dioddef.

17:29

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In the short time I have, I want to raise the issue of telephone scams. There have been three examples in the last fortnight in the Wrexham area, where a company based in Swansea is actually contacting people and offering them energy assessments, and also telephone assessments. I wonder whether the Minister could use his good offices to actually contact utility companies in Wales, because I'm afraid to say that, after they've taken £299 out of an account for an energy assessment, and £149 to give them priority, as far as they can see, in boilers, we then have utility companies based in Wales that are actually accepting referrals from these dubious companies, and I just wonder whether the Minister could avail himself of the opportunity to speak to those companies.

Yn yr amser byr sydd gennyf, rwyf am grybwyll mater sgamiau ffôn. Cafwyd tair enghraifft yn ystod y pythefnos diwethaf yn ardal Wrecsam, lle mae cwmni wedi'i leoli yn Abertawe yn cysylltu â phobl ac yn cynnig asesiadau ynni iddynt, ac asesiadau ffôn hefyd. Tybed a allai'r Gweinidog ddefnyddio'i ddylanwad da i gysylltu â chwmnïau cyfleustodau yng Nghymru, oherwydd ar ôl iddynt gymryd £299 allan o gyfrif am asesiad ynni, a £149 i roi blaenoriaeth iddynt, mewn boeleri cyn belled ag y gallant weld, rwy'n ofni bod gennym gwmnïau cyfleustodau yng Nghymru sy'n derbyn atgyfeiriadau gan y cwmnïau amheus hyn, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allai'r Gweinidog fanteisio ar y cyfle i siarad â'r cwmnïau hyn.

17:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I now call the Minister for Public Services to reply—Leighton Andrews.

Galwaf yn awr ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ateb—Leighton Andrews.

17:30

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I start by thanking my colleague Mike Hedges for proposing this debate in Scams Awareness Month? I think in his first minute he took us all the way from Facebook and contemporary times to ancient Greece, which is quite an achievement.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i fy nghyd-Aelod, Mike Hedges am gynnig y ddadl hon yn ystod Mis Ymwybyddiaeth Sgamiau? Yn ei funud gyntaf, rwy'n meddwl ei fod wedi mynd â ni yr holl ffordd o Facebook a'r oes fodern i Roeg hynafol, sy'n dipyn o gamp.

This is an important subject, and I know many Members will have been contacted by people, often older and vulnerable people, who've been victims of scams. Although responsibility for crime and policing is not devolved, we're determined to do what we can to deal with issues that affect community safety in Wales, and have such a huge impact on victims. Indeed, a recent 'Watchdog' report found that it is estimated that British consumers lose around £3.5 billion to scams every year. That is the equivalent of £70 for each adult living in the UK.

Mae hwn yn bwnc pwysig, ac rwy'n gwybod y bydd pobl wedi cysylltu â llawer o Aelodau, pobl hŷn a bregus yn aml, ar ôl dioddef sgamiau. Er nad yw'r cyfrifoldeb am droseddau a phlismona wedi'i ddatganoli, rydym yn benderfynol o wneud yr hyn a allwn i ddelio â materion sy'n effeithio ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, ac sy'n cael effaith mor fawr ar ddioddefwyr. Yn wir, mewn adroddiad 'Watchdog' yn ddiweddar, amcangyfrifwyd bod defnyddwyr o Brydain yn colli tua £3.5 biliwn mewn sgamiau bob blwyddyn. Mae hynny'n cyfateb i £70 am bob oedolyn sy'n byw yn y DU.

Feeling safe and secure in your home and community is fundamental, of course, and that's why we made a commitment in our programme for government to support the extension of no-cold-caller zones to prevent rogue traders and cold callers from contacting people in their homes. In November 2013, we invited local authorities to bid for funding to support the creation of no-cold-caller zones in their areas. Around £35,000 was provided to local authorities, which has resulted in a further 15,000 homes being covered. As of last year, 53,000 homes in Wales were covered by no-cold-calling zones.

Mae teimlo'n ddiogel yn eich cartref a'r gymuned yn hanfodol, wrth gwrs, a dyna pam rydym wedi gwneud ymrwymiad yn ein rhaglen lywodraethu i gefnogi'r alwad i ymestyn parthau dim galw diwahoddiad er mwyn atal masnachwyr twyllodrus a galwyr digroeso rhag cysylltu â phobl yn eu cartrefi. Ym mis Tachwedd 2013, gwahoddwyd awdurdodau lleol i wneud cais am gyllid i gefnogi'r gwaith o greu parthau dim galw diwahoddiad yn eu hardaloedd. Darparwyd tua £35,000 i awdurdodau lleol, sydd wedi arwain at gynnwys 15,000 o gartrefi pellach. Y llynedd, roedd 53,000 o gartrefi yng Nghymru yn cael eu cynnwys mewn parthau dim galw diwahoddiad.

But, as colleagues have said, not all scams are conducted on the doorstep. Criminals also target individuals via the post, over the telephone and increasingly via cyber scams. We work with a range of organisations to raise awareness of financial scams, including supporting Age Cymru with its scam awareness project in November 2013 with £9,000.

Ond fel y mae cyd-Aelodau wedi dweud, nid yw pob sgam yn cael ei chyflawni ar garreg y drws. Mae troseddwyr hefyd yn targedu unigolion drwy'r post, dros y ffôn ac yn gynyddol drwy sgamiau seiber. Rydym yn gweithio gydag ystod o sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o sgamiau ariannol, gan gynnwys cymorth o £9,000 i Age Cymru gyda'u prosiect ymwybyddiaeth sgamiau ym mis Tachwedd 2013.

We've also developed our own information and advice service to tackle cold calling and scams around energy efficiency. The Liberal Democrat Member for North Wales has raised some concerns around that area, and what I would suggest is that he writes to the Minister for Natural Resources on this subject. My colleague the Minister for Natural Resources launched this information and advice service at the end of October 2014, and that has supported a number of people. I think that might be the appropriate route for him to follow.

Rydym hefyd wedi datblygu ein gwasanaeth gwybodaeth a chynghori ein hunain i fynd i'r afael â galw diwahoddiad a sgamiau'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni. Mae Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros Ogledd Cymru wedi crybwyll rhai pryderon ynghylch y maes hwnnw, a byddwn yn awgrymu ei fod yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynglŷn â'r mater. Lansiodd fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor ddiwedd mis Hydref 2014, ac mae wedi cynorthwyo nifer o bobl. Rwy'n credu mai dyna'r llwybr priodol iddo ei ddilyn.

I would also like to highlight the work of the Wales Against Scams partnership, whose members include Age Cymru, the older people's commissioner for Wales and trading standards. They are using this month to highlight the nature and impact of scams within communities across Wales. Police forces across Wales have also taken action in relation to cyber crime and have undertaken crime prevention work in this area, as well as introducing digital media investigation officers in some areas to increase awareness of online scams.

Hoffwn dynnu sylw hefyd at waith partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau y mae eu haelodau'n cynnwys Age Cymru, comisiynydd pobl hŷn Cymru a safonau masnach. Maent yn defnyddio'r mis hwn i dynnu sylw at natur ac effaith sgamiau mewn cymunedau ar draws Cymru. Mae heddluoedd ar draws Cymru hefyd wedi rhoi camau ar waith mewn perthynas â seiberdroseddu ac wedi gwneud gwaith atal troseddu yn y maes, yn ogystal â chyflwyno swyddogion ymchwilio cyfryngau digidol mewn rhai ardaloedd i gynyddu ymwybyddiaeth o sgamiau ar-lein.

The national trading standards board, chaired by Lord Harris, has carried out work in Wales, and obviously we have seen good examples of work done in specific local authority areas—for example, the illegal money lending team hosted by the City of Cardiff Council prosecuted a family caught illegally lending money to more than 400 people across south Wales and charging exorbitant interest rates. The Wales Scambusters Team, hosted by Newport City Council, prosecuted a team of rogue builders. This case involved eight local authority areas and included 15 elderly complainants who had been cold called by rogue builders.

Mae'r bwrdd safonau masnach cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Harris, wedi gwneud gwaith yng Nghymru, ac yn amlwg rydym wedi gweld enghreifftiau da o waith a wnaed yn ardaloedd awdurdodau lleol penodol—er enghraifft, erlynodd y tîm benthyca arian anghyfreithlon sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Dinas Caerdydd deulu a ddaliwyd yn benthyca arian yn anghyfreithlon i fwy na 400 o bobl ar draws de Cymru gan godi cyfraddau llog afresymol o uchel. Erlynodd Tîm Scambusters Cymru, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd, dîm o adeiladwyr twyllodrus. Roedd yr achos yn ymwneud ag wyth o ardaloedd awdurdodau lleol ac yn cynnwys 15 o achwynwyr oedrannus a oedd wedi dioddef yn sgil galwadau diwahoddiad gan adeiladwyr twyllodrus.

So, I hope I have reassured Members that the Welsh Government is concerned about this issue, and that we are working hard within our devolved responsibilities to stamp out scams and support victims. Of course, we will continue to provide support and raise awareness of this issue wherever possible.

Felly, rwy'n gobeithio fy mod wedi rhoi sicrwydd i'r Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn pryderu am y mater hwn, a'n bod yn gweithio'n galed o fewn ein cyfrifoldebau datganoledig i gael gwared ar sgamiau a chefnogi dioddefwyr. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r mater lle bynnag y bo modd.

17:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, and that concludes today's proceedings.

Diolch i chi, Weinidog, a daw hynny â'r trafodion i ben am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:33.*

*The meeting ended at 17:33.*